 L. E.—Parch. Lewis Edwards, D.D., Bala.  
 B. F.—Parch. Benjamin Francis, Horsley.  
 A. G.—Mrs. Ann Griffiths, Sir Drefaldwyn.  
 W. G.—Parch. William Griffiths, Caerdybi  
 W. G. (J.)—Parch. William Griffiths, Glan-dwr  
 H. H.—Mr. Hugh Hughes, Llynlleifiad. (*Gethin.*)  
 J. H.—Parch. John Hughes, Pontrobert.  
 J.—s H.—Parch. James Hughes, Llundain.  
 W. H.—Parch. William Hughes, Dinas.  
 W. H.—s.—Parch. William Hughes, Saron.  
 C. J.—Parch. Cadwaladr Jones, Dolgelley  
 D. J.—Mr. David Jones, Gaio.  
 E. J.—Mr. Edward Jones, Maesyplwm.  
 J. J.—Mr. John Jones, Castle-st., Llynlleifiad.  
 M. J.—Parch. Morgan Jones, Trelech  
 O. J.—Parch. Owen Jones, Talywaen, Capel Curig.  
 P. J.—Mr. Peter Jones, Llynlleifiad. (*Pedri Farid.*)  
 R. J.—Parch. Richard Jones, Wern, Meirion.  
 T. J.—Parch. Thomas Jones, Dinbych.  
 W. J.—Mr. William Jones, Bala.  
 Dr. L.—Parch. George Lewis, D.D., Llanuwchllyn.  
 T. L.—Mr. Thomas Lewis, Tallyllychau, Sir Gaerfyrddin.  
 D. Ll.—Parch. Daniel Lloyd, Dinbych.  
 D. M.—Parch. David Morris, Deheudir  
 Dr. P.—Parch. Thomas Phillips, D.D., Neu-addlwyd.  
 R. P.—Mr. R. Philips, Llanecil.  
 T. P.—Parch. Thomas Pierce, Llynlleifiad  
 E. P.—Parch. Edmund Prys, Archddiacon, Meirionydd.  
 D. R.—Parch. David Richards, Llanymddyfri  
 J. R. (J.)—Parch. John Roberts, Llanbryn-mair.  
 J. R.—s.—Parch. John Roberts, Llangwm.  
 M. R.—Mr. Morgan Rhys, Caerfyrddin.  
 S. R.—Parch. Samuel Roberts, M.A., Conway.  
 T. R.—Parch. Thomas Roberts, Llanrwt.  
 W. R.—Parch. William Rees, D.D., Llynlleifiad.  
 J. T.—Mr. John Thomas, Chwilog.  
 D. T.—Mr. David Thomas. (*Dafydd Ddu Eryri.*)  
 C. W.—Parch. Charles Wesley.  
 D. W.—Mr. David Williams, Llandeilo Fach.  
 Dr. W.—Parch. Isaac Watts, D.D.  
 J. W.—Mr. John Williams, Morganwg.  
 J. W.—s.—Parch. John Williams, Pantycelyn.  
 R. W.—Mr. Robert Williams. (*R ap Gwilym Ddu.*)  
 T. W.—Mr. Thomas Williams, Rhesycae.  
 W. W.—Parch. William Williams, Pantycelyn.  
 A.—"Aleluia" sef Casgliad y Parch. J. R. Jones, Ramoth.  
 E.—Casgliad y Parch Evan Evans, Ince.  
 G.—"Grawnsypiau Canaan," ca. gliad y Parch. Robert Jones, Rhoslan.  
 H.—Hymnau Hen a Diweddar—Casgliad y Parch Owen Jones, Periglor Pentrevoelas, ag oreill  
 J.—Casgliad y Parch. David Jones. Treffynnon.  
 P.—Casgliad y Parch. R. Phillips, Ficer Bettws, Abergelo.  
 Ps.—"Y Psallwyr Cymreig" gan y Parch. Morris Williams, M.A., Periglor Llanrhyddlad. (*Nicander.*)  
 R.—Casgliad y Parch. Samuel Roberts, M.A., Conway.

# ABERTH MOLIANT.

## EMYNAU.

“Mawl a’th crys Di yn Sion O Dduw.”

“Bendithiwch Dduw yn y cynulleidfaeodd.”

“Gwnewch Ei foliant yn ogoneddus.”

### Ton—ANCONA.

- |  |  |
|--|--|
| <p>1 M.B. (M. 1.)<br/>SALM CXV.—<i>Mawl i Dduw.</i></p> <p>1 CYDGANWN foliant rhwydd<br/>F'n Harglwydd, gweddus yn<br/>Yn nerth ein hiechyd llawenhawn,<br/>Mawr ydyw dawn ein Duw.</p> <p>2 O, deuwn oll yn nghyd,<br/>Yn unfryd ger ei fron;<br/>Offrymwn iddo ddiolch clau<br/>Mewn Salmiau llafar llon.</p> <p>3 Anfeidrol fwy yw Ion<br/>Na'r duwiau meirwon mân;<br/>A Brenin uwch breninoedd byd,<br/>F'w enw i gyd bo'r gân.</p> | <p>4 Mae gorddynderau'r llawr,<br/>Oll yn ei lesfawr law;<br/>Ac uchelderau mawrion serth<br/>Y bryniau anferth draw.</p> <p>5 Y môr a'i deulu maith,<br/>Hwy ydynt waith ein Duw;<br/>A'i eiddo ydyw'r ddaear gron,<br/>A phawb ar hon sy'n byw.</p> <p>6 Wel plygwn bawb ei lin<br/>O flaen ein Brenin Mawr;<br/>Addolwn Ef, ein dyled yw,<br/>'R'ym arno'n byw bob awr. w. B.</p> |
|--|--|

- 2 M.B. (M. 1.)  
RHAN O SALM CIII.
- 1 **F**Y enaid, deffro di  
Ar dân i foli Duw,  
Bendithia'i enw am ei ddawn,—  
Dy ddyloed gyfiawn yw.
- 2 Yr hwn sy'n maddeu'th fai,  
Ac yn iachau dy glwy',  
Gwarodu'th fywyd, ac amlhau  
Ei ddoniau'n fwy na mwy.
- 3 Diwallu d'angenrhaid  
Bob dydd heb baid y bu,  
Corona'th oes o hyd â hedd  
Ei râd drugaredd gu.
- 4 Trugarog, ac yn llawn  
O ras a dawn yw Duw:  
A pharod iawn i faddeu bai  
I'r rhai sy'n ddrwg eu rhyw. W.B.

- 3 M.B. (M. 1.)  
SALM XXVIII.
- 1 **R**HOWCH fawl i'n Harglwydd glân  
Mewn newydd gân hyd nef;  
Gorchfygodd ei elynion llym  
A grym deheulaw gref.
- 2 Hysbysu i ni a wnaeth  
Ei iachawdwriaeth fawr:  
Dadguddiodd ei gyfiawnder pur  
I euog deulu'r llawr.
- 3 Fe gofia'i ammod hedd  
Ei hen drugaredd wiw;  
Caiff holl genedloedd daear gaeth  
Wel'd iachawdwriaeth Duw.
- 4 Cydgenwch fawl cytûn  
Ar delyn felus dant,  
A moeswch salm ar lafar lef  
I'w ranmol Ef—y Sant.

5 Cyduned tônau'r môr  
Eu mawl i'n Ior o hyd,  
A rhoed y ddaear fawr a'i phlant  
Ogoniant iddo i gyd.

6 Llfeiriaint oddi draw  
Ddyrchafu dwylaw'n hy',  
Adseinied clod yn uchel floedd  
O'r holl fynyddoedd fry,—

7 O flaen Jehofa sy'  
Yn d'od i farnu'r byd;  
Efe a esyd gyfiawn raith  
Yn ol eu gwaith i gyd. W. B.

4 M.B. (M. 1.)  
*Anfeidrol rinwedd a haeddiant Aberth  
Crist.*

1 **M**AE rhinwedd yn ei waed  
I faddeu beiau mwy,  
Nag y gall angel fyth na dyn  
Wneyd rhif o honynt hwy.

2 Mae ffynnon ar y bryn  
A fŷch yn wŷn a glân,  
Bechodau o ryw ffeiddia 'rïoed  
Rifedi'r tywod mân.

3 'Does diwedd fyth na thrai  
Ar rinwedd angeu loes;  
Uwch pris, a'r gwerthfawrocaf gaed,  
Yw haeddiant gwaed y groes.

4 Fe gana'r Negro du,  
Fe gana'r Indiaid draw;  
Mae'n maddeu i'r aflan oes y sy.  
Fe fadieu i'r oes a ddaw. W. C.

5 M.B. (M. 1.)

SALM c.—*Moloch yr Arglwydd.*

1 **O**, CENWCH lafar glod,  
Bob perchen bôd a byw,—  
Ymgrymwech holl drigolion byd,  
Yn unfryd o flaen Duw.

2 Dylwythau daear faith  
Pob llwyth ac iaith y'ng hyd  
Aberthwch iddo foliant glân,  
Mewn hyfryd gân i gyd.

3 Ein Lluniwr yw, a'n Tad,  
Ein Ceidwad da bob dydd;  
Efe ddiwalla'n hangenrhaid,  
Fel defaid ei borf'ydd.

4 O, ewch i mewn i'w byrth,  
A dygwch ebyrth byw  
O foliant am ei ddoniau mād,  
A'i rād i ddynolryw.

5 Trag'wyddol pery hedd  
Ei fawr drugaredd gân,  
A'i bur wirionedd sy'n parhau  
O hyd trwy'r oesau'r un. w. R.

6 M.B. (M. 1.)

*Digonolrwydd yr Iachawdwriaeth.*

1 **M**AER iachawdwriaeth rād  
Yn ddigon i bob rhai;  
Agorwyd ffynnon er glanhâd  
Pob pechod câs a hai.

2 Daw tyrfa rif y gwllith  
Yn iach trwy rin y gwaed:  
Pwy wyr na byddaf yn eu plith  
Yn lân o'm pen i'm traed?

3 Er lleted yw fy mhla,  
Er dyfined yw fy mriw,  
Y balm o Gilead a'm hiachâ,  
Mae Crist yn feddyg gwiw.

4 Dan bwys euogrwydd du,  
Edrychaf tua'r groes,  
Lle llifodd gwaed fy Mhriod cu,  
Anfeidrol Iawn a roes. P. J.

7 M.B. (M. 1.)

*Puro drwy'r gwaed.*

1 **M**I welaf noddfa glyd  
Yn nghlwyfau Iesu gwiw;  
Fy ninas gadarn yn y byd  
Yw cariad pur fy Nuw.

2 Yn ystlys Iesu mawr  
Agorwyd ffynnon rād,  
I'n llwyr lanhau ni ar y llawr  
Trwy rinwedd mawr ei waed.

3 Cymhwysa'th haeddiant cu,  
Nes puro'r brwnt yn lân,  
A throi ngweddiau'n hyfryd fawl,  
A gorfoleddus gân. c. W.

8 M.B. (M. 1.)

*Ymfrost y Cristion.*

1 **F**Y enaid gofia mwy  
Gyfiawnder Iesu gwiw;  
Ei waed sy' ffynnon a'm glanhâ  
Fe'm golcha'n wyn fy lliw.

2 Ei fywyd sanctaidd Ef,  
A'i angeu yn fy lle,  
A fydd fy ymfrost y'mhob man,  
A'm sylfaen is y ne'.

3 A'i ddwyfol waed gwnaeth Iawn,  
A thaliad llawn i'w Dad;  
Agorodd ffordd i'r euog gwael  
I gael maddeuant rhad.

4 Trwy aberth mawr y groes,  
Trwy angeu Calfari,  
Y cafwyd cymmod a rhyddhad  
Yn rhyfedd rad i ni. s. s.



9 M.B. (M. 1.)

*Mawl yn Sion.*

- 1 **O**, CENWCH fawl i Dduw,  
Tra gweddus ydyw'r gwaith,  
Am ei drugaredd ryfedd rad,  
Pob ardal, gwlad, ac iaith.
- 2 Pan ddwg ei blant yn nghyd,  
Yn hyfryd fe'u hiachâ;  
Gan rwymo'r ysig galon friw,  
Mab Duw sydd Feddyg da.
- 3 O Sion, canmol di  
Y Duw sy'n rhoddi hedd,  
A phob cysuron it' yn nghyd,  
Nes myn'd trwy'r byd i'r bedd.
- 4 I'r Drindod heb wahan,  
Rho'wn fawl ar gân i gyd;  
Sain haleluia fo'n mhob man  
Drwy bedwar ban y byd.

10 M.B. (M. 1.)

*Cariad anfeidrol Duw.*

- 1 **C**YDUNED Sion lân,  
Mewn cân bereiddia'i blas,  
O fawl ar drugareddau'r Ion,  
Ei roddion Ef a'i ras.
- 2 P'le gwelir cariad fel  
Ei ryfedd gariad Eff?  
P'le bu'r cyffelyb iddo erioed,  
Rhyfeddod nef y nef.
- 3 Fe'n carodd cyn ein bod,  
A'i briod Fab a roes,  
Yn ol ammodau hen y llw,  
I farw ar y groes.
- 4 Gwnaeth Iesu berffaith Iawn,  
Brydnawn ar Galfari;  
Yn ei gyfiawnder pur dilyth,  
Mae noddfa byth i ni.

5 Anfeidrol ydyw gwerth,  
A rhin ei aberth mawr,  
I achub rhyw aneirif lu  
O deulu gwael y llawr.

6 Y rhai yn berffaith lân,  
A beraidd gân i gyd,  
I'r bendigedig unig Oen,  
Yn iach o boen y byd. JS. H.

11 M.B. (M. 1.)

"Duw a drugarhao wrthym ac a'n bendithio,  
a thywyned ei wyneb arnom."

- 1 **D**UW, wrthym trugarhâ,  
Dy fendith dyro Di;  
Tywyned fyth ogoned wedd  
Dy wyneb arnom ni.
- 2 Adwaenir felly 'th ffordd  
Trwy'r ddaear fawr i gyd;  
Adwaenir iachawdwriaeth Duw  
Yn mhlith holl bobloedd byd.
- 3 Moled y bobl, O Dduw,  
Dy enw mawr a'th ras:  
Ag uchel glod, molianned Di  
Holl bobl y ddaear las.
- 4 Pob iaith a llwyth yn llon  
A ganant am dy ddawn;  
Tydi sy'n Llywydd arnynt byth,  
Tydi a'u berni 'n iawn.
- 5 Moled y bobl, O Dduw,  
Dy enw mawr a'th ras;  
Ag uchel glod molianned Di  
Holl bobl y ddaear las. H.

M.B. (M. 1.)

*Ar Farw.*

**A** T marw raid i mi  
A rhoi'r corph hwn i lawr?  
A raid i'm henaid ofnus fyn'd  
I drag'wyddoldeb mawr?

Lu draw i angeu du  
Y byddaf yn y mân,  
A un a'i nos, a'i bythol ddydd  
O f'enaid fydd fy rhan?

Pan gesglir dynol ryw  
Ger bron y Barnwr mawr,  
A olwg welir ar fy ngwedd  
Yn dod o lwch y llawr?

Pan rana Mab y dyn  
Y dyrfa fawr ddi-ri,  
A un a'i'r dde a'i'r aswy law  
A fydd fy nghartref i?

Ni roddwyd arnaf raid  
I fyn'd i'r bythol boen,  
Mae iachawdwriaeth pob dyn byw  
I'w gael drwy waed yr Oen.  
C. W. Cyf. W. A.

M.B. (M. 1.)

*Rhinwedd Marwolaeth Crist.*

**A** I am fy meiau i  
Dyoddefodd Iesu mawr,  
Pan ddaeth yn ngrym ei gariad Ef  
O entrych nef i lawr?

Yflawnai'r gyfraith bur,  
Cyflawnder gafodd iawn;  
I'r dyled mawr, er cymmaint oedd,  
A dalodd Ef yn llawn.

3 Dyoddefodd angeu loes,  
Yn ufudd ar y bryn;  
A'i waed a f'lech yr Ethio du,  
Yn lân fel eira gwyn.

4 Bu'n angeu i'n hangeu ni,  
Wrth farw ar y pren.  
A thrwy ei waed y dygir llu,  
Trwy angeu, i'r nefoedd wen.

5 Pan grymodd Crist ei ben,  
Wrth farw yn ein lle,  
Agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,  
I bur drigfanau'r ne'.

6 Gorchfygodd uffern ddu,  
Gwnaeth ben y sarph yn friw;  
O'r carchar caeth y dygir llu,  
Trwy ras i deulu Duw. J. E.

14 M.B. (M. 1.)

*Darostyngiad ao angeu Crist.*

1 **O** GWEL y Brenin mawr,  
R hwn ddaeth i fod yn dlawd;  
A'i waed o'i ben i'w draed i lawr,  
Yn dyoddef lliid a gwawd.

2 Fe gymmerth agwedd gwas  
Bu yma'n fach ei fri,  
Fe'i drylliwyd am ein beiau câs,  
Bu farw ar Galfari.

3 Ffydd, c'od dy ben yn awr;  
Fy enaid, gwel ei gur:  
Wrth dalu swm dy ddyled mawr,  
O tawdd, fy nghalon ddâr!

4 Mae heddwch yn ei waed,  
I'r holl grediniol rai;  
Trag'wyddol bardwn a rhyddhad,  
Ca'dd Duw ei lwy'r foddhau.

15 M.B.D. (M. 13.)

*Tosturi grasol, a maddengarwch Duw.*

- 1 **A**R grasdir crindir cras,  
Disgynodd gras ein Duw,  
Yn loew ffrwd, afonydd ddaeth,  
Mewn anial gwaetha i ryw;  
Maddeuant rhyfedd rhad,  
I'r gwaetha' gaed is nen,  
Yr hwn a greddo yn yr Iawn  
Fu un prydawn ar bren.
- 2 O, boed maddeuant rhad  
Yn hyfryd waed yr Oen,  
Yn destyn moliant yn mhob man,  
I mi sydd dan fy mhoen:  
Yr anthem faith ei hyd  
Fo'i gyd am Galfari,  
A'r iachawdwriaeth fawr ei dawn,  
Ddaeth un prydawn i ni.
- 3 A doed breninoedd byd  
Yn unfryd ato Ef;  
A rhoddant eu coronau lawr  
O flaen ei orsedd gref;  
Ei enw loddled sydd,  
A'i glod Ef fydd uwchlaw  
Y cwbl ag sy' yma i gyd,  
Ac yn y byd a ddaw. w. w.

16 M.B.D. (M. 13.)

*Clod i'r Iesu.*

- 1 **I**'R Iesu byddo'r clod  
Tra fyddo bod na byd;  
Efe oedd cyn y diluw mawr,  
Efe sy'n awr o hyd;  
Yn gyfuill ac yn Dduw  
Pob llwythau, rhyw, ac iaith;  
Efe a'n harwain uwch y nen  
Yn iach i ben ein taith.
- 2 'Does bellach ddim ond mawl,  
A channawl fyth ein Duw,  
Ein tŵr a'n tarian yn mhob man,  
Efe ei hunan yw;

'Dyw pechod er ei rym,  
Euogrwydd llym a'i boen,  
O bwysau ddim o flaen y Tad,  
At werthfawr waed yr Oen.

- 3 Ffarwel fo i haeddiant dyn,  
Ffarwel at ddyn i fyn'd;  
Ffarwel doethineb a phob dawn,  
Fo'i natur lawn yn ffrynd:  
Aeth dyn a'i allu mawr,  
Yn awr i lawr yn ddim;  
Boed Iesu bellach yn mhob man  
Fy nharian a fy ngrym.

17 M.B.D. (M. 13.)

*Heddwch twag at Dduw, a mwynhad o hono.*

- 1 **M**EWN anial dyrys le,  
Heb neb cwmpeini dyn,  
Y gallwn, ond cael cwmni Duw,  
Yn dawel fyw fy hun;  
Ffe leinw oll yn lân,  
Tu mewn, ac o tu maes,  
Nid yw creadur er ei rym  
Yn helpu dim o'i ras.
- 2 Mae tywyll anial nos,  
Peryglon o bob rhyw,  
Holl ofnau'r bedd, pob meddwl gwan  
Yn ffoi o'r fan bo'm Duw;  
Ond tegwch dwyfol clir,  
A chariad pur a hedd,  
Gaiff fod yn wleddoedd pur didrai,  
I'r rhai sy'n gwel'd ei wedd.
- 3 Y fan b'ost ti, fy Nuw,  
Anfarwol fywyd sy'  
Yn tarddu, megys dw'r o'r graig,  
I'r lân i'r nefoedd fry;  
Rhyw wawr ddysglaerwen sydd,  
Yn tŵ'nu o hono Ef,  
Yn arwain trwy bob ffos a phant,  
Holl ffyddlon blant y nef. w. w.

18

M.B.D.

(M. 13.)

*Genedigaeth Crist.*

1 **B**LANT fyddlon Sion, de'wch,  
A llawenhewch i gyd;  
Yn mlaen a chwi fel milwyr da,  
Yn llon er gwaetha'r llid:  
O, hyfryd ddedwydd awr,  
Messia mawr a gaed!  
Henffych i'r dydd a'r bore daeth  
Yr iachawdwriaeth rad.

2 Ar ol ein colled ddwys  
Yn y Baradwys wiw,  
A syrthio'n fyr o gadw'r fraint  
Myn'd dan ddigofaint Duw;  
Ni gawsom Hâd y wraig  
Yn gadarn Graig i'n traed;  
Henffych i'r dydd a'r bore daeth  
Yr iachawdwriaeth rad.

3 Addewid cafwyd, do  
Nol i ni syrthio'n mhell;  
Arfaethol ras, hawl i'n a roed,  
Gawd ar gyfammod gwell;  
Mae'r sylfaen yn ddigrynn,  
Ni chollir un o'r hâd:  
Henffych i'r dydd a'r bore daeth  
Yr iachawdwriaeth rad. w. w.

9

M.B.D.

(M. 13.)

*Rhinwedd a haeddiant aberth Crist.*

1 **C**YFIAWNDER marwol glwy,  
A haeddiant dwyfol loes,  
Y pris, y gwerth, a'r aberth drud,  
A dalwyd ar y groes,  
A gliria meiau'n llwyr,  
A'm golcha'n hyfryd lân:  
Ac nid oes arall dan y nef  
A'm nertha i fyn'd yn mlaen.

2 Dyoddefaint pur y groes,  
Angeuol loes fy Nuw,  
Sy' fwy o fewn y nef mewn côf,  
Na'm beiau o bob rhyw:  
Dyw pechod er ei rif,  
Ei goncwest cryf a'i rym,  
Yn abl sefyll fynyd awr  
I'w haeddiant mawr Ef ddim.

3 Aed bellach bawb o'r bron  
Yn eon tua'r nen;  
Mae'r iachawdwriaeth werthfawr  
Yn awr i gyd ar ben: [ddrud,  
Mae Calfari a'i ddawn  
Yn rhyfedd lawn o faeth,  
Ar fyr cawn brofi gwleddoedd hael  
Nad oes i'w cael mo'u bath. w. w.

20

M.B.D.

(M. 13.)

*Crist yn rhagori ar bob peth.*

1 **M**AE'N decach yn ei wedd  
Na neb o ddynol ryw:  
Nid oes creadur is y rhod,  
Cyffelyb iddo'n fyw:  
Rhyfeddod yr holl fyd,  
Rhyfeddod mawr y nef,  
Rhyfeddod oesoedd eto i ddod,  
Fydd ei ogoniant Ef.

2 Na foed im' garu mwy,  
Un gwrthddrych is y ne',  
Ond Hwnw fu yn plygu 'i ben  
Ar groesbren yn fy lle:  
Does dim, 'd'oes neb, ond Ef,  
Mewn daear, nef, na llawr:  
Ac na 'mofyned neb y clod  
Sy'n eiddo Iesu mawr. w. w.

21

M.B.D.

(M. 13.)

*Pen y daith.*

1 **M**I welaf fyrdd dan sel,  
Fu'n ofni fel fy hun,  
Oll wedi dringo'r creigiau serth  
I gyd trwy nerth yr un,  
Yn canu'r ochr draw,  
Heb arnynt fraw na phoen,  
Ganiadau hyfryd Calfari  
Dyoddefaint addfwyn Oen.

2 'Rwy' yn terfynu 'nghred,  
'Nol pwyso oll yn nghyd,  
Mai cynnewidiol ydyw dyn,  
Ond Duw sy'r un o hyd;  
Ar ei addewid Ef  
Sy'n noddfa gref i'r gwan,  
Mi gredda do'i mhen gronyn bach  
O'r tonau'n iach i'r lân.

3 Cyflawnir gair fy Nuw,  
A doed hi fel y del,  
Can's holl amcanion nefoedd fry  
Bob sillaf sy' dan sel;  
Ac ar ei air a'i nerth  
A dwyfol werth ei waed  
Mi af trwy bob gelynyon hy'  
I mewn i dŷ fy Nhad. w. w.

22

M.B.D.

(M. 13.)

*Ei adnabod Ef.*

1 **E**I 'nabod Ef yn iawn  
Yw'r bywyd llawn o hedd,  
A gwel'd ei iachawdwrriaeth lawn  
Sydd yn drag'wyddol wledd;  
Cael teimlo gwaed Ei groes  
Yn dofi'r loes a'r cur,  
A wnaeth i filoedd o bob oes  
I seinio'r anthem bur.

2 Mae ynddo fôr didrai,  
O gariad ac o hedd;  
Mae cariad Iesu yn parhau  
Tu yma a thraw i'r bedd:  
Fe glyw ein cri a'n cwyn  
Yn addfwyn, er ei glod;  
Ein beichiau parod yw i'w dwyn,  
Ffyddlonaf fu erioed. J.

23

M.B.D.

(M. 13.)

*Afon gras.*

1 **D**YODDEFODD ar y pren  
I hoelio'i ddwylo a'i draed;  
Trywanwyd idd ei ystlys bur,  
Daeth allan ddw'r a gwaed;  
Fel caffai'r dua ei liw  
Ei gânu'n hyfryd wyn,  
Mewn afon bur o waed a dw'r  
Ddylifodd ar y bryn.

2 O'r afon loew hon  
Tardd cysur o bob rhyw,  
Mil o rasusau hyfryd pur,  
Fel bloden clir eu lliw;  
Er bod pob llwyth ac iaith,  
Finteioedd maith yn nghyd,  
Yn dirwyn at y dyfroedd hyn,  
Cânt dd'od yn wyn i gyd.

3 Mae'r deillion yma'n gwel'd,  
A'r cloffion hefyd sydd,  
Wedi cael hollol lwy'r iachâd,  
Yn llamu a'u traed yn rhydd:  
Mae rhai sy' a ffaidd friw,  
Uwch meddyg i'w hiachâu,  
Yn cael, wrth brofi'r bywiol ddw'r,  
Eu gwella a'u glanhau. w. w.

24 M.B.C. (M. 2.)

SALM LV.—*Dewisiad Credadyn.*

- 1 **D**EWISED dynion drwg  
Y ffordd a'u dwg i angeu;  
Ond Arglwydd, yn d'addoliad Di  
Y treulïaf fi fy nyddiau.
- 2 Fy llef at orsedd gras  
Y bore glas cyfeiriaf;  
Ceisiaf dy fendith ganol dydd,  
A'r nos yn brudd addolaf.
- 3 Gwrandewi ar fy llef,  
Fy Nuw, o'r Nef yn barod:  
Pan drengo dynion drwg mewn braw  
Dan bwys dy law a'th ddyrnod.
- 4 Mi rof fy ngofal dwys  
I orphwys ar yr Arglwydd;  
Pwy ond Efe all ddwyn fy maich  
A'm dal â'i fraich rhag tramgwydd?
- 5 Fe ddeil ei anwyl blant  
Na syrthiant byth yn hollol,  
Y sail lle mae'u diogelwch cry'  
Nid ysgog gallu bydol.

DE. W. cyf. D. J.

25 M.B.C. (M. 2.)

SALM LXVII.

- 1 **O**DEUED Duw i'n plith,  
A rhoed ei fendith drosom,  
Tywyned byth ei wyneb pryd,  
Ei nawdd a'i iechyd arnom.
- 2 Duw, moled pobloedd di,  
Rhoent fawl a bri trwy'r hollfyd,  
A'r holl genedloedd is y nen  
A fyddant lawen hyfryd.
- 3 Can's ti a ferni'n iawn  
Y bobl trwy lawn wybodaeth,  
Ac a roi'r holl genedloedd ar  
Y ddaear mewn llywodraeth.
- 4 Duw, moled pobloedd di,  
Rhoent fawl a bri trwy'r hollfyd,

- Yna y tir rydd ffwrwyth i'n plith,  
A Duw ei fendith hefyd.
- 5 A Duw, sef Duw ein Tad,  
A roddo'i rad a thyciant,  
A holl derfynau'r ddaear gron,  
A phawb ar hon a'i hofnant. R. P.

26 M.B.C. (M. 2.)

"Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd  
y lluoedd."

- 1 **G**OGONIANIANT i Dduw Dad,  
Yr hwn yn rhad a'n carodd;  
Yn ol ei ewylllys radlawn Ef,  
Trugaredd gref a'n cofiodd.
- 2 Gogoniant i Fab Duw,  
A ddaeth yn fyw o'r beddrod;  
Trwy rin ei ddwyfol Aberth Ef,  
Fe wnaeth â'r nef ein cymmod.
- 3 Boed mawl i'r Ysbryd Glân,  
Ar beraidd gân drag'wyddol;  
Hwn sy'n bywhau, trwy ryfedd ras,  
Rai diras ac annuwiol.
- 4 I'r nefol Dri yn Un,  
Rhown yn gytân ogoniant;  
I'r TAD, a'r MAB, a'r YSBRYD GLÂN,  
Boed melus gân a moliant. H.

27 M.B.C. (M. 2.)

*Eagyn i Ston.*

- 1 **G**WIR lawenychu wnawn  
Pan dd'wedent—Awn i fyny  
I dŷ yr Arglwydd, mawr ei ras,  
I'w addas ogoneddu.
- 2 Caersalem, dinas hedd,  
Mewn sylwedd ga'dd ei seilio:  
O fewn dy byrth, yn mysg dy blant,  
Ein traed a safant yno.
- 3 Dymunwn heddwech hon.  
Boed Sion yn ben moliant;  
Cydseinied yr eglwysi glân  
I'w Brenin gân gogoniant. R.

28

M.B.C.

(M. 2.)

*Yr Arglwydd yw fy Mugail.*

- 1 **F**Y mugail yw Duw'r nef;  
Fe edrych ef am danaf;  
Fy eiddo yw, a'i eiddo wyf;  
Pa eisieu mwy fydd arnaf?
- 2 Fe'm dwg i'r lleoedd da,  
Lle tyf y borfa nefol;  
Lle llifa iachawdwriaeth lawn,  
A'r dyfroedd rhadlawn bywiol.
- 3 Os crwydraf yn ddibaid,  
Yn ol fy enaid geilw;  
Ac arwain fi yn llwybrau'r praidd.  
Er mwyn ei sanctaidd enw.
- 4 Tra rhoddo'i gymhorth im',  
Nid allaf ddim arswod:  
Wrth fyn'd trwy gysgod angyfcaf  
Fy Mugail gyda'f yno.
- 5 Er gwaethaf fy holl gas,  
Fy mwrdd yn fras gosodaist;  
O'th fendith llawn yw'm phiol hon,  
A'm pen yn llon dyrchafaist.
- 6 Haelioni'th gariad di  
A-gaiff goroni 'nyddiau:  
O fewn dy dŷ, y gwnaf fy hawl,  
I ganu mawl dy wyrthiau.  
DE. W. cyf. D. J.

29

M.B.C.

(M. 2.)

*Craig Israel.*

- 1 **I**'n Craig ffoi 'nawr a wnawn,  
Ac yno cawn ddiffynfa;  
A thynwn iachawdwriaeth gref  
O'i enw ef, Iehofa.
- 2 Dy fraich ein cadarn Iôr,  
A bia'r oruchafiaeth;  
Dy fraw a ddeil y gelyn llym  
Nes tawdd ei rym ef ymaith.

- 3 Pa le mae Craig mor gref  
Ag ydyw Ef, ein Harglwydd?  
Ei gadarn rym, a'i gariad pur,  
A folir yn dragywydd. R.

30

M.B.C.

(M. 2.)

*Pr Drindod.*

- 1 **G**OAGONIANT Duw y Tad  
Fo'n wastad yn ein genau;  
O'i gariad cyntaf cawsom oll  
Ffynnon ein holl ganiadau.
- 2 \*Chwi, seintiau, seiniwch glod  
A'ch tafod i'r Mab Iesu,  
Yr Hwn ei fywyd anwyl roes  
Ar bren y groes i'ch prynu.
- 3 Ir Ysbryd Glan rhown fawl,  
A chân drag'wyddawl gyson;  
Sy'n dwyn â'i ras a'i lewyrch mawr  
Wir iechyd lawr i ddynion.

DE. W.

31

M.B.C.

(M. 2.)

*Clod i Dduw am ei air.*

- 1 **G**WRANDAWN ar air ein Duw,  
Mor hyfryd yw y newydd,  
Fod bywyd i bechadur dwys  
Tan ddirfawr bwys euogrwydd.
- 2 Dadguddiad dwyfol Iôn,  
A'i addewidion grasol,  
Sy'n lloni'r seintiau ar y llawr  
Nes codi'r wawr drag'wyddol.
- 3 Gogoniant, moliant fyth,  
I'n Ceidwad dilyth sanctaidd,  
Am Air ei ras a'i gymmod glân,  
Dyrchafwn gân nefolaidd.

J.

M.B.C. (M. 2.)

SALM LVII.—*Gweddî am burdeb.*

**T**RUGAREDD dod i mi,  
Duw, o'th ddaioni tyner;  
Ymaith tyn fy anwiredd mau;  
O'th drugareddau lawer.

Ag isop golch fi'n lân,  
Ni byddaf aflan mwyach;  
Byddaf o'm golchi'n llwyr fel hyn  
Fel eira gwyn, neu wynach.

Duw, crëa galon bur,  
Dod imi gysur beunydd,  
I fyw yn well tra fwy'n y byd,  
Dod ynof ysbryd newydd.

O Dduw, na ddyro chwaith  
Fi ymaith o'th olgon,  
Ac na chymmer dy Ysbryd Glân,  
Oddiwrthyf, druan gwirion.

Bydd dda wrth Sion fryn,  
O Arglwydd, hyn a fyni:  
Ac wrth Gaersalem, dy dref-tâd,  
A gwna adeilad arni. E. P.

M.B.C. (M. 2.)

“Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig;  
a ddrylliog, gystuddiedig, O Dduw, ni  
mygi.”

**O**ARGLWYDD, trugarhâ,  
Wrth ludw pechadurus;  
A lwyr droseddodd lawer gwaith,  
Dy gyfraith anrhydeddus.

Pechadur wyf o'r brau,  
Yn fore gwrthryfelais  
Yn erbyn Brenin mawr y nef,  
A'i fygwth ef ddirmygais.

3 Dibrisiais lawer pryd  
D' efengyl hyfryd felus;  
Echrydus yw fy mhechod du,  
Fy enaid sy' druenus.

4 O gwrando, anwyl Grist,  
Bechadur trist yn ochain,  
Dan gyfiawn felldith cyfraith Duw,  
A lliidiog friwiau llydain.

5 Dim ond trugaredd rad  
A rydd ryddhad i'm calon;  
A gwaed yr Oen all lwyr iachâu  
Fy holl ddoluriau chwervon.

6 Fy ngholli byth a gaf,  
A marw wnaif mewn galar,  
Heb gael dy ras, a phrofi 'th hedd,  
A gwel'd dy wedd roesawgar.

7 Gosodaf hyder llawn  
Yn dy gyflawnder perffaith;  
Edrychaf tu a'th groes o hyd,  
Yn daer am iechedwriaeth. H.

34 M.B.C. (M. 2.)

*Dyoddefaint Crist.*

1 **E**R tywallt môr o waed,  
Trwy hwn ni chaed maddeuant,  
Aneirif ebyrth lleag eu rhyw,  
Rhy eiddil yw eu haeddiant.

2 Ond, wele ar y groes,  
Yr Hwn a ro'es foddlondeb!  
Trwy briod aberth Crist ei hun,  
Daeth Duw a dyn mewn undeb.

3 Mewn ing a gwaedlyd chwys,  
Bu'n gogoneddus Geidwad;  
Ond ni ddiffoddodd angeu llym  
Drag'wyddol rym ei gariad.

4 O'i brynedigion oll,  
Yr un ni chyfrgollir;  
Er sychu'r môr, er llogi'r byd,  
Y rhai'n i gyd a gedwir. J.



35

M.C.

(M. 3.)

*Cofia fi.*

- 1 **P** ECHADUR wyf, y dua'n fyw—  
Trugaredd yw fy nghri:  
Gostwng dy glust, a'm llefain clyw,  
O Arglwydd! cofia fi.
- 2 Y mae tosturi fel y môr,  
Heb fesur ynot ti:  
O'th ras, sy'n annherfynol 'stôr,  
O Arglwydd! cofia fi.
- 3 Boddlonodd Crist y Nef yn llawn,  
Ar fynydd Calfari;  
Er mwyn ei berffaith, ddwyfol ddawn,  
O Arglwydd! cofia fi.
- 4 Fy anwireddau mawr a mân,  
Yn llwyr darostwng di;  
I'm puro trwy dy Ysbryd Glân,  
O Arglwydd! cofia fi.
- 5 Wrth rydio'r hen Iorrdonen gas,  
Na soddwyf yn y lli';  
O dan ddyrnodiau angeu glas,  
O Arglwydd! cofia fi.
- 6 Pan ddelo'r saint i'r lân o'r bedd,  
Yn more'r Jubili,  
I'm codi'n berffaith ar dy wedd,  
O Arglwydd! cofia fi.
- 7 Pan ddyger adref oll yn llon,  
Dy etholedig ri',  
I fyw mewn gwynfyd ger dy fron,  
O Arglwydd! cofia fi.

P. J.

36

M.C.

(M. 3.)

*Na wrthod fi.*

- 1 **A** T un a wrendy weddi'r gwan,  
'Rwyf yn dyrchafu 'nghri;  
Yn mhob cyfyngder, ing, a phoen,  
O Dduw! na wrthod fi.

- 2 Er mor annheilwng o fwynhau  
Dy bresennoldeb di,  
A haeddu 'mwrw o ger dy fron,  
O Dduw! na wrthod fi.

- 3 Pan fo'm cydnabod is y nen  
Yn cefnu arnai'n rhi',  
A char a chyfaill yn pellhau,  
O Dduw! na wrthod fi.

- 4 Er mwyn dy grog, a'th angeu drud  
Ar fynydd Calfari,  
A'th ddwys Eiriolaeth yn y nef,  
O Dduw! na wrthod fi.

- 5 Pan yn wynebu ymchwydd yr  
Iorrdonen ddofn ei lli,  
A theithio'n unig trwy y glyn,  
O Dduw! na wrthod fi.

- 6 A phan y deui yr ail waith,  
Mewn mawredd, parch, a bri,  
I farnu'r byw a'r marw yn nghyd,  
O Dduw! na wrthod fi.

E. E.

37

M.C.

(M. 3.)

*Gorphwys yn y bedd.*

- 1 **M** OR ddedwydd yw y rhai, trwy ffydd  
Sy'n myn'd o blith y byw;  
'Eu henwau'n perarogli sydd,  
A'u hân, mor dawel yw!
- 2 Ar ol eu holl finderau dwys,  
Gorphwyso maent mewn hedd,  
Yn mhell o swm y byd a'i bwys,  
Heb boen, yn llwch y bedd.
- 3 Llais un gorthrymydd byth ni ddaw  
I'w deffro i wylu mwyl,  
Na phrofedigaeth lem, na chroes—  
Un loes ni theimlant hwy.

E. E.

38

M.C. (M. 3.)

*Gorphwysfa yn y nef.*

- 1 **M**AE'N hyfryd meddwl ambell dro,  
Wrth deithio anial le  
Ar ol ein holl flindersau dwys  
Cawn orphwys yn y ne'.
- 2 Pan ar ddiffygio gan y daith,  
A lludded maith y lle,  
Mor hoff yw gwybod—wedi hyn,  
Cawn orphwys yn y ne'.
- 3 'Nol teimlo archoll llawer saeth,  
A phrofedigaeth gref,  
A dyoddef gwres y dydd a'i bwys,  
Cawn orphwys yn y nef.
- 4 Mae'n gysur meddwl, pan fo'n d'od  
Len dros ei wyddfod Ef,  
Yn cynnal ei drag'wyddol bwys,  
Cawn orphwys yn y nef.
- 5 Er colli ein cyfeillion hoff,  
Yn yr Iorrdonen gref,  
Mae'n felus meddwl—eto 'nghyd  
Cawn gwrddyd yn y nef.
- 6 Cymhwysar ni drwy'r Ysbryd Glan  
A'i rasol ddoniau Ef,  
Nes delom fel twysenau llawn,  
Yn addfed iawn i'r nef. E. E.

39

M.C. (M. 3.)

*Hafddydd yr Efengyl.*

- 1 **A**ETH heibio'r gauaf chwerv du,  
Y 'storum oer a'r gwllaw;  
Ac fe gyfododd hyfryd haul  
Efengyl bur gerllaw.
- 2 Fe welwyd blodeu ar y ddae'r,  
Grasusau pur y nef;  
Oll yn arogl'i'n beraidd iawn  
Oddiwrth ei wisgoedd Ef.

3 O hyfryd dawel nefol hin!  
Mi glywa'r adar mân,  
'Nawr yn ymbyncio'n felus iawn  
Y waredigol gân.

4 Mae turtur yr Efengyl fwyn  
Yn galw bro a bryn;  
Doed torf aneirif tua'r wlad  
Gyda'r awelon hyn.

5 Mae'r haul yn ddysglaer yn y nef  
Cyfiawnder dwyfol ddyd;  
Ac mae'n tywynu'n hyfryd iawn  
Ar bob drylliedig un. w. w.

40

M.C. (M. 3.)

*Moliannu yr Oen.*

- 1 **C**YDUNWN a'r angelion fry,  
Ein tânnau yn gytân;  
"Deng mil o filoedd yw eu cân,  
Er hyn nid yw ond un."
- 2 Os ydyw'r Oen fu farw'n sail  
Eu holl ganiadau hwy,  
Mae'n haeddu, am farw drosom ni,  
Ein mawl fil miloedd mwy.
- 3 Ac Ef yn unig biau'r mawl,  
Drwy ddwyfol hawl ddilyth;  
A chlod uwchlaw a allwn ni  
Ei roddi iddo byth.
- 4 Cyduned pob creadur byw  
Uwchlaw ac is y nen,  
I roi yn nghyd—can's teilwng yw—  
Y goron ar Ei ben.
- 5 Doed y greadigaeth éang oll,  
Ag un soniarus lef,  
I ogoneddu'r addfwyn Oen,  
A thraethu'i foliant Ef. E. E.

41 M.C. (M. 3.)

“Bendithier Dy Enw gogoneddus a dyrchafedig goruwch pob bendith a moliant.”

- 1 **I**ESU, mae meddwl am dy hedd  
Yn lloni 'm hysbryd i;  
Ond O! melusach fydd dy wedd,  
A'th bresennoldeb cu.
- 2 Ni thraetha llais, ni thraetha cân,  
A'u doniau oll y'nghyd,  
Felusach gair na'th enw glân,  
Iachawdwr mawr y byd.
- 3 O! obaith pob pechadur prudd,  
O! ffrynd y llariaidd rai,  
I bawb a'th gais, yr wyt bob dydd  
Yn Dduw i faddeu bai.
- 4 I'r rhai a'th gânt, O wele fraint,  
'Tu hwnt i'n meddwl ni,  
Ni ddichon neb byth ddweyd ei maint,  
Ond dy anwylion cu.
- 5 Iesu, ein Duw a'n Brenin mawr,  
Ein gwerthfawr drysor ni  
Bydd i ni 'n oll yn oll yn awr,  
Ac yn y nefoedd fry.

42 M.C. (M. 3.)

*Holl ddiagonedd hanfod a gras Duw.*

- 1 **T**I, Arglwydd, ydwyt oll dy hun  
Fy meddiant ar y llawr;  
A thi dy human fydd fy oll  
O fewn i'r nefoedd fawr.
- 2 Rhyw ffynnon trugareddau maith,  
Diderfyn yw dy ras;  
I ro'i trysorau pena'r nef  
I'r tlotaf un i ma's.
- 3 Ac ynot mi ymfrostia'n hy'  
'Mod i'n gyfoethog iawn;  
Am fod trysorau maith fy ngras  
Fel Ti'n anfeidrol lawn.

4 Ac mae pob peth yn eiddo im',  
Heb eisieu, ac heb drai:  
Ac nid oes ddiffyg ddaw i'r lle  
Y cefir dy fwynhau.

5 Mae pob dymuniad, a phob chwant,  
Fyth yno'n eitha' llawn;  
A thystio'r wyf nad oes ond Duw  
A'm gwna yn ddedwydd iawn.

6 Doed y tymmestloedd pena ddêl,  
Digonol gallu'r ne';  
A rhüed moroedd dros y tir,  
Anfeidrol yw Efe. W. W.

43 M.C. (M. 3.)

*Doniau Rhagluniaeth a Gras.*

1 **T**YDI wyt deilwng o fy nghân,  
Fy Nghrêwr a fy Nuw,  
Dy ddoniau o fy amgylch naent  
Bob mynyd 'r wyf yn byw.

2 Mi glywa'r haul, a'r lloer, a'r ser,  
Yn datgan dwyfol glod;  
Tywynu 'n ddysglær 'r wyt o hyd  
Trwy bob peth sydd yn bod.

3 O na foed tafod dan y rhod,  
Yn ddystaw am dy waith;  
Minnau fynegaf hyd fy medd  
Dy holl ddaioni maith.

4 Diolchaf am dy gariad cu,  
Yn estyn hyd fy oes;  
Diolchaf fwy am un a fu  
Yn gwaeu ar y groes.

5 Diolchaf am gysuron gwiw  
Wyf beunydd yn fwynhau;  
Diolchaf fwy am Brynwr trist  
I mi gael llawenhau. D. C.

44 M.C. (M. 3.)

*Dirgelion Rhagluniaeth.*

1 **T**RWY ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr  
Yn dwyn ei waith i ben;  
Ei ystafelloedd sy'n y môr,  
Mae'n marchog gwynt y nen.

2 Yn nghudd mewn dwfn fwngloddiau pur  
Doethineb wir ddiwall,  
Trysori mae fwriadau clir—  
Cyflawnir hwy'n ddi-ball.

3 Y saint un niwed fyth ni chânt;  
Cymylau dua'r nen  
Sy'n llawn trugaredd, gwlawio wnant  
Fendithion ar eu pen.

4 Na farna Dduw a'th reswm noeth,  
Ond cred ei addewid rad;  
Tu cefn i len rhagluniaeth ddoeth,  
Mae'n cuddio gwyneb Tad.

5 Bwriadau dyfnion arfaeth gras,  
Ar fyr addfedan llawn:  
Gall fod y blodeu'n chwerw eu blas,  
Ond melus fydd y grawn.

6 Ond gwyro mae dychymmyg dyn,  
Heb gymhorth dwyfol fydd;  
Gadawn i Dduw esbonio'i hun—  
Efe dry'r nos yn ddydd.

COWPER.  
*Cyf. L. E.*

45 M.C. (M. 3.)

*Ffynnon i aflendid.*

1 **A**GORWYD ffynnon i'n glanhau  
Gan Iesu, frenin nef;  
A'i ffrydiau i olchi ffwrdd ein bai  
Trwy rym ei gariad Ef.

2 Llawenydd sydd i lawer un  
O herwydd agor hon;  
Mae lle i minnau lawenhau  
Bod imi groesaw llon.

3 Mi ganaf fi tra byddwyf byw  
Am rinwedd gwaed yr Oen;  
Ond mi gaf ganu cyn b'o hir  
Mewn rhyw felusach dôn.

4 Mor beraidd odiaeth fydd fy nghainc  
Mewn anlygredig wedd;  
Pan fyddo'r tafod musgrell hwn  
Yn ddystaw yn y bedd. J.

46 M.C. (M. 3.)

*Cyflawnder a north.*

1 **D**A'I 'mofyn haeddiant fyth na north  
Na ffafr neb na'i hedd,  
Ond Hwnw'n unig gŵyd fy llwch,  
Yn fyw i'r lân o'r bedd.

2 Ddiffygiaf ddim, er c'yd fy nhaith,  
Tra pery gras y nef;  
Ac er mor lleied yw fy ngrym,  
Mae digon ynddo Ef.

3 Esgyn a wnaeth i entrych ne',  
I eiriol dros y gwan;  
Fy enaid innau dyn Efe  
Fw fynwes yn y man.

4 Fe gryn y ddae'r ac uffern fawr  
Wrth amnaid T'wysog aen;  
O flaen gogoniant Hwnw fu  
Yn dyoddef ar y pren. W. W.

47

M.C.

(M. 3.)

*Annogaeth i foliannu Duw.*

- 1 **Y**N nhŷ ein Duw clodforwn ef,  
Lle rhydd ei hedd a'i ras;  
Dyrchafwn lais hyd byrth y nef  
Mewn hyfryd hwyl a blas.
- 2 Yn wiw deffroed pob nwyd a dawn  
I ganmol Duw'n ddilyth:  
Ond rhyfeddodau gras yn llawn,  
Nis gallwn ddatgan byth.
- 3 De'wn a moliannwn Frenin hedd;  
Ei glod a seinio'n mhell:  
Ond gydag ef, tu draw i'r bedd,  
Ni gawn ei foli'n well.

P. J.

- 2 'Does yma eisieu fyth yn bod,  
Trysorau gras yn llawn,  
Er maint yr yfed a'r glanhau  
Sy' o fore hyd brydnawn.

- 3 Mae yma drugareddau rhad  
I'r tlawd a'r llariaidd rai,  
A rhyw fendithion maith yn stor  
Sy' fythol i barhau.

- 4 Awn, bechaduriaid, at y dwfr  
A darddodd ar y bryn;  
Ac ni gawn yfed fyth, heb drai,  
O'r ffrydiau gloew hyn.

W. W.

48

M.C.

(M. 3.)

*Mawredd cariad Duw.*

- 1 **U**WCH pob rhyw gariad is y nef,  
Yw cariad pur fy Nuw;  
Anfeidrol foroedd, dyfnion, maith,  
Heb fesur arno, yw.
- 2 Dechreuodd draw cyn creu y byd,  
Fe bery byth yn mla'n,  
Heb un cyfnewid, ac heb drai,  
Pan elo'r byd yn dân.
- 3 O, deuwch, gwelwch, chwiliwch ef,  
Anfeidrol gariad mawr,  
Ag eydd yn maddeu miloedd myrdd  
O feiau, yn yr awr!
- 4 Rhyw gariad a ffyddlondeb maith,  
A thrugareddau'n un,  
Ydyw yr enwau a garodd Ef  
I roddi arno ei hun.

W. W.

49

M.C.

(M. 3.)

*Iachawdwriaeth gymmaint.*

- 1 **M**AE'R iachawdwriaeth fel y môr,  
Yn chwyddo byth i'r lân;  
Mae ynddi ddigon, digon byth,  
I'r truan ac i'r gwan.

50

M.C.

(M. 3.)

*Coroni Iesu yn ben.*

- 1 **D**YRCHAFER enw Iesu cu,  
Gan seintiau is y nen;  
A holl aneirif luoedd nef,  
Coronwch Ef yn Ben.
- 2 Angelion glân, sy'n gwylio'n gylch  
O ddeutu'r orsedd wen—  
Gosgorddion ei lywodraeth gref,  
Coronwch Ef yn Ben.
- 3 Hardd lu'r merthyri, sydd uwchlaw  
Erlyniaeth, braw, na sen,  
A llafar glod, ac uchel lef,  
Coronwch Ef yn Ben.
- 4 Yr holl brophwydi, 'nawr sy'n gwel'd  
Y Meichiau mawr heb len,  
A'r apostolion yn gyd-lef,  
Coronwch Ef yn Ben.
- 5 Pob perchen anadl yn mhob man,  
Dan gwmpas haul y nen—  
Ar fôr a thir, mewn gwlad a thref,  
Coronwch Ef yn Ben.

51

M.C.

(M. 3.)

*Tad wrth y llyw.*

- 1 **A**R fôr tymmestlog, teithio 'rwyf  
I fyd sydd well i fyw,  
Gan wenu ar ei stormydd oll—  
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 2 Drwy leoedd geirwon, enbyd iawn,  
A rhwystrau o bob rhyw,  
Y'm dygwyd eisioes ar fy nhaith—  
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 3 Er cael fy nhaflu o dôn i dôn,  
Nes ofni bron cael byw;  
Diangol ydwyf hyd yn hyn  
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 4 Ac os oes stormydd mwy yn ol,  
Yn nghadw gan fy Nuw,  
Wynabaf arnynt oll yn hyf—  
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 5 A phan fo'u hymchwyydd yn cryfhau  
Fy angor sicr yw,  
Y dof yn ddiogel trwyddynt oll—  
Fy Nhad sydd wrth y llyw.
- 6 I mewn i'r porthladd tawel, clyd,  
O swn y storm a'i chlyw,  
Y caf fynediad llon ryw ddydd—  
Fy Nhad sydd wrth y llyw. E. E.

52

M.C.

(M. 3.)

*Y Wlad dda odiaeth.*

- 1 **M**I welaf gyrau'r hyfryd wlad  
Trwy darth a niwl y glyn;  
A haul cyflawnder yn ei nerth  
Yn tw'nu ar bob bryn.
- 2 Mae afon bur o ddyfroedd byw,  
Fel grisial gloew clir,  
Yn d'od o orsedd Duw a'r Oen  
I ddwfrhau ei thir.

- 3 Ac ar ei glanau tyfa pren  
Y bywyd, dwyfol hardd;  
Anfeidrol well na hwnw oedd  
Yn tyfu'n Eden ardd.
- 4 Ac ar ei ffrwythau dwyfol pur  
Y gwledda nef y nef,  
I drag'wyddoldeb heb ddim trai,  
Mae digon arno ef.
- 5 Yr Oen a laddwyd ydyw'r haul,  
Ei hedd yw'r afon fyw;  
A phren y bywyd mawr ei rin,  
Efe ei hunan yw.
- 6 Pob melldith mwyach byth ni bydd,  
Na thrallod, gwae, na phoen;  
Nac angeu chwaith ni ddaw i wlad  
Gorseddfainc Duw a'r Oen.
- 7 Awn, awn, tan ganu tua'r wlad,  
Awn, a meddiannwn hi;  
Fê'i rhoddwyd mewn addewid rad  
Mae'r ffordd yn rhydd i ni. W. R.

53

M.C.

(M. 3.)

*Ymarweddiad yn y nefoedd.*

- 1 **O**TYRED Ysbryd sanctaidd pur,  
Nertha'm blinedig draed;  
A rho imi olwg oleu glir  
Ar hyfryd dir fy ngwlad.
- 2 Gâd imi ado'r anial maith,  
Gwlad galar, a gwlad gwae;  
A myned rhagof tua'r tir  
Sy' a'i bleser yn parhau.
- 3 Pleserau daear wedi ffoi,  
Pob chwantau yn gytân;  
Heb un dyfyrwch is y rhod  
Ond Iesu mawr ei hun.

54

M.C.

(M. 3.)

*Addewidion y Cyfammod.*

- 1 **M**AE addewidion melus wledd  
Yn gyflawn ac yn rhad,  
Yn dy gyfammod pur o hedd,  
Trag'wyddol ei barhad.
- 2 'Rwyf finnau yn dymuno d'od  
I'r wledd ddanteithiol fras;  
Ac felly mi gaf seinio clod  
Am ryfedd rym dy ras.
- 3 O rhwyma fi wrth byst dy byrth,  
I aros tra b'wyf byw;  
I edrych ar dy wedd a'th wyrth,  
A'th foli di, fy Nuw.
- 4 Tydi fo'm cymhorth parod iawn,  
I'm cynnal ar fy nhaith;  
A thi dy hun fo'm trysor llawn,  
I drag'wyddoldeb maith.

T. J.

55

M.C.

(M. 3.)

*Cyflawnder o ras a doniau yn Nghrist.*

- 1 **C**YFLAWNDER nerth, cyflawnder  
Cyflawnder nef y nef, [gras,  
Uwch deall seraphim na saint  
Sy'n trigo ynddo Ef.
- 2 Mae ynddo'i hunan drysor mwy  
Nag fedd y byd yn un;  
A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint,  
Oruchaf gafodd dyn.
- 3 Fy ymffrost gaiff fod am ei ras,  
A'm nefoedd fydd ei hedd;  
Ac mi orweddaf gydag Ef  
Yn foddlon yn y bedd.
- 4 Yn mhob rhyw ddoniau mae E'n fawr  
Anfeidrol yw ei rym;  
Ac nid oes pwysau ar Ei ras,  
A'i haeddiant Dwyfol ddim.

- 5 Mae ynddo drugareddau fil,  
A doniau yn ddidrai;  
A rhyw ffyddlondeb fel y môr,  
At ei gystuddiol rai.

W. W.

56

M.C.

(M. 3.)

"Anfoned i Ti gymhorth o'r cyssegr, a  
nerthed di o Sion."

- 1 **O** FRENIN nef a daear lawr!  
Mor werthfawr yw dy wedd;  
Rho i ni brawf ar hyn o bryd,  
O'th nefol hyfryd hedd.
- 2 Goleua Di ein deall gwan,  
Yn mhob ryw ran o'th waith;  
Dadguddia 'n awr i'th anwyl blant,  
Dy fawr ogoniant maith.
- 3 O cryned, Arglwydd, ger dy fron,  
Dy holl elynion cas;  
A llwydda hefyd yma 'n awr,  
Wirionedd mawr dy ras.

R. W.

57

M.C.

(M. 3.)

*Ymddiried yn Nuw.*

- 1 **O** gad im' brofi 'th nefol hedd,  
Yn mhob anadliad pur:  
Ac felly myn'd o'r byd i'r bedd,  
Mewn hûn nefolaidd wir.
- 2 Gwaith hyfryd yw clodfori'r Iôn,  
Ei ras a'i hedd dilyth;  
O oes i oes ei fawl a red,  
Mewn sain gorfoledd byth.
- 3 'Oaersalem lôn sy'n llawenhau,  
A'i gwylwyr o un fryd;  
A'r anial blin sy'n dysgu cân  
O fawl i Brynwr byd.

E. E.

58 M.C. (M. 3.)

*Dyrchafiad a gogoneddiad Crist.*

1 **D**YRCHAFODD o waelodion bedd  
Goruwch y nefoedd wen;  
Lle'r eistedd ar orseddfainc hedd,  
A'i goron ar ei ben.

2 "Yr Oen a laddwyd teilwng yw,"  
Medd holl dafodau'r nef;  
Ac uned pob creadur byw  
I'w foli âg uchel lef.

3 Am iddo oddef marwol glwy',  
A'u prynu trwy ei waed;  
Caiff holl goronau'r nefoedd mwy  
Eu bwrw wrth ei draed.

4 Boed peraroglau'i enw drud,  
Yn llenwi daear lawr,  
A chladder enwau'r byd i gyd  
Yn enw Iesu mawr. W. R.

59 M.C. (M. 3.)

*Ymgystwyrniad.*

1 **O**CYMMER fy serchiadau'n glau,  
Fy Iesu bob yr un;  
A gwna hwy yn eisteddfod bur  
Sancteiddiaf it' dy hun.

2 Tyn fy serchiadau'n gryno iawn  
Oddiwrth wrthdrrychau gau,  
At yr un Gwrthdrrych ag sydd byth  
Yn ffyddlon yn parhau.

3 At wedd dy wyneb nid yw ddim  
Trysorau maith y llawr;  
Mae gair o'th enau'n llawer mwy  
Ei rym nag uffern fawr.

4 Dy allu yw fy nerth a'm grym,  
Yn d'allu byddaf byw;  
'Rwy'n wan, 'rwy'n llesg, nid allaf ddim,  
Un fynyd heb fy Nuw.

5 O! Iesu, cymmer fi i gyd,  
Fel mynech gad im' fod;  
Ond im' gael treulio bob yr awr,  
Yn hollol i dy glod W. W.

60 M.C. (M. 3.)

*Gau a gvir bleser.*

1 **F**E'M siomwyd gan bleserau'r llawr,  
Fe'm twyllwyd gan bob un;  
Ffowch bob eilunod, rhoi's ffarwel.  
I ddaear ac i ddyn.

2 Ni thro'f fy wyneb byth yn ol  
I 'mofyn pleser gau,  
Ond mi a gerddaf tua'r wlad,  
Sy' a'i phleser yn parhau.

3 Mae holl deganau'r ddaear hon,  
Fu gynt yn fawr eu grym,  
Yn ngŵydd fy Iesu'n gwywo i gyd,  
Ac yn diflanu'n ddim. W. W.

61 M.C. (M. 3.)

*Undeb y nefolion.*

1 **M**AE brodyr imi aeth yn mlaen,  
Yn holliach a chytûn;  
Deng mil o filoedd yw eu cân,  
Er hyn, nid yw ond un.

2 Mae pawb o'r brodyr yno'n un,  
Heb neb yn tynu'n groes,  
Yn molî'r Duwdod yn y dyn,  
A chofio angu loes.

3 Ni theimlir yno unrhyw boen,  
Na chwyno gan un clwy',  
Ond pawb mewn hwyl yn molî'r Oen  
I drag'wyddoldeb mwy.

4 Daw'r holl dduwiolion yno 'nghyd,  
O'r gogledd, de', heb ri',  
A'u holl gadwynau'n chwilfriw mân,  
A'u cân am Galfari. D. M.



62 M.C. (M. 3.)

*Rhinwedd angeu y groes.*

- 1 **B**OED dyoddefiadau pur y groes,  
I laesu'm cur a'm gwae:  
Griddfanau dyfnion angeu loes,  
I'm rhoddi i lawenhau.
- 2 Marwolaeth fy Ngwardwr mawr,  
Yn fywyd pur i mi;  
Fel gallwyf roddi oll i lawr,  
Yn gôf am Galfari.
- 3 Mi dafia 'maich i lawr i gyd,  
Trwy rinwedd dwyfol loes;  
Euogrwydd fel mynyddau'r byd  
Dry'n ganu wrth dy groes.
- 4 Dan bob cystuddiau fwy na mwy—  
Rhuadau cnawd a byd,  
Mae nerth i'w gael mewn marwol glwy'  
I'w maeddu oll yn nghyd.
- 5 Mae angeu'r groes yn awr yn hy'  
Yn dadleu dros y gwan;  
Ac angeu fy Iachawdwr cu,  
Cyn hir, a'm cwyd i'r lân. w. w.

63 M.C. (M. 3.)

*Nodded mewn adfyd.*

- 1 **Y**N nghanol pob gofidiau maith,  
Ehedaf at fy Nuw;  
Yn wyneb cyfyngderau fil,  
Fy unig noddfa yw.
- 2 Efe yw'm Craig a'm cadarn Dŵr,  
A'm Hamddiffynwr glân,  
Efe a'm tywys yn ei law  
I wlad y beraidd gân. R.

64 M.C. (M. 3.)

*Crist yn rhagori ar ddeng mil.*

- 1 **O**S edrych wnaf i'r dwyrain draw,  
Os edrych wnaf i'r de';  
Yn mhlith a fu, neu ynte ddaw,  
'Does debyg iddo 'Fe.

- 2 Ni fedda'i ar y ddaear fawr,  
Ni feddaf yn y ne';  
Neb ag a bery'n anwyl im';  
Yn unig ond Efe.
- 3 Mae ynddo'i hunan drysor mwy,  
Nag fedd yr India lawn:  
Fe brynodd i mi fwy na'r byd,  
Ar groesbren un prydawn.
- 4 'Does genyf mwy ond Duw yn Dad,  
Yn erbyn pob rhyw wae;  
'Does genyf ond ei gariad rhad,  
Yn sylfaen i barhau.
- 5 O na allwn rodio er ei glod,  
Ac iddo bellach fyw;  
A phob anadliad fyn'd i maes  
I ganmol gras fy Nuw. w. w.

65 M.C. (M. 3.)

"Chwychwi Angelion yr Arglwydd, ben-  
dithiwch yr Arglwydd; molwch a mawrhewch  
Ef yn dragywydd."

- 1 **U**WCHLAW y ser a'r wybren faith,  
A'r bryniau oesol fry,  
Yn heirdd drigfanau 'r nefoedd draw,  
Preswylia 'n Prynwr cu.
- 2 Cerubiaid a Seraphiaid sydd,  
Angelion dysglær llon,  
Yn fil o filoedd, nos a dydd,  
Yn gweini ger ei fron.
- 3 Yn lluoedd deuant wrth ei sair  
O entrych nefoedd wen;  
A gweini wnant i'r saint i gyd  
Sy'n teithio is y nen.
- 4 A phan y bo'nt yn rhodio 'r glyn,  
Daw engyl gwyn eu gwawr  
I'w dwyn yn llon i'r Ganaan fry,  
Eu hetifeddiaeth fawr. R.

66 M.C. (M. 3.)

*Y newyddion goreu.*

- 1 **M**AE clywed newydd am ei waed  
 Yn llofo ar Galfari,  
 Yn fwy na phob rhyw fraint a gaed  
 Ar hyd ein daear ni.
- 2 Fe ddaw'r blynyddau pur i ben,  
 Pan t'w'no efengyl gras,  
 Fel haul dysgleiriol yn y nen,  
 Tros wyneb daear las.
- 3 Ac mi ddysgwylia'r hyfryd awr,  
 Boreuddydd Jubili,  
 Pan ddelo holl dylwythau'r llawr  
 I garu'n Harglwydd ni. w. w.

67 M.C. (M. 3.)

*Buddugoliaeth y Groes.*

- 1 **C**YDUNED holl dafodau'r oes  
 A doniau nef a llawr,  
 I ganu concwest anghau'r groes,  
 A haeddiant Iesu mawr.
- 2 Hen felldith Eden ar ei ben,  
 Yn goron ddrain a roed,  
 Ac fe droes hono ar y pren  
 Yn fendith fwya' erioed!
- 3 Holl awdurdodau uffern fawr,  
 Yspeiliodd dan ei glwy',  
 Yn noeth ger bron y nef a'r llawr,  
 Fe'u harddangosodd hwy.
- 4 O'i fodd tywalltai'i enaid pur,  
 I safn marwolaeth ddu,  
 A'i anghau dan yr hoelion dur  
 Yn anghau i anghau fu. w. r.

68 M.C. (M. 3.)

*Yr ail ran.*

- 1 **L**LEWYGAI'R haul yn entrych nen,  
 Pan oedd ei Grewr mawr,  
 Yn natur dyn yn crymu'i ben,  
 Yn anghau loes i lawr.
- 2 Fe grynai'r ddaear, rhwygai'r graig,  
 Yr awr ryfedda erioed,  
 Pan oedd E'n dryllio pen y ddraig  
 Yn chwilfriw dan ei droed.
- 3 Lle'r benglog mwyach fydd y lle  
 Enwocaf ar y llawr,  
 Canys yno dryllwyd penglog hen  
 Lefiathan uffern fawr.
- 4 Fe rwygai llen y deml yn ddwy  
 Pan y gogwyddai'i ben,  
 I ddangos fod y llwybr mwy  
 Yn rhydd i'r nefoedd wen.
- 5 Ei glod a'i fawl ni dderfydd mwy  
 Am faith drag'wyddol oes,  
 Am ddiystyru a myned trwy  
 Waradwydd anghau'r groes. w. r.

69 M.C. (M. 3.)

*Pren y bywyd.*

- 1 **M**AE pren y bywyd wedi ei gael  
 Wrth law mewn anial dir,  
 Yn plygu 'i frig er cymhell pawb  
 I fwyta 'i ffrwythau pur.
- 2 Pan ddelo misoedd cystudd oer,  
 Ceir ffrwyth ar hwn o hyd;  
 A dail y pren a lwyr iachâ  
 Ein holl ddoluriau 'i gyd.
- 3 Tu yma i'r afon os mor dda  
 Yw'r ffrwyth ar Iesu gawn;  
 Yr ochr draw fe fydd yn well—  
 Yn well o lawer iawn.

70

M.C.

(M. 3.)

*Mawl am brynedigaeth gras.*

1 **H**OLL nerthoedd nef, angelion, saint,  
Tylwythau daear las,  
Cydgenwch newydd gân o fawl  
Am waredigol ras.

2 Y gras ym Gronai'n fôr didrai  
Nes llenwi mynwes Duw,  
Cyn gosod seiliau bryniau'r byd,  
At euog ddynol ryw.

3 Y gras anfonai'r Priod Fab  
I barthau isa'r llawr,  
In codi o'r dyfnderau i'r lân  
I wynfyd nefoedd fawr.

4 Y gras a lifodd ar y pren  
Yn afon fawr ddiraid,  
I olchi ymaith feiau 'r byd  
A chànau'r aflan rai.

5 Pan ddelo 'r brynedigol dorf  
Yn iach i ben eu taith,  
Eu cân fydd am achubol ras  
I drag'wyddoldeb maith.

w. r.

71

M.C.

(M. 3.)

*Dilyn yr Arglwydd.*

1 **R**WY'N morio tua chartre'm Ner,  
Rhwing tonau maith 'rwy'n byw,  
Yn ddyn heb neges dan y ser,  
Ond 'mofyn am ei Dduw.

2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro'n ol,  
A mi nid wyf ond gwan,  
O, cymmer, Iesu, fi'n dy gól,  
Yn fuan dwg fi i'r lan.

3 Na'd fi ar aswy, nac ar dde,  
I redeg o dy flaen;  
Ond dilyn llwybrau Brenin ne',  
Trwy ganol dwr a thân.

4 O! gwna i fy nghalon redeg trwy  
Oll atat ti dy hun;  
Na b'o difyrwch genyf mwy,  
Mewn daear, da, na dyn.

5 O! cau fy llygaid, rhag im' wel'd  
Pleserau gwag y byd,  
Ac imi wyro byth oddiar  
Dy lwybrau gwerthfawr, drud.

w. w.

72

M.C.

(M. 3.)

*Cyfeillion ymadawedig.*

1 **M**AE pererinion draw o'm blaen  
Yn canu'r anthem bur;  
Ac heddyw'n edrych fel o bell,  
Ar dd'rysni'r diffaeth dir.

2 Maent hwy'n rhyfeddu'r dwyfol ras  
A'u nerthodd ar eu taith;  
A chanu cariad addfwyn Oen,  
Ffyddlonaf, yw eu gwaith.

3 O, nertha finnau i edrych draw,  
Heb wyro o un tu;  
Nes i mi gyrhaedd mewn i byrth  
Caersalem newydd fry.

4 Rho'r delyn auraidd yn ein llaw,  
Ac yn ein hysbryd dân;  
Ac yn mheryglon anial dir,  
Erfyniau pur a chân.

5 Ni awn fel hyn yn ngwres y nef  
Fel un lluosog lu,  
Trwy demtasiynau fwy na rhif  
I mewn i'r nefoedd fry.

w. w.

73 M.C. (M. 3.)

*Tywallytiad yr Ysbryd.*

1 **O!** ANFON di yr Ysbryd Glân,  
Yn enw Iesu mawr;  
A'i weithrediadau megys tân,  
O! deued Ef i lawr.

2 Yn ol d'addewid fawr ei gwerth,  
O! tywallt oddi fry  
Dy Ysbryd Sanctaidd gyda nerth,  
I weithio arnom ni.

3 O'i wir ewylls, deued Ef  
I argyhoeddi'r byd,  
Ac arwain etifeddion nef,  
Trwy'r anial maith i gyd.

4 Yn ol d'addewid Iesu mawr,  
Yr awrhau, anfon di  
Y gwir Ddyddanydd doeth i lawr,  
I aros gyda ni. J. H.

74 M.C. (M. 3.)

*O'r dyfnder y llefais arnat.*

1 **O** DDYFNDER llygredigaeth du  
'Rwyf yn cyfodi llef;  
Drugarog Arglwydd, clyw fy nghri  
A'm gweddi yn y nef.

2 Os creffi ar anwiredd, Ion,  
Pwy ger dy fron a sai?  
Ond mae trugaredd gyda thi  
I mi, er maint fy mai.

3 Fel gwyliwr am y bore wawr  
'Rwy'n dysgwyl 'nawr, fy Nuw;  
O dyro imi cyn fy medd  
Gael gwel'd dy wedd, a byw.

4 Y mae maddeuant gyda thi  
Ar gyfrif marwol glwy',  
Fel gallwyf d'ofni yn ddilyth,  
Heb byth dy ddiagio mwy. C. W.

75 M.C. (M. 3.)

*Erfyniadan am yr Ysbryd.*

1 **T**YR'D Ysbryd sanctaidd ledia'r ffordd  
Bydd imi'n niwl a thân;  
Ni cherddai'n gywir hanner cam  
Oni byddi o fy mlaen.

2 Mi wyraf weithiau ar y dde'  
Ac ar yr aswy law;  
Am hyny arwain gam a cham  
Fi i'r baradwys draw.

3 Dod yn fy ngenau fawl ar g'oedd,  
Ac yn fy ysbryd dân;  
Ac yn mheryglon anial dir,  
Erfyniau pur a chân. W. W.

76 M.C. (M. 3.)

*Golwg ar y nefol wlad.*

1 **Y**MDEITHYDD wyf mewn dyrys  
daith,  
A'm ffordd sydd drom a phell,  
Mae tynfa f'enaid egwan, llaith,  
I wlad a thrigfan well.

2 'Rwy weithiau'n gwel'd trwy ddrych o  
Ryw faint o'r hyfryd wlad; [ffydd,  
A thyna pa'm yr wyf bob dydd,  
A'm cais am dŷ fy Nhad.

3 Paid, f'enaid gwan a llwfrhau,  
Er twymned ydyw'r dydd;  
Mae tragwyddoldeb yn nesâu,  
Henffych i'r boreu ddydd!

4 O Sion nefol, drigfan wiw!  
Paradwys Brenin ne';  
Lle y mae seintiau lu yn byw,  
Ddiangodd draw i dre'. D. LL.

77

M.C.

(M. 3.)

*Iesu yn gyfaill ffyddlaw.*

- 1 **P**AN fo gwrthdychau'r byd yn ffoi,  
Ac yn diflanu'n ddiu,  
Mae genyf Gyfaill anwyl, hoff,  
A bery'n ffyddlon im'.
- 2 Ac er i mi ei adael Ef,  
Parbau wnai Ef yr un ;  
Rhyfeddol ei ffyddlondeb pur  
I mi, annheilwng ddy.
- 3 Gwrandawodd gri pechadur gwael,  
Ddarfu ddistrywio 'i hun :  
Mi ymddiriedaf bellach mwy  
Yn Iesu r ffyddlon un.

M. R.

78

M.C.

(M. 3.)

*Efe a'i dibrisiodd ei hun.*

- 1 **C**YMMERODD arno agwedd gwas,  
A natur marwol ddy,  
A mellith drom ein beiau cas  
A ddygodd Ef ei hun.
- 2 Yr Hollgyfoethog ddaeth yn dlawd,  
Fel cyfoethogid ni ;  
Daeth Brenin nefoedd i ni'n frawd,  
Wel dyma ryfedd fri !
- 3 Tywalltai'i werthfawrocaf waed,  
I olchi ffwrdd ein bai ;  
Ac yn ei gleisiau mae iachâd,  
I glwyfau euog rai.
- 4 Estynai'i ddwyllaw pur ar led,  
I dderbyn angeu loes ;  
A llyncodd angeu pawb a gred,  
Yn angeu mawr ei groes.

W. R.

79

M.C.

(M. 3.)

*Efe a archollwyd am ein camweddau ni.*

- 1 **F**Y meiau trymion luoedd maith,  
Waeddasant tua'r nen ;

A dyma pa'm yr oedd i'm Duw  
Ddyoddef ar y pren.

- 2 Hwyl dy fradychodd, anwyl Oen,  
Hwyl oedd y goron ddrain ;  
Hwyl oedd y fflangell greulon gref,  
Hwyl oedd yr hoelion main.
- 3 Fy meiau oedd y waewffon,  
Wanodd ei ystlys bur ;  
Fel rhedodd ffrwd o tan ei fron,  
O waed a dyfroedd pur.
- 4 O maddeu 'mai, a chliria'n llwyr,  
F'euogrwydd oll i gyd ;  
Ac na'd im' fflino'th Ysbryd mwy  
Tra byddwyf yn y byd.
- 5 O chwilia 'nghalon, Iesu mawr,  
Ac eistedd yma dy hun ;  
A thaff i lawr gadeiriu hen  
Pob eilun gwael ei lun.

W. W.

80

M.C.

(M. 3.)

*Erfyniad am yr Ysbryd.*

- 1 **T**YR'D Ysbryd Glân, Colomen nef,  
A bywyd oddi fry ;  
Ac ennyn fflam o gariad gwiw,  
Yn ein calonau ni.
- 2 Ffurfiol ac oeraidd fydd ein cân,  
A'n holl wasanaeth ni ;  
Os na fydd ynom nefol dân  
O'th weithrediadau di.
- 3 A gawn ni fod fel hyn o hyd,  
Mor farwaidd a di-wawr—  
Mor oer ein serch at Brynwr byd  
A'n dyled ni mor fawr.
- 4 Tyr'd Ysbryd Glân, Colomen nef,  
Yn enw Iesu cu ;  
Ac ennyn fflam o'i gariad Ef,  
Yn ein calonau ni.

R.

81 M.C. (M. 3.)

*Rhyddid i fyned at orseddfainc y gras.*

1 **M**AER orsedd fawr yn awr yn rhydd  
Gwrandewir llais y gwan;  
Wel, cyfod bellach, f'enaid prudd,  
Anadla tua'r lan.

2 Wel, anfon eirchion aml ri',  
I mewn i byrth y nef;  
Gwrandewir pob amddifad gri,  
Yn union ganddo Ef.

3 Myfi anturia 'nawr yn mlaen,  
Hob alwad is y ne',  
Ond bod perffeithrwydd mawr y groes  
Yn ateb yn fy lle.

4 Ni fethodd gweddi daer erioed,  
A chyrhaedd hyd y nef;  
Ac mewn cyfyngder, f'enaid rhed,  
Yn union ato Ef.

5 Anturiaf at ei orsedd fwyn,  
Tan eitha tywyll nos;  
Ac mi orphwysaf, doed a ddel,  
Ar haeddiant gwaed y groes.

6 Mi waeddaf yn y storom fawr,  
Dan donau fwy na rhi';  
Ac fe esgyna'm drylliog lef,  
I entrych nefoedd fry.

7 Fe ffy'r tywyllwch wrth fy nghri,  
Yn nghyfyngderau'r nos;  
Can's nid â'n ofer gais fy Nuw,  
A waeddodd E' ar y groes. w. w.

82 M.C. (M. 3.)

*Hiraeth am ryddhad.*

1 **R**WYN edrych dros y bryniau pell,  
Am danat, bob yr awr,  
Tyr'd fy Anwylyd, mae'n hwyrhau  
A'm haul bron myn'd i lawr.

2 Tebygwn, pe b'ai 'nhraed yn rhydd,  
Maes o'r caethiwed hyn;  
Na wnawn ond canu tra f'awn byw,  
Am ras Calfaria fryn.

3 Pererin wyf mewn anial dir,  
Yn crwydro yma a thraw;  
Ac yn rhyw ddysgwyl bob yr awr,  
Fod tŷ fy Nhad gerllaw.

4 Mae arnaf hiraeth am y wlad  
Lle mae torfeydd diri';  
Yn canu'r anthem i barhau  
Am angeu Calfari. w. w.

83 M.C. (M. 3.)

*Ysbrydoedd y Cysfawr a berffeithiwyd.*

1 **M**I wela' dyrfa fawr o'm blaen,  
Yn canu ar ben eu taith,  
Ac wedi gorphen d'rysu 'rhyd  
Yr anial garw maith.

2 Fe ddarfu'u rhyfel er ei rym,  
Fe ddarfu'u poen a'u gwae;  
Ac maent yn yfed heddyw o'r wledd  
Dragwyddol sy'n parhau.

3 'D â un o'r nwydau mewn i'r nef  
A'u blinodd yn y byd;  
Cariad trag'wyddol fel y môr,  
Sy'n llanw yno o hyd.

4 Pob parch a haeddiant, gras a dawn,  
Pob enw oll o ddyn;  
Sydd yno'n hollol suddo'i lawr  
Yn Iesu mawr ei hun.

5 Mae Iesu ei hun yn awr yn fwy  
Na'r cwbl is y nef;  
A'u holl ddifyrwrch fyth a byth  
Yw edrych arno Ef. w. w.

84

M.C.

(M. 3.)

*Noddfa yn angeu.*

1 **P**AN ddelo angeu yn ei rwyg,  
I dori fy oll i lawr,  
Fy unig noddfa werthfawr fydd  
Yn fy Ngwaredwr mawr.

2 O gâd im' mewn tangnefedd pur,  
Roi f'anadl ola' i maes,  
Ac mewn gorfoledd hwylio dros  
Y cefnfor garw glâs.

3 A myn'd dan ganu tua 'r wlad  
A drefnwyd i mi fyw;  
A gwedi gadaw 'mhell o'm hol  
Gystuddiau o bob rhyw.

w. w.

85

M.C.

(M. 3.)

*Cri yr Edifeiriol.*

1 **O**, DDUW, 'rwy'n dysgwyl wrth dy  
Garcharor gwael ei wedd; [ddor,  
Gwasgara Di fy ofnau llym,  
A dyro im' dy hedd.

2 Fy Nuw, trwy'r hwn daeth hedd i ddyn,  
Dadguddia'th hun i mi;  
A than dy aden, Arglwydd da,  
Boed noddfa f'enaid i.

3 Yr heddwech sydd uwch deall dyn,  
I adyn euog dod;  
A llanw fi, fy Mhrynwr rhad,  
A'th gariad is y rhod.

4 Adferfa f'enaid trwy dy ras,  
Rho flas maddeuant gwiw;  
A llwyr gymhwysa fi, O Dad,  
F'r nefol wlad i fyw.

c. w.

86

M.C.

(M. 3.)

*Yr ardal hyfryd.*

1 **R**WY'N sefyll ar dymmestlog lân  
Yr hen Iorddonen ddu;

Gan syllu'n ddwys, mewn hiraeth clau  
Ar fryniau'r Ganaan fry.

2 'Rwy'n tybio gwelaf eiliw gwan  
O'r glanau bythol wyrdd,  
Lle'r hongia sypiau grawnwin pur  
Ar goed anfarwol fyrdd.

3 O ardal hyfryd! lle ni ddaw  
Na gofid byth nac aeth;  
Lle ffrydia perffaith wynfyd pur  
Fel llif o fêl a llaeth.

4 Ac yno y mwynheir heb nos,  
Un anfachludol ddydd;  
Heb haul na lloer, ond Duw ei hun  
Ei dysglæwr haul a fydd.

5 Awelon peraidd, balmaidd byw,  
Sy'n treiddio'r ardal trwy;  
Angeu a phechod, ing a phoen,  
O'i mewn ni theimlir mwy.

B. B.

87

M.C.

(M. 3.)

*Swper yr Arglwydd.*

1 **Y**N ol ei rasol ordinhâd,  
At Iesu 'n isel af;  
Myfyriaf ar ei gariad rhâd  
A'i gynhes gofio wnaif.

2 Tydi yn marw, minnau'n fyw!  
Tydi a'th waed yn lli!  
O Oen fy aberth! Oen fy Nuw!  
Rhaid imi 'th gofio Di.

3 Cymmeraist phiol llid y Tad,  
Tro'ist hono 'n win i mi:  
O! pwy nacäi 'r fath orchwyl rhad  
A hyn, dy gofio Di!

4 Y corph fu drosod dan y dur,  
Fydd fara i'm henaid i;  
A'th waed fydd mwy fy niod bur—  
Fel hyn y'th gofiad Di.

P.

88

M.C.D. (M. 46.)

"Yr Arglwydd a gysura Sion : Efe a gysura ei hanghyfannedd-leoedd hi."

1 **F**E welir Sion fel y wawr,  
Er tlotted yw ei gwedd,  
Yn d'od i'r làn o'r cystudd mawr,  
N ol agor pyrth y bedd  
Heb glaf na chlwyfus yn eu plith,  
Yn ddysglær fel yr haul,  
Yn y cyfiawnder dwyfol pur,  
A wnaed gan Adda 'r Ail.

2 Aed mawl a gweddi 'r saint i'r lân,  
Fel pèr aberthau byw  
A boed serchiadau Sion wan  
Ar dân yn moli Duw  
Mewn gemwaith aur bydd hon cyn hir,  
Heb dristwch, cur, na phoen,  
Yn canu am gongewest fawr a gaed  
Trwy werthfawr waed yr Oen.

3 Yn awr i'r Tad, mewn cariad cu,  
Yr hardd gyflwynir hon,  
Heb arni un brycheuyn du,  
Yn briodasferch lon  
Dadseinia 'r holl äangder fry,  
Gan ryw soniarus lef,  
Pan fyddys yn ei harwain hi  
I mewn i lys y nef.

89

M.C.D. (M. 46.)

*Y Gân Newydd.*

1 **Y** WAREDIGOL dorf o Saint  
O gylch yr orsedd lân,

A seiniant oll, heb fino byth,  
Ar flas y newydd gân ;  
Gan ddywedyd Teilwng ydyw'r Oen  
A laddwyd ar y pren,  
I gael trag'wyddol foliant gan  
Holl awdurdodau'r nen.

2 Can's Ti a'n prynaist trwy dy waed,  
O bob rhyw lwyth ac iaith,  
Ac a'n cynneliaist ni ar hyd  
Ein dyrys anial daith :  
A gwnaethost ni'n freninoedd gwych  
Ac yn Offeiriaid nef,  
I Dduw a'r Tad, a byth y cawn  
Deyrnasu gydag Ef.

3 Yr ogoneddus dyrfa fawr  
O engyl uchel fraint,  
A unant oll, o galon bur  
I eilio mawl y Saint,  
Gan ddywedyd, Teilwng yw yr Oen,  
Pryniawdwr dynol ryw,  
O bob addoliad, parch a bri,  
Ein Harglwydd ninnau yw.

4 Cydunwn ninnau ar y llawr  
A'r saint a'r engyl fry—  
I roddi ein coronau i lawr  
Wrth draed ein Harglwydd cu,  
Nes caffom fyned yno i'w plith,  
I'w weled a'i fwynhau,  
Lle nad oes ond dedwyddwch pur  
Trag'wyddol yn parhau.

W. R.



90

M.C.D. (M. 46.)

*Dymuniad am y nefol wlad.*

1 **T**RA yn y dyrys anial dir,  
 'Rwy 'n mhell o dŷ fy Nhad:  
 Fy ngolwg cadw, Iesu pur,  
 Yn gywir tua'r wlad:  
 O dyro imi nerth trwy ffydd  
 I ddringo'r creigydd serth,  
 Nes d'od o'r diwedd i dy wydd,  
 Breswlydd mawr y berth.

2 Ac yna 'mhlith y dysglær lu,  
 Ddaeth maes o'r cystudd mawr,  
 Caf wel'd dy wyneb dedwydd di,  
 A'th foli bob yr awr;  
 Lle ni ddaw unrhyw elyn mwy,  
 I roi im' glwy na briw,  
 Caiff f'enaid wedi'n hyfryd hedd  
 Dros fyth yn ngwedd fy Nuw.

D. LL.

91

M.C.D. (M. 46.)

*Y fawl-gân nefol.*

1 **T**EILWNG wyt Ti, O Arglwydd Iôr  
 I dderbyn mawl a chlod,  
 Anrhydedd a gogoniant gwiw  
 Oddiwrth bob byw a bod;  
 Can's o'th ewyllys da dy hun,  
 Y creiaist hwynt i gyd,  
 Ac ar d'ewyllys da y maent  
 Yn byw a bod o hyd.

2 I'r Hwn sy'n eistedd ar y faine  
 Yn Frenin dae'r a nef,  
 'Rhwn oedd, y sydd, ac fydd, heb dranc  
 Na newid ynddo Ef:

Rhoed holl dafodau tanlyd nef  
 Ag uchel lef dilyth  
 A holl dafodau dynol ryw  
 Eu hunol foliant byth. W. R.

92

M.C.D. (M. 46.)

*Llwyddiant yr Efengyl.*

1 **A**ED sw'n efengyl werthfawr ddrud  
 I eitha'r byd ar led;  
 A boed i bobloedd dae'r yn llon  
 I eiriau hon roi cred.  
 O deued ato filoedd maith,  
 I'w golchi yn y gwaed,  
 A chanu'n llawen yn mhob iaith  
 Am iachawdwriaeth rad. J.

93

M.C.D. (M. 46.)

*Ffynnon o waed.*

1 **M**I welaf ffynnon lawn o waed,  
 O waed Immanuel mawr,  
 Lle gall troseddwy'r mwyaf gaed  
 Gael bywyd ynddi'n awr.  
 Bu dda i'r lleidr ar y groes  
 Ei chaffael yn ei ddydd,  
 Maddeuwyd holl bechodau'i oes  
 A'i enaid aeth yn rhydd.

2 Mae llais y nef yn galw'n awr  
 Drueiniaid fawr a mân,  
 I ddyfod iddi ar y llawr,  
 I'w golchi oll yn lân.  
 'Rwy'n dod, 'rwy'n dod, fy Arglwydd,  
 I 'mofyn am y gwaed, [Dduw,  
 O golch yn lân y dua'i liw,  
 Sy'n dysgwyl wrth dy draed.

J.

94

M.S. (M. 4.)

*Adeiladu Sion.*

1 **O!** CYFOD bellach, trugarhá,  
O Dduw, bydd dda wrth Sion;  
Mae'n amser wrthi drugarhau  
Yn ôl dy nodau'n union.

2 Can's hoff iawn gan dy weision di  
Ei meini a'i magwyrâu;  
Maent yn tosturio wrth ei llwch,  
Ei thristwch a'i thrallodau.

3 Pan adeilader Sion wych,  
A hon yn ddrych i'r gwledydd;  
Pan welir gwaith yr Arglwydd ne',  
Fe'i molir E'n dragywydd.

4 Hyn fydd pan gasgler pawb ynghyd,  
Yn unfyd i'w foliannu—  
Yr holl deyrnasoedd ger bron Duw  
Yn ufudd i'w was'naethu. E. P.

95

M.S. (M. 4.)

*Eglwys Dduw.*

1 **M**AE Eglwys Dduw fel dinas wych,  
Yn deg i edrych arni;  
Ei sail sydd berl godidog iawn,  
A'i mur o ddawns feini.

2 Rhodiwn o gylch Caersalem bur,  
Gan draethu'i heglur degwoh;  
Ystyriwn ei rhagfuriau drud,  
Tra nerthol, a'i phrydferthwch.

3 Awn trwy'r heolydd aur ar frys,  
I'r hynod lŷs breninol;  
Lle gwelir mewn gogoniant mawr  
Yr Iesu gwerthfawr grasol.

4 Llawenydd yr holl ddaear hon  
Yw mynydd Sion sanctaidd;  
Preswylfa anwyl Brenin nef  
Yw Salem efengylaidd.

5 Ni glywsom ogoneddus air,  
I'r ddinas ddysglaer lonydd:  
A phethau mawrion yn ddi-os,  
Wnaeth Duw tros Sion ddedwydd.

6 Ei gwarchod mae ei Cheidwad mawr  
Bob mynydd awr yn dirion;  
A'i gweiniaid yn ei law a ddwg,  
Gan ladd ei drwg elynion.

7 Gwynfyd ei dinasyddion sydd  
Yn rhodio'n rhydd ar hyd-ddi;  
Y nefol fraint i ninnau rho,  
O Dduw, i drigo ynddi. E. F.

96

M.S. (M. 4.)

*Breniniaeth Crist.*

1 **I**EHOFA sy'n teyrnasu o hyd;  
Holl bobl y byd arswydwch;  
Cryned yr enwir ger ei fron,  
A'r saint yn wirion plygwch.

2 Teyrnasu mae ein Prynwr da;  
Y ddæ'r addola'th Arglwydd:  
Cerubiaid ger ei fron a gair  
Yn gwneyd ei air yn ebrwydd.

3 Yn Sion mae gorseddfa'i ras;  
Mawr yw ei urddas yno:  
A'i wyrth a draethir yn ei dŷ;  
A'i ogoniant sy'n dysgleirio.

4 Mor sanctaidd ydyw enw Duw!  
Ofnadwy yw ei foliant:  
Uniondeb, barn, gwirionedd mād,  
Yn ngwaith ei rād cydunant.

CYF. D. J.

97 M.S. (M. 4.)

*Clodforwch yr Arglwydd.*

- 1 **C**LODFORWCH bawb ein Harglwydd Dduw,  
Doed dynol ryw i'w ganmol:  
Ei hedd, fel afon fawr ddi-drai,  
Gaiff ddyfrhau ei bobol.
- 2 Uwch nefol lèn mae tanlyd lu  
Yn ei foliannu beunydd;  
Nef, daear, dwfr, a phob peth byw  
All ddweyd mai da yw'r Arglwydd.
- 3 Pan ballo ffafr pawb a'u hedd,  
Duw o'i drugaredd odiaeth,  
Yn Dad, yn Frawd, yn Gyfaill, fydd  
Ar gyfyng ddydd marwolaeth.
- 4 Y gwaredigion ga'dd ryddhad  
O'r carchar a'u cadwynau,  
Datseiniant gân trwy'r nef a'r llawr  
I'w ras a'i ddirfawr ddoniau. w. w.

98 M.S. (M. 4.)

*Da yw'r Arglwydd.*

- 1 **M**OLWCH yr Arglwydd, can's da yw,  
Moliennwch Dduw ein Llywydd;  
Oblegyd ei drugaredd fry,  
A bery yn dragywydd.
- 2 Duw, buost in' yn Arglwydd da,  
Ac yn breswylfa i drigo,  
O bryd i bryd—felly yr aeth  
Pob rhyw genedlaeth heibio.
- 3 Y gwaredigion canent fawl  
I Dduw gerdd nodawl gysson;  
Y sawl achubwyd,—caned hyn—  
O law y gelyn creulon. E. P.

99 M.S. (M. 4.)

*Mawl yn Sion.*

- 1 **I**TI, O Dduw, y gweddai mawl  
Yn y sancteiddawl Sion:  
I Ti y telir trwy holl gred,  
Bob gwir adduned calon.

- 2 Pawb sydd yn pwyso atat ti,  
A wrendy weddi dostur:  
Ac atat Ti y daw pob cnawd,  
Er mwyn gollyngdawd llafur. E. P.

100 M.S. (M. 4.)

*Diolchgarwch am gynhauaf.*

- 1 **C**OF o dy ras yn felus fydd,  
Fy Nuw, fy llywydd nefol;  
Dadganed oes wrth oes yn bêr,  
Dy bur gyflawnder dwyfol.
- 2 Er bod Duw fry, ni ettyl Ef  
Mo'i dda i'r nef yn unig;  
I bawb o'r byd haelionus yw;  
Fe leinw bob rhyw ddiiffyg.
- 3 Duw, wrthyt mae cre'duriaid gwael  
Yn dysgwyl cael eu porthi:  
Dy law ddarpara iddynt fwyd,  
A'u genau wyd yn lenwi.
- 4 Mor fwyn yw'th dosturiaethau, Nâf,  
A'th lid mor araf cyffry!  
Ond gair o gysur yr yn glau  
I'r enaid mae E'n garu. DE. W.

101 M.S. (M. 4.)

*Yr un testun.*

- 1 **D**A ydyw'r Arglwydd, Brënin ne',  
Am bawb mae E'n gofalu;  
Bob gwanwyn fe ymwél a'n tir,  
Gwna'r borfa i'r ymddyfu.
- 2 Cymylau fel afonydd mawr,  
Dyferant lawr fendithion,  
Wrth dy orchymyn i ddyfrhâu,  
A lloni'r manau sychion.
- 3 Coroni 'r ydwyt Ti fel hyn,  
Y flwyddyn â'th ddaioni;  
Am hyn doed trigolion byd  
Yn unfryd i'th foliannu. DE. W.

102 M.S. (M. 4.)

*Emyn Brydnawmol.*

- 1 **O**DDUW rho glust i'n hwyrol gân—  
Down fawr a mân i'th foli,  
A allwn ni drigolion llaw  
Anghofio 'th fawr ddaioni P
- 2 Yn nghanol myrdd o saethau cudd  
Dy law drwy'r dydd a'n cadwodd,  
Ti wyliaist drosom yn mhob mân,  
A'th gariad a'n cysurodd.
- 3 Parhaus fendithion ar bob cam  
A'n cysson amgylchasant,  
Mor fawr yw gofal tyner Duw  
Ac O mor brin yw'n moliant.
- 4 Nesawn yn llwythog at y groes,  
A beiau'r oes gyffeswn  
Ac i Ti'n llwyr, O Arglwydd da,  
Ein hunain a gyssegrwn.

DR. W. cyf. W. A.

103 M.S. (M. 4.)

*Yr un testun.*

- 1 **C**LODFORAF di, fy Arglwydd da,  
Fy ngwerthfawr noddfa nerthol;  
Arbadaist f'einioes hyd yn hyn,  
Rhag angeu yn ddiangol.
- 2 Am ddirfawr drugareddau'r dydd,  
A'th ddoniau beunydd imi,  
Offrymmaf hwyrol aberth pèr  
O glod diderfyn iti.
- 3 Gorchymyn i'th angelion, Dâd,  
Trwy 'm hân i'm gwarchod heno:  
A thrwy y nos i'th waelaf lwch,  
Dy dirion heddwch dyro.
- 4 A phan yr hunwyf yn y bedd,  
Rho 'th nefol hedd i'm henaid;  
Ac adgyfoda 'nghorph i fyw  
Byth gyda'r gwiw ffyddloniaid.

B. F.

104 M.S. (M. 4.)

*Nesdu at Dduw.*

- 1 **D**EWCH, codwn fyny i'r nef uwch  
Yn llawen ein hedrychiad: [ben  
Cawn yno wel'd ein Tâd mewn hedd  
Yn eiste' ar orsedd cariad.
- 2 Cyd-blygu gawn wrth draed yr Iôn  
Anturio'n eon ato:  
Nid oes un cerub llym ei wedd  
A thanllyd gledd yn rhwystro.
- 3 Heddychol byrth dedwyddwch nef  
Gan ei Fab Ef agorwyd;  
Dyrchafwn fawl a llafar dôn  
Hyd orsedd Iôn heb arswyd.
- 4 Diolch ddeng mil o weithiau 'nawr,  
Ddadleuwr mawr, it' fyddo;  
A chlod i'r bythol Dâd 'r'un wedd  
Am droi 'i ddigllonedd heibio.

DR. W.

105 M.S. (M. 4.)

*Ar ddechreu Adoliaid.*

- 1 **T**YRD, Ysbryd Glân i'n c'lonau ni,  
A dod d'oleuni nefol;  
Tydi wyt Ysbryd Crist; dy ddawn  
Sydd fawr iawn a rhagorol.
- 2 Llawenydd, bywyd, cariad pur,  
Ydynt dy eglur ddoniau;  
Dod eli i'n llygaid, fel i'th saint,  
Ac enaint i'n hwynebau.
- 3 Gwasgara di'n gelynyon trwch,  
A heddwch dyro ini;  
Os T'wysog ini fydd Duw Nêr,  
Pob peth fydd er daioni.
- 4 Tydi addewaist ddysgu, Iôn,  
Dy weision i lesfaru:  
Fel yn mhob mân y caffo'n rhwydd,  
Yr Arglwydd ei foliannu.

R. J.

106

M.S.

(M. 4.)

*Ffynnon llawenydd.*

- 1 **F**FFYNNON fy holl lawenydd yw  
Yr Arglwydd Dduw yn ddiau;  
Gogoniant fy holl ddyddiau 'n wir,  
A chysur fy nosweithiau.
- 2 Mewn t'wllwch os ymddengys E',  
Mae 'ngwawr i'n dechreu tori;  
Efe yw'm siriol seren ddydd,  
A'm haul os bydd yn codi.
- 8 Y nef o'm cylch dysgleirio bydd  
A llewyrch dedwydd goleu,  
Pan dd'wedo Crist mae'm heiddo yw,  
A minnau'n eiddo yntau. DR. W.

107

M.S.

(M. 4.)

*Diolch yn wastad.*

- 1 **D**DIOLCHAF fi, â chalon rwydd,  
I'r Arglwydd bob amserau;  
Ei foliant Ef a'i wir sawrhad  
Fo'n wastad yn fy 'ngenuau.
- 2 Y sawl a edrych arno Ef,  
A llewyrch nef eglurir;  
Ni waradwyddir honynt neb,  
A'u hwyneb ni ch'wilyddir.
- 3 Wele, y truan a roes lef,  
A Duw o'r nef yn gwrando;  
Ac a'i gwareddodd o'i holl ddrwg,  
A'i waedd oedd amlwg iddo.
- 4 O, profwch, gwelwch ddâed yw  
Yr Arglwydd byw i'r eiddo;  
A gwyn ei fyd pob dyn a gred  
'Roi ei ymddiried ynddo. E. P.

108

M.S.

(M. 4.)

*Ceidwad Israel.*

- 1 **D**YSGWYLIAF o'r mynyddoedd  
draw,  
Lle daw im' help 'wyllysgar;

Yr Arglwydd rhydd im' gymhorth gref,  
Hwn a wnaeth nef a daear.

- 2 Dy droed i lithro Ef ni's gâd,  
A'th Geidwad fydd heb humo;  
Wele, Ceidwad Isrâel lân,  
Heb hûn na hepian arno.
- 3 Ar dy law ddeheu mae dy Dduw,  
Yr Arglwydd yw dy Geidwad,  
Dy daro ni chaiff haul y dydd,  
A'r nos nid rhydd i'r lleuad.
- 4 Yr Iôn a'th geidw rhag pob drwg,  
A rhag pob cilwg anfad:  
Cai fyn'd a dyfod byth yn rhwydd,  
Yr Arglwydd fydd dy Geidwad. E. P.

109

M.S.

(M. 4.)

*Ty'r Arglwydd.*

- 1 **I**DY'R Arglwydd pan dd'wedent, Awn.  
Im' llawen iawn oedd gwrando;  
Sai'n traed o fewn Caersalem byrth,  
Yr un ni syrth oddiyno.
- 2 Caersalem lân, ein dinas ni,  
Ei sail sydd ynddi'i hunan;  
A'i phobl sydd ynddi yn gytun,  
A Duw ei hun â'i drigfan.
- 3 O fewn dy gaerau heddwch boed  
I'th lysoedd deued hawddfyd;  
Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,  
A'm cymmydogion hefyd. E. P.

110

M.S.

(M. 4.)

SALM CXVII. 1, 2.

- 1 **O!** CENWCH fawli'r Arglwydd nef,  
Moliennwch Ef, genedloedd;  
Molwch ei enw Ef trwy'r byd,  
Chwithau i gyd, y bobloedd.
- 2 Am ei fod ini yn dda iawn,  
Yr Arglwydd llawn trugaredd;  
A'i air Ef sydd yn parhau byth,  
Sef ei ddilyth wirionedd. E. P.

111

M.S. (M. 4.)

*Moliant i'r Creawdwr.*

1 **C**LODFORED pawb yr Arglwydd  
A'r unig Dduw anfarwol, [byw,  
Anfeidrol, doeth, galluog, da,  
Trugarog a thrag'wyddol.

2 Y nefoedd fry, a'r ddæar hon,  
A'u holl drigolion rhyfedd,  
Y moroedd mawr, a'r tiroedd maith,  
Ynt gysson waith ei fyseidd.

3 Trwy'r byd o'i fron, a'r wybren fry,  
Ei ddwyfol allu welir,  
A'i fawr ddoethineb yn mhob mæn  
Trwy 'r cyfan a ganfyddir.

4 Fe luniodd ddyn yn berffaith dda,  
Mewn hardd sefyllfa ddedwydd;  
A'r holl gysuron y'm ni'n gael  
Ynt roddion hael yr Arglwydd.

5 Rhyfeddol ac aneirif yw  
Gweithredoedd Duw'r Creawdwr;  
Ond mwy rhyfeddol doniau rhad,  
A chariad yr Iachawdwr. E. F.

112

M.S. (M. 4.)

*Ymbiliau am wneub Duw.*

1 **Y**MDDYRCHA, Dduw, y nef uwch-  
Oddiyno daw d'arwyddion; [law,  
A bydded dy ogoniant ar  
Y ddaear, a'i thrigolion.

2 O, estyn eto, i barhau,  
Dy drugareddau tirion;  
Ni a'th adwaenom di a'th ddawn,  
I'r rhai sydd uniawn galon.

3 Llewyrcha i'n c'lonau ni a'th ras,  
Fel byddo gas in' bechu;  
Ac ini mewn sancteiddrwydd rhydd,  
Bob dydd dy wasanaesthu.

4 Dof finnau tua'th dŷ mewn hedd,  
Am dy drugaredd galwaf;  
Mewn ofn, a pharch, a goglud dwys,  
I'th sanctaidd eglwys treiglaf.

5 Mor gu, O Arglwydd, genyf fi  
Dy ddeddf di, a'th gyfammod;  
Ac ar y rhai'n, o ddydd i ddydd,  
Y bydd fy holl fyfyrodd.

6 Glyned fy nghalon bellach byth,  
Duw wrth dy ddilyth eiriau;  
Fel gallwyf deithio 'mlaen o hyd,  
Yn union 'rhyd dy lwybrau. E. P.

113

M.S. (M. 4.)

*SALM CLXVII.*

1 **M**OLWCH yr Arglwydd, can's da yw  
Canu i Dduw yn llafar;  
O herwydd hyfryd yw ei glod,  
A da yw bod yn ddiolchgar.

2 Caersalem, dinas gyflawn fydd,  
Yr Arglwydd sydd i'w darpar;  
Gan gasglu Isrâel yn nghyd,  
A fu trwy'r byd ar wasgar.

3 Yr unig Arglwydd sy'n iachau,  
Yn rhydd o friwiau'r galon,  
Yr Arglwydd rwym eu briwiau'n iawn,  
Y rhai dolurlawn cleifion.

4 Wele, mae llygaid yr holl fyd,  
Yn dysegwyl wrthyd, Arglwydd:  
Tithau a'u porthi hwynt i gyd,  
Bawb yn ei bryd yn ebrwydd. E. P.

114

M.S.

(M. 4.)

*Iddo Ef.*

1 **M**AER gwaed a redodd ar y groes  
O oes i oes i'w gofio;  
Rhy fyr yw trag'wyddoldeb llawn  
I ddweyd yn iawn am dano.

2 Prif destyn holl ganiadau'r nef  
Yw "Iddo Ef" a'i haeddiant;  
A dyna sain telynau glân  
Ar uchaf gân gogoniant.

3 Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen,  
A'i boen wrth achub enaid,  
Yn seinio'n uwch ar dannau'r nef,  
Na hyfryd lef seraphiaid.

4 'Mhen oesoedd rif y tywod mân,  
Ni bydd y gân ond dechreu;  
Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud  
A ddaw o hyd i'r goleu.

5 Nid yw caniadau 'r nef yn awr,  
Ond megys gwawr yn tori,  
Yr hon, fel amnaid fechan iawn,  
Arddengys lawn oleuni.

6 Pan ddelo torf y cystudd mawr,  
O'r anial dirfawr yno,  
Dylenwir croth pob dwyfol dant  
Ag uwch gogoniant iddo.

R. W.

115

M.S.

(M. 4.)

*Duw yn gymhorth.*

1 **E**IN Duw, ein porth mewn oesoedd  
A'n gobaith yn ganlynol; [maith,  
Ein cysgod rhag y dymmestl gref,  
A'n cartref yn drag'wyddol.

2 Yn 'nghysgod d'orseddffainc, dan gél,  
Bu 'th saint yn diogel drigo;  
Digonol yw dy fraich ei hun  
Byth i amddiffyn d'eiddo.

3 Cyn caffael o'r mynyddoedd maith,  
Na 'r ddaear chwaith ei llunio,  
O drag'wyddoldeb Ti wyt Dduw,  
Hyd byth y cyfryw eto.

4 Ein Harglwydd Dduw, pawb Ef,  
mawrhaed,  
Plygwch wrth draed ei fawredd;  
Sancteiddrwydd oll yw natur Duw,  
Trugaredd yw ei orsedd. DR. W.

116

M.S.

(M. 4.)

*Yr hyfryd lais.*

1 **G**WYNFYD y rhai adwaenant lais  
Efengyl fwyngais dirion;  
Yn heddwch a goleuni Duw  
Y rhodia 'r cyfryw ddynion.

2 Llawenydd gwyd eu hysbryd trist,  
Trwy enw Crist, eu Prynwr;  
Cânt trwyddo Ef nesáu at Dduw,  
Diogel yw eu cyflwr.

3 Yr Arglwydd yw ein noddfa glyd,  
Rhudd nerth ac iechyd dwyfol;  
Israel, dy Frenin byth fydd byw,  
Teyrnasa 'th Dduw'n drag'wyddol.

DR. W.

117

M.S.

(M. 4.)

*Yr Arglwydd yw fy Mugail.*

1 **Y**R Arglwydd yw fy Mugail clau,  
Ni âd byth eisiau arnaf;  
Mi gaf orwedd mewn porfa fras  
Ar lân dwfr gloew las araf.

2 Fe goledd fenaidd ac a'm dwg  
'Rhyd llwybrau diddrwg cyfion;  
Er mwyn ei enw mawr dilys,  
Fe'm tywys ar yr union.

3 O'th nawdd y claw y doniau hyn  
I'm canlyn byth yn hylwydd;  
A minnau a breswyliaf byth,  
A'm nyth yn nhŷ yr Arglwydd. R. P.

118 M.S. (M. 4.)

*Hyfrydych yn nhŷ Dduw.*

- 1 **F**Y enaid, pa mor hawddgar yw,  
Y lle mae'th Dduw'n bresennol;  
Nefoedd yw gwel'd ei wyneb cu,  
Er yn ei dŷ daearol.
- 2 Cawn yno wel'd achubol nerth,  
Ein Brenin prydferth nefol:  
A rhwylo i mewn i'n henaid ni,  
Bydd ei oleuni bywiol.
- 3 Yno y diagyn c'lomen ne',  
A lleinw 'r lle â'i doniau;  
A Christ yn rho'i ac eglurhau,  
Ei gariad a'i rasusau.
- 4 Duw, yno 'rwyf yn traethu'n llon,  
Ddirgelion dy ewyllys;  
Ac yno ceisio'th nawdd a wnawn,  
A'th foli cawn yn felys.
- 5 Un fraint a gais fy 'nghalon i,  
O dyro imi drigfan;  
Ym mhlith eglwysi'th saint i fyw,  
Sef tmlau Duw ei hunan. DR. W.

119 M.S. (M. 4.)

*Mor hawddgar yw dy bebyll.*

- 1 **M**OR deg yw'th bebyll Di, O Dduw,  
Mor hawddgar yw'th gynteddoedd!  
Nid oes fath gu balasau gwych  
Tu yma i entrych nefoedd.
- 2 Preswylfa hardd y Brenin mawr,  
Yw Sion werthfawr hylwydd;  
Ac yno bydd ei oredd lân,  
A'i drigfan yn dragwydd.
- 3 Y mae yn diwrnod yno'n well  
Na mil yn mhebyll gwagedd;  
Cawn yn dy dŷ gysuron da,  
Gwir felus, a gorfoledd.

- 4 Mae cadw drws dy deml lân,  
Yn llawer mwy anrhydedd,  
Na byw'n gyfoethog gyda'r fol,  
Mewn rhyw freninol annedd.
- 5 Gwyn fyd a drig o fewn dy dŷ,  
Gan dy foliannu beunydd;  
Cânt wisgo hardd ogoniant gwiw  
Fry gyda Duw'n dragwydd. B. F.

120 M.S. (M. 4.)

*Y Gair.*

- 1 **Y**N 'ngair yr Arglwydd ddydd a nôs,  
Bo 'n aros fy myfyrdod,  
Ac yno boed fy meddwl I  
'N cartrefu hyd fy meddrod.
- 2 Mae hyfryd lais efengyl lon,  
Yn tirion alw beunydd,  
Ar bechaduriaid gwael eu rhyw,  
Dd'od at eu Duw a'u Harglwydd. C. J.

121 M.S. (M. 4.)

*Diogelwch y Credisiol.*

- 1 **G**WYNFYD y dyn a gred yn Nuw,  
Eie gaiff fyw'n drag'wyddol;  
Ei hyder sanctaidd cadarn sydd  
Fel mynydd Sion siriol.
- 2 Trag'wyddol fraich trugaredd gu,  
Sy'n amgylchynu'i enaid:  
A'r mwyn Iachawdwr mawr ni choll  
Fyth un o'r holl ffyddloniaid.
- 3 Pe syrthiai braig golofnau'r byd,  
A'r bryniau, gyd i'r eigion,  
Saif Eglwys Dduw, ni sigla darn,  
O gadarn sylfaen Sion.
- 4 Gafaelu wnelo'r duwiol 'nawr,  
Ar allu dirfawr dwyfol;  
A'i Geidwad doeth, galluog, da,  
A'i gwared yn drag'wyddol. B. F.



122

M.S.

(M. 4.)

*Gwahoddiad yr Efengyl.*

- 1 **G**WRANDAWED clustiau pob dyn  
Llawen'ed pob rhyw galon; [byw,  
Mae udgorn yr Efengyl fwyn  
Yn galw yn addfwyn arnom.
- 2 Doethineb Duw ddarparodd wledd,  
I loni gwael eneidiau;  
A geilw i mewn newynog rai  
I brofi ei harlwyadau.
- 3 De'wch chwi sy'n blysiu'r ffrydiau byw,  
A'ch enaid gwyw ar drengu;  
Cewch dori'ch syched, weiniaid llwfr  
A'r bywiol ddwfr a bery.
- 4 Afonydd gras a chariad sydd,  
Fel môr dihybydd yma;  
Llawn iachawdwriaeth i'r rhai blin,  
Fel laeth a gwin ddylifa.
- 5 Pyrth hyfryd gras efengyl sydd,  
Y nos a'r dydd yn agor,  
Duw, i ddiwallu'n heisieu gwael,  
Ni dde'wn i gael o'th drysor. DR. W.

123

M.S.

(M. 4.)

*Eiriolaeth Crist.*

- 1 **C**OFFAWN yn llawen gyda pharch,  
Am ras ein Harchoffeiriad;  
Un yw o galon dyner iawn,  
A mynwes lawn o gariad.
- 2 Cyd-deimlo mae â'n natur wan,  
Fe w'yr mor egwan ydyw;  
Gw'yr beth yw profedigaeth gref,  
Can's teimlodd Ef y cyfryw.
- 3 Ond diddrwg a difai o hyd,  
Ein Prynwr hefyd safodd;  
Er dyoddef tanlyd saethau'r fall,  
Hyd waed heb ball gwrth'nebodd.

4 Yn nyddiau'i egwan gnawd bu Ef  
Yn tywallt llef a dagrau,  
Fe gydymdeimla eto pan  
F'o aelod gwan mewn poenau.

5 Am hyny yn ei nerth a'i nawdd,  
Rhown ninnau'n hawdd ein hyder;  
Cawn waredigaeth ganddo 'Fe  
Mewn oriau o gyfyngder. DR. W.

124

M.S.

(M. 4.)

*Gwyn eu byd Preswylwyr dy Dfj.*

- 1 **Y**RHAI a blanwyd yn nhŷ Dduw  
Yn goedwydd byw y tyfant:  
Ac yn nghynteddau ein Duw ni,  
Y rheiny a flodeuant.
- 2 O fewn dy babell y bydd byth,  
Fy nhrigfan ddilyth ddedwydd;  
A'm holl ymddiried a fyn fod,  
Yn nghygod dy adenydd.
- 3 Un arch a erchais ar Dduw Naf,  
A hyny archaf eto;  
Cael dyfod i dŷ'r Arglwydd glân,  
A bod a'm trigfan ynddo.
- 4 Yr Arglwydd â'i ddeheulaw gref,  
Hwn a wnaeth nef a daear;  
A roddo ei fendith ef a'i ras  
I Sion ddinas hawddgar. E. P.

125

M.S.

(M. 4.)

*Ar ddechreu odfa.*

**O**ARGLWYDD Dduw, 'rhwn biau'r  
gwaith,  
Arddel dy faith wirionedd,  
Fel byddo i bechod o bob rhyw  
Gael marwol friw o'r diwedd.

126

M.S.

(M. 4.)

*Ty'r Arglwydd.*

- 1 **D**Y babell Di mor hyfryd yw,  
O Arglwydd Dduw y lluoedd;  
Mynych chwennychais weled hon,  
Gan mor dra thirion ydoedd.
- 2 Y man bóst Ti, boed fryn neu fro,  
Sydd gyflawn o ddyddanwch;  
Yn dy gynteddau'n wastad mae,  
Oes, fôr didrai o heddwch.
- 3 Fy enaid fflisia fyn'd ar frys  
I'th gyssegr-lys yn hylwydd;  
Mae'm calon bach, a'm cnawd bob cam  
Yn gwaeddi am yr Arglwydd.
- 4 Am dd'od i'th wydd 'rwyf nos a dydd,  
Fel hydd lluddedig gwirion,  
A red dan frefu 'mlaen bob cam  
I ymfyn am yr afon. w. w.

127

M.S.

(M. 4.)

*Darostyngiad a gogoniant Crist.*

- 1 **O**ARGLWYDD! aeth dy enw mawr,  
Uwch nef a llawr mewn moliant,  
Cyhoeddod gwyr a phlant yn wedd  
Dy fawredd a'th ogoniant.
- 2 Wrth dremio ar y nefoedd faith,  
A gweled gwaith dy ddwyllaw,  
Mor hardd yw'r lloer a'r sêr yn llu,  
Mewn wybren fry'n dysgleiriaw.
- 3 Duw, beth yw dyn na neb o'i ryw,  
Yr hwn sy'n byw mor isel,  
I Ti ymwel'd ag ef a'th ras,  
A'i ddwyn i'th deyrnas uchel!
- 4 Rhyfeddod oedd i'n Harglwydd pur  
Gymmeryd natur ddynol,  
Is na'i angelion ef ei hun,  
I wared pryfyn marwol!

- 5 Coroner Ef a pharch hyd nen,  
Am blygu' i ben hyd angau;  
Cyhoeddod pawb a berchen chwyth,  
Ei foliant byth a'u genau.
- 6 Iesu, ein Harglwydd ni, mor fawr  
'R'aeth d'enw'n awr mewn moliant;  
Cyhoeddod yr holl fyd trwy ras,  
Dy urddas a'th ogoniant. DR. W

128

M.S.

(M. 4.)

SALM CXXXV.

- 1 **O**MOLWCH enw'r Arglwydd nef,  
Ei weision ef molienwch:  
Y rhai a saif i'w dŷ a'i byrth,  
I'n Duw, a'i fawrwyrth cenwch.
- 2 Molwch yr Arglwydd, can's da yw,  
Clod i'r Ior byw a berthyn:  
Cenwch ei glod trwy yr holl fyd,  
A hyfryd yw y testyn.
- 3 Can's mawr yw'r Arglwydd yn ei lys;  
Mi wn yn hysbys hyny;  
Yn mhell uwchlaw'r holl dduwiau mân.  
Mae'r Arglwydd glân, a'i allu.
- 4 Bendithier fyth mawr enw'r Ion,  
O Sion hen, a barchem:  
Bendithier, moler ei enw fo,  
Sy'n trigo yn Nghaersalem. E. P.

129

M.S.

(M. 4.)

SALM XXXVII.

- C**RED ynddo Ef, fe'th dddwg i'r lân,  
Myn allan dy gyfiawnder:  
Mor oleu a'r haul hanner dydd,  
Fel hyny bydd d'eglurder. E. P.

130 M.S. (M. 4.)

*Gweddî am Ymddattodiad Dedwydd.*

- 1 **F**Y Nuw galluog rhwyga'r llen,  
A dal fy mhen yn angau;  
Dod fydd i bur olygu'r lan  
Rhag suddo tan y tônau.
- 2 Boed llewyrch dy ogoniant di,  
Fy Ion yn llenwi f'enaïd,  
Yn lle ammheuaeth, hyder gre';  
A chân yn lle ochenaid.
- 3 Pan ddel (mae'r amser yn nesau)  
Fy einioes frau i fyny,  
Bydd arnaf yn nyfnderau 'r glyn,  
O Iesu gwyn yn gwenu.
- 4 Gwna fi, tra yn y byd y b'wy',  
Am farw'n fwy myfyriol;  
Gan fyw i'th glod, mewn einioes wiw  
A marw i fyw'n drag'wyddol. D. T.

131 M.S. (M. 4.)

*Byr yegafn gystudd.*

- 1 **B**'LE tro' fy wyneb, Arglwydd cu,  
Ond atat Ti dy hunan?  
Pob peth gweledig, thâl ef ddim,  
Ond gwneuthur imi riddfan.
- 2 Os yw'n gofidiau yn y byd  
I bara hyd y diwedd;  
O fewn y nef fe dderfydd hyn,  
Troir tristwch yn orfoledd.
- 3 Po mwyaf gawn o wres y dydd,  
Mwy yno fydd ein moliant;  
Cawn yn lle cystudd byr a dwys,  
Drag'wyddol bwys gogoniant.
- 4 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron  
Holl ddyfroedd chwerwon Mara;  
Pryd hyn y trŷ pob chwerw nant  
Yn win i blant Iehofah.

- 5 Po mwyaf fo'u cyfyngder hwy,  
Bydd fwy-fwy eu cysuron;  
Eu hedd melusach na'r dil mêl,  
A lifa fel yr afon. W. W.

132 M.S. (M. 4.)

*Ar ddechreu odfa.*

- 1 **O**! DEFFRO, deffro, gwiag dy nerth,  
O! brydferth fraich yr Arglwydd;  
Fel yn y dyddiau gynt a fu,  
Amlyga'th alluogrwydd.
- 2 I ennyn ynom nefol dân,  
Duw, anfon dy Lân Ysbryd;  
Aed gyda'th eiriau sanctaidd di  
Nerth a goleuni hefyd.
- 3 O Arglwydd! dyro ini'n glau  
Y tywalltiadau nerthol,  
O weithrediadau'r Ysbryd Glân,  
A'u grym fel tân angerddol. J. H.

133 M.S. (M. 4.)

*SALM XLIII.*

- 1 **T**YDI yw Duw fy nerth i gyd,  
Paham y'm bwrid ymaith?  
Paham yr af mor drwm a hyn  
Gan bwys y gelyn diffaith?
- 2 O! gyr dy oleu, moes dy wir,  
Ac felly t'wysir finnau;  
Arweiniant fi i'th breswylfeydd,  
I'th fynydd, ac i'th demlau.
- 3 Yna yr af at allor Duw,  
Y Duw goruchel hyfryd;  
Ac ar y delyn canaf fawl  
Duw, Duw fy hawl a'm gwynfyd. E. F.

134

M.S.

(M. 4.)

*Dibyniad ar Grist.*

- 1 **R**HAIID imi gael pob gras, pob dawn,  
O'th drysor llawn yn gyfan;  
Ac oni chaf, fy enaid prudd  
A gyll y dydd yn fuan.
- 2 Dy wisg dy hun, Cyfiawnder hael,  
Sydd raid im' gael yn mlaenaf;  
Nid oes ond ofni dan fy mron,  
Nes cafwyf hon am danaf.
- 3 Sancteiddrwydd im' yw'r Oen dinam,  
'Nghyfiawnder a'm doethineb;  
Fy mhrynedigaeth o bob pla,  
Fy Nuw i drag'wyddoldeb.
- 4 Gwyn fyd y rhai dilëaist eu bai,  
Eu pechod a'u hanwiredd;  
Gan roi iddynt nerth, er cnawd a byd,  
I bara hyd y diwedd.
- 5 Dysgwyl yr wyf, a hyn bob cam,  
Fel gwyliwr am y boreu,  
I brofi cryfder braich dy ras,  
I'm tynu maes o'm beiau.      W. W.

135

M.S.

(M. 4.)

*Bwrdd yr Arglwydd.*

- 1 **W**EL, dyma wledd, gwledd ein Duw  
O baagedigion breision: [Ion,  
A gwin puredig yn ddidrai,  
I lawenhau y cleifion.
- 2 Os claf, os gwan, os t'lawd o hedd,  
O de'wch i'r wledd yn fuan;  
De'wch a'ch hachwynion o bob rhyw,  
Fe'u hetyb Duw ei hunau.
- 3 Yma cewch wel'd eich Harglwydd  
Yn rhoddi lawr yn hollol, [mawr,  
Ei hun i angeu,—angeu'r groes,  
Yy ddiddig dros ei bobol.

- 4 Cawn fwyta'i gnawd (wel, dyma rad),  
Ac yfed gwaed yr Iesu;  
P'odd gall ein c'lonau ni bob rhai,  
'N dragywydd lai na'i garu?
- 5 Mi gofia eiriau'm Harglwydd hael,  
Yr hwyr cyn cael ei hoelio;  
I fwyta'i swper minnau ddof  
Yn mlaen, er c'of am dano.      W. W.

136

M.S.

(M. 4.)

*O flaen pregeth.*

- 1 **T**YR'D Ysbryd Sanctaidd dangos rym,  
Dy nerthol lym wirionedd:  
Rho rasol fendith yma'n awr,  
I fwrw i lawr anwiredd.
- 2 Rho ddawn a goleu Arglwydd Iôr,  
I draethu'r cynghor dwyfol;  
Ac agor di y galon gau,  
I dderbyn d'eiriau nefol.
- 3 Perfeithia, Iôr, dy nerth, sydd fawr,  
Yn ngwyneb dirfawr wendid;  
Rho i'r newynog, t'lawd, a chaeth,  
Ysbrydol faeth a rhyddid.
- 4 Wel dyro eto gymhorth rhwydd,  
O Arglwydd yr arglwyddi;  
Lle'r amlhäodd perchod cäs,  
Gwna di i'th ras ragori.      T. J.

137

M.S.

(M. 4.)

*Noddfa newm adfyd.*

- 1 **D**Y ras, dy nawdd, fy Nuw im' dod,  
Sef ynod ywddiriedaf;  
Nes myned heibio'r aflwydd hyn,  
Dan d'edyn ymgysgodaf.
- 2 Ymddiried f'enaid ar Dduw sydd,  
Ar Dduw drwy ffydd y galwaf:  
Ef a gyflawna'i air yn iawn,  
Sef cyfiawn yw'r Goruchaf.      R. P.

138

M.S.

(M. 4.)

*Bedydd tân yr Ysbryd.*

1 **B**EDYDDIER fi a'r Ysbryd Glân,  
A thân pwerus nerthol,  
Fel byddo i farn a llosgfa fod,  
Ar bechod yn wastadol.

2 O! golch fi beunydd, golch fi'n lân,  
Golch fi yn gyfan Arglwydd:  
Fy nwyllaw, calon, pen, a'm traed,  
Golch fi a'th waed yn ebrwydd.

3 Gwasgara weddill pechod câs,  
Sêl fi a'th ras yn drigfan;  
Yn berffaieth hardd, yn deml wiw—  
Adeilad Duw, ei hunan. w. w.

139

M.S.

(M. 4.)

*Syched am fwyngau Duw.*

1 **Y**R unwedd ag y bref yr hydd  
Am yr afonydd dyfroedd,  
Felly y mae fy hiraeth i,  
Am danat Ti, Duw'r nefoedd.

2 Fy enaid i, sychedig yw,  
Am fy Nuw byw a'i gariad:  
Pa bryd y dof fi ger dy fron,  
Fy Nuw a'm cyfion Ynad?

3 Trwm, f'enaid, wyt o mewn, paham  
Y rhoi brudd lam ochenaid?  
Dysgwyl wrth Dduw, a doi ger bron,  
Ei wyneb tirion canaid. E. P.

140

M.S.

(M. 4.)

SALM LXI.

1 **E**RGLYW, O Dduw, fy llefain i,  
Ac ar fy ngweddi gwrando:  
Rhof lef o eitha'r ddaear gron,  
A'm calon yn llesmeirio.

2 Dwg fi i dalgraig uwch na mi,  
Ac iddi bydd i'm derbyn:  
Can's Craig o obaith, Tŵr di-fost,  
I'm fuost rhag y gelyn.

3 Can's clywaist Ti, O Dduw, yn glau,  
Fy addunedau puraidd:  
Rho'ist etifeddiaeth i bob rhai,  
A ofnai d'Enw sanctaidd. E. P.

141

M.S.

(M. 4.)

*Profiad o lesgedd.*

1 **D**ARFU fy nerth, 'rwy'n llwfrhau,  
Yn d'allu mae f'ymddiried;  
Nerth mawr, difesur, fel y môr,  
Genyt sy'n stôr i'r gweiniaid.

2 Ti'm tynaist i o ganol tân,  
A mi o'r blaen yn ofni;  
Gwna hyny eto'r fynydd hon,  
Mae f'enaid bron a threngu.

3 Mi bwysaf stat eto 'n nes;  
Pa les im' ddigaloni?  
Mae son am danat yn mhob man,  
Yn codi 'r gwan i fyny. w. w.

142

M.S.

(M. 4.)

RHAN O SALM CXXII.

1 **O**'R dyfnder gelwais arnat, Ion;  
O Arglwydd tirion, gostwng  
Dy glust, ystyria y llais mau,  
Clyw fy ngweddiau teilwng.

2 Duw, pwy saif yn dy wyneb Di,  
Os creffi ar anwiredd?  
Ond fel y'th ofner Di yn iawn,  
Yr wyt yn llawn trugaredd.

3 Dysgwyliais f'Arglwydd, wrth fy rhaid,  
Dysgwyliond f'enaid arno;  
Rhois fy holl obaith yn ei air,  
Fy enaid gair yn effro. E. P.

143 M.S.D. (M. 4A.)

*Crist yn eogyn ac yn tegrnasau.*

1 **O** CENWCH fawl i Brynwr byd,  
Nesewch i'w gyd-addoli,  
Mae'r engyl pur mewn nefol iaith,  
Yn hoffi'r gwaith o'i foli:  
Esgynodd Crist mewn cyfiawn hawl  
Trwy fythawl byrth gogoniant,  
A phlygai'r nefoedd ag un llef,  
I'w dderbyn Ef mewn moliant.

2 Nesewch, nesewch genedloedd byd,  
O unfryd a'r angelion,  
Mae Brenin nef yn un o'n cnawd,  
Mae'r Iesu'n frawd i ddyinion:  
Moliennwch Ef o galon bur,  
Mae'n haeddu'r oll a feddwn;  
Gwardwr dyn yw Brenin ne',  
Pwy ond Efe a folwn ?

3 Nid Brenin Israel yw yn awr  
Ond Brenin mawr yr hollfyd;  
Daw delw'r byd i ddelw'r nef  
Pan enfyn Ef ei Ysbryd;  
Daw pobloedd daear o bob lliw  
Yn siriol i'w groesawu,  
A cherdda'r anthem drwy bob gwlad  
I roi mawrhâd i'r Iesu. W. A.

144 M.S.D. (M. 4A.)

REAN O SALM LXXIII.

1 **D**Y faith drugaredd, O Dduw byw,  
Rhagorach yw na'r bywyd;  
A'm genau rhoddaf iti fawl,  
A cherdd ogonawl hyfryd;  
Felly tra fyddwyf byw y gwnaf,  
Ac felly'th folaf eto,  
Ac yn dy enw di sydd gu  
Y caf ddyrchafu 'nwylo. E. P.

145 M.S.D. (M. 4A.)

REAN O SALM LXXXIX.

1 **T**RWY gynnulleidfa ei saint ef,  
Duw nef y sydd ofnadwy;  
A thrwy'r holl fyd o'n hamgylch ni,  
Ei ofni sydd ddyladwy:  
Pwy sydd yn debyg it', Dduw byw,  
O Arglwydd Dduw y lluoedd ?  
Yn gadarn Ior, a'th wir i'th gylch,  
O amgylch yr holl nefoedd. E. P.

146 M.S.D. (M. 4A.)

REAN O SALM XXXIII.

1 **C**ENWCH i'r Ior fawl a mawrhâd,  
Wiw gerdd o ganiad newydd;  
Yn llafar cenwch iddo glod,  
Bid parod eich lleferydd:  
O herwydd uniawn yw ei air,  
A ffyddlawn cair ei weithred,  
Barn a chyfiawnder ef a'u câr,  
A'r ddaear llawn o'i nodded.

2 Gair yr Arglwydd a wnaeth y nef,  
A'i Ysbryd ef eu lluoedd;  
Efe a gasglai 'nghyd y môr,  
A'i drysor yw'r dyfnderoedd;  
Y ddaear oll ofned ein Duw,  
A phob dyn byw a'i preswyl;  
Ei arch a saif, a'i air a fydd,  
A hyny sydd i'w ddygwyl.

3 Efa ddirymodd (fy Nuw Ior)  
Holl gynghor y cenedloedd;  
A gwna trwy lysiant yn ddi-rym  
Amcanion llym y bobloedd:  
A phob cenedloedd dedwydd y'nt  
Os Duw sydd iddynt Arglwydd:  
A'i ddewisolion ef a'u gwnaeth  
Yn etifeddiaeth hylwydd. E. P.

Tonau—ALL ANGELS, ANGEL'S SONG.

147

M.H.

(M. 5.)

*Goruchelder Duw.*

- 1 **O** SALEM hardd ! preswylfa'n Nêr  
Tu hwnt i gylchoedd maith y sér—  
Neillduol gartref Duw ei Hun,  
Sy'n mhell uwchlaw dychymmyg dyn.
- 2 Ymgryma'r engyl yno i lawr  
Ger bron y presennoldeb mawr,  
A'r saint prynedig rif y gwllith,  
Heb ond un anian yn eu plith.
- 3 A feiddiwn ni farwlonion ddod,  
Ger bron ein Duw i seinio'i glod ?  
Trwy angeu'r groes rhoed i ni hawl  
I draethu'n cwyn ac odli'n mawl.
- 4 Dechreuwn heddyw ar y gwaith,  
Mewn marwol fyd, mewn dynol iaith,  
Nes cael ein lle yn mysg y llu  
Sy'n ddedydd yn y nefoedd fry.

W. A.

148

M.H.

(M. 5.)

*Coronwch Ef.*

- 1 **H**ENFFYCH i enw Iesu gwiw,  
Syrthied o'i flaen angelion Duw ;  
Rho'wch iddo'r parch holl deulu'r nef :  
Yn Arglwydd pawb, coronwch Ef.
- 2 Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,  
Plygwch yn isel wrth ei draed ;  
Fe'ch tynodd â thrugaredd gref :  
Yn Arglwydd pawb, coronwch Ef.
- 3 Boed i bob llwyth a phob rhyw iaith,  
Trwy holl derfynau'r ddaear faith,  
Gydganu'n llafar iawn eu llef :  
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.
- 4 Er bod eu beiau'n aml iawn,  
Mae ganddo iachawdwriaeth lawn ;  
Eu cânu'n wyn wna Brenin nef :  
Yn Arglwydd pawb, coronwch Ef.

149

M.H.

(M. 5.)

*Y waredigol dyrfa.*

- 1 **O** FLAEN y fainc mil miloedd mae,  
Pwrcas ei waed, ei chwys, a'i wae :  
Y dyrfa fawr fu gynt ar goll,  
Yn awr yn gorfoleddu oll.
- 2 Eu dagrau oll a sychwyd ffwrdd,  
Galar a thristwch byth nis cwrdd ;  
Ni ddaw marwolaeth mwy na phoen,  
I wydd y croeshoeliedig Oen.
- 3 Priodferch Iesu ydyw rhai'n,  
A wisgwyd oll â lliain main ;  
Yn edrych ar ei wedd bob awr,  
Yn nghanol y gogoniant mawr.
- 4 Gwynfyd fa'i 'mhlith y miloedd myrdd,  
Sy'n awr yn dal y palmwydd gwyredd ;  
O, Arglwydd da, dywed a ga'i,  
I fod yn un o'r dysglær rai ?

W. W.

150

M.H.

(M. 5.)

*Tlodi a gras.*

- 1 **D**YMA gyfarfod hyfryd iawn,  
Myfi yn llwm a'r Iesu'n llawn ;  
Myfi yn dlawd heb feddu dim,  
Ac yntau'n rhoddi pob peth im'.
- 2 Anturia, 'nghalon euog ddu,  
At orsedd gras yn awr yn hy' ;  
Mae'r fainc yn rhydd, a'r rhodd yn rhad  
I'r sawl a gredo yn ei waed.
- 3 Mae gras yn rhyw anfeidrol stôr,  
A doniau ynot fel y môr ;  
O, gâd i'r truenusaf ddyn  
Gael profi gronyn bach o'u rhin.
- 4 Yn rhad rhaid it' roi'r cwbl im,  
Ni feddaf werth, na nerth, na grym ;  
'Nol rhoddi, eilwaith trefnu'm gras,  
'Mhob brwydr cyn'r ennillwy'r maea.

W. W.

151

M.H.

(M. 5.)

*Mwynhad o Grist.*

- 1 **N**EF o achubol ras a hedd,  
Sydd Iesu, yn dy ddyaglaer wedd,  
Yn rhoi'n serchiadau oll ar dân  
I garu a moli'th enw glân.
- 2 Pan deimlwyf lewyrch wyneb Duw,  
Pan allwyf dd'weyd mai f'eiddo yw,  
Lawr dan fy nhraed rwy'n sathru'r byd,  
Ei fawredd a'i bleserau i gyd.
- 3 Tro'n llygaid a'n heneidiau ar waith,  
I edrych ar d'ogoniant maith;  
Ni allem yma dreulio'n rhwydd,  
Un dydd trag'wyddol yn dy w'ydd.
- 4 Cysuron dy ddeheulaw bur  
Rho in' wrth deithio'r anial dir;  
Ac yn dy deml O! gâd i ni  
Wel'd llewyrch teg dy wyneb di.

DR. W.

152

M.H.

(M. 5.)

*Teyrnasiad Crist.*

- 1 **Y**R Iesu a deyrnass'n grwn  
O godiad haul hyd fachlud hwn,  
Ei deyrnas â o för i för  
Tra fyddo llewyrch haul a lloer.
- 2 Teyrnasoedd, pobloedd o bob iaith,  
F'w gariad rhoddant foliant maith;  
Babanod ieuainc llesg eu llef,  
Yn fore a'u clodforant Ef.
- 3 Lle y teyrnaso bendith fydd,  
Y caeth a naid o'u rhwymau'n rhydd:  
Y blin caiff fythol esmwythâd,  
Ar holl rai clwyfus iechyd rhad.
- 4 Rho'ed pob creadur yn ddilyth  
Neillduol barch i'n Brenin byth;  
Angelion, molwch Ef uwch ben,  
A'r ddaear d'wedded byth, Amen. DR. W.

153

M.H.

(M. 5.)

*Cariad Crist.*

- 1 **'N**AWR ar ei fwrdd mae'r Brenin  
mawr,  
Mewn gwisg o gariad hyd y llawr;  
Yn rhoddi'n rhad o'i hyfryd wledd,  
I mi faddeuant llawn a hedd.
- 2 Mae peraroglau'i gariad drud,  
Yn myn'd ar aden dawel glud;  
Ac yn coffeidio i'w fynwes gun,  
Gyfeillion Iesu bob yr un.
- 3 Anfeidrol yw ei gariad Ef,  
A threch na'r cwbl dan y nef;  
Rhyw fflam angerddol gadarn lym,  
Nad oes yn bod a'i diffydd ddim.
- 4 Mae'n drech na dyfroedd lawer iawn,  
Ac nac afonydd dyfnion llawn;  
Nid all'sai'r groes, a'r bicell gref,  
Ei ladd, na chwaith ei oeri ef. W. W.

154

M.H.

(M. 5.)

*Galwad ar Ieuentyd.*

- 1 **C**YSSEGRWN flaenfirwyth ddyddi-  
au'n hoes  
I garu'r Hwn fu ar y groes;  
Mae mwy o bleser yn ei waith,  
Na dim a fedd y ddaear faith.
- 2 Cael bod yn fore tan yr iau,  
Sydd ganmil gwell na phleser gau:  
Mae ffyrdd doethineb oll i gyd,  
Yn gysur ac yn hedd o hyd.
- 3 Y plant a wasanaethant Grist,  
Cânt ddianc byth rhag uffern drist;  
Mae myrdd o ie'nctyd yn y nef,  
Yn berlau yn ei goron Ef.
- 4 O! na threuliaswn yn ddi goll  
O dan iau Crist, fy mebyd oll:  
Mae'r Hwn a'm prynodd ar y groes,  
Yn deilwng o bob awr o'm hoes. P. J.



155

M.H.

(M. 5.)

*Y Sabbath llon.*

- 1 **G**WAITH hyfryd iawn a melus yw,  
Moliannu d'enw Di, O Dduw!  
Son am dy gariad fore glas,  
A'r nos am wirioneddau'th ras.
- 2 Melus yw dydd y Sabbath llon—  
Na fined gofal byd fy mron;  
O! boed fy nghalon i mew'n hwyl,  
Fel telyn Dafydd ar yr wyl.
- 3 Yn Nuw, fy nghalon llawenhâ,  
Bendithio'i waith a'i air a wna;  
Mor hyfryd gwaith dy ras, O Dduw,  
A'th gynghor, O, mor ddyfined yw!
- 4 Ond mi gaf ogoneddus ran,  
Pan buro gras fy enaid gwan;  
Mae gwir lawenydd uwch y nen,  
Fel olew pur i loni'm pen.
- 5 Caf wel'd a chlywed yno 'nghyd,  
Oll a ddymunais yn y byd;  
A'm henaid a gaiff felus waith,  
Yn y trag'wyddol fywyd maith.

DR. W.

156

M.H.

(M. 5.)

*Temlau gras.*

- 1 **O**DDIWRTH bob gofal bydol sy',  
Ein henaid, Arglwydd, ymaith try;  
Y byd a'i bethau gwael gadawn,  
A dysgwyl wrth ein Duw a wnawn.
- 2 Yn nhemlau'th ras, O Arglwydd, cawn,  
Dy weled a'th addoli'n iawn;  
Ac edrych ar dy wyneb cu,  
A'th nerth a'th degwch yn dy dŷ.
- 3 Dad, chwennych mae fy enaid i,  
Fod yn dy deml gyda Thi:  
Ond 'mado o'th dŷ os rhaid i'm traed,  
Tydi o'm calon byth na 'mâd.

DR. W.

157

M.H.

(M. 5.)

*Gogoniant a gras yn mherson Crist.*

- 1 **F**Y enaid deffro, a'm tafod cân,  
Ardderchog glod i'r Arglwydd glân;  
Hosanna i'r trag'wyddol Dduw,  
Ei gariad Ef diderfyn yw.
- 2 Yn ngwyneb Crist llewyrcha'i ma's,  
Y ddelw decaf oll o'i ras;  
Gwnaeth Duw yn mherson Iesu glân,  
Waith mawr tu hwnt i ddim o'r blaen.
- 3 Y ddaear faith a'r eang fôr,  
Sy'n dadgan gwaith ein cadarn Ior;  
A'i fawr ogoniant welir fry,  
Yn ddysglaer yn mhob seren sy'.
- 4 Ond yn edrychiad Iesu cawn,  
Wel'd holl ogoniant Duw yn llawn;  
Dysgleirdeb hoff ei wyneb Ef,  
Lewyrcha'n fwy na holl lu'r nef.
- 5 Gras, mae fe'n destyn peraidd braf;  
Wrth enw'r Iesu llawenhâf;  
Angelion, sefwech ar y sw'n;  
O'r nef i'r ddaear adseiniwch hwn.
- 6 O, na allwn fyw i fyn'd i'r lle,  
Cawn wel'd ei wyneb hawddgar 'f!  
Yno'i holl degwch eglurhâir,  
A'i foli wnant ar delyd aur.

DR. W.

158

M.H.

(M. 5.)

*Nerth yn ol y dydd.*

- 1 **O**ARGLWYDD, dyro fwy o flas  
Ar wirioneddau mawr dy ras,  
A goleu pur dy Ysbryd Glân,  
I dywys f'enaid gwan yn mlaen.
- 2 O Dduw, rho nerth yn ol y dydd,  
I deithio'n nglyn wylofain prudd,  
Nes d'od uwch cyrhaedd byd a chnawd,  
A holl elynion f'enaid tlawd.

D. J. (J.)

159

M.H.

(M. 5.)

*Argyhoeddiad.*

- 1 **P**E cawn i'm rhan drysorau'r byd,  
Ei rwysg a'i wynfyd oll ynghyd,  
Mi rown i lawr y cwbl yn llon,  
Am brofi heddwch dan fy mron.
- 2 Pe cawn y fraint o wrando'n awr,  
Holl bér ganiadau 'r nefoedd fawr,  
Nid hyny'n wir a'm hesmwythái,  
Tra bwyf yn griddfan dan fy mai.
- 3 O! d'wéd y gair, fy Arglwydd Dduw,  
Y gair, wna'm henaid oll yn fyw,  
O! d'wéd dy fod yn maddeu i mi,  
Fy meiau oll er maint eu rhi'.
- 4 Os d'wedi hyn, mi deimlaf hedd,  
Ni charai'r byd, nid ofnai'r bedd,  
Fy mhrosiad llwfr, dry'n ganiad llon,  
A'r nef ddechreu a dan fy mron. W. A.

160

M.H.

(M. 5.)

*Mawl am gadwedigaeth.*

- 1 **D**UW, ynot mae ffynnonau llawn,  
O gariad a diderfyn ddawn;  
O! cudd fi dan d'adenydd cu,  
Nes chwyther heibio'r cwmwl du.
- 2 I'r nef anfona'm llef a'm llais;  
Yr Arglwydd a gyflawna 'nghais:  
Ei angel enfyn oddi fry,  
A rhag y storm fe'm ceidw'n gu.
- 3 Dyrchafer Di uwch nef, O Dduw,  
Lle mae'r angelion pur yn byw:  
Traether dy nerth trwy'r byd ar led,  
A gwlad wrth wlad dy wyrth a dd'wéd.
- 4 Fy nghalon parod yw hi'n awr  
I feithrin parch i'th enw mawr;  
Fy nhafod, deffro, seinis'i glod,  
A'i iachawdwriaeth allan dod.
- 5 Uwch daear ei drugaredd sy'  
Yn cyrhaedd i'r eithafoedd fry:  
Saif ei wirionedd byth heb goll,  
Pan ddarffo'r byd a'i olud oll. C.F.F. D. J.

161

M.H.

(M. 5.)

*Emyn Foreuol.*

- 1 **O!** FENAID deffro, cân yn awr,  
Fel adar achub flaen y wawr;  
Os mawl a berthyn iddynt hwy,  
Perthyn i mi fil miloedd mwy.
- 2 Fy nyled fawr feunyddiol yw  
Talu ufuddaf glod i Dduw;  
Yn byw'n y byd tra byddaf fi,  
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.
- 3 Fy Mhrynwr yw, mae'n haeddu cael  
Y blaenffrwyth o'm gwasanaeth gwael;  
Am drugareddau rhad heb ri',  
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.
- 4 Beth os yw poen a chiroesau'r byd  
Fel tôn ar dôn yn curo o hyd;  
Er maint fy nghroes, fy mhoen a'nghri,  
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi. R. P.

162

M.H.

(M. 5.)

*Trefniad yr arfaeth.*

- F**E drefnwyd draw mewn arfaeth bell,  
I gadw myrdd a'u gwneyd yn well,  
'Doedd dim yn well i wneyd a hwy,  
Na'u cuddio yn Ei farwol glwy'. W. W.

163

M.H.

(M. 5.)

*"Gorphenwyd."*

- 1 **G**ORPHENWYD! medd ein Iesu  
mawr:  
A'i fywyd rhoes o'i fodd i lawr:  
Gorphenwyd! do, fe gaed y dydd;  
Fe dalwyd Iawn, daw'r caeth yn rhydd.
- 2 Gorphenwyd! clywch y gair i gyd;  
O hyfryd sain amgylcha'r byd:  
Gorphenwyd! aed yr adsain lon  
Trwy nef y nef, a'r ddaear gron. P. J.

164 M.H. (M. 5.)

*Amynedd y Credadyn dan y groes.*

- 1 F'Y enaid paid a llwfrhau,  
Wrth wel'd gofidiau'n amlhau:  
Fe dry fy Nuw y croesau blin,  
Ar ben y daith yn felus win.
- 2 Fe'u rhifwyd gan anfeidrol Fôd,  
Cyn imi gwrdd ag un erioed;  
Fe'u pwyswyd yn y glorian fawr,  
Cyn cael fy mod ar ddaear lawr.
- 3 Mi dro fy ngolwg tua'r bryn,  
Lle daeth im' nerth wrth raid cyn hyn,  
Nes delo'r awr i fyned trwy  
Na wela'i groes na thrallod mwy.

J.

165 M.H. (M. 5.)

*Gweddî am gynaliaeth a grds.*

- 1 O, NERTHA f'enaid gwan ei ffydd,  
Roi 'ngofal arnat Ti bob dydd;  
Heb flino 'nghylch amseroedd draw,  
Y rhai o bosibl byth ni ddaw.
- 2 D'ysgwyddau Di ddeil feichiau mawr,  
Arnynt mae'n gorphwys nef a llawr;  
Am hyn fy holl ofidiau i  
Gânt bwysu 'n gyfan arnat Ti.
- 3 Dy iau sydd esmwyth im' o hyd,  
Trwy rin dy groes a'th gariad drud,  
A'th faich sydd ysgafn—hyfryd yw  
Wrth brofi'th hedd a'th gariad gwiw.
- 4 Pâr fod d'ogoniant pur, dilyth,  
Yn nod a dyben imi byth;  
Dy fywyd hardd, a'th eiriau gwir,  
Yn wastad imi 'n rheol bur.
- 5 Rho imi lechu 'n dawel, glyd,  
Tu hwnt i swn fy meiau gyd,  
Uwch twrf a themtasynau 'r llawr,  
Tan gysgod dy gyfiawnder mawr. w. w.

166 M.H. (M. 5.)

*Y meusydd nefol.*

- 1 I'R meusydd nefol fry, lle rhed  
Y dyfroedd bywiol, pur, ar led;  
Dymunai f'enaid hedeg 'nawr,  
Ond pechod sy'n ei wasgu lawr.
- 2 Dy werthfawr waed, anwylaf Grist!  
All dynu 'm holl euogrywydd trist;  
A thithau, G'lomen nefol, fwyn,  
All ar d'adenydd yno'm dwyn.
- 3 Pe gallwn esgyn fry i'r ne',  
A gwel'd gogoniant llawn y lle,  
Mor fach, mor wael, y byddai'r byd  
A'i bethau—yn fy nghyfri i gyd.
- 4 O, Frenin mawr, Duw oll yn oll!  
Gâd wel'd dy wyneb tég heb goll;  
A m holl alluoedd seinia i maes  
D'anfeidrol fawredd a dy ras.

DR. W. CYF. D. J.

167 M.H. (M. 5.)

*Crist yn Frenin.*

- 1 TEYRNASU fry mae Ef yn awr,  
Gan edrych rhwng y sér i lawr:  
A gweled mae fy enaid gwan  
Yn teithio o'r anial fyd i'r làn.
- 2 Eistedda ar ddeheulaw'r Tad,  
Y nef sy'n ffamio dan ei draed;  
Ar orsedd wen, ofnadwy'n wir,  
Yn ughanol y goleuni pur.
- 3 Mil myrdd angelion yn ei wydd,  
Ag enaid rhydd yn moli'n rhwydd:  
Seraphiaid a cherubiaid lu,  
Yn seinio drwy'r holl nefoedd fry.
- 4 Mewn gwisg i'w draed a gwregys aur,  
Fy Mrenin cadarn yno cair,  
Ger bron ei Dad yn cofio'i loes,  
Y goron ddrain ac angeu'r groes. w. w.

168

M.H. (M. 5.)

*Addoli Dduw yn y nef.*

1 **H**OLL deulu'r byd ar lasar lef,  
Cydonwn 'nawr a theulu'r nef,  
I wasanaethu'r Arglwydd glân,  
De'wch mewn llawenydd ac mewn cân.

2 Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd  
Dduw;

Efe a'n gwnaeth 'ry'm ynddo'n byw;  
'Ry'm oll yn eiddo Brenin nef,  
Ein cynnal wneir â'i ddoniau Ef.

3 O fewn ei byrth mewn llawen floedd,  
Rho'wn ddiolch gwiw a mawl ar goedd;  
Ac yn nghynteddau'i ras yn awr  
Bendithiwn enw'n Harglwydd mawr.

4 Can's da yw Duw, ein cadarn Ior,  
A'i ras sydd annherfynol fôr;  
Mae ei wirionedd pur di-lyth  
Heb waelod, glân, na therfyn byth.

5 Am hyny, tra parhao'n taith,  
Ei ogoneddu fyddo'n gwaith,  
Gan ymgyssegru ddyddiau'n hoes,  
I fyw ar Grist a gwaed y groes.

6 Ac wedi gorphen ar y llawr,  
Cawn uno gyda'r dyrfa fawr,  
O fewn trigfanau'r nefoedd wen,  
A seinio mwy hosanna, Amen. T. P.

169

M.H. (M. 5.)

*Teilwng yw yr Oen.*

1 **D**E'WCH a chydseiniwn hyfryd gainc,  
A'r nefol lu o flaen y fainc;  
Tafodau ddeng mil sydd i'r rhai'n  
Ond un llawenydd oll a sain.

2 Teilwng yw'r Oen ga'dd farwol glwy',  
Gael ei ddyrchafu, meddant hwy;  
Teilwng, atebwn ninnau, yw  
Yr anwyl Oen sydd eto'n fyw.

3 Ein Harglwydd Iesu, teilwng yw  
O barch a gallu oddiwrth Dduw;  
Bendithion mwy nag allom ni  
Byth, Arglwydd, ro'i, a fo i TL.

4 Boed i drigolion nef a llawr,  
Yr wybren fry a'r moredd mawr,  
Ddyrchafu'i degwch Ef a'i ras,  
Ag uchel floedd a nefol flas.

5 Yr holl gre'digaeth, ag un llef,  
Fendithio'i enw sanctaidd Ef,  
Sy'n eistedd ar yr orseddfainc,  
A byth i'r Oen boed peraidd gainc.

DR. W.

170

M.H. (M. 5.)

*Llawenydd yn y nef am edifeirwch pechadur.*

1 **P**WY draetha'r fath lawenydd sy'  
Trwy holl gynteddau'r nefoedd fry,  
Pan ddél afradlon tua thref,  
Pan aner un etifedd nef.

2 Boddloni'n llawen y mae'r Tad,  
Wel'd ffrwyth ei fythol gariad rhad;  
Y Mab yn llon a edrych lawr,  
Ar bwrcas ei ddyoddefaint mawr.

3 A hoffi gwel'd mae Ysbryd Duw,  
Yr enaid marw wnaeth E'n fyw;  
A seintiau ac angelion glân,  
Am gynnwdd teyrnas Duw a gân.

DR. W.

171

M.H. (M. 5.)

*Hiraeth am y nefol fyd.*

1 **F**Y Nuw, gad wel'd dy nefol wedd,  
A chlywed hyfryd lais dy hedd,  
Yn dwyn fy nghalon ar dy ôl,  
Oddiar y byd a'i bethau ffol.

2 O Arglwydd, dyro'm serch a'm bryd  
Yn fwy ar bethau'r nefol fyd;  
A'th gynghor yma arwain fi,  
A dwg fi yna atat ti.

W. H.

172

M.H.

(M. 5.)

*Undeb Cristionogol.*

1 **D**UW, tyr'd â'th saint o dan y ne,  
O eitha'r dwyrain bell i'r de,  
I fod yn dlawd, i fod yn un,  
Yn ddedwydd ynot ti dy hun.

2 Un llais, un swn, un enw pur,  
O'r gogledd fo i'r dwyrain dir,  
O för i för, o gylch y byd,  
Sef enw Iesu oll i gyd.

3 Darfydded son yn mhob rhyw fan  
Am ddoniau mawr a doniau gwan:  
Darfydded enwau pob rhyw ddyn:  
Aed oll yn ddim ond ti dy hun.

4 Na foed gan un pererin mwy  
Ganiadau am ddim ond marwol glwy';  
Pan y teyrnasa'i Ysbryd ef,  
Y ddaear dywyll dry yn nef.

5 O! tyr'd ar frys, Iachawdwr mawr,  
Disgyned d'Ysbryd yma i lawr,  
Gwna i'r torfeydd a brynodd gwaed  
Gyd-gerdded tua'r hyfryd wlad:—

6 Cyd-fyn'd o hyd, dan ganu 'mlaen,  
Cyd-ddioddef yn y dŵr a'r tân,  
Cyd-gario'r groes, cyd-lawenhau,  
A chyd-alaru dan bob gwae. w. w.

173

M.H.

(M. 5.)

*Ac eto mae lle.*

1 **L**LEFWCH, genhadon Duw o hyd,  
O, wele waed Iachawdwr byd!  
Cymhellwch bawb dd'od ato 'Fe,  
Mae'r Iesu 'n dweyd fod eto le.

2 Chwi rai newynog, tlawd, nesewch,  
O amgylch drws Messia de'wch;  
Gwrandewch ei lais a'i alwad E',  
Mae'r Iesu 'n dweyd fod eto le.

3 Pwy bynag gredo yn Mab Duw,  
Yr enaid hwnw byth fydd byw;  
Caiff ernes 'nawr o deyrnas ne',  
Mae'r Iesu 'n dweyd fod eto le. D. J.

174

M.H.

(M. 5.)

*"Bywhâ dy waith."*

1 **O**ARGLWYDD Dduw, bywhâ dy  
waith,  
Trwy holl derfynau'r ddaear faith;  
Tros dir a môr dysgleiried gras,  
Gan lwyr orchfygu pechod cas.

2 Eglwysi hardd fel gwinwydd fr,  
Flaguro'n dæg drwy'r gogledd dir;  
A theyrnas Crist trwy'r deheu cras,  
Flodeuo ar led fel Eden lân.

3 Clodfored pob creadur byw,  
Yr unig ddoeth anfarwol Dduw;  
Gwna 'r ddaear hon yn ddelw gu,  
O'r nefoedd ogoneddus fry. B. F.

175

M.H.

(M. 5.)

*Digonolrwydd aberth y groes.*

1 **Y**R Aberth mawr fu ar y groes,  
Sydd ddigon im' dan bob ryw loes;  
Dyddanu wna fy enaid gwan,  
A'i ddwyn o'r dyfnder mawr i'r lân.

2 Mae hedd o Sinai heddyw'n d'od,  
Lle bu'r taranu mwya erioed;  
Ac enfys am yr oreedd sydd,  
Yn gwa'dd yn mlaen fy enaid prudd.

3 Anfeidrol gariad Iesu mawr,  
At wael annheilwng lwch y llawr,  
Sydd heddyw yn llewyrchu i maes,  
Ogoniant ei drag'wyddol ras.

4 O! boed ei Enw yn uchel iawn,  
A seiniwn byth ei glod yn llawn;  
A boed pob calon dan y nef,  
Yn gyflwynedig iddo Ef. T. R.

176

M.H. (M. 5.)

*Mor hawddgar yw dy bebyll.*

1 **M**OR hardd, mor dæg, mor hyfryd yw  
Dy babell sanctaidd Di, O Dduw!  
Mor loew y dysgleiria hi  
Gan lewyrch dy wynebpryd Di!

2 Rhagori mae ei chywraïn waith,  
Ar holl balasau'r ddaear faith;  
A'r nef a edrych oddi draw  
Ar adail lân dy ddwyfol law.

3 Pan welom yno'th anwyl wedd,  
Pan brofom yno'th hyfryd hedd,  
Cydganu wnawn ar lasar lef,  
"Ti'n dygaist ni i borth y nef."

4 Mae un diwrnod yn dy dŷ,  
Dan dirion wên dy wyneb cu;  
Yn well na mil yn ngwledd y ffol,  
Sy'n gadael chwer'der blin ar ol.

5 Rho' imi'r fraint o'th wel'd ar frya  
O fewn dy lân fendigaid lŷs;  
Prydferthwch mwya'th babell yw,  
Dy bresenoldeb Di, ein Duw. B. F.

177

M.H. (M. 5.)

*Newyddion da.*

1 **N**EWYDDION brâf a ddaeth i'n bro,  
Hwy haeddent gael eu dwyn ar go';  
Mae'r Iesu wedi cario'r dydd,  
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

2 Mae Iesa Grist o'n hochr ni,  
Fe gollodd Ef ei waed yn lli';  
Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach  
Fr ochr draw 'mhen gronyn bach.

3 Wel, f'enaïd, weithian c'od dy ben,  
Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen;  
Ein holl elynion sydd yn awr,  
Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

4 Fy Iesu garaf bellach mwyl,  
Dyoddefodd dros of farwol glwyl;  
Fy Mhriod hynod yw o hyd,  
A'm cyfaill goreu yn y byd. W. W.

178

M.H. (M. 5.)

*Gwlad o wynfyd.*

1 **O** CYFOD, f'enaïd, fyny hêd,  
'A thrwy'r heolydd nefol rhêd;  
A gwel nad oes o dan yr haul  
Un gwrthdrys dâl ei garu i'w gael.

2 Ar uchel faïc y nefol wlad,  
Teyrnass'r Hollalluog Dad;  
A thywallt ei ddaioni'n llon  
Ar holl wastadedd dedwydd hon.

3 Ac fel haul dysglâer ganol dydd,  
Ein Prynwr anwyl yno sydd;  
Prydnawn na nos nid oes i'r fun,  
Nac achos wrth y lleuad wan.

4 Yn nghanol y fro ddysglâer fry;  
Y g'lomen sanctaidd hefyd sy';  
A phoen a phechod ymaith ffônt,  
I wlad y gwynfyd byth ni dd'ont.

5 Ardderchog ddeiliaid y fan hon,  
Sy'n plygu oddeutu'r orsedd lon;  
Cerubiaid tanllyd a'r holl saint,  
Moli'r anfeidrol Drindod maent.

6 Pa bryd, fy Iesu, daw y dydd,  
A'r hyfryd awr i'm gwneyd yn rhydd,  
Pan gaffwyf ado'r tŷ o glai,  
I drigo 'mhlith y cyfryw rai? DR. W.

179

M.H. (M. 5.)

*Mawr.*

**I**DAD y trugareddau i gyd  
Rhown foliant, holl drigolion byd;  
Llu'r nef, molienwch ef ar gân,  
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân.

180

M.H.

(M. 5.)

*Pob pet'h y saint.*

- 1 **M**AE Crist yn bobpeth i'r holl saint;  
Pa le mae neb mor fawr eu braint?  
Crist yw eu rhan, Crist yw eu brawd,  
Nis gall y rhai'n fod byth yn dlawd.
- 2 Crist, trwy ei waed, a'u gwnaeth yn  
rhydd;  
Crist yw yr haul sy'n gwneyd eu dydd;  
Crist trwy ei Air a'u gwnaeth yn fyw;  
Crist yw eu drws a'u ffordd at Dduw.
- 3 Crist yw y graig a'u deil i'r lân,  
Er nad ynt hwy ond llesg a gwan;  
I'r nef hwy ânt, er llid y ddraig,  
Gan fod eu pwys ar Had y Wraig.
- 4 Crist yw y gair a wnaed yn gnawd:  
Crist er eu mwyn a ddaeth yn dlawd:  
Nid oes fath wledd â'i gnawd a'i waed,  
I'r tlawd mae'r wledd i gyd yn rhad.
- 5 Crist, erddynt, aeth i lawr i'r bedd;  
Trwy Grist a'i waed, maent yn cael  
hedd;  
Crist, ar eu rhan, sydd yn y nef—  
Ar fyr cânt oll fod gydag Ef. DR. L.

181

M.H.

(M. 5.)

*Dyddanwch Duw.*

- 1 **T**YDI, fy Nuw, tydi i gyd,  
Yw'r cwbl a feddaf yn y byd;  
Yr wyt yn well, yr wyt yn well,  
Na'r India bell a'i pherlau drud.
- 2 O fewn yr anial dyrys maith,  
Yn dysgwyl hyfryd ben fy nhaith:  
'Rwy'n gwel'd yn wir, 'rwy'n gwel'd yn  
Fy oriau'n hir heb dy fwynhau. [wir.
- 3 Yn nyfnder pob rhyw drallod mae  
Un radd o'th wedd yn llawenhau;  
Dyddanwch sy', dyddanwch sy',  
'N dy wyneb cu sydd well na'r byd.

4 Mae'r fynyd leiaf bach o'r awr  
I garu fy Iachawdwr mawr,  
Yn well bob dydd, yn well bob dydd,  
Na'r cwbl sydd o dan yr haul.

5 Aed heibio'm dyddiau bob yr un,  
Wrth garu'm Crewr mawr yn ddy'n;  
Fy enaid, cân; fy enaid, cân;  
I'th Brynwr glân, a dos i'r bedd. w. w.

182

M.H.

(M. 5.)

*Efe a fu yn ufudd hyd anghen.*

- 1 **W**EL, weithian c'od, fy enaid cu,  
Dy lygaid tua'r nesoedd fry;  
Gwel yr anfeidrol berffaith Iawn,  
Sy'n maddeu'th bechod oll yn llawn.
- 2 Y moroedd mawr a'r ddaear faith,  
A llu'r ffurfafen yw ei waith;  
Er hyny, rh'odd ei fywyd cu,  
I anghen chwerw tros of fi.
- 3 Y dwylo wnaeth y wybr las,  
A all'sai gadw anghen i maes;  
Ond ufuddhaodd iddo'n rhydd,  
I gariad perffaith gario'r dydd.
- 4 Dyfnderoedd annhraethadwy mwy,  
Didrai, difesur, sy'n ei glwy';  
Ein hanwireddau ddarfu ddwyn,  
A ninnau'n rhyddion er ei fwyn.

5 Mae haeddiant fy Iachawdwr mawr,  
Yn dyoddef poen rhwng nef a llawr,  
Filiwnau maith yn fwy ei rin  
Na haeddiant seintiau'r byd yn un. w. w.

183

M.H.

(M. 5.)

*Hyder.*

**D**OED pob rhyw dymmestl yn gytân,  
A rhuent arnaf oll yn un;  
'Does achos braw na dychryn im,  
Can's Iesu cadarn yw fy ngrym. w. w.

184

M.H.

(M. 5.)

*Nefoedd ar y ddaear.*

- 1 **N**EF yw i'm henaid yn mhob man  
Pan brofwyf Iesu mawr yn rhan;  
Ei weled ef â golwg ffydd  
Dry'r dywyll nos yn oleu ddydd.
- 2 Mwynhâd o'i ras maddeuol mawr,  
Blaen brawf o'r nef yw yma'n awr;  
A darllen f'enw ar ei fron  
Sy nefoedd ar y ddaear hon.
- 3 Ac er na welaf ond o ran,  
Ac nad yw profiad ffydd ond gwan;  
Y defnyn bach yn fôr a fydd,  
A'r wawr a ddaw yn berffaith ddydd.

R.T. W.

185

M.H.

(M. 5.)

*Trag'wyddol wynfyd.*

- 1 **M**YFYRIO am y nefol fro,  
Sy'n dwyn dyddanwch lawer tro,  
Beth am bob mynyd o fwynhad—  
Yn oesoedd, mewn trag'wyddol wlad.
- 2 'Rwyf am gael profi dan fy mron,  
Dystiolaeth o fy hawl i hon,  
Cael rhan o'r gwynfyd pur dilyth,  
Digonedd heb ddigoni byth!

D. R.

186

M.H.

(M. 5.)

*Gwlad o wynfyd.*

- 1 **M**AE gwlad o wynfyd pur heb haint,  
Byth yno y teyrnasa y saint;  
Ile nad oes tywyll nos ond dydd,  
A phleaser heb ddim blinder sydd.
- 2 Mae yno yn drag'wyddol hâf,  
Ni wywa byth ei blodeu braf;  
Ond angeu fel rhyw gulfor sy,  
Rhyngom a'r wlad nefolaidd fry.

3 Yr ochr draw i angeu a'r bedd,  
Mae meusydd gwyrrddion hardd eu  
I Israel felly Canaan fu, [gwedd;  
I'w gwel'd tu draw'r Iorddonen ddu.

4 O, am gael ffydd i ymlid ffwrdd  
Y cul ammheuon sy'n ein cwrdd;  
A gallu gwel'd, â golwg glir,  
Drigfanau dedwydd Canaan dir.

5 Fel Moses gynt, pe dringem ni  
I wel'd y wlad a'i hansawdd hi,  
Nid oer lifeiriant angeu caeth  
A'n tarfai'n ol oddiwrth y traeth.

DR. W.

187

M.H.

(M. 5.)

*Hyfrydwch yn Nuw.*

- 1 **G**AD i mi gael dy Ysbryd pur  
Yn gyfaill yn yr anial dir;  
Fel byddo dy holl gyfraith lym,  
Yn felus ac yn hyfryd im'.
- 2 'Does le, mi wela, i ranu 'mryd,  
Un amser rhyngot ti a'r byd;  
Cariadau eraill aeth yn ddim,  
Dy hun cai fod yn briod im'.
- 3 O c'od fi o'r pydewau i'r lan,  
A gwna fi'n gadarn pan bwy'n wan;  
A dangos i'r annuwiol ryw,  
Na fedda' i gyfaill ond fy Nuw.

W. W.

188

M.H.

(M. 5.)

*Llwyddiant yr Efengyl.*

- 1 **D**E'WCH addewidion, de'wch yn awr,  
Dyhidlwch eich trysorau lawr;  
Myrddiynau ar fyrddiynau sydd  
Yn dysgwyl am eich bore ddydd.
- 2 O, na foed ardal cyn bo hir,  
O'r dwyrain draw i'r deheu dir,  
Na byddo'r iachawdwriaeth ddrud  
Yn llanw cyrau 'rhai'n i gyd.



189

M.H.

(M. 5.)

*Dysgeidiaeth Crist.*

- 1 **O** IESU mawr, y Meddyg gwell,  
Gobaith yr holl ynysoedd pell;  
Dysg fi i seinio byth dy glod,  
Mai digyfnewid wyt erioed.
- 2 Rho imi wel'd mai Ti yw'm hedd,  
A'm llwyr ddifyru ar dy wedd;  
A chym'ryd gair dy enau'i gyd,  
Yn unig bleser yn y byd.
- 3 O hoelia'm meddwl ddydd a nos,  
Crwydredig, wrth dy nefol groes;  
A phlana'm hysbryd yn y tir  
Sy'n llifo o lawenydd pur.
- 4 Fel bo fy nwydau drwg yn lân,  
Yn cael eu difa â'r nefol dân;  
A chariad yn melysu'r groes,  
Trwy edrych ar dy farwol loes. w. w.

190

M.H.

(M. 5.)

*"Cariad sydd gryf fel angeu."*

- 1 **A**NFEIDROL felus yw dy hedd,  
A chryf yw'th gariad fel y bedd:  
Lle ceri di, 'does dwr na thân,  
Nac unrhyw rwystr saif o'th flaen.
- 2 Rhyw fflam angerddol, gadarn, gref,  
O fewn i'm hysbryd ydyw ef;  
Gwreichionen yw, mawr iawn ei rhin,  
O'r fflamau sy ynot ti dy hun.
- 3 Ac er nad ydwyf fi ond gwan,  
Ar ei adenydd âf i'r lan;  
Neu huno mewn awelon pur,  
A rhoi llarwel i'r anial dir.
- 4 Anghofio'm enawd, anghofio'r byd,  
Anghofio'm holl deganau i gyd;  
Ac wrth fyfyrto ar dy hedd,  
Anghofio angeu glas a'r bedd. w. w.

191

M.H.

(M. 5.)

*Gweddî am gynnalïaeth a gras.*

- 1 **D**AL fi, fy Nuw, dal fi 'mhob man,  
'N'enwedig dal fi lle 'rwy'n wan;  
Dal fi yn gryf nes myn'd i maes  
O'r byd sy'n llawn o bechod caa.
- 2 Gwna fi'n gyfoethog yn mhob dawn,  
Gwna fi fel halen peraidd iawn;  
Gwna fi fel seren oleu, wiw,  
'Ddysgleirio yn y byd 'rwy'n byw.
- 3 Gâd imi wel'd mai Ti yw'm rhan,  
Gâd imi'th ganfod yn mhob man;  
Gâd imi'n wastad blygu lawr,  
I'th lân ewyllys bob yr awr.
- 4 Dysg fi, fy Nuw, dysg fi pa fodd  
I ddweyd a gwneuthur wrth dy fodd;  
Dysg fi ryfela'r ddraig heb goll,  
Ac i orchfygu 'nhechod oll.
- 5 Tra fyddwy'n rhodio'r ddaear hon,  
Rho'th hedd fel afon tan fy mron;  
Ac yn y diwedd, moes dy law  
I'm dwyn i mewn i'r nefoedd draw. w. w.

192

M.H.

(M. 5.)

*Gweddî am yr Ysbryd Glân.*

- 1 **B**YWYD y meirw tyr'd i'n plith,  
A thrwy dy Ysbryd arnom chwytth;  
Anadla'n rymus ar y glyn,  
Fel byddo byw yr esgyrn hyn. J. H.
- 2 Trwy bwrcas angeu Crist ein pen,  
A'r taliad perffaith ar y pren,  
Anadlu wnaeth dy Ysbryd di,  
Ar esgyrn sychion megys ni.
- 3 Gan hynyn awr, O Arglwydd Dduw,  
Par i'r aneidiau hyn gael byw;  
A rho dywalltiad helaeth iawn  
O'th Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn. J. J.

193

M.H.

(M. 5.)

*Y Sabbath.*

- 1 **A**RGLWYDD y Sabbath, erglyw'n  
 Ilef,  
 'Nawr ar dy ddydd, o fewn dy dŷ:  
 Doed ein caniadau llesg i'r nef,  
 O'r anial fyd, fel ebyrth cu.
- 2 Carwn Sabbathau'n hanwyl Dduw;  
 Ond fry, gorphwysfa hoffach sy';  
 At hon y cyrcha'n henaid byw,  
 Mewn gwresog ddŷmuniadau cry'.
- 3 Mor ddedwydd ydyw'r dyrfa lân,  
 Heb bechod yn ei phlith na phoen;  
 Na dim och'neidian'n rhwystro'r gân,  
 A seiniant byth i Dduw a'r Oen.
- 4 Rho ar dy waith neillduol fias,  
 A phrawf o'th wenau hyfryd iawn;  
 Yna, 'nol gado tamlau'th ras,  
 Yn nef y nefoedd trigo gawn. DR. W.

194

M.H.

(M. 5.)

*Iachawduriaeth gyflawr yn Nghrist.*

- 1 **M**AE rhyw ddirgelwch llawer mwy,  
 Oes, Iesu, yn dy farwol glwy',  
 Nag y gall sant tra ynddo chwyth,  
 Na seraph pur ei ddeall byth.
- 2 Ni cheisïaf loches ond dy glwy',  
 Tan dônau mawrion fwy na mwy;  
 Mae'th waed yn nyfnder culni a gwae  
 Yn abl fy rho'i i lawenhau.
- 3 Y mae hapusrwydd pawb o'r byd,  
 Yn gorphwys ar dy angeu drud;  
 Hyfrydaf waith angelion fry,  
 Yw canu am haeddiant Calfari.
- 4 Wel dyma'r trysor mwya' drud,  
 Gwaed Iesu'n llifo dros y byd;  
 Fyth na foed ond ei farwol glwy',  
 Yn sylwedd pob caniadau mwy. W. W.

195

M.H.

(M. 5.)

*Neb fel Iesu.*

- 1 **T**RA gallwyf byth anadlu a byw  
 Moliannu wnaif fy Iesu gwiw;  
 O eithaf nef i uffern drist,  
 'Does neb i mi fel Iesu Grist.
- 2 Pan byddwy'n gorwedd dan fy maich,  
 Heb neb i'm helpio i'r lan â'i fraich;  
 Wel, dyma'r pryd, f'Anwylyd mae  
 Yn arfer hoffi trugarhau.
- 3 Iaith i ddadguddio, ofer yw,  
 Beth yw melusdra hedd fy Nuw;  
 Pe d'wedwn tra fai ynof chwyth,  
 Melusach yw na dd'wedwn byth.

196

M.H.

(M. 5.)

*Gwagedd yw pob peth dan haul.*

- 1 **'D**OES dim o gyloch yr awyr fry,  
 Neu ynte oddeutu'r ddaear ddu;  
 Dim, f'enaïd, dim a leinw ddyn,  
 Neu dâl ei garu ond Duw ei hun.
- 2 Wrth droi fy ngolwg yma'n awr,  
 I gyrau'r greadigaeth fawr,  
 Gwrthddrych ni wel fy enaid gwan  
 Ond Iesu i bwysio arno'n rhan.
- 3 Pa'm carai'r byd a'i wagedd mwy,  
 Hyd angeu'n brin y deuant lwy;  
 Gwell i mi garu'r ffrynd a ddaw  
 Yn angeu i 'maffyd yn fy llaw.
- 4 Darfydded caru tref a gwlad,  
 Na brawd, na phriod, mam na thau;  
 'Does neb a welwyd is y rhod  
 Ond Iesu dâl ei garu erioed.
- 5 Cael profi'i hedd a'i fywiol ras  
 Yw'r nefoedd ar y ddaear las;  
 A'm nefoedd byth yn nef y nef  
 Fydd edrych yn ei wyneb Ef. W. W.

197

M.H.

(M. 5.)

*Deued dy deyrnas.*

1 **D**AW amser gwell, fe dyr y wawr,  
Ar ddydd yr arddeliadau mawr,  
Bydd adsain yr achubol waith,  
Drwy bob rhyw le, yn mhob ryw iaith.

2 O holl hinsoddau'r ddaear lawr  
Y cesglir y cynhauaf mawr;  
Diwellir Crist wrth wel'd ei hâd,  
A firwyth ei boen a'i gariad rhad.

3 Bydd enw mawr ein Harglwydd Iôr  
Yn toi y byd fel llanw'r môr,  
Nes cuddio 'i ddrygau'n llwyr bob un,  
A chuddio pobpeth ond ei hun.

4 Ehêd yr anthem o bob tant  
O fryn i fryn, o bant i bant,  
Bydd corau 'r nef mewn llawen fryd  
Yn cipio sain caniadau 'r byd.

5 Daw tymp yr addewidion llawn  
I wneyd y byd yn ddedwydd iawn,  
A gwyn ei fyd pob un a wêl  
Y nefol ddaear pan y dêl. W. A.

198

M.H.

(M. 5.)

*Rhyfeddodau'r Gross.*

1 **D**UW, er mor eang yw dy waith  
Yn llenwi'r holl greadigaeth faith  
Rhyfeddach na'th weithredoedd oll,  
Yw cadw dyn a aeth ar goll.

2 Dyma lle mae d'anfeidrol ras,  
Hyd eitha'n cael ei daenu 'maes;  
A holl lyth'renau d'enw cawn,  
*Yn caol eu dangos yma'n llawn.*

3 Ar Galfari rhwng dae'r a nef  
Llewyrchodd ei ogoniant Ef,  
Un haul ynguiddiodd y prydawn,  
A'r llall a wnaed yn eglur iawn.

4 Pa ddawn sydd yn y Duwdod mawr  
Nad yw e'n 'sgriflen yma lawr?  
Beth all'sai ddangos pwy wyt ti,  
Yn well nag angu Calfari?

5 O fyrddiwn ryfeddodau'r groes,  
Dyoddefodd f'Arglwydd angu loes!  
Caru hyd at ddyoddef lliid,  
Caru a marw yr un pryd!

6 O ryfedd waith! ti, awyr fawr,  
Tro d'aml lygaid yma i lawr:  
Rhyfedda gyda'r thronau fry,  
Y cariad mawr ar Galfari. W. W.

199

M.H.

(M. 5.)

*Cysgod Craig fawr.*

1 **R**HYW ŵr—rhyfeddol ŵr yw ef—  
Sydd imi'n lloches gadarn gref;  
Fel uchel graig fy nghysgod fydd,  
Rhag marwol wres y poethlyd ddydd.

2 Yr hynod Graig, ein Iesu cu,  
Sy'n llawer uwch na'r nefoedd fry;  
O dano ef y llecha'i 'n glyd,  
Yn mhob rhyw stormydd yn y byd.

3 Fe d'raw'd y Graig; mae ffrydiau hon  
Yn oeri'r llosgfa dan fy mron;  
Fe d'raw'd y Graig; a'i dyfroedd pur  
Yw'm cysur yn yr anial dir.

4 Yn holltau'r Graig fy nhrigfa fydd  
Drwy ryfedd faith dragwyddol ddydd:  
Caf yma hyfryd wedd fy Nuw,  
Dysgleiriad ei berffeithiau gwiw. D.C.

200

M.H.

(M. 5.)

*Emyn Hwyrrol.*

1 **O** ARGLWYDD Dduw, a gâf fi  
dd'od,

I gynnwg i Ti 'm hwyrrol glod?  
Er nad wyf fi yn haeddu dim  
Ti roddaist heddyw bobpeth im'.

2 O maddeu'r beiau fân a mawr,  
Gyflawnais heddyw ar bob awr;  
Os câf fwynhau cydwybod rydd  
Fy nghwag yn adfywiadol fydd.

3 Rho imi râs i deimlo'n ddwys  
Uwch ben y pethau mwya'u pwys,  
Rwy'n gwel'd fy nhymmor yn byrhau  
A'r dydd diweddfaf yn nesâu.

4 Pan bwyf ar huno'n llawn o hedd,  
Dysg imi feddwl am fy medd,  
Ac am y tranoeth teg ei wawr  
A'm cwyd yn llon o lwch y llawr. W. A.

201

M.H.

(M. 5.)

*Aros wrth y groes.*

1 **W**RTH edrych, Iesu, ar dy groes,  
A meddwl dyfnder d'angeu loes;  
Pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd,  
A'r holl ogoniant sy' ynddo i gyd.

2 Nâd fi ymddiried tra f'wyf byw,  
Ond yn dy angeu Di, fy Nuw,  
Dy boenau a dy farwol glwy',  
Gaiff fod yn ymfrost imi mwy.

3 Gwelwch yn nwyllaw 'Mhrynwr pur,  
Ac yn ei draed Ef, hoelion dur!  
Edrychwch ar y waew-ffon,  
Yn tori'r archoll dan ei fron.

4 Dyma lle'r ydoedd ar brydnawn  
Rasusau yn dysgleirio'n llawn;  
Mil o rinweddau yn gytun,  
Yn prynu'r gwrthgiledig ddyn.

5 Poen a llawenydd tan y loes,  
Tristwch a chariad ar y groes;  
B'le bu rhinweddau faih y rhai'n,  
Erioed o'r blaen dan goron ddrain?

6 Pa'm carai'r byd a'i dda yn hwy?  
Ond dyma Wrthddrych llawer mwy,  
A dâl ei garu tra bo chwyth,  
A thrag'wyddoldeb wedi'n byth. W. W.

202

M.H.

(M. 5.)

*Yr Ysbryd yn tystio ac yn selio.*

1 **P**A'M bydd i blant y Brenin mawr,  
Fyn'd yn alarus ddyddiau'u hoes?  
Ddyddanydd nefol, tyr'd i lawr  
Arwyddion mwy o'th gariad moes.

2 Onid trigo yn dy saint 'rwyf Ti,  
A'u selio'n blant i Dduw a wnai?  
Gyr ymaith fy ammheuaeth i,  
A dangos faddeu fy holl fai.

3 Rho i'm cydwybod eglurhad,  
O'i rhan yn ngwaed fy Mhrynwr byw,  
A thystia gyda'm calon i,  
Fy mod i wedi 'ngeni o Dduw.

4 Yr ernes wyt o'i gariad ef,  
A'r gwystl o lawenydd nef,  
Colomen Duw, â' th aden fwyn,  
A. gaiff fy nwyn yn iach i dref. DR. W.

203

M.H.

(M. 5.)

*Mawl.*

**C**LODFORED pob creadur byw,  
O ddyd hyd angel, ddoniau Duw;  
A rhoed pob genau sawl ar gân,  
I'r Tâd, a'r Mab, a'r Ysbryd Giân.

204 M.H. (M. 5.)

*Iachawdwriaeth yr Efengyl.*

- 1 YR Iachawdwriaeth fawr yn Nghrist,  
Swm melus hyfryd yw i'm clust;  
Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw,  
A chordial im' rhag ofnau yw.
- 2 Mewn bedd o bechod, gorwedd bu,  
Ein henaid wrth ddrws uffern ddu;  
Ond codi 'r ym trwy ras ein Duw,  
I weled nefol ddydd a byw.
- 3 Aed swm yr Iachawdwriaeth fawr,  
O amgylch ogyrch daear lawr;  
A boed i'r nef a'i lluoedd llon,  
Gyfodi ei llef i seinio hon. DR. W.

205 M.H. (M. 5.)

*Ar agoriad addoldy.*

- 1 A I gwir y trig Iehofa mawr,  
Yn mhebyll dynion ar y llawr?  
Yr Hwn ni ddichon nef y nef  
Ei gynnwys a'i amgyffred ef?
- 2 Yr Hwn a ferchyg ar y gwynt,  
Ddisgynai i babell Moses gynt,  
A gwnaeth y Deml drachefn yn dŷ—  
Yn lle preswylfa i'w enw cu.
- 3 Erfyniwn Arglwydd ger dy fron,  
O, disgyn eto i'n Pabell hon,  
Rho'th bresennoldeb yn ein plith,  
Ac aros yma, aros byth.
- 4 Boed cwmwl y gogoniant cu  
Yn lledu ei aden dros ein tŷ,  
A gwlawied o'i gyflawnder mawr,  
Fendithion dwyfol ras i lawr.
- 5 Athrawiaeth bur am angeu'r groes,  
A draether yma o oes i oes;  
Ac Ysbryd Duw fo'n arddel hon,  
I blygu miloedd ger ei fron. W. B.

206 M.H. (M. 5.)

*"Y pethau a welir sy' dros amser," &c.*

- 1 FE dreulia amser oll o'r bron,  
Wrthddrychau goreu'r ddaear hon;  
Ond Iôr fy ngrym yr un a fydd,  
I oesoedd trag'wyddoldeb ddydd.
- 2 Fy mrodyr gerais fel fy hun,  
Sy'n myn'd o'm blaen o un i un;  
Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd,  
Yn Sion hardd o ddeutu'r bwrdd.
- 3 Mae'r Iubil fawr yn agochau,  
A'r dyddiau hir i lawenhau;  
Fry, gyda'm brodyr, rif y gwllith,  
Câf weled gwedd fy Mhriod byth.
- 4 C'ôd f'enaid gwan, dy ben trwy ffydd,  
A gwêl y gwynfydedig ddydd;  
Cei goron aur, a phalmwydd gwyrrdd,  
Ar orsedd hardd, ymhlith y myrdd. M. R.

207 M.H. (M. 5.)

*Ymostyngiad a dyrohafad Crist.*

- 1 PA deilwng glod a gawn ni ddwyn,  
I'r Oen, ein Duw, a'n Harglwydd  
Pan y mae cân angelion nef, [mwyn,  
Mor bell i'law ei enw ef!
- 2 Teilwng yw Ef, Tywysog hedd,  
Ga'dd gynt ei ladd a'i roi 'n y bedd;  
Teilwng i adgyfodi a byw,  
Teyrnasu ar ddeheulaw Duw.
- 3 Bendithion byth ar ben yr Oen,  
Aeth dan ein melldith ni a'n poen;  
Moled angelion Ef uwch ben,  
A d'weded pob rhyw ddyd, Amen. DR. W.

208

M.H.

(M. 5.)

*Dy holl weithredoedd a'th glodforant.*

- 1 **M**AE'TH holl weithredoedd, Arglwydd Iôr,  
Trwy'r ddaear faith a'r eang fôr,  
Yn dadgan dy ogoniant maith,  
Yn uchel, uchel, yn eu hiaith.
- 2 Yr haul, a'r bydoedd oll uwch ben,  
Aneirif lu sy'n britho'r nen;  
A gydosodant allan glod  
Y bysedd roddes iddynt fod.
- 3 Ond gair ei ras mawrhau a wnaeth,  
Uwchlaw ei enw oll, a'i waith;  
Gan ddangos trwyddo i lwch y llawr,  
Ei gariad, a'i drugaredd fawr.
- 4 Moliannus fyddo'i enw Ef,  
Trwy'r ddaear hon, a nef y nef;  
Am waith ei ddwyllaw, ond yn fwy,  
Am gariad rhyfedd marwol glwy'. w. R.

209

M.H.

(M. 5.)

*Adgyfodiad ac esgyniad Crist.*

- 1 **I**FRENIN y goleuni glân,  
Fu yn y bedd, fy enaid cân;  
Trwy byrth haiarnaidd angeu'r aeth,  
A dryllio'r cedyrn farau wnaeth.
- 2 Nid brenin braw yw angeu 'n awr,  
Er pan gyfododd Iesu mawr:  
Fe dynodd ef ei goly'n llym,  
Yspeiliodd uffern fawr ei grym.
- 3 Plant dynion, codwch fry eich llef,  
A'ch holl eneidiau ato Ef,  
Mewn pêr ganiadau yn gyfûn,  
I foli'ch Prynwr, Duw a dyn.
- 4 Angelion a'ch telynuau de'wch,  
A'ch peraidd dannau uchaf trewch,  
A holl greaduriaid nef a llawr,  
I seinio moliant Iesu mawr. DR. W.

210

M.H.

(M. 5.)

*Gogoniant Crist yn y nefoedd.*

- 1 **T**YR'D, nefol g'lomen, oddi fry,  
A ch'od ni ar dy adenydd cu;  
Eagyn a dwg ni fyny'n grwn  
Uwch law holl bethau'r bywyd hwn.
- 2 Tu hwnt i'r wybren isaf hon,  
Lle try trag'wyddol oesau llon,  
Y mae pleserau pur, dilyth,  
A firwythau i wleda'r enaid byth.
- 3 O! am gael golwg hoff o'r wlad,  
A gorsedd ein trag'wyddol Dad,  
Lle'r eiste'n Prynwr mawr ei fri  
Mewn corph cyffelyb i'n cyrph ni.
- 4 Y saint o'i gylich addoli maen',  
A holl lu'r nef yn plygu o'i flaen;  
Duw sy'n llewyrchu trwy y dyn  
Ei bur ogoniant ar bob un.
- 5 Pa bryd daw'r dydd, fy anwyl Dduw,  
Caf finnau eagyn yno i fyw,  
Sefyll a phlygu yn eu plith,  
Gwel'd, moli, a charu, f' Arglwydd  
byth? DR. W.

211

M.H.

(M. 5.)

*Rhedeg yr yrfa.*

- 1 **R**HEDWN ar frys, mawr yw y fraint,  
Y nef yw diwedd gyrfa'r saint;  
Er maint yw'r llied par'towd ein lle,  
Yn mynwes Naf o fewn i'r ne'.
- 2 Mi âf yn mlaen er pelled yw,  
I'r wlad 'rwyf am fyn'd iddi fyw;  
O'r diwedd tiri'm henaid gwan,  
O ddyfnder moroedd mawr i'r lân.
- 3 Pan ddygwyf 'nabod iaith y wlad,  
A phur ganiadau tŷ fy Nhaf;  
Dechreuaf gân am farwol glwy,  
Na chlywir diwedd arni mwy. W. W.

212

M.H.

(M. 5.)

*Bwrdd yr Arglwydd.*

- 1 **A** I dyma'r arwydd ro'ist i mi  
O angeu poenfawr Calfari ?  
A all 'r elfenau hyn yn un,  
F'm tywys atat ti dy hun ?
- 2 A'i bara a fynega'th loes,  
A'th glwyfau mawrion ar y groes ?  
A draetha'r gwinwydd dileshâd,  
Anfeidrol haeddiant pur dy waed ?
- 3 Na wna, fy Nuw, O tyr'd yn awr,  
A danfon d' Ysbryd pur i lawr ;  
Dy Ysbryd di gymhwysa'r gwaed,  
Gymhwysa'r iachawdwriaeth rad.
- 4 O, anwyl Iesu, tyr'd i'n cwrdd,  
A gwel drueiniaid wrth dy fwrdd ;  
I gyd yn ffol, heb feddu o'r un,  
Un dim i'w ddadlu drosto'i hun.
- 5 Nid yn y bara hwn na'r gwin,  
Ond yn dy gnawd a'th waed mae'r rhin ;  
Gad ini deimlo d'angeu drud,  
Yn ein dyrchafu i'r lan o'r byd.
- 6 Ti ro'ist i lawr dy fywyd drud,  
I brynu im' drag'wyddol fyd ;  
Myn'd dan fath boen, fath dristwch  
I minnau fod yn llawen byth. [chwith,  
w. w.

213

M.H.

(M. 5.)

*Iawn ao Eiriolaeth Crist.*

- 1 **PECHADUR** wyf, da gŵyr fy Nuw,  
Llawn o archollion o bob rhyw ;  
Yn byw mewn eisieu o waed y groes,  
Bob mynyd awr o'r dydd a'r nos.
- 2 Yn nghanol cyfyngderau caeth,  
A myrddiwn o ofidiau maith ;  
Gâd imi roddi pwys fy mhen,  
I orphwys ar dy fynwes wen.

- 3 O, cofia fi ger bron y Tâd,  
A dangos iddo werth dy waed ;  
O, dadleu 'nawr yn nghanol ne',  
I Ti roi'th fywyd yn fy lle.
- 4 O, cadw fi'n dy gôf bob awr,  
Wrth eiriol yn y nefoedd fawr ;  
Dwg f'enw yn llythyrenau llawn,  
O flaen y fainc yn êon iawn.
- 5 Gâd imi dreulio nyddiau i gyd,  
I edrych ar dy wyneb-pryd ;  
Difyru'm oes o awr i awr,  
I garu fy Eiriolwr mawr.
- 6 O, cofia fi pan fwy'n y bedd,  
A chasgla'm llwch i'r lân mewn hed,  
O arddel fi'n y farn a ddaw,  
A dod fi ar dy ddeheu law. DR.

214

M.H.

(M.

*Ffwi at Grist.*

- 1 **'DOES** arnaf eisieu yn y byd,  
Ond golwg ar dy haeddiant dr  
A chael rhyw brawf o'i nefol rin,  
F'm wadu'n lân â mi fy hun.
- 2 'Rwyf yn ei wel'd, a'i wel'd o bell,  
Na'r oll o dan yr haul yn well ;  
Ond O ! na allwn ddringo 'nawr  
I'r man mae yn dyferu lawr.
- 3 Rhyw ymdrybaeddu yn fy ngwaed,  
Yn nghanol dyrys anial wlad ;  
Yn ceisio dringo fyth i'r lân,  
Heb eto dd'od i'r hyfryd fan.
- 4 O flaen y drugareddfa fawr,  
Yn trengu wrth dy draed i lawr,  
Gwel y pechadur duaf gaed,  
Yn brefu am rinweddau'th waed. w.

215

M.H.

(M. 5.)

*Y pererin yn yr anialwch.*

- 1 **P**ERERIN wyf mewn anial dir,  
Sychedig am gysuron gwir;  
Yn crwydro f'amser a llesgau,  
O hiraeth eisieu dy fwynhau.
- 2 O, deuwch oriau, tyred ddydd,  
F'm henaid gwan gael myn'd yn rhydd;  
Carcharor wyf mewn anial wlad,  
Yn dysgwyl beunydd am ryddhad.
- 3 Haul y Cyfiawnder, dysglær cu,  
Tywyna trwy bob cwnwl du;  
O dan dy esgyll dwyfol mae  
Y balm o Gilead sy'n iachau.      w. w.

216

M.H.

(M. 5.)

*Super yr Arglwydd.*

- 1 **O**, TYR'D yn mlaen, fy enaid trist,  
I gofio chwerw angu Crist:  
Fe roes ei hunan yn fy lle,  
A phwy a gofïaf ond Efe?
- 2 Fe'i drylliwyd Ef i'n cadw'n fyw,  
A chlwyfau'r Oen ein lloches yw;  
Trwy iawn cynmododd ni â'i Dâd—  
Diolchwn am ei gariad rhad.
- 3 Rhyfeddol oedd i'r Oen di-fai,  
Gymmeryd cosp yr euog rai;  
Ti gei'r gogoniant, Iesu mawr,  
Byth, byth, am gofio llwch y llawr.
- 4 Diolchus gôf a fydd o hyd  
Am angu Crist tra paro'r byd;  
A chenir am ei loesion Ef,  
I drag'wyddoldeb yn y nef.
- 5 Maddeuant sydd trwy'r aberth heddd,  
Ac arno cawn drag'wyddol wledd;  
A newydd win, ffrwyth cariad rhad,  
Cawn yfed gyda Crist a'i Dad.      P. J.

217

M.H.

(M. 5.)

*"Deffro ogleddwynt, a thyred ddeheuwynt."*

- 1 **O**, TYRED, y gogleddwynt pur,  
Anadla ar holl lysiau'r tir;  
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,  
Fe wywa'n grasau oll i gyd.
- 2 Tyr'd a'r awelon hyny lawr,  
Sy'n deffro arg'oeddiadau mawr;  
Tyr'd, dithau, y deheuwynt clyd,  
Sy'n codi'n henaid uwch y byd.
- 3 O, tyr'd i'th ardd, f'Anwylyd pur,  
Mae'r amser hebot yma'n hir;  
Bwyta dy ffrwyth o nefol rin,  
Pereiddiaf, blenaist Ti dy hun.      w. w.

218

M.H.

(M. 5.)

*Gwynfyd y Meirw yn yr Arglwydd.*

- 1 **O!** MELUS yw'r llawenydd sydd  
Yn fynych yn fy enaid prudd,  
Wrth feddwl am y brodyr cu,  
Aethant i'r fro nefolaidd fry.
- 2 Gadawsant eu daearol dŷ,  
Ac aethant trwy'r Iorddonen ddu,  
At Iesu fry i Sion fryn,  
Lle'r oedd eu calon hwy cyn hyn.
- 3 Maent wedi cyrchu at y nôd,  
Lle'r oedd eu hamcan hwy am fod;  
Maent wedi gorphen ar eu gwaith,  
A myn'd yn dâg i ben y daith.
- 4 Mewn rhyfel buont yma'n hir,  
Yn colli ac yn ennill tir;  
Ond Crist yn wastad oedd o'u plaid,  
A'i ras i'w cynnorthwyo wrth raid.
- 5 Pa Gristion na hiraethai mwy  
Ymddattod i fyn'd attynt hwy?  
O sw'n y byd yn ddigon pell,  
Bod gyda Christ sy lawer gwell.      D. J.



219

M.H.

(M. 5.)

*Deisyfiad y pereris.*

- 1 **O** DDYDD i ddydd, o awr i awr,  
'Rwy'n nes i'r trag'wyddoldeb  
Ac yno byddaf cyn bo hir— [mawr;  
O, am gael etifeddu'r gwir.
- 2 O groes i groes, o dôn i dôn,  
Ymadaw wnafl a'r fuchedd hon;  
Yn fuan âf i byrth y bedd—  
O, am gyrhaeddyd gwlad yr hedd.
- 3 O nerth i nerth, o daith i daith,  
Ymlwybraf trwy'r anialwch maith;  
Nid yw'r Iorddonen ddim yn mhell—  
O, am gyrhaeddyd gwlad sydd well!
- 4 O dorf i dorf, o gâd i gâd,  
A brwydro'n hir â'r ddraig a'i hâd,  
Daw'r frwydr olaf tua'r hwyr;  
O, am gael buddugoliaeth lwyrl!
- 5 O gŵr i gŵr, o loes i loes,  
Rhyw haint o hyd i chwerwi f'oes;  
Daw'r olaf cyn pen gronyn bach—  
O, am gael bod yn berffaith iach!
- 6 O fryn i fryn, o bant i bant,  
Hwn ydyw llwybr blin y plant;  
Daw diwedd ar y lludded llawn—  
O, am gael gorphwys tawel iawn.

Js. H.

220

M.H.

(M. 5.)

*"Gwyn eu byd y meirw sy'n marw yn yr  
Arglwydd."*

- 1 **C**LYWCH lais o'r nef cyhoeddi mae,  
Gwyn fyd y meirw, duwiol rai;  
Eu henwau'n perarogli sydd,  
A'u cwsg yn esmwyth yn y pridd.
- 2 Yn Iesu, marw yn ddedwydd maent,  
Mor felus ydyw hân y saint!  
Rhydd oddiwrth bechod gwnaethpwyd  
A dyoddefiadau a maglau mwy. [hwy.

- 3 Yn mhell o'r byd a'i drafferth trist,  
Maent yn bresennol gyda Christ;  
Llafurus waith eu bywyd brau  
Mewn gwobr mawr diweddu mae.

DH

221

M.H.

(M

*Edrych ar ddyoddefaint Crist.*

- 1 **C**YD-DDRINGED ein meddyl  
Alaethus fryn Calfaria'n awr. [t  
Fry ar y groes canfyddwn Crist,  
Yn gwaedu mewn cyfyngder mawr
- 2 Ei draed a'i ddwylaw anwyl Ef,  
A hoeliwyd wrth y poenus bren;  
Ffrwd werthfawr, goch, effeithiol, &  
A lifai'n frwd o'i ystlys wen.
- 3 Ond O, anfeidrol bwysfawr boen,  
Ei enaid cyfiawn, gwirion, cu,  
Pan ddygodd y drylliedig Oen,  
Ddigofaint Duw a'n camwedd ni.
- 4 O! todded gwresog gariad Crist,  
Ein calon ni i'w garu'n awr,  
Gan dywallt trwy'n hysbrydoedd tri  
Orfoledd maith a heddwch mawr.

E

222

M.H.

(M.

*Noddfa pechadur.*

- 1 **Y**N noeth, yn dlawd, yn glwyfus g  
Ffoi atat Ti, fy Iesu wnafl;  
Dan gywilyddio yr un pryd,  
I'm wrthryfela i'th erbyn c'yd.
- 2 Iachawdwr arall, gwn, nid oes,  
Na noddfa i'm cadw ond dy groes;  
Yn unig yn dy glwyf a'th waed,  
'Rwy'n cael i'm henaid esmwythâd.
- 3 O! Gyfaill pechaduriaid, byth.  
Nâ'd imi'th adael tra bo chwyth;  
Ond aros yn dy gariad mwy,  
Ymguddio yn dy farwol glwy.

D.

223

M.H.

(M. 5.)

*Esamplau Crist a'r saint.*

- 1 **P**E cawn yn awr adenydd ffydd,  
Hedwn i wlad y bythol ddydd,  
I wel'd y saint sy'n llawen iawn,  
Mewn gwynfyd, a gogoniant llawn.
- 2 Fel finnau buont yn y byd,  
Yn brwydro'n galed lawer pryd,  
Yn nghanol myrdd o saethau llym,  
A llid gelynion mawr eu grym.
- 3 Wrth ddilyn camrau'r Blaenor mawr,  
Drwy glod, ac anghlod ar y llawr,  
Daethant i le sydd wrth eu bodd—  
Teilwng o'r Duw a'i parotódd.
- 4 Holer y saint sy yno'n rhydd,  
Pa fodd y cawsant hwy y dydd,  
Hwy gyd-atebent, mai drwy boen  
A gwaed y croeshoeliedig Oen.
- 5 Os cawn ni le ymhlith y llu,  
Sy'n ddysglaer mewn gogoniant fry,  
Yr Iesu'n unig gaiff y clod,  
Tra byddo'r nef ei hun mewn bod.  
DE. W. Cyf. W. A.

224

M.H.

(M. 5.)

*Crist yn gorchfygu.*

- 1 **F**Y enaid edrych tua'r nen,  
Gwel Oen Duw laddwyd ar y pren,  
A'i waed yn llif i'r ddaear lawr,  
I'th ddwyn i maes o'r cystudd mawr.
- 2 Gorchfygodd Brenin nefoedd wen,  
Dy holl elynion ar y pren;  
I'th gwrdd ni ddaw un gelyn mwy,  
Na ro'dd yr Iesu iddo glwy'.
- 3 Fy enaid, pwysa arno Ef,  
Yn mhob cyfyngder tan y nef;  
Yr un a'th garodd cyn bod byd;  
A bery'n ffyddlawn it' o hyd.

- 4 Pan fyddwy'n profi eithaf grym,  
Creulondeb fy ngelynion llym,  
Fy unig noddfa dan y nef,  
Dïogel yw ei haeddiant Ef. M. R.

225

M.H.

(M. 5.)

*Milwriaeth Ysbrydol.*

- 1 **D**Y gyfraith lân argraffa Di,  
O Arglwydd, ar fy nghalon i;  
A bydded dy ogoniant mawr  
Fy ngofal penaf, bob yr awr.
- 2 Gwisg f'enaid yn d'arfogaeth gref,  
Yn mhob peryglon tan y nef;  
Dangos dy fod yn ddigon im',  
Yn ngwyneb fy ngelynion llym.
- 3 O! bydd dy hunan ar fy rhan,  
A dwg fy enaid llesg i'r lân;  
O ddryrs fiin anialwch byd,  
Gan bwyso arnat ti o hyd.
- 4 Pan b'wyf mewn brwydr boeth a blin,  
O bydd dy hunan wrth fy nglun;  
Tan gysgod dy adenydd clyd,  
Cadw fi mwy tra bwy'n y byd.
- 5 Yn nydd ofnadwy'r farn a ddaw,  
O cadw f'enaid gwan rhag braw;  
Rho imi lechu yn dy gól,  
I drag'wyddoldeb maith sy'n ôl. M. R.

226

M.H.

(M. 5.)

*Dirgelion y nefol fyd.*

- O** BOED fy nghlustiau'n gwranddo o  
hyd,  
Ddirgelion dystaw nefol fyd;  
A'm hunig bleser, ddydd a nos,  
Yn nyfion wirioneddau'r groes. W. W.

227 M. 8 AU. 6 LLIN. (M. 52.)

*Duw yn maddeu.*

1 **D**UW mawr y rhyfeddodau maith,  
Rhyfeddol yw pob rhan o'th waith:  
Ond dwyfol ras, mwy rhyfedd yw  
Na'th holl weithredoedd o bob rhyw;  
Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi  
Yn rhad ein holl bechodau ni.

2 O maddeu'm holl gamweddu mawr,  
Ac arbed waelaidd lwch y llawr,  
Hyn yw dy nefol oruwch nod  
Ac ni chaiff arall ran o'r clod;  
Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi,  
Yn rhad ein holl bechodau ni.

3 Rhyfeddol yw'th drugaredd hael,  
A'th gariad pur i'n natur wael,  
Yn agor ffynnon i'n glanhau  
A'n golchi'n bur oddiwrth ein bai,  
Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi,  
Yn rhad ein holl bechodau ni.

4 O boed i'r gras anfeidrol gwiw,  
A'r gwyrthiau mawr o gariad Duw,  
Byth lenwi'r ddaear faith â'th glod,  
Hyd nefoedd fry, ar beraidd nod;  
Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi,  
Yn rhad ein holl bechodau ni.

228 M. 8 AU. 6 LLIN. (M. 52.)

*Cariad at Iesu.*

1 **I**ESU, fy Nuw, fy Ngheidwad cu,  
Clyw fi pan lefwyf arnat Ti:  
Clyw fi oddiar dy uchel sedd,  
A moes im' brawf o'th nefol hedd.  
Iesu, fy Nuw, Iachawdwr byd,  
Rho im' dy garu'n fwy o hyd.

2 Iesu, 'rwyf wedi oedi'n hir,  
Heb feddwl am dy gariad pur;  
Mi rof fy nghalon i Ti'n awr,  
Yn aberth byw, fy Iesu mawr.  
Iesu, fy Nuw, Iachawdwr byd,  
Rho im' dy garu'n fwy o hyd.

3 Iesu, beth welaist ynof fi,  
Yn deilwng o dy gariad Di?  
Ti gofiaist am bechadur gwael,  
Mor fawr yw'th ras a'th gariad hael.  
Iesu, fy Nuw, Iachawdwr byd,  
Rho im' dy garu'n fwy o hyd.

4 Iesu, am danat bydd fy nghân,  
Mor felus yw dy eiriau glân;  
Fy oll i gyd sydd eiddot Ti,  
A'r Iesu yw fy eiddo i.  
Iesu, fy Nuw, Iachawdwr byd,  
Rho im' dy garu'n fwy o hyd.

229 M. 8 AU. 6 LLIN. (M. 52.)

*Gweddï yr edifeiriol.*

1 **D**UWR cariad, o'th drugaredd gu,  
O clyw fy llef, ymbiliwr gwael;  
Plyg o'th eisteddle uchel fry,  
Gorsedd dy hardd Fawrhydi hael;  
O gwrando 'm gweddï, maddeu mai,  
Fel bo i'm henaid lawenhau.

2 O'm da fy hun 'dwy'n enwi dim,  
Can's gwael ac euog, euog wyf;  
Na—o flaen dy fainc, pan fyddo im'  
I feiddio d'od, gan deimlo'm clwyf:  
Fy nadl yw enw Iesu cu,—  
Enw sydd werthfawr iawn i mi.

3 Gan hyny, Dad trugarog cu,  
O gwrando gwyn ymbiliwr gwael!  
Plyg di o'th uchel orsedd fry,  
Gorsedd dy hardd fawrhydi hael:  
O erglyw lais, pechadur cla',  
A'm calon drist a lawenhâ.

230 M. 8 AU. 6 LLIN. (M. 52.)

*Cwynfan am absennoldeb Duw.*

1 **C**LAF wyf a llesg, bron llwfrhau,  
Dy absennoldeb sydd fawr iawn;  
Dy fod di cyhyd yn pellhau,  
Sy'n gwneyd i'm riddfan fore a nawn;  
Rho wel'd dy wedd, fy Iôr, ar frys,  
Neu cymmer fi i'th nefol lys.

2 Dy drigfan yn y nef a gair,  
Ond ti dde't i gystuddiau heb ri',  
Gan ado'r holl delynau aur,  
Er mwyn gwaredu f'enaïd i:  
Rho wel'd dy wedd, fy Iôr, ar frys,  
Neu cymmer fi i'th nefol lys.

3 Ar ol it' ddyoddef marwol glwy',  
A elli attal nefol ras,  
A chuddio'th gariad fwy na mwy,  
Rhag llifo'n afon loew las?  
Rho wel'd dy wedd, fy Iôr, ar frys,  
Neu cymmer fi i'th nefol lys.

4 A fyddi mwy ddyeithr im' P  
A all dy gariad pur didrai  
Fy ngadael i elynion llym,  
I gollir dydd ac i lesgâu P  
Rho wel'd dy wedd fy Iôr ar frys,  
Neu cymmer fi i'th nefol lys. w. w.

231 M. 8 AU. 6 LLIN. (M. 52.)

*"Yr Arglwydd yw fy ngoleuni."*

1 **B**ENDITHIA ni, Iachawdwr hael,  
Cyn myn'd yn awr o'th deml hon;  
A moes i bawb o'th weision gael,  
Dy nefol hedd o dan eu bron:  
Trwy oriau'n hoes, yn angydu,  
O Iesu da, bydd gyda ni.

2 Aeth heibio'r dydd a'i oriau'n llwy'r  
A gwelaist Ti yr oll a fu;  
Ein mynych gwmp yr Arglwydd w'r,  
A gwaeledd ein daioni ni:  
Trwy oriau'n hoes, yn angydu,  
O Iesu da, bydd gyda ni.

3 Rho in' O Dduw! o'th gariad mawr,  
Faddeuant llawn a gwir ryddhad;  
Bendithia ni fwy fwy bob awr,  
A phurdeb a'th holl ddoniau mad:  
Trwy oriau'n hoes, yn angydu,  
O Iesu da, bydd gyda ni.

4 Rho hefyd in' lawenydd llawn  
A mwyniant o dy hyfryd hedd;  
Calonau glân, i'th garu'n iawn,  
A gobaith cryf gael gwel'd dy wedd,  
Trwy oriau'n hoes, yn angydu,  
O Iesu da, bydd gyda ni. H.

232 M. 8 AU. 6 LLIN. (M. 52.)

*Hiraeth am bresennoldeb Duw.*

1 **O**S oedi'r wyt, beth wna'f â'r byd P  
'Does dim ond tristwch, ing, a gwae,  
O gwr bwy gilydd ynddo i gyd,  
A rhyw ofidiau yn parhau;  
Rho bellach nerth, rhag im' lwfrhau,  
Dy ras yw'm sylfaen i barhau.

2 Pechodau, galar, colled, poen,  
Sy'n gwbl dan yr haul yn un;  
Nid oes gorphwysfa im' i'w chael,  
Mewn dim ond ynot ti dy hun;  
Rho bellach nerth, rhag im' lwfrhau,  
Dy ras yw'm sylfaen i barhau.

3 Nid oes gynhauaf yma i'w gael;  
Yn nhrag'wyddoldeb mae e' draw;  
Pan ddél y Sabbath perffaith hael,  
Cawn addfed ffrwythau maes o law.  
Rho bellach nerth, rhag im' lwfrhau,  
Dy ras yw'm sylfaen i barhau. w. w.

233 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Mawrhydi ac ymostyngiad Duw.*

1 **C**HWYCHWI a gâr was'naethu'r  
Iôn,

Gwnewch am ei fawredd sanctaidd sôn;

Bendithiwch byth ei enw pur :

O godiad haul hyd fachlud hwn,

Trwy barthau'r byd i gyd yn grwn,

Ei allu traethed môr a thir.

2 Nid amser, lle, na phellder chwaith,  
Ddyd terfyn i'w arglwyddiaeth faith,

Ei fawredd sydd goruwch y nef:

Na foed i un creadur byw

Gystadlu â'n trag'wyddol Dduw;

Nerth di-grëedig sy' iddo Ef.

3 Fe 'mostwng ei fawrhydi Ef

I edrych gwaith angelion nef,

A meddwl am drigionion byd;

'Fe gwyd y tlawd, 'fe'u gwisg yn dlws,

A'r 'rheidus 'Fe a'u dwg o'r drws,

Cymdeithion i freninoedd dÿd.

Cyf. D. J.

234 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Emys Nadolig.*

1 **H**OSANNA drwy uchafion nef,  
Mewn newydd gân ar lafar lef;

Adseinio'n danlyd fawl i'n Duw.

Gwnaed nef a daear heddyw'n un,

Pan anwyd Duw yn natur dyn,

Ac Iesu Grist yr Arglwydd yw.

2 Gogoniant i'r Goruchaf Iôr,  
Ymchwyydo'n foliant fel y môr,

I'w enw Ef, can's teilwng yw.

Tangnefedd ar y ddaear mwy,

A red yn iachawdwriaeth drwy

Ei holl ororau'n afon fyw.

3 Ewyllys da i ddynol ryw

O bob rhyw iaith, a llwyth, a lliw,

Gyhoeddir bellach heb wahân;

O'r dwyrain i'r gorllewin draw,

O'r de i'r gogledd ar bob llaw,

Prysuared yr Efengyl lân.

4 Cyd ail darewch y felus gainc,

O fawl i'r Hwn sydd ar y fainc;

Hwn oedd erioed, a byth yr un.

Pob goror o'i lywodraeth gref

A danio gan ei foliant Ef,

Am iddo gofio a charu dyn.

5 O'i ryfedd gariad daeth i lawr

Oddiar ei wen orseddfainc fawr,

I letty gwael—i breseb ych,

Fel gallai godi tlodion lu

I fyny o'r llwch a'r domen ddu,

I'w gwneuthur yn freninoedd gwyth

6 Preswylia yn y baban byw

'N gorphorol holl gyflawnder Duw:

Yn gnawd y Gair tragwyddol wnaed.

Saint ac angelion, cyd-nesawn,

I'w weled, a'i addoli wnawn,

Gan roi'n coronau wrth ei draed. w. B.

235 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Ffynnon o hedd.*

1 **T**YDI yw'r ffynnon fawr ddidrai,  
Sy'n rhoddi dyfroedd i barhau,

A ffrydiau o anfeidrol ryw;

Rhyw dir o gariad yw dy hedd,

A nef y nef yw gwel'd dy wedd,

Y nawdd a'r cysur mwya'n fyw.

w. w.

236 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)  
*Hyder ffydd.*

1 **D**UW yw fy nerth a'm noddfa lawn,  
Mewn cyfyngderau creulon iawn,  
Pan galwom arno, mae gerllaw;  
Pe âi'r mynyddoedd mwya' i'r môr,  
Pe chwalai'r ddaear fawr a'i stôr,  
Nid ofnai'm henaï ddim braw.

2 Pe deuai'r moroedd tros y byd,  
Yn genllif garw coch i gyd,  
Nes soddi'r bryniau fel o'r blaen;  
Mae afon bur i lawenhau,  
A'i ffrydiau, ddinas Duw'n ddirai,  
Preswylfa'i saint a'i babell lân.

3 A Duw sydd yno yn eu plith—  
Ni ysgogir un o honynt byth,  
Fe'u cymhorth hwy yn fore iawn;  
Y bore byddo mwy na mwy,  
O bob gwasgfeuon arnynt hwy,  
Ceir gwel'd ei addewid Ef yn llawn.  
w. w.

237 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)  
*Cariad Crist.*

1 **N**IS gall angelion nef y nef  
Fynegi maint ei gariad Ef:  
Mae angeu'r groes yn drech na'u  
dawn:  
Bydd canu uwch am Galfari  
Nag glywodd yr angelion fry,  
Pan ddelo Salem bur yn llawn.

9 O dyma'r ddyfais fwya'i maes,  
Y fwya'i chariad, fwya'i grâs,  
Agorodd ffordd o'r ddae'r i'r nef:  
Cariad heb gymhar iddo'r un,  
A nofiodd yn ei waed ei hun  
Trwg angeu, oedd ei gariad Ef.

3 Doed bellach Indiaïd pella'r byd,  
Doed gogledd, dwyrain, de, yn nghyd  
Canent ei iachawdwriaeth Ef;  
Dadseinied holl dafodau'r byd,  
Ag auraidd d'lynau'r nef yn nghyd,  
Na thawont tra f'o nef y nef. w. w.

238 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)  
*Llywodraeth Crist.*

1 **M**AE agoriadau nef y nef  
Yn crogi wrth ei wregys Ef,  
Angeu ac uffern fawr yn nghyd;  
Yr orsedd fawr—a'r goron wen  
Sy'n awr yn ddysglaer ar Ei ben,  
Ennilodd drwy ei angeu drud.

2 Am waith Ei gariad ar y groes  
Moliennir Ef o oes i oes,  
Tra byddo cyfrif oesau'n bod;  
Digrifwch pur y nef a'i gwaith,  
Hyd eithaf trag'wyddoldeb maith,  
Fydd edrych arno a chanu'i glod.  
w. R.

239 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)  
*Moliant yr Iôn.*

1 **C**HWI weision Duw, molwch yr Iôn,  
Molwch ei enw â llafar dôn;  
Bendigaid fyddo'i enw Ef.  
O godiad haul, hyd fachlud dydd,  
Mawr enw'r Iôn molianus fydd  
Yn y byd hwn ac yn y nef.

2 Dyrchafodd Duw uwch yr holl fyd,  
A'i foliant aeth uwch nef i gyd—  
Pwy sydd gyffelyb i'n Duw ni?  
Yr hwn a breswyl yn y nef,  
I'r ddaear hon darostwng Ef—  
Gwél Ef ein cam, clyw Ef ein cri.

240 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Gwardigaeth trwy iawn.*

1 **G**WNAWD concwest ar Galfaria  
fryn,

Am dani canodd myrdd cyn hyn,  
Fe faeddwyd uffern fawr i gyd :

Fe brynwyd gwael golledig ddyn,  
Fe wnaed y ddwy blaid ddig yn un,  
A gwaed lachawdwr mawr y byd.

2 Ei haeddiant mawr anfeidrol Ef,  
A lwyr foddlonodd nef y nef;  
A geidw'm henaid yn ddigryn;  
Yn ngwres y dydd a'r stormydd mawr  
Efe a'm daliodd hyd yn awr;  
Gogoniant byth i Geidwad dyn.

J.

241 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Calfaria.*

1 **B**OED bryn y groes, boed Calfari,  
Yn uwch na'r bryniau mwya'u bri,  
Can's yno y collwyd gwaed fy Nuw;

Ac yno rhedodd cariad pur  
Yn afon ddifrycheulyd glir,  
Yn golchi'r fflaidd, du ei liw.

2 Na foed im' feddwl ddydd na nos  
Ond cariad perffaith angeu'r groes;  
Hon alwaf mwy yn orsedd grâs;  
Ar Galfari mae mainc y nef,  
Yn agos at ei groesbren Ef,  
Oddiyno rhoddir hedd i maes. w. w.

242 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Y Groes.*

1 **W**EL, f'enaid, cerdda'n mlaen yn hy',  
Yn union tua Sion fry,

A chadw'th lygad ar y nod—  
Calfaria fryn, lle gweli'r groes,  
A'i haberth arni dan ei loes  
*Llysfeddod fwy'a'r nef erioed.*

2 Mae'r bryn yn uchel, uchel iawn,  
A'r aberth drud yn amlwg iawn,  
Fel gallo'r dwyrain bell a'r de—  
Y dynion lle mae'n dywyll nos,  
Er t'wiled, edrych tua'r groes,  
A gweled ei drywanu E'. w.

243 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 1)

*Noddfa yn Nghrist.*

1 **P**A'M ofnaf ddu gymylau'r nos,  
Ffo, f'enaid egwan, tua'r groes,  
A gwel hi trosti oll yn waed;  
A dacw'r man mae llawenhau,  
Pan f'o cystuddiau'n anilhau,  
Y noddfa drefnwyd gan fy Nhad.

2 Bu griddfan caled arno Ef,  
Nes crynu'r ddae'r, a duo'r nef,  
A rhwygo'r creigydd serth yn friw:  
Och'neidiodd Ef, dyoddefodd wae,  
Fel gallwn innau lawenhau  
Ac ymhyfrydu yn fy Nuw. w. w.

244 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 1)

*Tegwch, haeddiant, a mawredd Crist.*

1 **N**I welodd llygad dyn erioed,  
Ni chlywodd clust o dan y rhod,  
Am neb cyffelyb iddo Ef;  
O, rosyn Saron hardd ei liw!  
Pwy ddadgan byth rinweddau'm Duw  
Efe yw bywyd nef y nef.

2 Mae yn ei glwyfau drysor drud,  
I faddeu beiau pena'r byd,  
O flaen yr orsedd buraf sydd;  
Ni all euogrywydd yno ddim,  
Fe gyll y ddeddf ei damniol rym,  
Maddeuant perffaith garia'r dydd.

3 Fe ddaw y diwrnod, doed pan' ddél,  
Y llygaid hyn eu hunain wél,  
Pan ymddangoso'i fawredd Ef;  
Mewn rhwysg a harddwch, parch a br  
Yn mhlith cwmpeini aneirif ri',  
Bydd yn rhyfeddod dae'r a nef. w. w.

245 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Holl ddigonedd hanfod a gras Duw.*

1 **D**OES bleser dâl tu yma i'r ne;  
Nac un dyddanwch yn dy le,  
A leinw'm dymuniadau'n un,  
'Does eisieu dim lle b'o fy Nuw,  
Gwagder a thlodi o un rhyw,  
Mae'n llanw'r nefoedd fawr ei hun.

2 **Y** sawl a'th gaffont, gwynfyd hwy,  
Ni allant byth ddymuno mwy;  
Ti lenwi'n heisieu oll o'r bron:  
Mae môr a thir, a da a dyn,  
Oll yn dy heddwech di dy hun,  
A mwy na fedd y ddaear hon.

3 **A**ngenus wyf, bechadur gwan,  
Am hyn rwy'n tynu tu a'r lan,  
Yn gweled digon gan fy Nuw;  
Trysorau, pe cawn eu mwynhau,  
A laddai'm gofid, laddai'm gwae,  
Ac a'm gwnai'n llawen tra fawn byw.  
w. w.

246 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Cwynion.*

1 **F**Y enaid llesg sy'n llwfrhau,  
Gan fy nhrachwantau sy'n parhau,  
A'm beiau maith yn llaesu dim:  
O! p'le mae effaith dwyfol waed,  
Y Balm o Gilead ry' iachâd,  
Ac ddofa'r nwydau mwya'u grym?

2 **O!** p'le mae'r manna perffaith gwir,  
A'r dyfroedd tawel sanctaidd pur?  
Mae'm syched, Arglwydd, yn parhâu;  
Rwy'n methu tynu dŵr yn awr,  
Fy anghredinaeth sy' mor fawr,  
Agor y graig, 'rwy' bron llesgâu.

3 **'Rwy'** oll yn friw, 'rwy' oll yn wan,  
A neb ond ti a'm deil i'r lân,  
Dy hunan, 'rwy't yn fwy na'r byd;  
Yr olwg leiaf ar dy wedd  
Sy'n drêch nag angeu, trêch na'r bedd,  
Dy hunan wy'n ddymuno i gyd. w. w.

247 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Yn ddyoddefgar mewn cystudd.*

1 **A** RAID i gystudd garw'r groes  
I ganlyn f'ysbryd ddydd a nos?  
Os rhaid, gwna fi yn foddlon iawn;  
Tan ganu gwna imi fyn'd yn mlaen,  
Sef canu yn y dŵr a'r tân,  
O fore mywyd hyd brydnawn.

2 **Mae** brodyr imi aeth yn mlaen,  
Trwy ddyfnach dŵr, a phoethach tân,  
Ac eto gorchfygasant hwy: [ddim,  
'Dyw'r dyfroedd aethum trwyddynt  
Mewn lled, a dyfnder, nerth a grym,  
Paham yr ofnaf finnau mwy? w. w.

248 M. 8, 8, 8. 6 LLIN. (M. 15.)

*Gwerthfawr waed Crist.*

1 **Y** PENAF drysor heddyw yw,  
O fewn y nefoedd, gwae'd fy Nuw,  
Holl sylwedd y caniadau i gyd;  
A dyma'r gwae'd a roddodd iawn,  
I bur gyfiawnder nef yn llawn—  
Fy hedd a'm cysur yn y byd.

2 **Am** iddo farw ar y bryn,  
Ca'dd f'enaid bach ei ganu'n wyn,  
A'i dynu o'i gadwynau'n rhydd;  
Wel, bellach dan ei haeddiant Ef,  
Fel cysgod cedrwydden gref,  
Gorphwysaf mwy yn ngwres y dydd.



249

M.H.D.

(M. 43.)

SALM C.

1 **O** FLAEN gorseddfaic Ior y nef  
Ymgrymed pawb—eu dyled yw,  
Yr unig fythol Dduw yw Ef,  
Gall greu, gall ladd, neu gadw'n fyw,  
Ei rym, heb ddim o'n cymhorth ni,  
A'n gwnaeth o'r pridd yn hardd i gyd,  
Ac, er in' grwydro 'mhell o'i dŷ,  
Fe'n dug yn ôl i'w gorlan glyd.

2 I'th byrth awn oll â llawen gerdd,  
Hyd lŷs y nef derchafwn gân,  
Tafodau fyrdd y ddaear werdd  
Adseiniant fawl trwy'th demlau glân,  
Un led â'r byd yw'th gyfraith bur,  
Dy gariad byth nid yw'n ysgoi,  
Fel craig drag'wyddol saif dy wir  
Pan fyddo'r nef a'r ddaer yn ffoi.

DR. W.

250

M.H.D.

(M. 43.)

*Myfyr dirwyst ar y groes.*

1 **O!** TYR'D i ben, ddedwyddaf ddydd,  
A gâd i'm hysbryd fyn'd yn rhydd;  
Rho brawf, rho brawf ar frys i mi,  
O ddwyfol haeddiant Calfari—  
Fel gallwyf rodio'n ddiacâd,  
Dan awel hyfryd rhin dy waed,  
A threulio f'amser, ddydd a nos,  
Mewn myfyr am dy angeu loes.

2 O, na b'o gras o fewn y nef,  
Na chaffwyf ran o hono ef;  
A gwna na byddo genyf fias,  
Ond ar dy gariad a dy ras;  
Fy unig gysur yn y byd,  
F'o edrych ar dy wyneb pryd;  
A'm hamser elo heibio'n llawn,  
*Wrth ganu am dy ddwyfol ddawn.* W. W.

251

M.H.D.

(M. 43.)

*Llwyddiant yr Efengyl.*

**B**OED i efengyl Iesu mawr,  
I lanw wyneb daear lawr;  
Ei hyfryd sain, a'i goleu clir,  
Fo'n amlwg yn yr anial dir;  
Fel byddo i'r cenedloedd oll,  
Ymgasglu ynghyd heb un ar goll,  
'R luddewon hyfyd yn gytân,  
I gyd i foli Mab y Dyn.

252

M.H.D.

(M. 43.)

*"Yna y bydd prif ffordd."*

**I**'R nefoedd fry'r aeth Iesu gwiw,  
Ynddo gobeithiodd Israel Duw,  
Ac fe balmantodd ffordd ddirgryn  
O'r ddaer i fyny ato ei hun;  
Y ffordd yr aeth prophwydi 'mlaen,  
A'r mil myrddiynau fu'n y tân:  
Sŵn torf aneirif eilwaith cawn  
Ni glywed arni'n beraidd iawn. W. W.

253

M.H.D.

(M. 43.)

*Gwisg ây gleddyf ar ây glun.*

1 **L**WYR noetha'th fwa Iesu, yn awr,  
Marchoga yn d'ogoniant mawr,  
Cyflawna eiriau'r llwon drud,  
A dyngwyd cyn sylfaenu'r byd;  
O! gyr dy saethau gloewon llym,  
I gerdded gyda dwyfol rym,  
A chwmp d'elynyon wrth dy draed,  
I geisio cymmod yn dy waed.

2 Cyfoder baner fawr dy ras  
Yn mhob rhyw Barth o'r ddaear las,  
Awelon nef fo'n dannau byw,  
I seinio'r iachawdwriaeth wiw;  
Y delwau mudion fach a mawr,  
Fel Dagon gynt, a gwympto i lawr,  
A chaned holl dafodau'r byd,  
Ganiadau mawl dy angeu drud. W. W.

254 M.H.D. (M. 43.)  
*"Heddwch twag at Dduw, a mwynhad o hono."*

1 I BLE'R â'i mofyn heddwch drud?  
 At ba greadur yn y byd?  
 Pwy laesa 'mhoen, pwy dyn fy maich?  
 Nid marwol ddynol gnawdol fraich!  
 Neb ond Tydi fu ar y pren,  
 Yn dyoddef rhwng y ddaer a'r nen;  
 Mil mwy na'r byd yw dafnau'th waed,  
 I ro'i i'm hysbryd esmwythâd.

2 Fe bwysa gwaed y groes fy mai,  
 Er cy'd o amser mae'n parhau;  
 Er cynddeirioced yw ei ryw,  
 Ac er mor ddued yw ei liw:  
 Duw ydwyt Ti, mae mynyd awr,  
 O'th wasgu dan y groes i lawr,  
 Yn fwy ei bris, ceir gwel'd ryw bryd,  
 Na holl bechodau câs y byd.

3 Mi wn mai meiau duon drud,  
 Yw'r achos o'm cystuddiau i gyd;  
 Symmud fy mai, fe gwymp y ffon  
 O'th sanctaidd law y fynyd hon:  
 'Does yn dy galon ond lleshâd,  
 Maddeuant, hedd, a gwir iachâd,  
 Cymmer dy ffordd, ynot yr wyf  
 Yn credu'n awr, iacheir fy nghlwyf.

W. W.

255 M.H.D. (M. 43.)  
*"Gosod fi megys sei ar dy galon."*

1 O IESU'R Archoffeiriad mawr,  
 Rho'm henw ar dy fraich i lawr;  
 Rho eilwaith, mewn llyth'renau clir,  
 Ef ar dy ddwyfron sanctaidd, bur:  
 Fel, pan ddel arnaf bob rhyw dro,  
 Fyth gallwyf fod o fewn dy go';  
 Na byddo arnaf unrhyw faich,  
 Ond fyddo'n pwyso ar dy fraich.

2 O gwna i'm cariad innau'n rhydd  
 I redeg atat ti bob dydd;  
 A gwisgo'th enw sanctaidd, llon,  
 Fel seren ddysglaer ar fy mron;  
 A dod fy nghalon wâg yn llawn  
 O'th gariad peraidd, fore a nawn;  
 Car dithau finnau yn ddidrai:  
 A'r undeb hwn byth fo'n parhau. W. W.

256 M.H.D. (M. 43.)  
*Esmwythdra yn Nghrist.*

1 F'Y enaid tua'r nefoedd hôd,  
 A thae'n dy galon yno ar led,  
 A doed cystuddiau mewn yn lli',  
 Mi a'u tafsa' i dy fynwes di;  
 'Does unrhyw ofid, unrhyw boen,  
 Na wasgodd ar yr addfwyn Oen,  
 Ac yn ei ofid ef a'i gri  
 Mae holl esmwythder f'enaidd i.

2 Pan del fy Nuw i ben a'i awr,  
 I roi cystuddiau i mhwyso i lawr,  
 Rhaid i ergydion pur y ne'  
 I gadw eu pryd a chadw eu lle;  
 Nis rho'wd i'm lladd, ond i gael byw,  
 Af innau trwyddynt yn fy Nuw:  
 'Tros byth caiff genyf gân ddiogoll,  
 Am iddo'm dwyn i trwyddynt oll. W. W.

257 M.H.D. (M. 43.)  
*Buddugoliaeth Crist.*

G WEL draw fy Mrenin ar y pren,  
 Yn niwedd dydd yn crymu ei ben;  
 Poen angeu mwy na buasai 'nghyd,  
 Ddyoddefaint holl ferthyron byd.  
 Wel, angeu'r groes, dy waethaf mwy,  
 I Ben y bobloedd rhoddaist glwy';  
 Cododd i'r lân; fe gôd i'r nef  
 Fyrddiynau trwy' i adg'oddiad ef. W. W.

258

M. 2-8.

(M. 17.)

*Gorfoledd y saint.*

1 **B**YDD, bydd,  
Ryw ganu peraidd iawn ryw  
ddydd,  
Pan ddelo'r caethion oll yn rhydd;  
Fe droir eu ffydd yn olwg fry,  
Cydunant byth heb dewi a son,  
I foli'r Oen fu ar Galfari.

2 Ond gwledd,  
Sydd eto'n bod tu draw i'r bedd,  
Dros byth i'w chael i'r gwael eu gwedd:  
Lle bydd caniadau maith di ri',  
I bara beunydd yn ddi-boen,  
Gan foli'r Oen fu ar Galfari.

3 Rhad ras,  
Yw'r newydd gân bereiddia'i blas,  
Fu erioed ar wyneb daear las;  
Hi ddeil ei blas pan losgo'r byd  
A berwi'r môr a'i donau'n dân,  
Y nefol gân fydd gras i gyd. J.

259

M. 2-8.

(M. 17.)

*Cymdeithas y saint.*

1 **B**RAINT, baint,  
Yw cael cymdeithas gyda'r saint,  
Na welodd neb erioed ei maint;  
Na ddaw un haint fyth iddynt hwy;  
Y mae'r gymdeithas yma'n gref,  
Ond yn y nef, hi fydd yn fwy.

2 Byw, byw,  
Yw'r Iesu'm Ffrynd a'm Prynwr gwiw,  
Er iddo gynt gael marwol friw;  
A sicr yw mai byw wna'r saint,  
O herwydd bod eu Ceidwad cu,  
Yn eiriol fry—rhyfeddol fraint!

3 Clod, clod,  
I'r Tad a'n carodd cyn ein bod,  
I'r Mab a'r Ysbryd—Un erioed;  
Yn dyrfa doed y mawr a'r mân  
Yn awr i'w foli o un fryd,  
Trw'r byd i gyd ar felus gân.

260

M. 2-8.

(1)

*Dwyfol effeithiau'r Efengyl.*

1 **E**I glod,  
Sydd heb un terfyn iddo'n  
O, aed yn mlaen fwy nag erioed,  
O gwmpas rhod y ddaear fawr;  
Nes elo sw'n efengyl bur,  
I dori'n glir fyrddiynau lawr.

2 Mae, mae,  
Rhyw hiraeth ynof yn parhau,  
Am wel'd yr amser hyn yn glau,  
Y pryd y mae fy Arglwydd mâd,  
I dderbyn ei ogoniant mawr,  
Gan nef a llawr am golli'i waed.

3 Yn awr,  
Addfwynaf Iesu tyr'd i lawr,  
Helaetha dy freniniaeth fawr,  
Co'd ddedwydd wawr iachusol dd  
Rho'r earcharorion fyn'd i maes,  
O'r pydew cas, heb ddwfr sydd.

261

M. 2-8.

(M)

*Moliannu yr Oen.*

**C**LOD, clod,  
I'r Oen a laddwyd cyn fy n  
Y parch a'r mawl i'w enw boed,  
Am iddo erioed, o'i gariad rhad,  
Roi serch ar wael golledig ddyd—  
Mawr iawn yw rhin ei werthfawr.

262 M. 2-8. (M. 17.)

*Cariad Crist.*

1 **N**ID oes,  
Ni fu, ni ddaw mewn unrhyw  
oes,

O gymmaint gwerth â gwaed y groes;  
Y ddwyfol loes ga'dd Brenin nef—  
O, gariad mawr, diderfyn stôr,  
Sydd fel y mor byth ynddo Ef!

2 Efe,

Yw'r unig wrthddrych is y ne'  
Dâl yn fy nghalon ro'i iddo le;  
Un arall, b'le, sy'n deilwng fod?  
Ei gariad pur hyd derfyn byd  
Mewn lled a hyd sy'n dwyn y clod.

3 Af trwy,

Fy nhemtasiynau aml mwy,  
Tan aden cariad dwyfol glwy',  
Mi'u concraf hwy'n ei goncwest Ef;  
A'i gariad yw fy noddfa glyd  
Nes myn'd o'r byd i deyrnas nef. w. w.

263 M. 2-8. (M. 17.)

*Ail ddyfodiad Crist.*

1 **F**E ffy,  
Elfenu'r ddae'r a'r awyr fry,

O flaen ein Iesu mawr y sy'  
Yn eiriol droeom yn y nef;  
Y gwaith gymmerodd arno'i hun,  
Wrth brynu dyn a'i c'rona Ef.

2 Fath fri,

Pryd hyny gaiff f'Anwylyd cu,  
Pan n'allo angel rifo'r llu,  
O'r nef, o'r ddaear, ac o'r bedd;  
Fe d'wylla'r haul, fe ddua'r lloer,  
Fe sych y môr, wrth wel'd ei wedd.

3 Fe fydd,

Myrddiynau ar y bore ddydd,  
O seintiau a merthyron ffydd,

Yn canu'n rhydd o fewn i'r nef,  
Wedi adgodi 'nawr o'r bedd,  
Yn synu wrth wedd ei wyneb Ef. w. w.

264 M. 2-8. (M. 17.)

*Yr Ysbryd yn ddyddanydd.*

1 **Y**N awr,  
Sancteiddiol Ysbryd, tyr'd i lawr,  
Dyagleiria hyfryd fore wawr;  
Goleuni mawr o entrych nef,  
Fel delo'm henaid wel'd yn glir  
Yr hyfryd dir, bwrcasodd Ef.

2 Rho'r gwin,

Y sydd o nefol ddwyfol rin,  
I nerthu'm henaid pan f'o flin,  
Gan groesau sy' yn curo o hyd;  
Wrth yfed hwn myfi âf trwy  
Gystuddiau mwy nag w'yr y byd. w. w.

265 M. 2-8. (M. 17.)

*"Yr Arglwydd sydd yn gollwng y carcharorion  
yn rhydd."*

1 **D**AW dydd,  
I'r carcharorion fyn'd yn rhydd,  
O'u holl gadwynau tynion sydd;  
Mor felus fydd eu caniad hwy!  
Am gariad mawr yr anwyl Oen,  
Bydd hyfryd son, heb ddiwedd mwy.

2 Y rhai'n

A wisgir oll a lliain main;  
Telynnau sydd, o beraidd sain,  
I ganu anthem faith o glod,  
I'r Hwn fydd yn teyrnasu mwy,  
Fe gafodd glwy', 'fe oedd erioed.

3 Fe ddaw

Yr hyfryd fore, mae gerllaw,  
Bydd pawb a'i delyn yn ei law,  
Heb ofn na braw, yn nghwmni'r Oen,  
Yn canu i drag'wyddoldeb maith,  
Ar ben y daith heb friw na phoen. E.

266

M. 2-8.

(M. 17.)

*Bendithion y groes.*

1 **DAETH** trwy,  
Fy Iesu glân a'i farwol glwy',  
Fendithion fyrdd, daw eto fwy;  
Mae ynddofaith ddiderfyn stôr,  
Ni gawsom rai defnyddau i lawr,  
Beth am yr awr cawn fyn'd i'r môr?

2 Brydnawn,  
Ar y ddedwyddaf awr a gawn,  
Y talodd Iesu'n eithaf llawn,  
Y dwyfol Iawn i'm hanwyl Dad:  
Palmantodd ffordd o Galfari,  
I'r nefoedd fry trwy rin ei waed. ●

267

M. 2-8.

(M. 17.)

"Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod,  
nid ar bethau sydd ar y ddaear."

1 **MAE**, mae,  
Yr amser hyfryd yn nesáu,  
Pan gaffo f' enaid ei ryddhau,  
O'm tŷ o glai fyn'd tu a'm gwlad;  
Nid yma mae 'nghorphwysfa i,  
Mae hono fry yn Nhŷ fy Nhad.

2 Fry, fry,  
Uwch awyr las a'i dysglaer lu,  
Mae holl hyfrydych f' enaid i,  
'Does dim daioni yma i'w gael;  
Holl olud a mwynderau 'r byd,  
Nid ŷnt i gyd ond gwagedd gwael.

3 Daw, daw,  
Fy Iesu i'mafyd yn fy llaw,  
I'm dwyn i'r tēg ardaloedd draw,  
I'r bywyd dystaw, pur, diboen:  
Caf ganu 'n llawen gyd â'r llu,  
Gân Moses, byth, a chân yr Oen.

268

M. 2-8.

(M. 17.)

"Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i a'm  
phiol: ti a gynheli fy nghoelbren."

1 **Y** GROES,  
Yw etifeddiaeth fawr fy oes,  
A'm grym i lynu dan bob loes;  
'R'wy'n gwel'd nad oes o dan yr haul,  
Neb gaf mewn cyfyngderau dwys,  
I ddal fy mhws, ond Adda 'r Ail.

2 Y llen,  
Sydd rhyngwy'n awr a'r nefoedd wen,  
A rwygodd Iesu hyd y nen,  
I'r wlad uwch ben fe'm harwain Ef,  
I'm llon orphwysfa dringo gaf  
I fynwes Naf o fewn y nef.

3 Ni ddaw,  
Na phoen na gofid, och, na braw,  
I neb o'r saint yr ochr draw;  
D'ont yn ei law i'r hyfryd wlad,  
I seinio cân drag'wyddol mwy,  
Am farwol glwy, ac am y gwaed. ■

269

M. 2-8.

(M. 17.)

*Ol y waewffon.*

1 **P'LE**, p'le,  
Y gwnaf fy noddfa dan y nef  
Ond yn ei glwyfau dyfniion Ef?  
Y bicell gref aeth dan ei fron,  
Agorodd ffynnon i'm glanhau,  
'Rwy'n llawenhau fod lle yn hon.

2 Yr Oen  
Aeth dan fy mhenyd, dan fy mhoen,  
Ni thawaf byth am dano son;  
Ei gariad tirion fydd fy nghân,  
Am achub un mor wael ei lun,  
A'm tynu ei hun o'r gynneu dân.

270 M. 2-8. (M. 17.)

*Gweddi am gymhwysiad o waed y groes.*

1 O TYN,  
Y gorchudd yn y mynydd hyn;  
Llewyrched Haul Cyfiawnder gwyn,  
O ben y bryn bu'r addfwyn Oen  
Yn dyoddef dan yr hoelion dur,  
O gariad pur i mi mewn poen.

2 Golch fi  
Oddiwrth fy meiau aml eu rhi'  
Yn afon waedlyd Calfari,  
Sydd heddyw'n llif o haeddiant llawn,  
Dim trai ni welir arni mwy,  
Hi bery'n hwy na bore a nawn.

3 Oes, oes,  
Mae rhin a grym yn ngwaed y groes,  
I lwyr lanhau holl feiau f'oes:  
Ei ddwyfol loes, a'i ddyfal lef,  
Mewn gweddi drosof at y Tad  
Yw fy rhyddhad, a'm hawl i'r nef.

271 M. 2-8. (M. 17.)

*Diogelwch yn angeu'r groes.*

1 O PWY,  
Ymguddiodd yn dy ddwyfol  
Ac yna fethodd dori trwy [glwy',  
Gystuddiau mwy na gwellt y maes?  
Mae'r fuddugoliaeth fawr yn d'od,  
Hyd yma erioed oddiwrth dy ras.

2 Nid oes  
A ddeil fy ysbryd dan bob croes,  
Ond dwyfol nefol farwol loes,  
Estyniad f'oes yw ei fwynhau:  
D'oes arall gysur mewn un man,  
Fe yw fy rhan byth i barhau. w. w.

272 M. 2-8. (M. 17.)

*Effethiau dyoddefadau Crist.*

1 G WYCH saïn,  
Fydd eto am y goron ddrain,  
Yr hoelion llym, a'r bicell fain,  
Wrth gofio rhai'n caiff uffern glwy'  
Carcharau tynton aeth yn rhydd,  
Fe gaed y dydd, Hosanna mwy.

2 Gras, gras,  
Yn genllif grymus ddaeth i maes,  
Grisialaidd afon loew las,  
Rhinweddol flas i'r euog rai;  
Lle i bechaduriaid yma gaed,  
I'w cânu'n rhad oddiwrth bob bai.

3 I'r lân,  
Os bydd in' dd'od o'r anial fân,  
Bydd hyfryd seinio yn y mân,  
Pawb yn ei ran yn molir Oen,  
Mewn melus anthem, newydd iaith,  
Ar ben y daith heb friw na phoen.

J. B.-s.

273 M. 2-8. (M. 17.)

*Goruchafiaeth croes Crist.*

1 D AL fi,  
Er fy ngelynyon aml eu rhi,  
A'm golwg tua Onalfari,  
A gwrando gri fy enaid gwan,  
Mewn gorthrynderau o bob rhyw:  
Trwy allu Duw y dof i'r lân.

2 Ei wedd  
A leinw f'enaid gwan â hedd,  
Nes llyncu ofnau barn, a bedd;  
A dyma wledd i enaid trist,  
Cael golwg ar ei ddwyfol loes,  
Ac ar y groes ogoniant Crist. R. J.

274 M. 5, 5, 5, 5; 6, 5, 6, 5. (M. 59.)

NEU 10, 10; 11, 11.

*Cenwch i'r Arglwydd.*

1 **C**HWI weision Duw mawr,  
Cyhoeddwch E'n hy',  
A thraethwch bob awr  
Mor dda yw i ni;  
Mae' i allu'n gorchfygu'm  
Gelynion bob pryd;  
Mae'r Iesu'n teyrnasu  
Yn Ben ar y byd.

2 Mae Duw yn y nef,  
A'r gallu'n ei law,  
Yn agos mae Ef,  
I'n cymhorth fe ddaw:  
Cyhoeddwn ei foliant  
Tros ddaear a môr,  
A rhoddwn ogoniant  
I'r Arglwydd ein Ior.

3 O deuwch yn hy',  
Chwi saint ar y llawr,  
Mewn clodydd mwyn cu,  
I foli'r Duw mawr;  
Cydseiniwn ogoniant  
Yn unfryd â'n llef,  
A thraethwn bêr foliant  
I Arglwydd y nef.

4 Gogoniant i'r Tad  
A grëodd y byd;  
Gogoniant i'r Mab,  
A'n prynodd mor ddrud;  
Gogoniant i'r Ysbryd  
Glân, sanctaidd dilyth;  
I'r Tri yn un sylwedd,  
*Rhown foliant dros fyth.*

H.

275 M. 5, 5, 5, 5; 6, 5, 6, 5. (M. 59.)

NEU 10, 10; 11, 11.

*"Gwisgaist ogoniant a harddwch."*

1 **D**ADGANAF dy glod,  
O Arglwydd fy Nuw;  
Dy wyrthiau a'th nerth  
Sydd hynod eu rhyw;  
D'ogoniant a'th harddwch  
A welir trwy'r byd;  
A phob peth a greaist  
Sydd ryfedd i gyd.

2 Goleuni o bell  
A roddaist uwch ben;  
A thaenaist y nef  
O amgylch fel llen:  
Y ser a'r planedau,  
A'r wybr las, faith,  
Sy'n dadgan trwy'r bydoedd,  
Dy fawredd a'th waith.

3 Gorseddfa Duw sydd  
Yn entrych y nef;  
Mewn tonau a thwrff  
Y clywir ei lef;  
Mewn tARTH a chymylau  
Y gwelir ei hynt,  
Yn rhodio'n arderchog  
Ar edyn y gwynt.

4 Gogoniant i'r Tad  
A grëodd y byd;  
Gogoniant i'r Mab,  
A'n prynodd mor ddrud:  
Gogoniant i'r Ysbryd  
Glân, sanctaidd dilyth;  
I'r Tri yn un sylwedd,  
*Rhown foliant dros fyth.*

H.

276 M. 5, 5, 5, 5; 6, 5, 6, 5. (M. 59.)  
Nŵ 10, 10; 11, 11.

*Cân yr Oen.*

1 **C**ANLYNWYR yr Oen,  
Tra nefoedd yn bod,

A t'iafod a thant,  
A ganant ei glod,  
Sef clod i Fab Dafydd,  
Tragywydd y gân,  
I'r Tad ac i'r Ysbryd,  
O hyd heb wahân.

2 Gwnaed Duw ganiatau  
I minnau fy mod,

Yn nghanol y llu  
Yn c'lymu'r un clod;  
Os gwelir fi'n ddiog ei  
O'r rhyfel yn rhydd,  
Mi ganaf, mae'n ddyled—  
O! deued y dydd.

3 Mi dynaf o hyd,

Er penyd, er poen,  
Fy nghysur a'm hedd  
O rinwedd yr Oen:  
Ef fyddo dedwyddyd  
Fy mywyd mwy,  
Mae trysor di-ddiwedd  
A gwledd yn ei glwy'. Ja. H.

277 M. 5, 5, 5, 5; 6, 5, 6, 5. (M. 59.)  
Nŵ 10, 10; 11, 11.

*Iarwolaeth ac Adgyfodiad Crist d'i esgyniad.*

1 **R**HAUL guddiodd ei wedd,  
Pan grymodd ei ben,  
Agorodd y bedd,  
Fe dduodd y nen;

Fe ofnodd y ddaear,  
Hi grynodd yn wir,  
Wrth wel'd ei Chreawdwr  
Dan hoslion o ddir.

2 Gorfoledd mawr fu,  
Pan gododd ein Nêr,  
Fe chwarddodd yr haul,  
Fe ddawnsiodd y sêr,  
Fe neidiodd mynyddau  
A bryniau fel wyn.  
O herwydd i'r Iesu  
I godi er ein mwyn.

3 Wel, saint, llawenhewch,  
Fe gafodd y dydd—  
Bu'i ddyndod yn rhwym.  
Rho'i 'i Dduwdod yn rhydd,  
Mae'i saint ef yn dystion  
(Gwirionedd na'w yw)  
I'n Harglwydd adg'odi  
O farw i fyw.

4 Fe ganodd hen saint  
Ddiangodd o'r byd,  
Yn dysgwyl cael gwel'd  
Eu Harglwydd o hyd,  
Ynghyd a'r seraphiaid—  
Angelion fath glod,  
Mewn newydd ganiadau  
Na chlywyd erioed.

5 Gogoniant i'r Tad  
A grëodd y byd;  
Gogoniant i'r Mab,  
A'n prynodd mor ddrud:  
Gogoniant i'r Ysbryd  
Glân, sanctaidd dilyth;  
I'r Tri yn un sylwedd,  
Rhown foliant dros fyth.



278

M. 5, 5, 6, 5. (M. 23.)

NEU 5, 5, 11.

*Cymmod trwy y gwaed.*

1 **T**ROWCH, gwelwch i gyd,  
Dros fânau 'r holl fyd,  
Iachawdwr pechadur,  
A'i prynodd mewn pryd.

2 Ein heddwch mawr yw  
Gwaed gwerthfawr Oen Duw,  
O rwymau marwolaeth  
Cyfododd yn fyw.

3 Y cymmod a wnaed,  
Trwy rinwedd ei waed,  
A thrwy ei orfodaeth  
Cawn Satan tan draed.

4 Ei lafur a'i loes,  
Er griddfan ar groes,  
Yn fywyd i'r euog  
A'r truan y troes.

279

M. 5, 5, 6, 5. (M. 23.)

NEU 5, 5, 11.

*Rhinwedd gwaed y groes.*

1 **F**Y Iesu mwy fydd  
Fy noddfa bob dydd—  
O ddyfnder pydewau  
Fe'm rhoddodd yn rhydd.

2 Ni feddaf iachâd,  
Un dim ond ei waed;  
Fy heddwch a'm haeddiant,  
Fy nerth a'm parhad.

3 Rhyw afon a gaed,  
O ddwr ac o waed;  
O'r orsedd ddysgleirdeg  
*Mae'n rhedeg yn rhad.*

4 I wella fy mriw,  
Fy meiau o bob rhyw,  
A chânau fy enaid  
Er dued ei liw.

5 Boed yma fy nyth,  
A'm bywyd i byth,  
Yn nghlwyfau'r Oen tyner,  
A'i lawnder di-lyth.

6 Ac yma caf fyw,  
Er croesau o bob rhyw,  
A'm henaid yn llawen,  
Dan aden fy Nuw. g.

280

M. 5, 5, 6, 5. (M. 23.)

NEU 5, 5, 11.

*Gwerth ffydd.*

1 **Y**CYSUR i gyd  
Sy'n llanw fy mryd,  
Fod genyf drysorau  
Uwch gwybod y byd.

2 Ac er bod hwy 'nghudd  
Nas gwel hwynt ond ffydd,  
Ceir eglur ddadguddiad  
O honynt ryw ddydd.

3 'Rwy'n gweled bob dydd  
Mai gwerthfawr yw ffydd,  
Pan elwy'i borth angeu  
Fy angor a fydd.

4 Mwy gwerthfawr im' yw  
Na chyfoeth Peru,  
Hi'm ceidw'n ddiogel  
Ddydd dial ein Duw.

5 Ffarwel fo i'r byd  
A'i bleser i gyd,  
Ar drysor y nefoedd  
Fe redodd fy mryd, g.

281 M. 5, 5, 6, 5, D. (M. 23.)

NEU 5, 5, 11, D.

*Teilung yw yr Oen.*

1 DEWCH, frodyr un fryd,  
Moliannwn ynghyd  
Ein Priod a'n Prynwr,  
Llshawdwr y byd;  
Ein swydd a fydd sôn  
Am gariad yr Oen,  
A ddygodd ein penyd,  
Oddefodd ein poen.

2 Duw mawr ydoedd E',  
Yr Arglwydd o'r ne',  
A ddaeth fel Oen llariaidd  
I farw'n ein lle:  
Tra byddom ni byw  
Ein dyled ni yw  
Mynegu rhinweddau  
A doniau Mab Duw.

3 Fe ddaeth yn ŵr tlawd,  
Fe wisgodd ein cnawd,  
I fod yn Waredwr  
I ni, ac yn Frawd:  
Llu nefoedd a lawr  
Moliennwch E'n fawr,  
Am roi dros ei ddefaid  
Ei fywyd i lawr.

4 Fe ddygodd trwy'i waed  
Dragwyddol ryddhâd,  
I hen garcharorion  
Yn gaethion a gaed;  
I'r bywyd fe'n dŵg,  
O gyrhaedd pob gŵg,  
Er maint yw dichellion  
Gelynyon a'u gŵg.

D. J.

282 M. 5, 5, 6, 5, D. (M. 23.)

NEU 5, 5, 11, D.

*Gwynfydedig yw y meirw.*

1 GWYNFYD y rhai sydd  
Yn meirw mewn ffydd,  
Eu Harglwydd a'u derbyn  
Ar derfyn eu dydd;  
Cânt orphwys i gyd  
Yn brydferth eu bryd  
Uwch blinder tralodus  
Enbydus y byd.

2 Fw blino ni ddaw  
Un bradwr na braw,  
Na nos yn oes oesoedd  
I'r lluoedd gerllaw:  
Eu goleu'n dæg iawn,  
A'u llewyrch yn llawn,  
Yw Iesu grasusol  
A'i ddwyfol wir ddawn.

3 Bydd hyfryd eu hiaith  
Wrth foli Duw'n faith,  
Heb deimlo dim dolur  
Na chur, na phoen chwaith;  
Cânt weled heb gudd,  
Yn dirion bob dydd,  
Ogoniant y Duwdod,  
Rhyfeddod a fydd.

H.

283 M. 5, 5, 6, 5, D. (M. 23.)

NEU 5, 5, 11, D.

*Rhinwedd angeu Galfaria.*

IS nefoedd ni fu  
'R fath fendith i mi  
Ag angeu fy Iesu  
Ar Galfari fry;  
Rhyfeddod y byd  
Yw angeu mor ddrud,  
A gwreiddyn caniadau  
'R ffyddloniaid i gyd.

W. W.

284

M. 5, 5, 7; 7, 7, 9. (M. 44.)

*Crist a'i aberth.*

1 **A** WELSOCH chwi Ef?  
A welsoch chwi Ef?

Iesu, fy Mhrynwr a'm Duw,  
Dros droseddwyr fel myfi.  
Rhoes ei hun ar Galfari,  
Trwy gyfiawnder fy Meichiau caf fyw.

2 Hoeliwyd yr Aberth,  
Hoeliwyd yr Aberth,  
Iesu'r addfwynaf oedd fud;  
'R Hwn sy'n taenu'r nef fel llen,  
A ogwyddodd yno'i ben,  
I wneyd cymmod dros bechod y byd.

3 Rhwng nef a daear,  
Rhwng nef a daear,  
Tair awr o fawr ing a ga'dd,  
Fe attaliai'r haul ei wedd,  
Pan gymmerai Prynwr hedd  
Ei ddirmygu, ei wawdio, a'i ladd.

4 T'wyllwch ymdaenodd,  
T'wyllwch ymdaenodd,  
T'wyllwch aeth dros yr holl wlad:  
Wela'r creigydd cadarn iawn  
A holltasant y prydawn.  
Y croeshoeliwyd Anwylyd y Tad.

5 Dacw fy Meichiau!  
Dacw fy Meichiau!  
Difai yw offirwm ein Pen:  
Arno Ef y rhowd fy nrwg,  
Fe aeth dan y ddwyfol wg,  
Dug fy nghosp yn ei gorph ar y pren.

6 Heddyw yn eiriol,  
Heddyw yn eiriol,  
*Eiriol dros wael ddydol ryw,*

Gan ddywedyd, "O! fy Nhad,  
Gwel fy nwyllaw a fy nhraed,  
Mi a'u prynais, O! gâd iddynt fyw."

D. C.

285

M. 8, 8, 8, 8, 8, 4. (M. 41.)

*Buddugoliaeth.*

**Y**N mlaen, yn mlaen, chwi filwyr Duw  
O'ch blaen mae buddugoliaeth wiw,  
Cewch ddwyn eich palmwydd yn eic  
A gwisgo'r hyfryd goron draw, [llaw  
A bloeddio concwest dydd a ddaw,  
Yn nheyrnas nef. A:

286

M. 8, 8, 8, 8, 8, 4. (M. 41)

*Ar yr un testyn.*

1 **M**AE yno yn drag'wyddol ddydd—  
Ei haul yn anfachludol fydd,  
Ni ddaw un gofid, haint na chlwyl,  
I ffino neb o honynt hwy,  
Yn dawel y gorphwysant mwy  
Yn nheyrnas nef.

2 Ni ddaw un gelyn yn eu plith,  
I aflonyddu 'u heddwch byth:  
Ac ni ddaw angygu du ei wedd.  
Na dim o ddychryniadau'r bedd  
I attal na therfysgu 'u hedd  
Yn nheyrnas nef.

3 Awn, a meddiannwn ninnau'r wlad  
Addawyd ini gan ein Tad,  
Cawn wel'd ei wyneb Ef heb len  
Fu farw trosom ar y pren,  
A rho'i 'n coronau ar ei ben,  
Yn nheyrnas nef. W. I.

87 M. 5, 5, 8; 5, 5, 8. (M. 47.)

*Iawn a glanhâd.*

1 **A**R groesbren, brydnawn  
Cyflawnder ga'dd iawn  
A'r gyfraith anrhydedd'r un dydd:  
Trwy rinwedd y gwaed,  
Boddlonwyd y Tad—  
Mae merch yr Amoriad yn rhydd.

2 Ar Galfari fryn,  
Agorwyd, cyn hyn,  
Ryw ffynnon anfeidrol ei rhin:  
Hi hollol lanhâ  
Aflendid a phla—  
Hi gâna yr Ethiop yn wyn.

Y gwan mae'n gryfhau,  
Er cymmaint ei fai,  
I sefyll wrth Sinai 'n ddigryn;  
Mae'n symmud, â'i hedd,  
Fraw angu a'r bedd,  
A'u hofnau, heb adael yr un. D. C.

288 M. 5, 5, 8; 5, 5, 8. (M. 47.)

*Trysorau yr Iawn.*

1 **C**AED Person mor lawn  
O gyfoeth a dawn,  
A dalodd yn gyflawn y gwerth;  
Trwy'r ddyfais fawr hon,  
Gwneir Sion yn llon—  
Fe wisg ei anwylion â nerth.

2 Dim trysor ni's cair,  
Mewn perlau nac aur,  
Er chwilio hyd derfyn ein dydd,  
A bwysa ei hedd,  
Tu yma i'r bedd,  
Heb goffâ'r llawenydd a fydd.

3 Trysorau mor glir,  
Ni welwn yn wir,  
I randir yr India, pe'r awn:  
Pur aur o Peru,  
Cyffelyb nid yw,  
Y heddwoch fy Nuw yn yr Iawn. E.

289 M. 5, 5, 8; 5, 5, 8. (M. 47.)

*Ceidwad digonol.*

1 **P**OB seraph, pob sant,  
Henafgwyr a phlant,  
Gogoniant a ddodant i Dduw,  
Fel tyrfa gytân,  
Yn beraidd bob un,  
Am Geidwad o forwyn yn fyw.

2 Efe yw fy hedd,  
Fy aberth a'm gwledd,  
A'm sail am drugaredd i gyd;  
Ein cysgod a'n cân,  
Mewn dwr, ac mewn tân,  
Gwnaed uffern ei hamcan o hyd.

3 Yn babell y bydd  
Rhag poethder y dydd,  
A chedyrn lifogydd y fall;  
Mewn cysgod mor dda,  
Holl uffern a'i phla.  
Er chwennych ein difa, nid all. E. J.

290 M. 5, 5, 8; 5, 5, 8. (M. 47.)

*Trysor Calfaria.*

**A**R Galfari fryn,  
Yn haeddiant Duw-ddyn.  
Caed trysor—am dano bydd son  
Mae'n gyfoeth mor ddrud,  
Fe leinw'r holl fyd—  
Clodforedd am rinwedd yr Oen. W. J.

291 M. 6, 4, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 28.)

*Adgyfodiad Crist.*

1 **N**OL rhoddi'n Harglwydd hael  
Yn wael ei wedd,  
(Rhyfeddod mwya' erioed!)  
Yn ngwaelod bedd;  
Ond ar y trydydd dydd,  
Yn rhydd yr aeth Efe,  
Palmantodd lwybr gwych  
I entrych ne'.

2 Concwerodd anegu glâs,  
A'i deyrnas drist;  
Fe'u rhoddwyd tan ein traed,  
Trwy waed ein Crist;  
Fe dynodd gelyn hwn  
Yn gyfan, gwn, o'r gwraidd;  
Pwy ofnai mewn un modd  
Rhag bloedd y blaidd?

3 Nol gorphen ar ei waith  
I'r nef 'r aeth Ef,  
Lle mae ef yr awrhon  
Yn gwrando'n llef;  
Yn eiriol drosom draw,  
Ar fyr daw i'n rhyddhau;  
Mae'r amser ddydd a nos  
Yn agoshau.

w. w.

292 M. 6, 4, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 28.)

*Ffyrdd Rhagluniaeth.*

1 **R**HAGLUNIAETH fawr y nef—  
Mor rhyfedd yw!  
Esboniad helaeth hon.  
O arfaeth Duw!  
Mae'n gwylied llwch y llawr,  
Yn trefnu llu y nef—  
Cyflawna'r cwbl oll  
O'i gynghor Ef.

2 Llywodraeth faith y byd,  
Sydd yn ei llaw;  
Mae'n tynu yma i lawr—  
Yn codi draw:  
Trwy bob helyntoedd blin,  
Terfysgoedd o bob rhyw,  
Dyrchafu'n gysson mae  
Deyrnas ein Duw.

3 Ei th'wyllwch dudew sydd,  
Yn oleu gwir;  
Ei d'ryswech mwyaf, mae  
Yn drefen glir;  
Hi ddaw a'i throion maith  
Yn fuan oll i ben;  
Bydd synu wrth olrhain rhai'n  
Tu draw i'r llen.

D.

293 M. 6, 4, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 28.)

*O! ryfedd ras.*

1 **D**AETH ffrydiau melus iawn  
Yn llawn fel lli',  
O ffirwyth yr arfaeth fawr,  
Yn awr i ni;  
Hen iachawdwriaeth glir  
Aeth dros y crindir cras;  
Bendithion ammod hedd—  
O! ryfedd ras!

2 Fe gymmerth Iesu pur  
Ein natur ni;  
Ennilodd ef i'w saint  
Bob braint a bri;  
Gadawai'r nef o'i fodd,  
Fe gym'rodd agwedd gwas;  
Ffirwyth y cyfammod hedd—  
O! ryfedd ras!

P.

194 M. 6, 4, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 28.)

*Gobaith am adgyfodiad bywyd.*

1 **N**IS gallodd angeu du  
Ddal Iesu'n gaeth  
Ddim hwy na'r trydydd dydd—  
Yn rhydd y daeth;  
Ni ddelir un o'i blant,  
Er myn'd i bant y bedd:  
Fe'u gwelir ger ei fron,  
Yn llon eu gwedd.

2 Wrth wel'd yr angeu du  
Yn nesu'n awr;  
'Rwy'n ofni ambell dro,  
Wrth gosio'r awr;  
Pan gwelwy'r gwaith, trwy ffydd,  
Y trydydd dydd wnaeth Duw,  
Mae ngobaith yn fwy cry'  
Do'i fyny'n fyw.

195 M. 6, 4, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 28.)

*Mawl am brynedigaeth.*

1 **F**EL Oen arweiniwyd Ef,  
I ddyoddef loes;  
Gogwyddo wnaeth ei ben,  
Ar bren y groes;  
Gorphenodd yno'r gwaith  
O brynedigaeth dyn;  
Diolch byth! mae nef a llawr,  
Yn awr yn un.

2 Boed imi gael mwynhau  
Hyd angeu du,  
O'th iachawdwriaeth rad,  
A'th gariad cu;  
Can's dyna'r hyfryd win,  
I flin, o beraidd flas—  
Maddeuant pur a hedd—  
O! ryfedd ras!

3 Fe genir cyn b'o hir,  
Yn glir ei glod;  
Rhyfeddu'r cariad fydd,  
Y dydd sy'n d'od;  
Dadseinir, "Iddo Ef,"  
Yn lân, gan nefol lu;  
Mynegant rinwedd gwaed  
Eu ceidwad cu.

W. W.

296 M. 6, 4, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 28.)

*O! ryfedd ras.*

1 **B**OED clod i'n Prynwr rhad—  
Ein ceidwad cu;  
Fe dorodd rym yr hen  
Iorddonen ddu:  
Gorchfygodd angeu cryf,  
Er awch ei gleddyf glas,  
A drylliodd rwyman'r bedd—  
O! ryfedd ras!

2 Wrth orphwys ar yr Iawn  
Ni gawn i gyd  
Felusion ffrwythau'r groes,  
Drwy'n hoes o hyd:  
Mae yma hyfryd win,  
I flin, o beraidd flas,  
Maddeuant pur a hedd—  
O! ryfedd ras!

3 Yn rawnwin, ar y groes,  
Fe droes y drain;  
Caed balm o archoll ddofn  
Y bicell fain:  
Dechreuwn fawl cyn hir  
Na flinir ar ei flas,  
Am Iesu'r aberth hedd—  
O! ryfedd ras!

P. J.  
G

297 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Rhinwead aneu y groes.*

1 IACHAWDWR dynol ryw,

Tydi yn unig yw

Fy Mugail da;

Mae aneu'r groes yn llawn

O bob rhinweddol ddawn,

A firwythau melus iawn,

Rhai c'm niachâ.

2 'Does dim a laesa 'mhoen,  
Ond gwaed yr addfwyn Oen—

Pur waed fy Nuw;

Mae'i hun yn fwy na'r byd,

A'i holl drysorau 'nghyd,

A thecach yw ei bryd,

Na dynol ryw.

3 Yn nyfnder dwfr a thân,

Calfaria fydd fy nghân—

Calfaria mwy;

Y bryn ordeiniodd Duw

Yn nhrag'wyddoldeb yw,

I godi'r marw'n fyw,

Trwy farwol glwy'. w. w.

298 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Cartrefle Duw a'i saint.*

1 MAE'r Ganaan hyfryd draw

Yn dangos fel gerllaw

Yn ngoleu'r nef;

De'wch bellach tua'r wlad,

Cartrefle pur ein Tad,

Na fined dim o'n traed,

Nes myn'd i dref.

2 Grawn sypiau yno sydd

Yn hongian nos a dydd,

Ar winwydd pur,

I ddisychedu y rhai

Fu'n griddfan dan eu gwae,

O gystudd a phob trai,

Mewn anial dir.

3 Rhyw gariad fel y môr,

Anfeidrol berffaith stôr,

Heb derfyn mwy,

Syn llifo'n loew, las,

O dan y fainc i maes

I etifeddion gras—

Eu bywyd hwy.

4 O! heddwch pur y nef!

'Does a'i hadnebydd ef

Tu yma i'r bedd:

Ddeallodd neb erioed

Syn trigo is y rhod

Y pleser sydd yn bod

Mewn nefol hedd. w. w.

299 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Llwyddiant yr Efengyl.*

1 O, PRYNWR mawr y byd,

Tyr'd bellach, mae'n llawn bryd,

Mae yn brydnawn;

Gâd imi wel'd dy ras,

Ar fyr yn tori maes,

Tros wyneb daear las,

Yn genllif llawn.

2 Mae doniau f'Arglwydd mawr,

Yn llifo oll i lawr,

Fel môr didrai;

Tros dir Immanuel,

Yn hyfryd laeth a mêl,

A sicrwydd pur a sel

Byth i barhau. w. w.

300 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Cyflawnder o ras a doniau yn Nghrist.*

1 O TYRED, Arglwydd mawr,  
Dyhidla o'r nef i lawr,

Gawodydd pur:  
Fel byddo i'r egin grawn,  
Foreuddydd a phrydnawn,  
I darddu'n beraidd iawn,  
O'r anial dir.

2 Mae peraroglau'th rās,  
Yn taenu o gylch i maes,  
Awelon hedd;

Estroniaid sydd yn d'od,  
O'r pellder eitha' erioed,  
I gwympo wrth dy droed,  
A gwel'd dy wedd.

3 Mae gwedd dy wyneb pryd,  
Yn maeddu oll i gyd,  
Sy' ar ddaear lās;

Mae pob rhyw nefol ddawn,  
Oll yno'n gryno, lawn,  
Yn tarddu'n hyfryd iawn,  
O'th glwyfau i maes.

4 Arosaf ddydd a nos,  
Byth bellach dan dy groes,  
I'th wir fwynhau;

Mi wn mai'r taliad hyn,  
Wnaed ar Galfaria fryn,  
A'm câna oll yn wyn  
Oddiwrth fy mai.

w. w.

301 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Efrwythau'r Efyngyl.*

1 'R WY'N edrych drw'odd draw,  
Yn dysgwyl gwel'd gerllaw  
Addewid bur,

Yn esgor ar ei dawn,  
Sylweddol hyfryd iawn,  
Sef cariad perffaiith llawn,  
A heddwch gwir.

2 Pan neso'r haul yn mlaen,  
Fè dyf y llyisiau mân;  
Eginau'r nef;  
Grasusau hardd eu lliw,  
Ffrwyth angeu loes fy Nuw,  
Anwyla' 'rïoed eu rhyw,  
Genhedlodd Ef.

3 Mae gwyliau'r hyfryd wlad,  
Gwledd iachawdwriaeth rad,  
Efyngyl gras;  
A'i hadsain dwyfol drud,  
Yn gydsain hardd yn nghyd,  
'Nawr hyd eithafoedd byd  
Yn swnio maes.

w. w.

302 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Caniadau y nef.*

1 PAN ddelo'r saint yn nghyd,  
Uwch poen a maglau'r byd,

Yn groew eu cân—  
Caniadau am ei loes,  
A rhinwedd llawn ei groes,  
Fydd hyd drag'wyddol oes,  
Yn Salem lân.

2 Ar aur delynau'r nef,  
Hwy a'i molliannant Ef,  
Heb ball, heb boen:  
Yr anthem felus, faith,  
Fydd am achubol daitl,  
A phur rinweddol waith  
Yr addfwyn Oen.

T. S.



303 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Y llwybr cul.*

1 **G**WNES addunedau fil,  
I gadw'r llwybr cul,  
Ond methu 'rwy';  
Preswlydd mawr y berth,  
Chwanega eto'm nerth,  
I ddringo'r creigiau serth,  
Heb flino mwy.

2 Gelynion lawer mil,  
Sy' oddeutu'r llwybr cul,  
Lle 'rwyf yn byw :  
Dal fi â'th nerthol law,  
Rhag cwympto yma a thraw;  
A'r tywyll ddydd a ddaw,  
Bydd iun' yn Dduw. M. R.

304 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*Erfyn am faddeuant.*

1 **O**, ARGLWYDD, trugarhâ,  
Er dyfnded yw fy mhla,  
A meiau mawr;  
Dilea rhei'ny'n rhad,  
A maddeu yn y gwaed,  
A dyro wir iachad,  
I'm clwyfau 'nawr.

2 Golch fi oddiwrth fy mai;  
Ti elli fy nglanhau,  
A'm cânu'n wyn;  
Er dyfnded yw fy nghlwy',  
Anfeidrol ras sydd fwy,  
Mae wedi dyfod trwy,  
Galfaria fryn.

3 Am hyny, trugarhâ,  
O, Dduw! a llwyr lanhâ  
Fy meiau 'gyd;

A golch fi yn y gwaed,  
Ar Galfari a gaed,  
Yr iachawdwriaeth rad,  
A'r angeu drud.

4 Cân Haleluia mwy,  
Mae Meddyg i dy glwy',  
Er dyfnded yw;  
Mae modd i'th gyfiawnhau,  
Mae ffynnon i'th lanhau,  
Yn nghyda llwyr iachau  
Dy farwol friw. R. J.

305 M. 6, 6, 4; 6, 6, 6, 4. (M. 30.)

*"Sychedig yw fy enaid am Dduw."*

1 **O!** FFYNNON werthfawr rad!  
Yr afon fawr o waed,  
Ar Galfari—  
Dylifa i lawr i'r byd,  
A chudd fy meiau i gyd  
Yn nyfnder cariad drud  
Dy haeddiant cu.

2 O! tyred, Awdwr hedd,  
A thyn ni 'mewn i'r wledd,  
O'r pydew prudd :  
Ein henaid, griddfan mae,  
Am gael ei wir iachau—  
O'th ras, tyr'd yma'n glau,  
A rho ni'n rhydd.

3 Mae torf aneirif fawr,  
Yn ddysglaser fel y wawr,  
'Nawr yn y nef;  
Trwy ganol gwawd a llid,  
A gwrth'nebiadau'r byd,  
Ac angeu glas yn nghyd,  
A'i carodd Ef. W. W.

306 M. 6, 5, 6, 5; 6, 6, 6, 5. (M. 58.)

*Gwledd yn y mynydd hwn.*

1 **A**RLWYODD dwyfol ras  
Ar fynydd Sion,  
Ryw wledd ddanteithiol fras  
O basgedigion:  
Puredig loew win,  
O anghymarol rin,  
Adfywia'r enaid blin,  
Bywhâ farwolion.

2 Mae'r udgorn arian mawr  
Yn seinio yn llafar,  
Fr wledd mae'n galw'n awr,  
Efengyl hawddgar;  
Gwasgared gwynt y nef  
Ei adsain beraidd ef,  
Nes b'o i'w hyfryd lef  
Amgylchu'r ddaear.

3 Mae'r aberth wedi'i ladd,  
Pob peth sy'n barod;  
Llawn groeso i bob gradd  
Yn awr i ddyfod:  
Caiff cleifion wir iachâd,  
Rhai noethion wisgoedd rhad,  
A'r euog gyfiawnhâd,  
Yn ngwaed y cymmod. W. R.

307 M. 6, 5, 6, 5; 6, 6, 6, 5. (M. 58.)

*Glân yr Iorddonen.*

1 **A**R lân Iorddonen ddofn  
'Rwy'n oedi'n nychlyd,  
Mewn blys myn'd trwy—ac ofn  
Ei 'stormydd enbyd;  
O! na ba'i modd i mi  
Ysgoi ei hymchwyydd hi,  
A hedfan uwch ei lli  
Fr Ganaan hyfryd.

2 Wrth gofio grym y dwr,  
A'i thonog genlli;  
A'r mynych rymus wr  
A suddodd ynddi—  
Mae braw drwy f'enaidd gwan  
Mai boddi fydd fy rhan,  
Cyn cyrhaedd tawel lân  
Bro y goleuni.

3 Ond pan y gwelwyf draw  
Ar fynydd Sion,  
Yn iach, heb boen na braw,  
Fy hen gyfeillion—  
Paham yr ofnaf mwy?  
Y Duw a'u daliodd hwy,  
A'm dyga innau drwy  
Ei dyfroedd dyfnion. E. E.

308 M. 6, 5, 6, 5; 6, 6, 6, 5. (M. 58.)

*Sylwedd y cysgodau.*

1 **T**RWY y cysgodau cudd,  
'Roedd rhai yn canfod  
O bell, â golwg ffydd,  
Oen Duw yn dyfod:  
Y Sylwedd mawr ei ddawn  
I dalu perffaith iawn,  
A rhoi gollyngdod llawn,  
Drwy waed y cymmod.

2 A syllu draw o bell  
A wnaent yn fynych,  
Gan waeddi—Gwlad sydd well  
Yr y'm yn chwennych:  
Dyeithriaid am eu hoes,  
Cyfarchent bob rhyw loes,  
A'u cred yn Oen y groes—  
Ef oedd eu gwrthddrych.

309 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Hafddydd yr Efyngyl.*

1 **M**AE llais y durtur fwyn—  
Ei chân yn nghyd a'i chŵyn,  
Yn seinio'n bêr,  
Nes ennill llawer llwyn;  
Y gauaf, wele! heibio aeth,  
Ac ar y ddaear blodeu ddaeth;  
Mae'r adar yn ymbyncio  
Eu mawl—nid cwyno caeth.

2 Teg wawriodd anrom ddydd,  
A welwyd gynt trwy ffydd,  
Gan rai sy'n awr  
O'u rhwymau mawr yn rhydd;  
Ac os oedd dyled arnynt hwy  
Foliannu'r Oen am farwol glwy',  
Mae'n dyled ni, genedloedd,  
Fil filoedd foli mwy.

3 Mae udgorn Jubili,  
Am haeddiant Calfari,  
Yn seinio'n llon  
Newyddion goreu i ni;  
Gwir lawenhâ, fy enaid prudd,  
Ennilodd Iesu mawr y dydd;  
Daw carcharorion angeu  
O'u rhwymau oll yn rhydd. g.

310 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Buddugoliaeth drwy Grist.*

1 **G**ORCHFYGODD Brenin hodd,  
Fyd, uffern, angeu, a'r bedd;  
Priodi wnaeth  
Yr hon oedd gaeth ei gwedd:  
Am hyn crechwena, Sion wan,  
O'th ardal leag, a thyr'd i'r lan;  
Tywysog y tangnefedd,  
*Da i rinwedd, yw dy ran.*

2 Mae tyrfa fawr heb ri',  
Fu ar ein daear ni,  
Dan lawer loes,  
A llid, a chroes, a chri,  
Yn awr newn bywyd, hyfryd hoen,  
Ger bron gorseddfainc Duw a'r Oen,  
Heb deimlo mwy flinderau,  
Effeithiau llid a phoen. g.

311 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Codiad Sion.*

1 **F**E dderfydd dwyn y groes,  
Yn lân, a phob rhyw loes,  
Oawn ado'r byd  
A'i adfyd,—ber yw'r oes,  
Bydd Sion wych a'i siriol wawr  
Wrth godi o'r llwch a gado'r llawr,  
Ar ddysglaer wedd ei Phriod,  
Yn moli'r Duwdod mawr. g.

312 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Pyrth Caersalem.*

1 **I**DDAFYDD llawen iawn  
Oedd clywed d'wedyd, Awn  
I dŷ Duw nef,  
Gwledd gydag ef a gawn;  
Sai'n traed o fewn Caersalem byrth,  
Llaw o alluog, enwog wyrth,  
Sydd dan y gwaredigion,  
O Sion un ni syrth.

2 Yr ochr draw i'r bedd,  
Y saint fydd ar ei wedd,  
Hwy gânt i gyd  
Fyw yn ei hyfryd hedd;  
A'u holl ganiadau yn gytun  
Fydd, byth, am gariad Tri yn Un,  
Ac am drag'wyddol arfaeth  
Yn iachawdwriaeth dyn. g.

313 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Arch rhag dylif tân.*

**O** DEWCH, o fawr i fân,  
Cyn delo'r dylif tân,  
I'r arch mewn pryd—  
Fe lysg y byd yn lân;  
**O** ddinas distryw brysiwch, ffowch!  
Ar y gwastadedd nac ymdrowch—  
I sanctaidd fynydd Sion,  
**O** ddynion, p'am na ddowch!

G.

314 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Efengyl hedd.*

**1** **A** RDDERCHOG yw ein braint,  
Mewn pwysig werth a maint,  
Tu hwnt i hawl  
Myrdd o sylweddol saint;  
Mae heddyw wir efengyl hedd,  
Heb len na gorchudd ar ei gwedd,  
Yn cynnyg i'r truanaf  
Ei llawn felusaf wled.

**2** Dyrchafwn heddyw lef,  
Yn daer at orsedd nef,  
Am fendith lawn  
O'i drysor eurlawn Ef;  
Mae ynddo ras, fel môr didrai,  
I lenwi diffyg y fath rai:  
O'i rwyddaf drugareddau,  
'Fe biau faddeu bai.

**3** Doed pob angenus un—  
Pob euog, gwael ei lun—  
Awn, awn yn llu,  
At Iesu yn gytun:  
Mae yn heddychu'r dua' gaed,  
Mae yn sancteiddio trwy ei waed,  
Mae'n rhoi gelymion diriaid  
Trueiniaid tan eu traed.

T. J.

315 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Ymddiried yn ngras Crist.*

**1** **O** DAN d' adenydd di  
Mae llaeth a mêl yn lli',  
Yn llenwi'r llawr,  
Yn afon fawr i ni;  
**I** faethu'r gweiniaid byth yn gu,  
**A** maeddu o'u bron elynion lu,  
Mae hyfryd Frenin Sion,  
Oen tirion, byth o'n tu.

**2** Fy unig noddfa'n awr,  
I'm lloni ar y llawr,  
A'm gwir iachau,  
Yw clwyfau'r Meichiau mawr;  
**Caf** yno lechu yn dawel lân  
Yn Iesu cu, a seinio cân,  
Pan syrthio'r sér yn gawod,  
**A** dyfod diluw o dân.

**3** Hwn ydyw'r un a ddaeth  
I fyny o Edom gaeth,  
O Bozra dir,  
Gorchfygu'n wir a wnaeth;  
Yr hwn fu farw ar y pren  
Agorodd ffordd i'r nefoedd wen;  
Yr hwn fu'n dyoddef dirmyg,  
Yw'r meddyg fyth, Amen.

G.

316 M. 6, 6, 4, 6; 8, 8, 7, 6. (M. 34.)

*Noddfa mewn cyfyngder.*

**Y**N nyfnder pob rhyw loes,  
A gorthrymderau f'oes,  
Fy noddfa a'm nerth  
Yw'r aberth fu ar y groes:  
**Rhinweddol haeddiant marwol glwy'**  
**Yw'm cysur yn y byd tra bwy',**  
**A'm hunig ddigonoldeb**  
**I drag'wyddoldeb mwy.**

G.

317 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Anghyfnewidioldeb a ffyddlondeb Duw.*

1 **F**FFYDDLONDEB mawr y nef  
A bery yn ddilyth;  
Nid oes a'i newid ef  
O'r nef i uffern byth;  
Mae'i arfaeth fawr a'i ras yn un,  
A gwaed y groes, oll yn gyntun.

2 Cyfnewid y mae dyn,  
Tröedig yw erioed;  
Ond digyfnewid Duw,  
Fel haul neu ser y rhod:  
Ac ar ei faith ffyddlondeb Ef,  
Y try gogoniant nef y nef.

3 Oddiwrtho'n unig daw,  
'Ngorfoledd a fy hedd;  
Oddiyno rhed yn llif  
Tu hwn a thraw i'r bedd:  
Er darfod haul a sér y nef,  
Ni dderfydd ei ffyddlondeb Ef. w. w.

318 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Cariad Crist.*

1 **O**NEFOL addfwyn Oen,  
Sy'n llawer gwell na'r byd;  
Mae llucedd maith y nef  
Yn rhedeg arno'u bryd;  
Mae'th ddawn, a'th ras, a'th guriad drud,  
Yn llanw'r nef, yn llanw'r byd.

2 O! enw anwyl iawn!  
Anwylaf un yn bod:  
Na chlywodd engyl nef,  
Gyffelyb iddo erioed;  
Rhóf arno 'mhwys, doed dydd, doed nos,  
*Fe'm deil i'r lan dan bob rhyw groes.*

3 Pan ddelo'r hyfryd ddydd,  
I mi gael gwel'd Ei wedd,  
Ac yfed ffrydiau pur  
O'i annherfynol hedd,  
'Mhlith llucedd maith y drydydd nef,  
Mi ganaf am ei gariad Ef. w. w.

319 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Buddugoliaeth yr Efengyl.*

1 **M**AE'R faner fawr yn mlaen,  
Ei efengyl Ef yw hon;  
Mae uffern lawn o dân,  
Yn crynu 'nawr o'r bron:  
Hi gwymp, hi gwymp, er maint ei grym  
O flaen fy Iesu 'dyw hi ddim.

2 O! ffynnon lawn o hedd!  
O! anchwiliadwy fôr!  
Sy'n cynnwys ynddo'i hun,  
Ryw annherfynol stôr;  
Ti bia'r clod, wel cymmer ef  
Trwy'r ddaear, uffern fawr, a'r nef.

3 Ymgrymed pawb i lawr  
I enw'r addfwyn Oen;  
Yr enw mwys' mawr  
Erioed a glywid sôn;  
Y clod, y mawl, y parch, a'r bri,  
Fo byth i enw'n Hauglwydd ni. w. w.

320 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Cyfiawnder a hedd yn ymgusanu.*

**M**AE cariad yn ei wedd  
At wael golledig fyd,  
Cyfiawnder llym a hedd  
Yn ymgusanu 'nghyd:  
Trugaredd a gwirionedd pur  
A ymgysfaru yn ei gŵr. J.

321 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Y Jubili.*

1 **E**R myned oll yn gaeth,  
A chyfeiliorni 'mhell;  
Trwy Iesu Grist fe ddaeth  
In' etifeddiaeth well;  
Gwnaeth Iawn i'w Dad, a hedd i ni,  
Trwy waed ei groes ar Galfari.

2 Ohwi garcharorion prudd,  
Dechreuwch lawenhau;  
Fe wawriodd arnom ddydd;  
Daeth Iesu i'n rhyddhau;  
Trwy fuddugoliaeth Calfari  
Fe ddaeth yr hyfryd Jubili.

3 I gaethion Babilon  
Cyhoeddir llawn ryddhâd;  
Dychwelwch adre'n llon  
Chwi waredigol hâd;  
Ennilodd Crist ein rhyddid ni,  
Yn awr daeth blwyddyn Jubili.

4 Aed sain Efengyl gras  
O gwmpas daear lawr;  
Doed pawb i brofi blas  
Yr iachawdwriaeth fawr;  
I Sion wen doed torf ddiri'  
Wrth sain pâr udgorn Jubili. P. J.

322 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Sicrwydd yr addewid.*

1 **W**RTH edrych ar y sail,  
A'r wir addewid gref,  
Er ofnau rif y dail,  
P'am yr amhheuwn Ef?  
A dyma air, pwy wŷr ei werth?—  
Yn ol dy ddydd, y bydd dy nerth.

2 Paham y beiaf ddim  
Ar gyfoeth gras fy Nnuw?  
Lle rhoddwyd sicrwydd im'  
Mai digyfnawid yw;  
Dyma yr hen addewid gu  
Lle gallwn ni gael cysur cry'.

3 Nid oedd yn ngallu'r nef  
Ddim modd rhoi sicrwydd mwy,  
Na'r wir addewid gref  
A seliodd gwaged ei glwy';  
Ei air a saif yn un o hyd  
Pan doddo barn elfenu'r byd.

4 Y pererinion gynt,  
A'r hen ferthyron glân,  
Yn awr diangol ŷnt,  
Er ymgyrch dŵr a thân:  
Mae'r llaw a'u daliodd hwy i'r lân,  
I tithau'n gymhorth, f'enaid gwan. R. W.

323 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Digonolrwydd yr Iawn.*

1 **E**IN Harchoffeiriad mawr,  
Emmanuel ei hun,  
Ei fywyd roes i lawr  
Dros euog affan ddyn;  
Anfeidrol werth ei aberth Ef  
Foddlonai holl ofynion nef.

2 Cyfiawnder gafodd Iawn,  
A'r ddeddf fawrhad a bri;  
A'r euog ryddid llawn  
Trwy angeu Calfari;  
Caed digon Duw, a digon dyn,  
Yn haeddiant Iesu mawr ei hum.

3 Yn awr cyhoeddir hedd  
I gyrau pella'r byd,  
Gwahoddir pawb i'r wledd  
Gaed trwy ei angeu drud:  
Mae'r bwrdd yn llawn danteithion trua.  
Ddarparodd Duw o'i rylodd ras. P. J.

324 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Gogoniant y groes.*

1 MAE enw Calfari,  
Fu gynt yn w'radwydd mawr,  
Yn ngolwg f'enaïd cu  
Yn fwy na'r nef yn awr;  
O, ddedwydd fryn! sancteiddiaf le,  
Dderbyniodd ddwyfol waed y ne'.

2 'Rwy'n caru hyfryd awr,  
Mi gara'r hyfryd le,  
Mi gara bren y groes  
Orweddodd arno 'Fe:  
Dyma fy Nuw, dyma fy mhen,  
Ag oll a feddaf ar y pren.

3 Ffarwel deganau byd,  
Mae'ch blodeu hyfryd iawn  
Oll yn diflanu'n nghyd  
Ar Galfari brydnawn.  
Mae da, mae dyn, a maint eu grym,  
Yn ngwydd y groes yn myn'd yn ddim.

w. w.

325 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Hiraeth y Cristion.*

1 CAERSALEM dinas hedd,  
O na bawn yno'n byw;  
O hyd cawn weled gwedd,  
A siriol wyneb Duw;  
Mae weithiau'n dywyll arna'i 'nawr,  
Fy haul nid â byth yno i lawr.

2 Yn Nuw ymddiried 'rwy'  
Am nerth i rodio'i ffyrdd;  
Fe'm dygodd eisioes trwy,  
Do, gyfyngderau fyrrd:  
Hyderus eto b'wyf trwy ffydd,  
Yn nerth fy Nuw ca'i gario'r dydd.

3 Caf wel'd f'Anwylyd cu,  
Pan elw'i draw i dre',  
Yr Hwn o'i gariad fu  
Yn dyoddef yn fy lle;  
Caf wel'd yr Iesu, digon yw,  
Mae'r Oen a laddwyd yno'n fyw.

D. J. (J.)

326 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Oi traed y praidd.*

1 MAE lluoedd maith yn mlaen,  
'Nawr o'u carcharau'n rhydd,  
A gorfoleddu maent,  
Oll wedi cael y dydd;  
I'r lân, i'r lân, diangasant hwy,  
Yn ol eu traed y saengwn mwy.

2 Gadawn y byd ar ol,  
Y byd y cawsom waes,  
Y byd ag sydd bob dydd,  
Yn ceisio'n llwfrhau;  
Ni welwn wlad rhwng ser y nef,  
Sydd fil o weithiau'n well nag ef.

3 Cawn wel'd yr addfwyn Oen,  
Fu farw ar y bryn,  
Yn medi ffrwyth ei boen,  
Yn hyfryd y pryd hyn;  
Myrddiynau heb rif yn canu 'nghyd,  
I'r Hwn fu farw dros y byd.

4 Fe genir coron ddrain  
Wrth ganu gwaed y groes,  
Fe gofir picell fain  
Wrth gofio angeu loes;  
Fe seinia'r holl dorfeydd yn un,  
Bob rhan o boenau Mab y dyn.

5 Ni chollwyd gwaed y groes  
Erioed am ddim i'r llawr,  
'Ddyoddefwyd angeu loes  
Heb ryw ddybenion mawr:  
A dyma oedd ei amcan Ef,  
Ein dwyn o'r byd i deyrnas nef. w. w.

327 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Canu am fuddugoliaeth.*

- 1 **F**E gân 'tifeiddion gras  
Yn bernaid maes o law.  
Wrth weled boddi'r Aiff,  
A hwythau'r ochr draw;  
Fy enaid, héd i ben y bryn,  
I wel'd y goncwest ryfedd hyn.
- 2 Yn uchel fry ar fryn,  
Rhwng daear gron a nef,  
Holl rwysg Gehenna fawr,  
A'i grym, orchfygodd Ef:  
Tan hoelion dâr, 'Fe'u maeddodd hwy,  
Pa fodd ymfrostia uffern mwy?
- 3 Wel dacw'r ffordd yn rhydd,  
Agorwyd hi o bob tu,  
O ddyfnder daear lās,  
I uchder nefoedd fry:  
O dring, O dring, fy enaid mwy,  
Mae nerth i'w gael mewn marwol glwy'.
- 4 Wel, deuwn yn y blaen,  
Fe gwmpodd ofnau mawr,  
Ar y gelynyon hy'  
Oedd am ein cael i lawr;  
Fe gaed y dydd, mi glywa'r nen  
Yn canu'r goncwest ar y pren. w. w.

328 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Y Brenin a'i lu.*

- 1 **M**AE'r Brenin yn y blaen,  
'Rym ninnau oll yn hy';  
Ni saif na dwr na thân,  
O flaen fath arfog lu:  
Ni awn, ni awn, tan ganu i'r lân,  
Cawn fuddugoliaeth yn y mân.

- 2 Ni welir un yn llesg  
Yn myddin Brenin nef,  
Can's derbyn maent o hyd  
O'i nerthoedd hyfryd Ef:  
Ni gawn, ni gawn, y gloew win  
Melus ei ryw, sancteiddiol rin.
- 3 Dechreuod tafod mwy,  
Os tafod fedr gân,  
Na foed ond dwyfol glwy',  
Holl ddyddiau f'oes o'i flaen:  
Fe gaed, fe gaed, o'r diwedd fraint  
Na wybu eeraph nef ei maint.
- 4 Gerubiaid! de'wch yn mlaen,  
Edrychwch yma i lawr,  
Ar d'wynion uffern dân,  
Yn nghanol nef yn awr;  
Pob un yn gwel'd ei hyfryd wlad,  
A phorth sancteiddiol tŷ ei Dad.
- 5 Fe ddarfu ofn du,  
Euogrywyd cas, a braw,  
Pan welsom aberth fu  
Ar ben Calfaria draw;  
Ar bren fe dalwyd iawn mor ddrud,  
Oedd fwy na holl ffeidd-dra'r byd.

J.

329 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Adgyfodiad Crist.*

- 1 **O**RWYMAU anegu caeth,  
Yn rhydd y daeth Mab Duw,  
Gorchfygu'r bedd a wnaeth  
Mewn buddugoliaeth wiw:  
Derbyniodd Ef bob gallu mawr  
Trwy'r ddaear lawr, yn awr, a'r nef.
- 2 Pan losgo'r ddaear lawr,  
A'i mawredd o bob rhyw,  
Fe genir am yr awr  
Daeth Ef o'i fedd yn fyw;  
Bydd côf am hon gan ddysglaer lu,  
Aneirif fry, byth ger ei ffon.



330 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Pwyso ar Dduw.*

- 1 **F**Y enaid, at dy Dduw,  
Fel gwrthdych mawr dy gred,  
Trwy gystudd o bob rhyw,  
A phob temtasiwn, rhed;  
Caf ganddo Ef gysuron gwir,  
Fwy nag ar foroedd nag ar dir.
- 2 O! na allwn roddi 'mhwys  
Ar dy ardderchog law;  
A gado'i gystudd dd'od  
Oddiyma ac o draw:  
A byw tan nawdd y dwyfol waed  
Yn ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad.
- 3 Mi fyddaf lawen iawn,  
A 'ngofid tan fy nhraed,  
O fore hyd brydnawn  
Tan aden gwir fwynhad;  
Mae dy fwynhau, a phrofi'th hedd,  
Yn wastad imi'n hyfryd wled. w. w.

331 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Pebyll Sion.*

- 1 **A**RGLWYDD y bydoedd fry,  
Mor dæg a hawddgar yw  
Trigfanau'th gariad cu,  
Daearol demlau'n Duw:  
Boed tynfa f'enaid tua'th dŷ,  
Fy Nuw, i wel'd dy wyneb cu.
- 2 Hoff gan aderyn tó  
Gael yno i'w gywion le;  
A'r wenol ar ei thro,  
Hiraetha am ei thre:  
Boed sél fy enaid i'r un faint,  
*Am gael preswyllo 'nhlith dy saint.*

3 Gwyn fyd y dynion fo  
'N gweddio yn y lle  
Mae Duw yn gwrando'i blant,  
Yn wastad molant E';  
A dedwydd ydynt hwy bryd hyn,  
Sy'n hoffi'r ffordd i Sion fryn.

4 O nerth i nerth â rhai'n  
Trwy lyn wylofain du,  
Nes delont bawb gerbron  
Eu Duw yn Sion fry:  
O! hyfryd fan, pan ddygo Ef  
Ei blant i gyd o'r byd i'r nef.

5 Cael treulio sanctaidd ddydd  
Lle byddo Duw a'i saint,  
Llawenydd gwell a rydd  
Na mil mewn bydol fraint:  
Gwell yw cael cadw'r drws o hyd,  
Lle dël fy Nuw, na ph'lassu'r byd.  
Dr. W. Cyf. D. J.

332 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Gweddî am wyneb Duw.*

- 1 **D**YSGLEIRIA, fore wawr,  
'R'ol nos o faith barhâd;  
Dadguddia imi'n awr,  
Ryw ran o'm hyfryd wlad,  
Lle rheda cariad pur i maes,  
Fel môr di-drai, dros feusydd gras.
- 2 'R'wyf yno wrth fy modd,  
Ond edrych ar dy wedd;  
Fy nghalon galed dôdd  
Wrth brofi o dy hedd:  
Ti wyt fy oll, fy Arglwydd mawr,  
O fewn y nef, ac ar y llawr. w. w.

333 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Jubili'r Efengyl.*

1 **U**DGENWCH weision Duw,  
Yr udgorn arian mawr

Gan ddwyn i ddynol ryw,  
Newyddion da yn awr:

Blwyddyn y Jubili a ddaeth,  
A rhyddid cu i'r enaid caeth.

2 Dadganwch oll ar g'oedd  
Dros wyneb daear las,  
A llawen uchel floedd,  
Anrhydedd Crist a'i ras;

Blwyddyn y Jubili a ddaeth,  
A rhyddid cu i'r enaid caeth.

3 Mae gwaredigaeth hael,  
Trwy rinwedd gwaed yr Oen;  
I bechaduriaid gwael,  
Sy'n byw tan bwysfawr boen;

Blwyddyn y Jubili a ddaeth,  
A rhyddid cu i'r enaid caeth.

4 Eneidiau ofnus, dowch,  
Yn rhwydd at Iesu Grist;  
Ammheuon, ymaith fflowch,  
Daeth cysur i rai trist:

Daeth blwyddyn fawr y Jubili,  
I ro'i trag'wyddol heddi ni.

J.

334 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Arglwydd, cofia fi.*

1 **I**FYNY at fy Nuw,  
Fy enaid, c'od dy laf—  
Heibio i'r auraidd lu,  
I eithaf nef y nef:

Gostwng dy glust, o'r bryniau fry—  
O, Arglwydd grasol cofia fi.

2 'R'wyf yma'n wael fy ngwedd,  
Yn euog ac yn wan  
Gelynnion creulawn sy'  
O'm hamgylch yn mhob man;

Bydd imi 'n blaid goncro'r llu—  
O, Arglwydd grasol! cofia fi.

3 Yn wyneb uffern ddu,  
Ac angeu mawr ei rym,  
Rho imi nerth wrth raid—  
Bydd Di yn nodded im';  
Yn nyfroedd yr Iorddonen ddu,  
O, Arglwydd grasol! cofia fi.

D. C.

335 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Cystudd darfodedig.*

1 **N**I phery ddim yn hir,  
Y ddu dymnestlog nos,  
Ni threfnwyd amser maith,  
I neb gario'r groes  
Mae'r hyfryd wawr sy'n codi draw,  
Yn dweyd fod bore braf gerllaw.

2 Mi welaf gwmwl du,  
Yn awr yn mron a ffoi,  
A gwynt y gogledd sy'  
Ychydig fach yn troi;  
'Nol tymmestl fawr, daw yn y man,  
Ryw hyfryd hin ar f'enaid gwan.

W. W.

336 M. 6, 6, 6, 6, 8, 8. (M. 6.)

*Iesu, ffynnon dedwyddwch.*

1 **F**Y Iesu yw fy Nuw,  
Fy noddfa gadarn gref;  
Ni fedd fy enaid gwan  
Ddim arall dan y nef:  
Mae ef ei hun, a'i angeu drud,  
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd.

2 Anfeidrol wyt, fy Nuw,  
Anfeidrol yw dy ras;  
A thyma'r man y mae  
'M dedwyddwch mwya'i maes:  
Anghyfnawidiol yw efe,  
Am hyn fe'm dwg i deyrnas de.

W. W.

337 M. 6, 6, 8; 6, 6, 8. (M. 14.)

*Gorfoledd yr Iachawdwriaeth.*

1 **O** IACHAWDWRIAETH fawr!  
A lifodd i ni lawr,

Yn ffrydiau pur grisialaidd byw;  
Maddeuant i ni gaed,  
A heddwch yn y gwaed,  
O gariad rhad ein Tad a'n Duw.

2 Y ffynnon loew hyn,  
A darddodd ar y bryn,  
Yn ffrydiau o anfeidrol hedd;  
Rhyw ior o gariad yw,  
Dy heddwch Di, fy Nuw,  
A nef y nef yw gwel'd dy wedd.

3 'Does unrhyw drysor drud,  
Fel Ef o fewn y byd,  
Mae'n gwneyd fy ysbryd llesg yn llon,  
Mwy, 'n llawen byddaf byw,  
Yn noddfa bur fy Nuw,  
Dan holl gystuddiau'r ddaear hon.

4 Mewn dyrys anial le,  
Heb gyfaill is y ne',  
Y gallaf ond cael cwmni'm Duw,  
Ddifyru'm hoes mewn heddi,  
Nes myn'd i byrth y bedd,  
Yn hyfryd wedd dy wyneb gwiw.

5 Mi dreuliaf oriau f'oes,  
Yn dawel dan dy groes,  
Dim ond cael edrych ar dy wedd,  
Perffeithrwydd pleser yw,  
Y wledd o gariad Duw,  
Fy holl ddyddanwch a fy heddi. D. J.

338 M. 6, 6, 8; 6, 6, 8. (M. 14.)

*Clodfori Duw am ei ffyrdd.*

1 **M**AWR a rhyfeddol yw  
Dy waith, O Arglwydd Dduw!  
*Yr Hollalluog enwog Un!*

Oywir a chyfiawn yw  
Dy ffyrdd rhagorol gwiw,  
O Frenin Sion! gyfion Gŵn.

2 O, pwy ni'th ofna Di,  
O Frenin nefol fri!  
Ac iu folianna d'enw mawr?  
Wyt unig sanctaidd Ior,  
Goruwch y nefol gôr,  
A Llywydd cyfiawn nef a llawr.

3 Daw'r holl genedloedd pell  
I'th ofni eto'n well—  
Addolant ger dy fron yn nghyd;  
O herwydd eglur yw  
Dy farnau Di, O Dduw!  
Traethant dy gyfiawn waith i gyd. K.

339 M. 6, 6, 8; 6, 6, 8. (M. 14.)

*Fffynnon i bechod ac astendid.*

1 **A**M iachawdwriaeth lawn,  
Foreuddydd a phrydnawn,  
Moliannu gawn yr Iesu gwiw;  
Dyoddefodd angeu loes  
Yn ddiddig ar y groes,  
A'i ddoniau rhoes i ddynolryw.

2 Gorphenwyd talu'n llawn,  
Ar Groesbren un prydawn;  
O ddedwydd iawn! ni gawn yn lla  
Faddeuant yn ei waed,  
A hollol wir iachâd;  
A Duw yn Dad mewn caled cu.

3 Y ffynnon loew hon,  
Yn ol y waewffon  
Aeth dan ei fron—daeth i ni fruint!  
A ylech y brwnt yn lân;  
Hosanna, f'enaid cân:  
Can's dyma sylfaen yr holl saint. G.

340 M. 6, 6, 8; 6, 6, 8. (M. 14.)

*Llawenydd y nef.*

- 1 O'R fath lawenydd sy'  
'Nawr yn y nefoedd fry,  
Gan seintiau, ac angelion glân;  
I gyd heb friw na phoen,  
Yn moli'r anwyl Oen,  
Ar nefol, gu, drag'wyddol gân.
- 2 Maent yn ymgrymu lawr,  
O flaen y Brenin mawr,  
Gan dd'wedyd—"Teilwng ydyw Ef  
I dderbyn parch a chlod,  
Tra byddo'r nef yn bod,  
Gan holl drigolion dae'r a nef."

- 3 Cydunwn ninnau'n awr,  
A'r nefol dyrfa fawr,  
J roddi'r goron ar Ei ben;  
Am iddo'n caru'n rhad,  
A'n prynu ni a'i waed,  
I wir feddiannu'r nefoedd wen. AN.

341 M. 6, 6, 8; 6, 6, 8. (M. 14.)

*Hyder am waredigaeth.*

- 1 PLANT caethion Babilon,  
D'ont adre' o dòn i dòn,  
Cânt wledda'n llon, mae'r dydd gerllaw;  
Yn ngŵydd eu Harglwydd da,  
O swn y byd a'i bla,  
O ddedwydd ha', pa bryd y daw?
- 2 Angenus wyf o hyd  
Mewn tralodedig fyd,  
Ac nid oes fythol ddim i'w gael  
Gyflawna'm heisieu i gyd,  
A'm câna i oll yn nghyd,  
Ond haeddiant drud fy Iesu hael.

- 3 Dysgwyliaf ronyn bach,  
Nes d'od yn gwbl iach,  
Ac yna bydd caniadau heb ri';  
A'u sylwedd fydd y gwaed,  
A roddodd im' iachad,  
A'r goncwest gaed ar Galfari.

- 4 Mi wna' fy nghartre' mwy  
Dan gysgod marwol glwy';  
'Does noddfa addas tan y nef  
I'r euog gael glanhad,  
Ond yn y ffynnon rad  
O ddwfr a gwaed a gollodd Ef. G.

342 M. 6, 6, 8; 6, 6, 8. (M. 14.)

*Rhinweddau'r Iachawdwriaeth.*

- 1 A GORWYD ar y bryn  
Ryw ffynnon rad cyn hyn,  
A'm gylch yn wyn o'm pen i'm traed;  
Mae'n golchi'r dua'i liw  
Mor wyn a'r eira gwiw;  
Rhinweddol yw y dwyfol waed.
- 2 Bydd torf o ddysglaer lu,  
Ger bron yr orsedd fry,  
Yn moli'n gu, a'i mawl ar g'oedd:  
Angelion pur eu cân  
A seintiau fawr a mân,  
Yn Salem lân, byth wrth eu bodd. G.

343 M. 6, 6, 8; 6, 6, 8. (M. 14.)

*Nerth i ddwyn y groes.*

- RHO nerth i ddwyn y groes,  
Tra paro dyddiau f'oes,  
Na âd im' ddigaloni mwy;  
Wrth wel'd gelynyon lu,  
Eu saethau'n aml sy',  
O! cuddia fi, o fewn dy glwy'.

344 M. 6, 6, 8, 4.; 6, 6, 8, 4. (M. 26.)

*Mawl i Dduw.*

1 I'R Dduw deyrnasa fry,  
Cân archangylaidd gôr,  
A "Sanct, sanct, sanct," y seinia'r llu,  
Alluawg Ior;  
'Rhwn oedd, ac sydd yn awr,  
A byth y byddi'n gu,  
Iehofa—Arglwydd—Ydwyf mawr,  
Addolwn Di.

2 O flaen y Ceidwad mawr,  
Ei bobl blyg yn un,  
Gorlenwir hwy â gras bob awr,  
O newydd rin:  
Ei gariad dengys Ef,  
Yn fflam ennynir hwy;  
A chân i'r Oen fu yn eu lle,  
A seiniant mwy.

3 Y dorf foliannus lân,  
Addolant Dduw'n ddilyth,  
I'r Tad, i'r Mab, a'r Ysbryd Glân,  
Y canant byth:  
Yn un y molaf mwy,  
Dduw Abram, a'm Duw i,  
Pob gallu, nerth, a mawl yn un,  
Sydd eiddot Ti.

345 M. 6, 6, 8, 4.; 6, 6, 8, 4. (M. 26.)

*Trysorau'r groes.*

1 O, F'ENAID, héd i'r lân,  
Tros fryniau ucha'r byd,  
A gwel dy gyfoeth, gwel dy ran,  
Anfeidrol ddrud:  
Trysorau o ddwyfol fri,  
Bwrcaswyd imi'n llawn,  
Gan fy Ngwardwr addfwyn cu,  
*Ar un prydawn.*

2 Ef bellach fydd fy nghân,  
A'm hamddiffynfa glyd,  
Fy nhŵr, fy nghraig, a'm noddfa lân,  
Trwy'i yn y byd:  
Pan talodd ddwyfol waed,  
Pwy ofyn imi mwy?  
Can's anfeidroldeb maith a gaed  
Mewn dwyfol glwy'. w. w.

346 M. 6, 6, 8, 4.; 6, 6, 8, 4. (M. 26.)

*Duw Cyfammodol.*

1 I EHOFA ddaeth i lawr,  
O blith nefolaidd lu,  
Rhyfeddwn ninnau oll yn fawr  
Ei gariad cu!  
Henffych i'r dedwydd ddydd,  
Emmanuel a gaed!  
Caiff pechaduriaid fyn'd yn rhydd,  
Trwy werthfawr waed.

2 Cymmerodd agwedd gwas,  
I guddio'i ddelw ei hun,  
Anfeidrol yw dyfnderoedd gras  
I achub dyn:  
Henffych i'r dedwydd ddydd,  
Emmanuel a gaed!  
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd,  
Trwy werthfawr waed.

3 Gogoniant fo i Dduw,  
Oedd cân y nefol lu,  
Gogoniaat, d'wedded dynol ryw,  
Mwy achos ay;  
Rhodd Duw i ni, yw Ef,  
Sydd bechaduriaid trist;  
O, cydfoliannwn â llu'r nef  
Am Iesu Grist.

347 M. 6, 6, 8, 4; 6, 6, 8, 4. (M. 26.)

*Dyddanwch a north yn Nuw.*

1 **T**YDI, fy Nuw, dy hun,  
Anfeidrol berffaith Fod,  
Sy'n trefnu daear, dâ, a dyn,  
I'th ddwyfol glod;  
Cyf'rwydda f'enaid gwan,  
Trwy'r anial dd'od yn 'nulaen,  
Ac arwain fi 'mhob dyrys fan,  
A'th golofn dân.

2 Dy Ysbryd sanctaidd, cun,  
Dywysodd fyrld o saint,  
Rho imi brofi ei felus rin,  
Anfeidrol fraint;  
Fel dyfroedd gloewon clir,  
I loni'r llesg a'r gwan,  
Dyddanwch yn yr anial dir,  
A'm deil i'r lân.

W. W.

348 M. 6, 6, 8, 4; 6, 6, 8, 4. (M. 26.)

*Ofni a hyderu.*

1 **O**, TYRED, addfwyn Oen,  
Iachawdwr dynol ryw,  
At wael bechadur sydd dan boen,  
Ac ofnau'n byw;  
O, nertha'r llesg yn awr,  
I fyn'd o'r llawr yn hy',  
Dros greigiau geirwon, serth, i'r lân,  
I'r Ganaan fry.

2 O, dal fi—ni chaf rym,  
Oddiyma nac o draw,  
Os sefyll wnafl, ni safaf ddim,  
Ond yn Dy law;  
Addewid nefoedd faith,  
Yw'm cymhorth perffaith, gwir,  
Ni chyfeiliornaf ar fy nhaith  
I Salem dir.

3 Am fod fy Iesu'n fyw,  
Byw hefyd fydd ei saint,  
Er gorfod goddef poen a briw,  
Mawr yw eu braint:  
Bydd melus lanio draw,  
'Nol bod o dôn i dôn,  
Ac mi rof ffarwel maes o law  
I'r ddaear hon.

349 M. 6, 6, 8, 4; 6, 6, 8, 4. (M. 26.)

*Trysorau'r groes.*

1 **M**AE angeu'r groes yn fwy  
Na haeddiant yr holl fyd;  
Y mae griddfanau dwyfol glwy'  
Yn gyfoeth drud:  
Fe gènir myrdd yn wyn,  
Oll fel yr eira mân,  
Ceir gwel'd rhai ffaidd ar ol hyn  
Yn berffaith lân.

2 Anturiaf finnau mwy,  
Er cymmaint yw fy mai,  
Trwy'r haeddiant dwyfol sy'n ei glwy,  
Heb lwfrhau:  
O flaen yr orsedd wen.  
Ffieiddiaf ddyn o'r blaen,  
Gan gredu gall Tywysog nen  
Fy ngwneyd yn lân.

W. W.

350 M. 6, 6, 8, 4; 6, 6, 8, 4. (M. 26.)

*Digonedd yn Nuw.*

**T**I Arglwydd yw fy Nhŵr—  
Fy Nhrysor yn mhob man;  
A Noddfa gadarn yn mhob gwae,  
Fy enaid gan:  
Rho nerth i eiddil ffoi,  
I fynwes bur fy Ner,  
Pan fo gelynyon yn crynhoi  
Rifedi'r sêr.

H

351 M. 6, 6, 8, 6; 8, 6, 8, 8, 6. (M. 35.)

*Rhinwedd angeu'r groes.*

1 **U**N aberth mwy nid oes,  
Ond Ef fu ar y groes—  
Iachawdwr rhad trwy rin ei waed,  
Rydd im' ryddhad o'm loes;  
Mae'n gadarn Ior, a'i ras yn stôr,  
Fel môr o drysor drud;  
Ac ato Ef, hyd orsedd nef,  
Dyrchafaf lef am gymhorth gref,  
I faeddu 'meiau i gyd.

2 Mi deithia'r anial trwy  
Y rhinwedd sy'n ei glwy';  
Fy nghadarn sail yw Adda'r ail—  
Gwnaf f'adail arno mwy;  
Trag'wyddol Graig yw Had y Wraig,  
Rhag drygau'r ddraig a'i llid;  
Mae'n Feddyg da, fe'm llwyr wellha  
O'm dyfnaf bla, a'm cânu wna—  
Fy Nghyfaill goreu i gyd. G.

352 M. 6, 6, 8, 6; 8, 6, 8, 8, 6. (M. 35.)

*Iddo Ef.*

1 **O**IESU mawr ei ddawn,  
Tydi wyt fyynnnon lawn  
O ras a hedd, ond gwel'd dy wedd  
Gorfoledd pur a gawn;  
Dy enw mawr trwy'r nef a'r llawr,  
Sy'n glodfawr iawn erioed:  
Ti faeddaist lu, uffernol hy',  
Ar Galfari, ac angeu du  
Ga'i drechu dan dy droed.

2 Ei waed rhinweddol E',  
Wrth farw yn ein lle,  
Dywalltai'n lli ar Galfari,  
*I Heddychodd ni â'r Ne':*

O'i galon friw caed dyfroedd byw,  
Wna'r dua'i liw yn lân;  
Ei foli wnawn yn felus iawn,  
Ei ras a'i ddawn yw'r testyn llawn.  
Mae'n gyfiawn Iddo'r gân. W. R.

353 M. 6, 6, 8, 6; 8, 6, 8, 8, 6. (M. 35.)

*Galwad at orsedd trugaredd.*

**D**OED pawb o'r aflan rai,  
Yn llwythog dan eu bai,  
At orsedd rad ein hanwyl Dâd,  
A'i roddion mâd di-drai;  
Maddeuant hael sy'n wir i'w gae!,  
A gwiag i'r gwael eu gwedd:  
Wel! ato awn, can's gaaddo cawn  
Fendithion llawn a phob rhyw ddawn,  
Er cyflawn fythol hedd. T. J.

354 M. 6, 6, 8, 6; 8, 6, 8, 8, 6. (M. 35.)

*Noddfa yn Nghrist*

1 **F**Y unig noddfa yw,  
Yr Oen mae'n Geidwad gwiw,  
Fe gollai ei waed, rhydd lwyr iachad,  
O'i rad i ddynol ryw:  
Ei nerth a gaf, pa elyn sâf?  
O flaen fy Naf o'r nef:  
Caf yn y man, er bod yn wan,  
Yr hyfryd lân, yn rhwydd a'm rhan,  
Yn gyfan gydag ef.

2 Iôr, cynnal f'enaid gwan,  
Trwy'r moroedd mawr i'r lan,  
Yn mlaen o hyd, er cnawd a byd,  
I forio i'r hyfryd fan:  
Cael Manna wrth raid, a'r dwfr dibaid,  
Gwledd dawel f'enaid yw;  
A phrofi'th hedd, effeithiol wledd,  
A'th hyfryd wedd, tu yma i'r bedd,  
Hyn yw'm digonedd gwiw. G.

355 M. 6, 6, 8, 6; 8, 6, 8, 8, 6. (M. 35.)

*Nerth yn ol y dydd.*

1 **Y**R Arglwydd ar fy nhaith,  
A'm daliodd lawer gwaith,  
Yn nyfnder loes, dan faich a chroes,  
A gorthrymderau maith:  
Yn un heb nerth, ar greigiau serth,  
Ce's fyw trwy werth y gwaed;  
A'r gras a fu yn rhâd o'm tu,  
Mae eto'n gry' i fwrw llu  
Gelynyon dan fy nhraed.

2 Paham yr ofnaf lu?  
Mae cadarn fraich o'm tu;  
Y rhyfel sydd, o ddydd i ddydd,  
Yn eiddo'm Prynydd cu:  
Wel, ato Efl' am nodded gref,  
Mi goda'm llef a'm cri;  
Yn lleag a chlaf, taer alw wnafl—  
Nerth ganddo caf, fy Nuw, fy Naf!  
Ein Tad anwylaf ni. T. J.

356 M. 6, 6, 8, 6; 8, 6, 8, 8, 6. (M. 35.)

*O Dduw rho im' dy hedd.*

1 **M**AE'M rhedfa is y rhod,  
Yn nesu at y nod;  
I'm hymdaith hon, is awyr gron,  
Mae diwedd bron a d'od:  
Fy mhabell frau sydd yn lleaghau,  
Ac yn gwanhau o hyd;  
Ac yn y mân, daw'r amser pan  
Bydd f'ensaid gwan yn fywiol ran  
Mewn annherfynol fyd.

2 O, Dduw! rho im' dy hedd,  
A golwg ar dy wedd;  
A maddeu'n awr fy meiau mawr,  
Cyn 'relwy'i lawr i'r bedd:

Ond i'm gael hyn nid ofnai'r glyu,  
Na cholyn angeu'n hwy;  
Dof yn dy law i'r ochr draw,  
Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw,  
Uwchlaw pob loes a chlwy'. E. E.

357 M. 6, 6, 8, 6; 8, 6, 8, 8, 6. (M. 35.)

*Byw trwy ffydd.*

1 **D**Y gymhorth, Arglwydd, dod  
I rodio er dy glod,  
A byw trwy ffydd, o ddydd i ddydd  
Gan estyn at y nôd;  
Cael treulio'm hoes i Grist a'i groes,  
Er pob rhyw loes a chlwy';  
A byw heb wâd, i roi mawrhad  
I gariad rhad fy Iesu mâd,  
Fydd fy nymuniad mwyl.

2 O Dduw rho gymhorth hael  
Dy Ysbryd i'th rai gwael,  
I gadw'r ffydd, o ddydd i ddydd  
Mewn cystudd prudd sy' i'w gael;  
Ein hyder gwiw tra byddom byw,  
Yn unig yw ein Tâd:  
Addewid sydd i deulu'r ffydd  
Gael d'od yn rhydd, heb boen rhyw  
I'r ddedwydd lonydd wlad. [ddydd]

3 Gogoniant rhown bob pryd,  
I'r Tad a'r Mab un fryd,  
I'r Ysbryd Glân, yn ddiwahân,  
Rhown fawl ar gân i gyd;  
I'r Un yn Dri, cydunwn ni,  
I roddi mawl bob tro:  
Fel 'roedd bob pryd cyn llunio'r byd,  
Y mae'r awrhon, y bydd o hyd,  
'Noes oesoedd,—Felly bo. E. E.



358

M. 7-3.

(M. 36.)

*Y wlad well.*

1 **A**WN drwodd ar ein cyfer,  
 Tua'r wlad, tua'r wlad :  
 Tu draw i bob cyfyngder,  
 Tua'r wlad :  
 I nofio mewn dyddanwch,  
 Llawenydd byth heb dristwch,  
 Uwch cyrhaedd aflonyddwch,  
 Tua'r wlad, tua'r wlad :  
 De'wch, etifeddion heddwch,  
 Tua'r wlad.

2 Mae gwaredigaeth Sion,  
 Yn nesâu, yn nesâu :  
 O canwn bererinion,  
 Mae'n nesâu :  
 Mae'r haul yn rhifo'r dyddiau,  
 Daw terfyn i'n blinderau :  
 Y wlad tu hwnt i angeu,  
 Sy'n nesâu, sy'n nesâu,  
 Yr etifeddiaeth oreu,  
 Sy'n nesâu.

M. R.

359

M. 7-3.

(M. 36.)

*Y ddinas anllygredig.*

**O**ANLLYGREDIG ddinas,  
 Rho'th fwynhau, rho'th fwynhau,  
 Anniflanedig deyrnas,  
 Rho'th fwynhau :  
 Y noddfa dawel, hyfryd,  
 Lle ni ddaw poen nac adfyd ;  
 O! ddedwydd dir y bywyd,  
 Rho'th fwynhau, rho'th fwynhau,  
 Cartrefle fy Anwilyd,  
 Rho'th fwynhau.

M. R.

360

M. 7-3.

(M. 36.)

*Yr yrfa ysbrydol.*

1 **Y**N wyneb gorthrymderau,  
 Af ym mlaen, âf ym mlaen ;  
 A duon ragluniaethau,  
 Af ym mlaen :  
 Er môr a'i dôneau mawrion,  
 A dyfroedd Mara chwerwon,  
 Yn nghyd a'm·holl elynion,  
 Af ym mlaen, âf ym mlaen,  
 Nes gorphwys fry yn Sion,  
 Af ym mlaen.

2 'D'oes yma ond trai a llanw,  
 I barhau, i barhau ;  
 Ac yfed cwpan chwerw,  
 I barhau ;  
 Ond yn y Ganaan nefol,  
 Dim eisieu yn drag'wyddol,  
 Caf ddysglaer ddyfroedd hywiol,  
 I barhau, i barhau,  
 A'i yfed yn wastadol,  
 I barhau.

3 Aeth llu o'r genedl gyfion,  
 Oll yn iach, oll yn iach :  
 I sanctaidd ddinas Sion,  
 Oll yn iach ;  
 Mae eto dyrfa yn dyfod,  
 O'r cystudd mawr a'r trallod,  
 Cawn yno gydgyfarfod,  
 Oll yn iach, oll yn iach,  
 Ar ddysglaer wedd ein Priod,  
 Oll yn iach.

G.

361

M. 7-4. (M. 25.)

*Anwylid yr eglwys.*

1 **G**WYN a gwridog, hawddgar iawn,  
Yw f' Anwylid;  
Doniau'r nef sydd ynddo'n llawn,  
Peraidd hyfryd;  
Daear faith, ac uchder nef,  
Fyth ni wela  
Arall debyg iddo Ef,  
Haleluia.

2 Dygodd f'enaid ar ei ol,  
Yn dra rhyfedd:  
Mi orphwysaf yn ei gól,  
Hyd y diwedd;  
Ffowch greaduriaid o bob rhyw,  
Mwy ni chara'  
Wrthddrych arall ond fy Nuw,  
Haleluia.

3 Ynddo ei hunan mae yn llawn  
Bob trysorau,  
Dwyfol berffaith werthfawr iawn,  
Am fy meiau;  
Gwir ddoethineb, hedd, a gras,  
Gwerthfawroca',  
Nerth i hollol gario'r maes,  
Haleluia. w. w.

362

M. 7-4. (M. 25.)

*Hedd o Galfaria.*

1 **O**GALFARIA daeth fy hedd,  
A fy mywyd;  
Ac oddi yno mae fy ngwledd,  
Nefol, hyfryd:  
Dan ei aden dawel wiw.  
Byth arosa';  
Ac mi ganaf tra f'wyf byw,  
Haleluia.

2 Ymddigrifaf dan ei groes,  
Yn fy mlinfyd;  
Ac mi gofiat ddwyfol loes,  
Nerth fy mywyd:  
Yn mhob cystudd a phob gwae,  
Mi foddllona'—  
Y mae'r diwedd yn nesáu—  
Haleluia.

3 Buddugoliaeth lân a ddaw,  
'Mhen ychydig:  
Mi ddysgwyliaf oddi draw,  
Wrthi'n ddiiddig:  
Ar ei allu mae fy ffydd—  
Pwy 'm gorchfyga?  
Canu 'mhleer innau fydd—  
Haleluia. w. w.

363

M. 7-4. (M. 25.)

*Marchog Iesu.*

1 **A**R dy farch ryfeddol, gwyn,  
Marchog Iesu,  
O dy flaen teyrnasoedd gryn,  
Gan ryfeddu;  
Gwelir miloedd wrth dy draed  
Yn ymostwng,  
Ac yn bloeddio, Crist a'i waed—  
Ef sydd deilwng.

2 Bwa cryf sydd ganddo Ef,  
Yn ei freichiau,  
Egwyddorion gras y nef,  
Ydyw'r saethau  
Sydd yn lladd, ac yn bywhau  
Y gelynnion;  
T'wysog bywyd yn ddiau,  
Bia'r goron.

364

M. 7-4.

(M. 25.)

*"Y gauaf a aeth heibio."*

1 **Y** NOSWEITHIAU hirion sy',  
Bron myn'd heibio,  
A'r cymylau tywyll du,  
Sydd yn cilio;  
Fe ddaw'r haf â'r egin gwan,  
I lawn fywyd,  
A hwy ddygant yn y man,  
Ffrwythau hyfryd.

2 Dyddiau hyfryd dwyfol ras,  
Ddaeth o'r diwedd,  
Ac fe dyr effeithiau i maes,  
Nefol rhyfedd;  
Fe ddaw gwinllan f' Arglwydd mawr,  
I oresgyn  
Anial fanau pella'r llawr,  
Heb un terfyn.

8 Pan agorwyd teml Duw,  
Daeth i'r golwg  
Arch ei ammod newydd wiw,  
Yn bur amlwg;  
Yr efengyl hyfryd lân,  
I goncwerio,  
Ac i gario oll o'i blaen,  
Ffordd y cerddo.

W. W.

365

M. 7-4.

(M. 25.)

*Newyddion da.*

1 **A** ED efengyl gras ar led,—  
Drwy'r holl wledydd:  
Plygu wnelo rhai digred,  
I Fab Dafydd;  
Doed trigolion dae'r a nef,  
O un galon,  
I wel'd mai teilwng ydyw Ef,  
*I gael y goron.*

2 Llwyddo wnelo geiriau Duw,  
Yn ddiattal,  
I wneyd daioni i ddynol ryw,  
Yn mhob ardal;  
Enw'r Oen fu ar y groes,  
Gaffo 'i foli;  
Doed myrddiynau o oes i oes,  
I'w ddyrchafu. DR. L.

366

M. 7-4.

(M. 25.)

*Pregethwech yr efengyl i bob creadur.*

1 **Y** MAE'R dyddiau'n d'od i ben,  
Dyddiau hyfryd:  
Y dyrchefir Brenin nen,  
Dros yr hollfyd;  
Fe â dwyfol angeu drud,  
Pen Calfaria,  
Trwy ardaloedd pella'r byd,  
Haleluia.

2 Fe bregethir Iesu a'i ras,  
Mewn awdurdod,  
Yn yr India eang fras,  
Yn ddiddarfod;  
Fe â swm yr udgorn clir,  
Hyd yr eitha',  
I'r gorllewin anial dir—  
Haleluia. W. W.

367

M. 7-4.

(M. 25.)

*Llawenydd yr ochr draw.*

**N**ID oes yma ond dafnau mân,—  
O'r llawenydd,  
Sydd yn ninas Salem lân,—  
Yn dragywydd;  
Môr o gariad yno gawn,—  
A gorfoledd;  
A thangnefedd melus iawn,—  
Yn ddi-ddiwedd, W. H.

368

M. 7-4.

(M. 25.)

*Ffynnon i atfendid.*

1 **C**ANED nef a daear lawr—  
 Fe gaed ffynnon,  
 I olchi pechaduriaid awwr,  
 Yn glaer wynion;  
 Yn y ffynnon gyda hwy,  
 Minnau 'molcha';  
 Ac a ganaf fyth tra b'wy',  
 Haleluia.

2 Hedd a chariad ar y groes,  
 Darddodd allan;  
 Iesu, yn nyfnder angeu loes,  
 Faeddodd Satan;  
 Er ei glwyfo dan ei fron,  
 Ef orchfygodd;  
 Cenir am y frwydr hon,  
 Yn oes oesoedd.

3 Cenir yno am y gwaed,  
 Gliriodd feiau:  
 Ac am goncwest fawr a gaed,  
 Ar Galfaria;  
 Gan iddo fyn'd i lawr i'r bedd,  
 A chyfodi,  
 Gwelir miloedd ar ei wedd,  
 Yn ei foli.

G.

369

M. 7-4.

(M. 25.)

*Hedd a llawenydd o Galfaria.*

1 **O** GALFARIA llifodd hedd,  
 Grymus, dwyfol—  
 Concwest uffern, angeu, a'r bedd,  
 Annherfynol.  
 Dyna'r awr a thyna'r fan,  
 Clwyfwyd hwythau,  
 Ag a gurodd f'enaid gwan,  
 Fil o weithiau.

2 Dedwydd yw sy'n profi 'th bedd,  
 A'th gymmundeib;  
 Dedwydd yw sy'n gweled wedd  
 Dy lân wyneb;  
 Dy gyfeillach nefol, wiw,  
 Sy'n wir fywyd;  
 A dy heddwch dwyfol yw,  
 'Mherffaith iechyd.

w. w.

370

M. 7-4.

(M. 25.)

*Diogelwch yn Nghrist.*

1 **I**ESU yw difyrwch f'oes,  
 Yn fy mlinfyd;  
 Ac ymfrostiaf yn ei groes,  
 Dros fy mywyd:  
 Tan ei gysgod, nos a dydd,  
 Gwnaf fy nhrigfa;  
 Fy Nhwr cadarn byth a fydd,  
 Haleluia.

2 Iesu a'i gyflawnder ef,  
 Yw fy mywyd;  
 Fe'm cymhwysa i deyrnas nef,  
 Trwy ei Ysbryd;  
 Golchir fi o'm pen i'm traed,  
 Fel yr eira,  
 Trwy rinweddau dwyfol waed,  
 Haleluia.

371

M. 7-4.

(M. 25.)

*Gorfoledd yn Nghrist.*

**B**ECHADURIAID ar y llawr,—  
 Gorfoleddwch,  
 Yn ei air a'i allu mawr,—  
 Ymddiriedwch:  
 Cadarn ydyw i iachau,—  
 Hyd yr eitha',  
 Ar ei gariad nid oes trai.—  
 Haleluia.

3.

372

M. 7-4.

(M. 25.)

*Golwg ar hyfryd wlad.*

1 **T**EITHIO 'rwyf fynyddoedd maith,  
Ddyrys anial:  
A gelynion ar fy nhaith,  
Yn fy attal:  
Ond mi wela'r hyfryd wlad,  
Faith ei llawnder:  
Ac i mewn i dŷ fy Nhad,  
Af ar fyrder.

2 Mi gaf goncwest yno'n lân,  
Ar elynion—  
Nwydau oedd yn curo o'r blaen,  
Arna'i 'n greulon:  
Ni ddaw pechod o un rhyw,  
Byth i 'mlino;  
Na'r demtasiwn deca'i lliw,  
I mewn yno.

3 Iesu, cymmer fi 'n dy gól,  
Rhag diffygio;  
Dychwel f'enaid bach yn ol,  
Sydd yn crwydro;  
Arwain fi trwy'r anial maith,  
Aml ei rwydau,  
Fel na flinwyf ar fy nhaith,  
Nes myn'd adre.

4 Daeth o'r diwedd, hyfryd ddydd,  
Pan caiff caethion,  
Draed a dwylaw oll yn rhydd,  
Oedd mewn cyffion:  
Gwawriodd concwest nefol wiw,  
Pen Calfaria,  
Minnau ganaf tra fwyf byw,  
*Haleluia.*

5 Nid oes terfyn fyth i'w gael,  
Ar ei gariad;  
Mae'i drysorau mawrion hael,  
Uwch eu dirnad:  
Ynddo'i hunan y mae'n llwyr  
'R'hyn ddymuna  
F'enaid egwan, fore a hwyr—  
Haleluia.

W. W.

373

M. 7-4.

(M. 25.)

*Mawl am arbediad.*

1 **R**HYFEDD na buaswn 'n'awr,  
Yn y fflamau,  
Wedi cael fy nhori i lawr,  
Am fy meiau;  
Gan fy mod i heddyw'n fyw,  
Mi ro'f deyrnged,  
O glod a mawl i'm Harglwydd Dduw,  
Am fy arbed.

2 Rhyfedd yw i Dduw erioed,  
Edrych arnaf:  
Mawr yw 'm rhwymau i roi clod,  
I'r Goruchaf:  
Os ca'i 'nwyn i ben fy nhaith,  
Yn ddiangol,  
Moli Iesu fydd fy ngwaith,  
Yn drag'wyddol.

DR. L.

3 Os rhaid dyoddef ar fy nhaith,  
Dywydd garw,  
Cadw f'ysbryd yn dy waith,  
Hyd fy marw:  
Yn y habell gyda'r arch,  
Boed fy nghartre',  
Cadw yn fy enaid barch,  
I dy ddeddfau.

J. H.

174

M. 7-8. 4 LLIN. (M. 9A.)

*Digrifwch y nef.*

1 **O!** SION ddinas euraidd,  
O fêl a llaeth yn lli;  
Mae meddwl am d'ogoniant  
Yn rhwymo 'm tafod i.

2 Nis gallaf ddim amgyffred,  
Digrifwch pur y nef;  
Na mawredd y gogonedd,  
Sy'n nghadw ganddo Ef.

3 Trigfanau dysglaer Sion,  
Mae yno ddedwydd gân;  
A myrddiwn o angelion,  
A llu'r merthyron glân.

4 A'r T'wysog fyth sydd yno,  
A'r goleu sydd yn glir;  
Porfeydd y nefol seintiau  
Sydd hyfryd iawn yn wir.

5 Mae gorsedd Dafydd yno,  
Ac yno fyth mewn hedd,  
Mae llais y gorfoleddwyr,  
Yn seinio yn y wledd.

6 Y rhai y'ng hyd â'u Cadben  
Fu'n ymladd yma'n hir;  
Byth yn y nef a wisgant,  
Eu gynau gwynion pur.

7 O! anwyl wlad fendigaid,  
O! gartre' teulu Duw;  
Pob calon sy'n hiraethu,  
Am ynot fyth gael byw.

8 O! dwg ni rasol Iesu,  
I nefol wlad y gân,  
I foli yn dragywydd  
Y Drindod ddiwahân.

375

M. 7-8. 4 LLIN. (M. 9A.)

*Edrych ar y pethau ni welir.*

1 **M**AE torf aneirif wiwlon,  
A'u gwisgoedd oll yn lân,  
Ar uchelderau Sion  
Yn beraidd iawn eu cân.

2 Ond er y rhif a olchwyd  
Sydd yn y nef yn awr,  
Mae afon bur y bywyd  
Yn ngwlad y cystudd mawr.

3 Mae cwmwl mawr o dystion  
Yn iach yr ochr draw,  
I'n Harglwydd a fu'n ffyddlon  
Yn myd y poen a'r braw.

4 Yn ôl eu traed dilynwn,  
Trwy dir y blinder maith;  
Ar air ein Harglwydd pwyswn  
Nes d'od i ben y daith.

5 Er myn'd trwy fflam a dyfroedd,  
Medd gair ein Iesu glân,  
"Ni'th foddir yn y moroedd,  
Ni'th loegir yn y tân."

6 Fe rydd lawn waredigaeth  
I'w eiddo cyn b'o hir;  
Cânt seinio "Iachawdwriaeth"  
O fewn i'r nefol dir.

7 Yr Oen fydd eu Harweinydd,  
At lawn ffynnonau hedd;  
Fe'u portha yn dragywydd  
A'i gyflawn felus wledd.

8 Fe'u gwna am byth yn holliach,  
Eu dagrau oll fe sych;  
Ni chânt eu blino mwyach  
Gan bechod, poen, a nyth.

H.

376 M. 7-6. 4 LLIN. (M. 9A.)

"Nid oes i ni yma ddinas barhaus, eithr un i ddyfod yr ym yn ei dysgwyl."

- 1 **B**YR amser sydd in' yma,  
A byr y poen a'r cur;  
Mae yno fyd diderfyn,  
A gwynfyd nefol pur.
- 2 Ad-daliad gwynfydedig!  
Byr gystudd, oesol fri!  
Yr euog a'r pechadur  
Gaiff gartref nefol fry.
- 3 Rhaid yma wisgo'r cleddyf,  
Ac yma ddwyn y groes,  
Cawn wisgo'r goron yno,  
Heb deimlo unrhyw loes.
- 4 Rhaid yma drechu'r gelyn  
Ac yma fyw wrth ffydd,  
Rhaid Sion 'n'awr mewn galar,  
Ddyoddef pwys y dydd.
- 5 Ond yno cawn adnabod,  
Ac yno, yn ddilen,  
Cawn wel'd yr Anweledig  
Byth ar yr orsedd wen.
- 6 Pan wawria y boreuddydd,  
Y cysgod gilia draw,  
A'r cywir was a ffyddlon  
Adgyfyd yn ddi-fraw.
- 7 Ac yno cawn gyd-uno  
Ag holl gwmpeini'r nef,  
I foli yn dragwydd,  
*Ein Duw a llawen lof.*

377 M. 7-6. 4 LLIN. (M. 9A.)

RHAN. II.

- 1 **O!** ANWYL gartre' nefol  
Jerusalem sy' fry!  
Mae hiraeth ar fy nghalon  
Am wel'd dy gaerau di.
- 2 Myfyrio am d'ogoniant  
I'r fynwes ddyry hedd.  
Iachâ y galon glwyfus,  
Gorchfyga nerth y bedd.
- 3 O! ddinas hardd y seintiau,  
O! drigfan engyl pur,  
Lle byth ni theimlir angen,  
Lle ni ddaw poen na chur.
- 4 O'th fewn yr Oen deyrnasa,  
Fu farw ar y groes:  
Byth, byth y prynedigion,  
A ganant am ei loes.
- 5 Dy dŷrau sydd o Jaspis,  
Dy heol o aur pur:  
Y Beryl a'r Sardonix,  
Ddysgleiriant ar dy fur.
- 6 Cydglymir dy ragfuriau,  
A'r werthfawr Amethyst;  
Dy feini yw y seintiau,  
Dy gongl-faen yw Crist.
- 7 Mae ynot för diderfyn,  
A dydd heb fachlud haul:  
Ffynnonell o wir gysur,  
I bererinion gwael.
- 8 Ar Graig yr oesoedd seilir,  
Dy dŵr sancteiddiol di;  
Ac ynot mae y palmwydd,  
A'r aur goronau cu.

H.

378 M. 7-6. 4 LLIN. (M. 9A.)

*Angeu y groes.*

- 1 **O!** ANGEU'R groes, ti haeddit  
Ryw lawer mwy o glod,  
Nag allodd tafod dynion  
Ei roddi iti erioed.
- 2 **O!** gariad anchwiliadwy,  
O! anorchfygol ras,  
Yn angeu'r groes dadguddiwyd  
Di'n benaf oll i maes.
- 3 Ni chafodd ond y bustl  
I'w yfed ar y groes,  
Y finegr a'r wermod  
Pan dan y chwervaf loes.
- 4 Fe gaiff y sawl a gredo,  
Y llo pasgedig rhad,  
Ac yfed gwin puredig  
O fewn i dŷ eu Tad.
- 5 Tywalltai'i enaid allan  
I ergyd marwol friw,  
Fel byddai i'w had crediniol  
I gael trag'wyddol fyw.
- 6 Aeth tan y baich anorphen  
Ei hunan ar y pren,  
I'w dynu oddiar ysgwyddau  
Rhai gerddant tua'r nen.      W. W.

379 M. 7-6. 4 LLIN. (M. 9A.)

*Byw i Dduw.*

- 1 **D**UW, dysag im' brynu f'amser,  
A'i dreulio iti 'n llwyr,  
Myfyrio ar dy gariad  
O'r bore hyd yr hwyr.
- 2 Dal fi â'th fraich drag'wyddol  
Oddiyma hyd fy medd,  
Dwg fi ar ddelw Iesu  
I mew'n i wlad yr hedd.      AN.

380 M. 7-6. 4 LLIN. (M. 9A.)

*Gweddï am gymhorth.*

- 1 **F**Y Nuw gâd imi brofi  
Dy nawdd a'th nefol hedd,  
Yr hyn wyt yn ei roddi  
I'th saint tu yma i'r bedd.
- 2 Fy enaid a chwennychodd  
Gael dy gymdeithas Di,  
Trwy'r Hwn a ddyoddefodd  
Ar fynydd Calfari.
- 3 Rho olwg ar dy allu,  
I'm cynnal trwy fy oes,  
Fel na b'o achos ofni  
Un brofedigaeth groes.
- 4 Fy enaid eiddol cynnal  
I deithio yn y blaen,  
Ar hyd y dyrys anial  
Nes d'od i Salem lân.      D. N.

381 M. 7-6. 4 LLIN. (M. 9A.)

*Golwg ar ben y daith.*

- 1 **Y**N iach bleserau bywyd,  
A hawddfyd gwâg y llawr,  
Pererin wyf yn teithio  
I drag'wyddoldeb mawr.
- 2 Dyeithr ydwyf yma,  
Draw mae fy nghartref clyd,  
A barotôdd fy Mhrïod,  
Yn mhell cyn seilio'r byd.
- 3 Yr Iesu, Craig yr Oesoedd,  
Yw'm cymhorth cadarn, cu;  
Fe'm gwared rhag byddinoedd  
Gelynnion creulawn cry'.
- 4 Fe'm cynnal yn mhob culni,  
Fe'm harwain yn ei law,  
Fy enaid dŷn i fyny  
I'm nefol gartref draw.      D. N.



382 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Rhyddid i'r caethion.*

1 **A**GORODD ddrws i'r caethion,  
I dd'od o'r cystudd mawr;  
A'i werthfawr waed fe dalodd  
Ein dyled oll i lawr;  
Nid oes dim damnedigaeth  
I neb o'r duwiol hâd;  
Y gwaredigion canant  
Am rinwedd mawr ei waed.

2 Wel, dyma'r un sy'n madden  
Pechodau rif y gwllith;  
'Does mesur ar ei gariad,  
Na therfyn iddo byth;  
Mae'n 'mofyn lle i dosturio,  
Mae'n hoffi trugarhau;  
Trugaredd i'r amddifad  
Sydd ynddo i barhau.

M. B.

383 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Duw rhagluniaeth.*

1 **O**ARGLWYDD Dduw rhagluniaeth,  
Ac iachawdwriaeth dyn!  
Tydi'n sy'n llywodraethu  
Y byd a'r nef dy hun:  
Yn wyneb pob caledi,  
Y sydd, neu eto ddaw,  
Dod gadarn gymhorth imi  
I lechu yn dy law.

2 Er cryfed ydyw'r gwyntoedd,  
A chedryn dônau'r môr,  
Doethineb ydyw'r Llywydd,  
A'i enw'n gadarn Iôr:

Er gwaethaf dylif pechod,  
A llygredd o bob rhyw,  
Diangaf yn y diwedd—  
Am fod yr arch yn Dduw. A. G.

384 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Canmawl Crist.*

1 **F**Y Nuw, fy addfwyn Iesu,  
Boed clod i'th enw byth;  
Doed dynion i dy foli,  
Fel rhif y bore wllith:  
O! na b'ai gwellt y ddaear  
Yn delyn aur bob un,  
I ganu i'r Hwn a anwyd  
I'r byd i brynu dyn.

2 O Iesu! pwy all beidio  
Dy ganmol ddydd a nos?  
A phwy all beidio cofio  
Dy ddwyfol farwol loes?  
A phwy all beidio canu  
Am iachawdwriaeth rad,  
Ag sydd yn teimlo gronyn  
O rinwedd pur dy waed. W. W.

385 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Ffynnon wedi ei hagog.*

**O**'R nef mi glywais newydd,  
A'm cododd ar fy nhraed;  
Fod ffynnon wedi ei hagog,  
I'r cleifion gael iachâd;  
O f'enaid rhed yn ebrwydd,  
A phaid a llwfrhau;  
O'th flaen mae drws agored  
Na ddichon neb ei gau. J.

386 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Rhyfeddodau Person Crist.*

1 **A**NGELION do'ent yn gysson,  
 Rifedi gwlith y wawr,  
 Rhoent eu coronau auraidd  
 O flaen y fainc i lawr;  
 Chwareuent eu telynau,  
 Yn nghyd â'r saint yn un—  
 Fyth, fyth, ni chanant ddigon  
 Am Dduwdod yn y dyn.

2 Cymhwyswyd pabell Iddo,  
 Sef corff o lwch y byd,  
 'Run natur oedd gan Adda  
 A'i feibion oll i gyd;  
 Gwir ddyd o sylwedd dyndod,  
 Heb bechod o un rhyw,  
 Ac ynddo yn cartrefu  
 Yr Hollalluog Dduw.

3 Emmanuel—creadur,  
 A'r Duwdod mawr yn un,  
 Dysgleirdeb ei ogoniant,  
 Ei ddelw Ef ei Hun;  
 Ordeiniwyd Iddo ddoniau,  
 Grasusau o bob rhyw,  
 Fel y pelydrai ynddo  
 Ogoniant Person Duw.

4 O! foroedd o ddoethineb,  
 Oedd yn y Duwdod mawr,  
 Fel hyn gyfranau'i gariad  
 I bryfaid gwael y llawr!  
 I wneuthur i'w drugaredd  
 A'i dostur maith yn nghyd,  
 I redeg megys afon  
 Lifeiriol tros y byd!

w. w.

387 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Yr Efyngyl.*

1 **R**EFENGYL a bregethir,  
 Nid yw hi ddim ond hyn,—  
 Mynegi'r weithred ryfedd  
 Wnaed ar Galfaria fryn:  
 Cyhoeddi rhad faddeuant,  
 Yn haeddiant marwol glwy,  
 A diwedd llygredigaeth  
 I'r sawl a gredo mwy.

2 Newyddion iachawdwriaeth  
 Orch'mynwyd roi ar led;  
 Can gwynfyd ar ol gwynfyd  
 Fydd byth i'r sawl a'u cred:  
 Newyddion rhad i'r ddaear,  
 I'r nef newyddion drud;  
 Bwriadau hen y Duwdod  
 Cyn gosod sylfaen byd.

3 Mae'r addfwyn Oen fu farw  
 Ar ben Galfaria fryn,  
 Trwy'r eglwys fawr Gatholig,  
 'Nawr am hysbysu hyn:  
 Bod ynddo Ef gyfiawnder,  
 Doethineb mawr yn rhad—  
 Deng miliwn o rinweddau,  
 A rhagor yn ei waed. w. w.

388 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Bywyd, Marwolaeth ac Esgyniad Crist.*

**M**I welaf yn ei fywyd  
 Y ffordd i'r nefoedd fry,  
 Ac yn ei angeu'r taliad  
 A roddwyd tros of fi;  
 Yn ei esgyniad gwelaf  
 Drigfanau pur y nef,  
 A'r wledd drag'wyddol herffaith  
 Gaf yno gyd âg Ef.

389 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Gogoneddu Duw.*

- 1 **O**, DDUW, rho rym i redeg  
 Yn addas er dy glod;  
 A chadw'm golwg egwan  
 Yn gywir at y nòd  
 Nes gwawrio'r hyfryd fore,  
 Cáf ddodi 'nghroesau i lawr,  
 A chann Halelwa  
 Yn mhllith y dyrfa sawr.
- 2 Enwaeda Di fy nghalon  
 I'th garu'n ffyddlon iawn;  
 Ac i dy wir addoli,  
 O dyro gymhorth llawn;  
 Dyg imi orfoleddu  
 Yn Iesu Grist a'i groes,  
 A llwyr ymddiried ynddo  
 Tra paro dyddiau f'oes. W. H.

3 Mae'n llawer gwell na'r bywyd,  
 Mae'n llawer gwell na'r nef,  
 Can's Ef ei hun yw'r bywyd,  
 A'r nefoedd sy' ynddo Ef:  
 Mewn trai mae E'n gyflawnder,  
 Gall hwnw lawenhau,  
 Pan yn y maes a'r winllan  
 A'r beudy byddo trai.

4 Er mor lluosog ydyw  
 Ei holl drysorau Ef,  
 Cyflawnder ar y ddaear,  
 Cyflawnder yn y nef;  
 Mae'n well ei hun na'r cwbl,  
 A godidowgrwydd mawr  
 Ei Berson sydd yn llanw  
 Y nefoedd wen a'r llawr. W. W.

390 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Crist yn bob peth.*

- 1 **G**WEL'D wyneb fy Anwylid  
 Wna i'm henaid lawenhau,  
 Trwy'r cwbl gefais eto,  
 Neu gaf fi byth fwynhau:  
 Pan elont hwy yn eisieu,  
 P'am byddaf fi yn drist?  
 Tra caflwyf welid wyneb  
 Siriolaf Iesu Grist.
- 2 Can's yn ei wên mae hawddfyd,  
 Ac uffern yn ei lid;  
 A chystudd a thrallodau,  
 O'r nefoedd ac o'r byd:  
 Mae Ef yn nyfnder moroedd  
 Yn myn'd ei hun o'r blaen,  
 Ac eilwaith, os bydd achos,  
 Yn ghlanol sllanau tân.

391 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Croes Crist.*

- 1 **M**AE Crist a'i w'radwyddiadau,  
 A'i groesau o bob rhyw,  
 Yn ddigon imi farw  
 Yn ddigon imi i fyw;  
 Can's yn ei groes mae coron,  
 Ac yn ei wawd mae bri,  
 A thrysor yn ei gariad  
 Sydd fwy na'n daear ni.
- 2 Rho brofi grym dy gariad  
 Sydd annherfynol fôr,  
 A thyn fi tua'r bywyd,  
 Fy Nuw a'm cadarn Iôr!  
 Goleuni Haul Cyflawnder,  
 A'i hyfryd nefol wres,  
 A ddaw a'm hysbryd egwan  
 I'r nefoedd wen yn nea. J.

392 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)  
*Adgyfodiad Crist.*

1 O'R bedd fe adgyfododd  
Yn ogoneddus iawn;  
Daeth bore teg a hyfryd  
'Nol stormus ddu brydnawn;  
Y gadwyn fawr a dorodd  
Ar wawr y trydydd dydd;  
Fe goncrodd angeu 'i hunan,  
O'r carchar daeth yn rhydd.

2 Y mae Ef heddyw'n eistedd  
Ar orsedd ddysglær fawr,  
Yn gweled gylch o gwmpas  
Y cyfan ar y llawr;  
Ei Hun yn llywodraethu  
Gehenna fawr a'r nef,  
A therfyn eitha'r ddaear  
Sy' tan ei ofal Ef.

W. W.

393 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)  
*Dyn yn wrthddrych gofal Rhagluniaeth.*

1 PA le dechreuaf rifo  
Dy drugareddau maith?  
'Rwy'n soddi wrth fyfyrion  
Dy annherfynol waith;  
Mor hawsed rhifo'r tywod,  
Neu'r gwallt sydd ar fy mhen,  
A rhifo holl fendithion  
Tywysog mawr y nen.

2 Sawl gwaith gwneust fy niffygion,  
A'm heisieu fyny'n llawn?  
Do toraist fy ammheuaeth,  
Wrth hyny'n rhyfedd iawn:  
Rhyfeddais, can ryfeddais  
Barhâd dy ddoniau maith,  
C'wilyddiaist f'anghrediniaeth,  
Yn gyfiawn lawer gwaith.

3 Fy ffydd a ballodd ganwaith,  
A'm hyder ballai 'nghyd,  
Fy nghalon a fy ngobaith  
A ballodd lawer pryd;  
Ni phalla'th drugareddau,  
Na Dy ragluniaeth lân,  
Ond Dy ffyddlondeb rhyfedd,  
A bery fyth yn mlaen.

4 Bob bore dydd o newydd,  
Achosion wyf yn gael  
I ganu i'th ffyddlondeb,  
A'th drugareddau hael;  
Can's beunydd r'vyt yn seio  
Dy addewidion rhad,  
Cyflawni'r gwirioneddau  
A roddwyd yn Dy waed.

5 Byth D'enw gaffo'i foli,  
Byth bythoedd byddo'th glod,  
Can mil o weithiau'n lletach  
Na'r nefoedd faith ei rhod;  
Boed holl blant Adda ar unwaith,  
Mewn cydsain hyfryd lân,  
I'th enw gogoneddus  
Yn gwneyd soniarus gân. W. W.

394 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)  
*Mawl i'r Drindod.*

Y CLOD, y nerth, a'r enw,  
Anrhydedd parch, a bri,  
I'r Drindod fawr yn Undod,  
A'r Undod pur yn Dri;  
Ei glod ehedo allan,  
Ei glod anfeidrol Ef,  
Trwy eangder annherfynol  
Mesurau maith y nef.

395 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Teilung yw'r Oen.*

1 **T**EILWNG yw'r Oen a laddwyd  
O'r holl ogoniant mawr,  
Trwy ganol nef y nefoedd,  
Ac yma ar y llawr;  
Pan elo'r holl greadigaeth  
Yn ulw gan y tân,  
Teilyngdod Iesu drosod  
Fydd fy nhrag'wyddol gân. M. R.

2 Fe genir, ac fe genir  
Yn nhrag'wyddoldeb maith,  
Os gwelir un pererion  
Mor lesg ar ben ai daith;  
A gurwyd mewn tymmestloedd,  
A olchwyd yn y gwaed,  
A ganwyd, ac a gadwyd  
Trwy'r iachawdwriaeth rad. D. M.

396 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Brawd a aned erbyn caledi.*

1 **H**OSANNA, Haleluia,  
Fe anwyd Brawd i ni;  
Fe dalodd ein holl ddyled  
Ar fynydd Calfari;  
Hosanna, Haleluia,  
Brawd ffyddlawn, di-wahân;  
Brawd erbyn dydd caledi,  
Brawd yw mewn dŵr a thân.

2 Brawd anwyl sy'n ein cofio  
Mewn oriau cyfyng caeth;  
Brawd llawn o gydymdeimlad—  
Ni chlywyd am ei fath;  
Brawd cadarn yn y frwydr,  
Fe geidw'i frodyr gwan;  
Yn dirion dan ei aden  
Fe ddaw â'r llesg i'r lan. D. W.

397 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Eryn Cenhadol.*

1 **O**YNYS Ia fynyddig,  
O draethau India fawr,  
Lle cluda ffrydiau Affrig  
Y tywod aur i lawr;  
O lawer gwlad ddyfradwy,  
Lle tyf y palmwydd flaeth,  
Erfyniant ein cynnorthwv,  
Rhag grym coelgrefydd gaeth.

2 A allwn ni, oleuwyd  
Drwy rad y nefoedd fry,  
Nacâu rhoi llusern bywyd  
I'r sawl mewn t'wyllwch sy'f  
Cyhoedder Iachawdwriaeth  
A gorfoleddus lef,  
Nes dygo'r byd wybodaeth  
O enw Eneiniog nef.

3 Ewch wyntoedd, ewch a'r newydd,  
A chwithau, foroedd mawr,  
Nes bo'i ogonawl gynnydd  
Yn llenwi daear lawr;  
A boed i'r Oen a laddwyd,  
Ar ei waredol ryw  
Deyrnasu fyth mewn gwynfyd,  
Yn Brynwr ac yn Dduw.  
ESGOB HEBER. Cyf. E. 1

398 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Dedwyddwch yn Nghrist.*

**G**WELL wyt i mi na'r bywyd,  
Hyfrytach yw dy wedd,  
Na dim ag sydd weledig  
Yr ochr yma i'r bedd;  
Un awr yn dy gyfeillach,  
Can mil mwy gwerthfawr yw  
Nag oesoedd maith diderfyn,  
O'r pleser goreu i ryw. W. W.

399 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Iachawdwriaeth gymmaint.*

1 O! IACHAWDWRIAETH gadarn!

O! Iachawdwriaeth glir!

Fu dyfais o'i chyffelyb

Erioed ar fôr na thir!

Fe rodd ei fywyd drosom,

Beth all ef ballu mwy?

Mae myrdd o drugareddau

Difedur yn ei glwy'.

2 O! ras didranc diderfyn,

Trag'wyddol ei barhâd!

Yn nghlwyfau'r Oen fu farw,

Yn unig mae iachâd;

Iachâd oddiwrth euogrwydd,

Iachâd o ofnau'r bedd;

A chariad wedi ei wreiddio

Ar sail trag'wyddol hedd.

3 'Nol edrych ar ol edrych,

O gwmpas imi mae

Rhyw fyrdd o ryfeddodau

Newyddion yn parhau;

Pan b'wy'n rhyfeddu unpeth,

Peth arall ddaw i'mryd—

O! iachawdwriaeth rasol!

Rhyfeddol wyt i gyd!

W. W.

400 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Moliant i'r Prynwyr.*

1 MI ganaf tra f'o anadl

O fewn i'r ffroenau hyn

Am gariad Iesu yn dyoddef,

Ar ben Calfaria fryn;

Am goron ddrain blethedig,

Am hoelion geirwa'u rhyw,

A'r gwaed a gâna'r euog

Fel eira gwyna'i liw.

2 Fe rwygwyd muriau cedyrn,

Fe ddrylliwyd dorau près,

Oedd rhyngom ni a'r bywyd,

Mae'r bywyd heddyw'n nês;

Palmantwyd yr holl lwybrau,

Mae'r pyrth o led y pen,

O ddyfnder dinas distryw

I eithaf nefoedd wen.

W. W.

401 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Addasrwydd anfeidrol y Gwaredwr.*

1 O! AM gael ffydd i edrych,

Gyda'r angelion fry,

I fôr yr iachawdwriaeth,

Dirgelwch ynddi sy;

Dwy natur mewn un person

Yn gysson yno gaed:

Anfeidrol a thrag'wyddol

Yw rhinwedd dwyfol waed.

2 O f'enaid! gwel addasrwydd

Y person dwyfol hwn;

Anturia iddo'th fywyd,

A bwrw arno'th bwn:

Mae'n ddyn i gydymdeimlo

A'th holl wendidau i gyd;

Mae'n Dduw i fynu'r orsedd

Ar ddiafol, cnawd, a byd.

A. G.

402 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Duw parod i faddew.*

PA Dduw yn mhllith y duwiau,

Sydd debyg i'n Duw ni?

Mae'n hoffi maddeu'n beiau,

Mae'n hoffi gwrando'n cri:

Nid byth y deil eiddigedd,

Gwell ganddo drugarhau;

Yn nghanol cyfyngderau

Gwnawn ynddo lawenhan.

403 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

“Llygaid pob peth a ddysgwyliant wrthyt,  
ac yr ydwynt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei  
bryd.”

1 **I** DAD y trugareddau  
Rhown foliant oll y'nghyd  
Am amryw ffrwythau 'r ddaear,  
A roddwyd in' mewn pryd.  
Diolchwn o'n calonau  
Am iddo'n cofio 'n awr,  
A gwyltio 'n rhagluniaethol  
Am danom, llwch y llawr.

2 Tydi, O Dduw, sy'n porthi  
Y creaduriaid oll;  
Oddi wrthyt maent yn dysgwyl  
Eu lluniaeth yn ddigoll:  
Addefwn ninnau 'th gariad,  
A'th ofal tros y byd;  
A mawl i'r Hwn a'n prynodd,  
A'i waed a'i angeu drud.

3 O! nertha ni i rodio  
Yn deilwng, Arglwydd Dduw,  
O'th ras a'th drugareddau,  
Tra yma y bo 'm yn byw:  
A phan bo 'm yn ymadael,  
'R ol cyrhaedd pen ein taith,  
Teilynger in' dy foli  
Yn nhrag'wyddoldeb maith.

404 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Doethineb a daioni Duw.*

1 **F**Y Nuw, uwch law fy neall  
Yw gwaith dy law i gyd;  
Rhyfeddod annherfynol  
Sydd ynddynt oll ynghyd;  
Wrth weled dy ddoethineb,  
Dy allu mawr, a'th fri,  
Mi greda' am iachawdwriaeth  
*Yn hollol ynot ti.*

2 O f'enaid! gwel fath noddfa,  
Ddiysgog, gadarn, yw,  
Yn mhob rhyw gyfyngderau,  
Trag'wyddol ras fy Nuw:  
Ac yma boed fy nhrigfan,  
A fy nhawelaf nyth,  
Yn nyfnder cyfyngderau,  
Sef dan dy aden byth.

3 Fe all i'r lan fy nghodi  
O ddyfnder llwch y byd,  
A gwneyd pob drwg a gwrddwyf  
Droi er daioni i gyd;  
Rhoi olew o lawenydd  
Yn wastad ar fy mhen,  
A'm dwyn trwy foroedd dyfnion  
I ganol nefoedd wen. W. W.

405 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

“Gwyn eu byd y rhai pur o galon.”

1 **G**WYN fyd y pur o galon,  
Can's hwy a welant Dduw;  
Eu corph fel teml sancteiddlân,  
Sy' drigfan iddo i fyw;  
Can's Crist a ddaeth o'i wirfodd,  
O blith y nefol lu,  
I drigo gyda dynion,  
A'u dwyn i'r nefoedd fry.

2 O! Arglwydd, trwy dy Ysbryd,  
Pabella yn ein plith;  
Diagyned gras y nefoedd,  
Doed arom fel y gwllith:  
Rho in' dy bresennoledb,  
Glanhâ 'n calonau ni,  
Addasa ni'n wastadol  
I drigo gyda Thi. E.

406 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Moliant i'r Prynwr.*

1 O ARGLWYDD, rho imi dafod

Na's tawo ddydd na nos,  
I ganmol a chlodfori  
Am rinwedd gwaed y groes,  
Na ddelo gair o'm genau,  
Yn ddirgel nac ar g'oedd,  
Ond am fod Iesu hawddgar  
Yn wastad wrth fy modd.

2 Na thawed haul na lleuad,  
Nac un o wellt y maes,  
Heb seinio clod yn rhywfodd  
I waredigol ras.

Gras sydd yn gwneyd yr aflan  
Ffieiddiaf ddyd yn lân,  
Y gras sydd yn gwaredu  
Pentewyn du o'r tân.

3 Ymgesglwch ser y netoedd,  
A de'wch yn gyngan iawn,  
Dechreuwch gân y bore,  
Cynneliwch hi hyd brydnawn,  
A bloeddiwch trwy'r holl hirnos  
Ryw gainc nefolaidd wiw,  
I'r Brenin mawr fu farw,  
Tros feiau dynol ryw. w. w.

407 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Dadleuwr yn y nef.*

1 TRAG'WYDDOL glod i'r Cyflawn

Fu farw tros fy mai;  
Fe adgyfododd eilwaith  
O'r bedd i'm cyflawnhau:  
Ar orsedd ei drugaredd  
Mae'n dadleu yn y ne',  
Ei fywyd a'i farwolaeth  
Anfeidrol yn fy lle.

2 Ni cheisiai'n wyneb Moses  
Ond Iesu i ddadleu 'nghwŷn,  
Y Cyflawn dros 'r annglyflawn  
Fu farw er fy mwyn;  
Yn ymchwydd yr Iorddonen,  
Ac yn y farn a ddaw,  
Diangol yn y diwedd  
A fyddaf yn ei law. M. E.

408 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Cariad Ddw.*

1 DUW, cariad yw ei hunan,  
B'le bynag rhedo'i fryd,  
Mae anfeidroldeb eang  
Yn cerdded trwyddo'i gyd:  
Mewn gweithred o drugaredd  
Mae ef yn llawenhau;  
Ac yn faddeuwr pechod  
Yn cael ei alw mae.

2 Rhyw ddyfnder maith o gariad.  
Lled, annherfynol hyd,  
A redodd megys diluw  
Diddiweidd dros y byd;  
Yn ateb dyfnder eithaf  
Trueni dynol ryw;  
Can's dyfnder eilw ddyfnder  
Yn arfaeth hen fy Nuw.

3 O! gariad heb ei gymhar!  
A thyn'r testyn sy  
Yn llanw holl ganiadau  
'R angylaidd sanctaidd lu;  
Anfeidrol ras rhyfeddol!  
Pe tawai am dano ddyd,  
Fe seiniai'r fud greadigaeth  
Yn ddiau bob yr un.



409 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Sefyll o flaen y faino.*

1 **T**I, Farnwr byw a meirw  
Sydd ag allweddau'r bedd,  
Terfynau eitha'r ddaear  
Sy'n dysegwyl am dy hedd;  
Tyw gras i Ti ond gronyn—  
Mae gras ar hyn o bryd,  
Ryw filoedd maith o weithiau  
I mi yn well na'r byd.

2 O flaen y fainc rhaid sefyll,  
Ie, sefyll cyn bo hir;  
Nid oes a'm nertha yno  
Ond dy gyfiawnder pur;  
Myfi anturia'n eon,  
Trwy ddyfroedd a thrwy dân,  
Heb oleu ac heb lewyrch  
Ond dy gyfiawnder glân. w. w.

410 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Gweddî'r publican.*

1 **O**'TH flaen, O Dduw! 'rwy'n dyfod  
Gan sefyll o hirbell;  
Pechadur yw fy enw—  
Ni feddaf enw gwell:  
Trugaredd wyf yn geisio,  
A cheisio eto wnaif;  
Trugaredd imi dyro—  
Mi drengaf onis caf.

2 O Arglwydd! nid oes genyf  
Trwy mywyd hyd fy medd,  
O hyd ond gwaeddi, maddeu  
I un na haeddai hedd;  
Achubaist fyrdd myrddiynau—  
Ymwithaf gyda hwy,  
A llefaf, achub finnau!  
*Na chofia'm camwedd mwy.* w. w.

411 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Y Gwr fu ar Galfaria.*

**Y** GWR fu ar Galfaria  
A welir ddydd a ddaw,  
Yn eistedd ar ei orsedd  
A'r glorian yn ei law;  
A phawb a gesglir ato  
I'w pwyso ger ei fron:  
O, f'enaid! cais dduwioledeb  
A dry y glorian hon. DR. P.

412 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Hyder yn Nuw.*

1 **P**AN byddo'r byd yn gwgu,  
A'i bethau oll i gyd,  
Yn darfod a diflanu,  
Ar Dduw mi rof fy mryd:  
Sef Duw fy iachawdwriaeth,  
Y ffynnon fawr ddi-drai;  
Mae 'i ffrydiau 'n felus odiaeth  
I mi er maint fy mai.

2 Duw, dod i'm wedd dy wyneb,  
Tra fyddwyf ar fy nhaith;  
A'th rasol bresennoldeb,  
I'm cadw gyda 'th waith:  
Ac oni chaf fi hyny,  
Rhyw dynu wnaif fi 'n ol,  
Gan faint yw tuedd pechu  
Fy nghalon arian ffôl.

3 Rhyfeddod pob rhyfeddod,  
Os gwelir un mor ddu,  
Yn canu byth heb ddarfod,  
O fewn Caersalem fry;  
Heb arnaf na brycheuyn,  
Na'r cyfryw beth yn bod,  
Yn seinio tannau'm telyn  
"I Iesu byddo'r clod!" G. J.

413

M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Galwad at Grist.*

1 **D**E'WCH bellach, bechaduriaid,  
Nas gwelodd oleu'r dydd;  
Mewn carchar tywyll pygddu,  
Rai eto sydd yn nghudd;  
Fe gododd haul o'r diwedd  
Yn ddysglær ac yn llawn,  
Ac egyr eich amrantau  
I wel'd yn hyfryd iawn.

2 Crynowch eich holl achwynion,  
Y mwyaf sydd i'w cael,  
Cewch yma ddigon, digon  
I'ch ateb fyth yn hael;  
'Does dim ond edrych yma,  
Mae edrych yn iachau,  
Mae edrych yn sancteiddio,  
Mae edrych yn fwynhau.

3 Mae edrych, dim ond edrych,  
I ben Calfaria fryn,  
Yn tynu ofnau ymaith,  
Yn gwneyd y du yn wyn;  
Mae gwel'd y drain plethedig,  
Y dur a'r waewffon,  
Yn creu rhyw bur dangnefedd  
Digymhar tan y fron.

4 Mae'r ffynnon yn agored,  
De'wch edifeiriol rai,  
De'wch chwithau yr un ffynud  
Sy'n methu edifarhau;  
De'wch gafodd galon newydd,  
De'wch chwithau na cha'dd un  
I olchi pob budreddi  
Yn haeddiant Mab y Dyn. w. w.

414

M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Gweddï am faddeuant.*

1 **P**ECHADUR wyf, O Arglwydd!  
Yn curo wrth dy ddôr;  
Ericoed mae dy drugaredd  
Diddiwedd yn ystôr;  
Er iti faddeu beiau,  
Rifedi'r tywod mân,  
Gwn fod dy hen drugaredd  
Lawn cymmaint ag o'r blaen.

2 Gwasgara'r tew gymylau  
Oddiyma i dŷ fy Nhâd;  
Dadguddia imi beunydd  
Yr iachawdwriaeth rad:  
A dywed air dy hunan  
Wrth f'enaïd clwyfus, trist,  
Dy fod yn maddeu meiau,  
Yn haeddiant Iesu Grist. M. R.

415

M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Craig yn yr afon.*

1 **A**M Graig i adeiladu,  
Fy enaid chwilia'n ddwys—  
Y sylfaen fawr safadwy  
I roddi arni'th bwys;  
Bydd melus yn yr afon  
Cael Craig a'm deil i'r lan,  
Pan byddo pob ystormydd  
Yn curo ar f'enaïd gwan.

2 Y Graig yw'm noddfa dawl,  
Dymunwn ganu am hon,  
Pan byddw'n rhoddi ffarwel  
Am byth i'r ddaear gron:  
O fewn y Graig nid ofnaf  
Elynion gwaetha'u gwedd,  
O fewn y Graig mi ganaf  
Yn ngwyneb angen a'r bedd. w. w.

416 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Ymostyngiad i drefn Duw.*

1 **Y**N nyfnder moroedd mawrion,  
Mae ffyrdd fy Arglwydd Dduw,  
Er hyny doeth a sanctaidd,  
A rhyfedd berffaith yw :  
Y tônau sydd debycaf,  
I suddo f'enaid gwan :  
A'm tafiant i yn nes-nes,  
I'm cartref hyfryd fân.

2 Am hyn, boed f'ysbryd egwan,  
Yn isel wrth ei draed ;  
Yn syn ryfeddu'r drefn  
Sy'n iachawdwriaeth rad :  
A'm calon fo'n blygedig,  
I'w ewyllys yn mhob mân ;  
Nes iddo 'm dwyn o'r diwedd,  
O'r cystudd mawr i'r lân.

3 Na âd im' edrych gormod,  
Ar ddim sydd yn y byd ;  
Mae hwn yn myned heibio,  
A'i degwch oll i gyd :  
Trysorau'r nefoedd uchod,  
Fo'n bleser i mi mwy ;  
A chanu wrth fyn'd adref  
Am Grist a'i farwol glwy'. M. J.

417 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Diwedd dedwydd.*

**O**S gwelir fi bechadur,  
Ryw ddydd ar ben fy nhaith,  
Rhyfeddol fydd y canu,  
A newydd fydd yr iaith ;  
Yn seinio Buddugoliaeth,  
Am iachawdwriaeth lawn,  
Heb ofni colli'r frwydr  
*Ns bore na phrydnawn.*

418 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*"Dasthoch allau o'r cystudd mawr."*

1 **O**DYRFA fawr ysbrydol !  
O anllygredig lu,  
Eu gynau'n wyn a olchwyd,  
Yn ngwaed eu Prynwr cu ;  
Diffanodd eu holl ofnau,  
Darfyddodd gwarth y groes ;  
Pob galar a phob cystudd,  
Am byth oddi wrthynt ffoes.

2 Ni welir un o honynt  
Byth mwy yn glaf a gwan ;  
Llawenydd a gorfoledd  
O'r diwedd ddaeth i'w rhan :  
Y Brenin a'u harweinia  
I'w ddinas hardd ei hun,  
A'i ddelw ogoneddus  
A ddygir gan bob un.

3 Am hyn, ei saint, rhyfeddwch,  
Mawrygwch enw'r Oen,  
O'i wir ewyllys drosoch.  
Fu'n dyoddef marwol boen ;  
Eich gwaith a fydd rhyfeddu,  
A chanu tra bo chwyth,  
Ei garu a'i foliannu,  
A'i barchu'n auwyl byth. 11

419 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Gwynfyd y rhai sy'n marw yn yr Arglwydd.*

**G**WYNFYD y rhai sy'n 'madael  
Yn dawel yn dy hedd ;  
Gan edrych mewn sirioldeb,  
Yn wyneb angeu a'r bedd :  
Cânt orphwys oddiwrth lafur,  
Trafferthus fyd o boen ;  
A chanu Halelua,  
Heb dewi gyda'r Oen. DR. F.

20 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Digonolrwydd yr Aberth.*

1 **P**AN byddo fy ngelynion  
Yn edliw beiau f'oes,  
'Rwy'n codi golwg ffyddiog  
At haeddiant mawr y groes;  
Yn Aberth pen Calfaria  
Mae digon byth, a mwy,  
Yn wyneb annheilyngdod,  
A'u hedliwiadau hwy.

2 Nid oes drwy'r nef na'r ddaear

Ryfeddod fwy i'w chael  
Na gweled llaw trugaredd  
Yn ymgeleddu'r gwael;  
Mae uchder cariad dwyfol,  
A dyfnder f'angen i,  
Yn hyfryd ymgyfarfod  
Ar fynydd Calfari.

W. A.

21 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Ymadawiad dedwydd.*

1 **Y**MADAW wnaif â'r babell  
'Rwy'n trigo ynddi'n awr;  
Colofnau'r tŷ ddattodir,  
Fe'u cwympir oll i lawr;  
A pob gwahan-glwyf ymaith  
Glân fuddugoliaeth mwy;  
'Rwy'n canu wrth gofio'r boreu  
Na welir arnaf glwy'.

2 Ar fyr caf rodio llwybr  
Na ddeuaf byth yn ol;  
Mi rof ffarwel trag'wyddol  
Er holl forwynion ffol;  
Dedwyddwch maith di-ddarfod  
Sydd uchod i barhau;  
O! f'enaidd, dechreu ganu,  
Mae'r amser yn nesau.

3 Fe dderfydd i mi bechu,  
Iacheir yn lân fy nghlwy',  
Ond byth ni dderfydd canu  
Am faddeu pechod mwy;  
Caf gorph yr hen farwolaeth  
I lawr, ni chyfyd byth,  
A gwledd ar fynydd Sion,  
Drag'wyddol, bur, ddilyth. M. B.

422 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Maddeuant Pechodau.*

1 **P**WY ddyry im' falm o Gilead,  
Maddeuant pur a hedd,  
Nes gwneyd i'm hysbryd edrych  
Heb ofni ar y bedd;  
A dianc ar wasgfeun,  
Euogrwydd creulon cry' ?  
'Does neb ond Ef a hoeliwyd,  
Ar fynydd Calfari.

2 Os cuddiodd fy mhechodau  
Yn gyflawn yn Ei glwy',  
Yn rhad, hyd at y mwya',  
O'r lleia o honynt hwy;  
Er cryfed gwrthresymau  
Fy nghnawd a Satan chwith,  
Mi greda' pan maddeuodd,  
Na chofia mo'nnynt byth.

3 Wel, arnat pwysaf, Arglwydd,  
Tra byddwyf yma'n byw,  
Dy angu sydd yn deilwng;  
'Ti wyt anfeidrol Dduw!  
Rho brofi rhad faddeuant,  
A chlliria fi a'th waed,  
Yn ngŵydd yr holl angelion,  
Yn awr gerbron y Tad.

423 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Gweddî am gymhorth.*

1 O! TYRED Ior trag'wyddol,  
Mae ynot ti dy hun,  
Fwy moroedd o drugaredd  
Nag a feddyliodd dyn :  
Os deui at bechadur,  
A'i godi ef i'r lân,  
Ei galon gaiff, a'i dafod,  
Dy ganmol yn y mân.

2 Gwaredu'r saint rhag uffern  
A phechod drwg ei ryw,  
O safn y bedd, ac angeu,  
A'u dwyn i fynwes Duw,  
Eu harwain dros fynyddau,  
A thrwy yr anial chwith,  
A grëa nef y nefoedd  
Yn gân heb ddiwedd byth. W. W.

424 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Un aberth.*

UN waith am byth oedd ddigon  
I wisgo'r goron ddrain ;  
Un waith am byth oedd ddigon  
I ddyodde'r bicell fain ;  
Un aberth mawr gwirfoddol  
A ddofodd ddwyfol lid ;  
Un Iesu croeshoeliedig  
Sy'n Feddyg trwy'r holl fyd. AN.

425 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Trueni dyn a gras Duw.*

NI fuasai genyf obaith  
Am ddim ond fflamau syth,  
Y pryf nad yw yn marw,  
A'r t'wyllwch dudew byth,  
Oni buasai i'r hwn a hoeliwyd  
Ar fynydd Calfari,  
O ryw anfeidrol gariad,  
*I gofio am danaf fi.*

426 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Ifforddoliion Sion.*

1 CHWI holl fforddoliion Sion,  
Cewch orphwys cyn ho hir,  
Lle nad oes un anghydfod,  
Na phechod, gwarth, na chur ;  
Cewch yno hardd gyfarfod,  
Yn ngwyddfod Brenin nef,  
A moli gyda miloedd  
Yn ei gytnteddoedd Ef.

2 Cewch wel'd yr holl dduwiolion  
Ar fynydd Sion fry,  
Fu gynt yn nyfnder galar,  
Yn orfoleddus lu :  
Cydseiniwch eich Hosanna,  
A'ch Halelulia 'n awr,  
Ar don nefolaidd dyner,  
Trwy'r holl uchelder mawr.

3 Gwynfyd pe bawn i yno  
Yn seinie gyda'r saint,  
Mi ganwn am yr ucha'  
A'r enaid mwya 'i fraint ;  
Rho'wn allan a'm holl allu  
Bêr glod i'r Iesu glân,  
Ynghyd a'r dorf anfarwol,  
Ar gu drag'wyddol gân. B. F.

427 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Cadw trwy addewid.*

DY hen addewid rasol,  
A gadwodd rif y gwllith  
O ddynion wedi eu colli,  
A gân am dani byth ;  
Er cael eu mynych glwyfo  
Gan bechod is y nen :  
Iacheir eu mawrion glwyfian  
A dail y bywiol brân. M. B.

428 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Dydddefaint, anghu, a buddugoliaeth Crist.*

1 **B**EOHADUR, gwel E'n setyll  
Yn llonydd ar y groes,  
Clyw'r griddfan sy'n ei enaid  
Dan chwerw anghu loes :  
O, gwrando ei gwynfanau,—  
Mae pob ochenaid ddrud,  
Yn floedd yn nghlustiau'r nefoedd  
Am faddeu beiau'r byd.

2 Gwel ar y croesbren garw  
Gyfiawnder mawr y ne',  
Doethineb a Thrugaredd  
Yn gorwedd mewn un lle;  
A chariad anfesurold,  
A thosturiaethau'n un,  
Fel afon fawr lifeiriol  
Yn rhedeg at y dyn.

3 Y mynydd mawr anfeidrol  
A gym'rodd Ef i gyd,  
Oddiar ysgwyddau gweinion  
Yr euog aflan fyd;  
Pan welai'r greadigaeth  
I fod y baich mor fawr,  
Fe guddiodd nef ei hwyneb,  
Fe grynai yntau'r llawr.

4 Yr hoelion geirwon celyd,  
Gynt a'i trywanodd E';  
Sy'n awr yn dal y nefoedd  
Gwmpasog yn ei lle;  
Mae gobaith meibion dynion  
Yn llifo maes i gyd,  
Oddiwrth yr awr trywanwyd  
Craewdwr mawr y byd.

w. w.

429 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Byw i Dduw.*

1 **T**RA byddwy' yma'n teithio,  
Ar wyneb daear lawr;  
Rho rym i'th anrhydeddu,  
A'th ofni, Arglwydd mawr;  
Gwna imi ofni pechu,  
Yn fwy nag ofni'r tân,  
A charu yn fy nghalon  
Dy union gyfraith lân.

2 Pan byddo saethau anghu  
Yn glynu tan fy mron;  
Ni thâl pleserau daear,  
Mo'u caru'r fynyd hon :  
Cael gweled wyneb Iesu,  
Fu farw ar Galfari,  
A wna i'm henaidd ganu  
Yn ngwyneb anghu da. DR. P.

430 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Adgyfodiad a barn.*

1 **B**YDD myrdd o ryfeddodau  
Ar doriad bore wawr,  
Pan ddelo plant y tŷonau  
Yn iach o'r cystudd mawr,  
Oll yn ei gynau gwynion,  
Ac ar eu newydd wedd,  
Yn debyg i'w eu Harglwydd  
Yn d'od i'r lân o'r bedd.

2 Daw dydd o brysur bwysio  
Ar grefydd cyn bo hir;  
Ceir gwel'd pwy sydd a sylwedd  
A phwy sydd heb y gwir;  
O Dduw! rho im' adnabod  
Ar f'ysbryd ol dy law,  
Can's dyna'r unig ddelw  
Arddelir ddydd a ddaw.

431 M. 7-8. 8 LLIN. (M. 9.)

*Erfyniadau am yr Ysbryd.*

1 O! Ysbryd Sancteiddiolaf,  
Anadla arna'i lawr,  
O'r cariad anchwiliadwy  
Sy'n nghalon Iesu mawr;  
Trwy haeddiant Oen Calfaria,  
Ac yn ei glwyfau rhad,  
'Rwy'n dysegwyl pob rhyw ronyn  
O burdeb gan fy Nhad.

2 Digoner fi a'th ddelw  
Ddigymhar uwch y nen,  
A gollais yn Mharadwys  
Wrth fwyta ffirwyth y pren;  
Rhoi'st imi fil fendithion,  
Ond byth anfoddlon wy',  
O eisieu cael dy Ysbryd  
A'i anian nefol fwy.

3 'Mhen gronyn byddai'n gorwedd  
O fewn y ddaear ddu;  
Y tafod sy'n gweddio  
Yr awrhon arnat Ti,  
A hydra yn y dyfnder,  
Ni lefa arnat mwy;  
O, edrych ar fy nghystudd,  
Iachâ fy ngwahan-glwy'.

4 O! Ysbryd pur nefolaidd,  
Cyn 'relwy', lawr i'r bedd,  
Trwy ryw athrawiaeth hyfryd,  
Gad imi brofi'th heddi!  
Cael profi blas maddeuant,  
Maddeuant llawn a rhad,  
Yw'r cynta' peth wy'n geisio,  
Yn awr trwy rin y gwaed. w. w.

432 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Poiso ar Grist.*

1 MI ro'f fy nwyllaw bellach  
Ar ben yr Aberth mawr;  
Mi rifaf yno'n gryno  
Fy holl bechodau i lawr;  
Fe'u rho'f yn bwn i orphwys  
Ar ysgwydd Brenin nen;  
Fe'i gwela'n crymu danynt  
Wrth farw ar y pren.

2 Ni edrychaf ar ddim arall  
Yn unig ond Tydi,  
Dan hoelion dur yn griddfan  
Ar fynydd Calfari;  
Fy lloches rhag euogrwydd,  
Tra ar y ddaear hon,  
Fydd ol yr hoelion geirwon,  
A chlwyf y waewffon.

3 Duw, rho im' ffydd i edrych,  
Yn mhob caethiwed du,  
A phechod arnai 'n gwasgu—  
Ar fryniau Calfari:  
Gwna i fy nghalon deimlo  
Dy anghymharol loes;  
A'm lloches, gynhes, dawel  
Fo'n wastad dan y groes. w. w.

433 M. 7-6. 8 LLIN. (M. 9.)

*Cysur yn y rhyfel ysbrydol.*

CHWI blant y galarnadau,  
Sy'n griddfan yn barhaus;  
Yn ngwaelod dyffryn galar,  
Gwrandewch yr hyfryd lais!  
Mae'r frwydr wedi 'i hennill,  
Ni gawsom goncwest fawr,  
Er marw'n Cadben Iesu,  
Mae'n Frenin nef a llawr. DR. P.

434 M. 7, 6, 7, 6; 7, 7, 7, 6. (M. 48.)

*Mawl i fawredd a gras Dduw.*

1 **M**OLWCH Dduw, sydd Frenin fry,  
A'i lysoedd ar y llawr;  
Molwch Dduw y cariad cu,  
Gan ei gyhoeddi'n fawr;  
Am ei holl weithredoedd mâd,  
A'i gadernid, Molwch Ef;  
Am ei ddoniau rhyfedd rhad,  
Molianned dae'r a nef.

2 O! canmolwch dros y byd,  
Emmanuel a'i ddawn;  
A chyhoeddwch Ef o hyd,  
Yn Dduw y lluoedd llawn;  
Molwch Ef a thannau pêr,  
A nefolaidd gelyydd gân;  
Gwnawn beroriaeth i Dduw Ner—  
Peroriaeth calon lân.

3 Cenwch, Ynddo'r fym yn byw,  
Yn symmud, ac yn bod;  
Brenin a Gwardwr yw  
Rhowch iddo barch a chlod:  
Boed ei enw'n sanctaidd byth,  
Ar y ddaear, yn y nef;  
Moler Iesu tra b'o chwyth—  
Molianned pob peth Ef.

Ja. H.

435 M. 7, 6, 7, 6; 7, 7, 7, 6. (M. 48.)

*Caniadau y nef.*

1 **T**ORF fydd o angelion gwych  
Cerubiaid pur yn un,  
Maith dorfeydd o seraphim  
Yn canu i Fab y dyn;  
A chaniadau fydd y rhai'n  
Ddaeth i feddwl dyn erioed,  
Ag sy'n trigo ia y nen,  
I fod eu bath yn bod.

2 O! foreuddydd dedwydd iawn,  
Pan ddelo'r dorf yn un,  
O bob cwr i'r ddaear faith  
I gwrdd â'u Harglwydd cun;  
Derfydd gofid a phob gwae,  
Derfydd temtasiynau maith;  
Derfydd pechod mawr ei rwyg,  
A derfydd dyrys daith.

3 Ac wrth wel'd yn agoshau,  
Fath hyfryd fore wawr;  
Un diwrnod goleu clir,  
Maith drag'wyddoldeb mawr;  
Pa'm na bawn yn llawen iawn,  
Hyn wy'n 'mofyn ei fwynhau,  
A thyma fref fy enaid gwan,  
Ei wel'd yn agoshau.

W. W.

436 M. 7, 6, 7, 6; 7, 7, 7, 6. (M. 48.)

*Gras Tywysog Sion.*

1 **G**RAS o orsedd nefoedd wen  
Sy'n d'od yn awr i ni;  
Rhwygodd Iesu Grist y llen  
Ar groesbren Calfari;  
F'enaid, cân, mae'r ffordd yn rhydd,  
A'r agoriadau 'nawr i gyd  
Gan Dywysog Sion sydd,  
Iachawdwr mawr y byd.

2 Am ei goncwest ar y groes  
Caniadau Sion sydd;  
Am ei Iawn a'i farwol loes  
Caniadau fwyfwy fydd;  
Melus fythol fawl a chân  
A fydd ryw ddydd gan dorf ddiri,  
Wedi golchi'r wisg yn lân  
Yn afon Calfari.



437 M. 7, 6, 7, 6; 7, 7, 7, 6. (M. 48.)

*Y truan with draed trugaredd.*

1 **L**AWN o ofid, llawn o wae,  
A llawn euogrywydd du,  
Byth y byddaf yn parhau,  
Heb gael dy gwmi cu;  
Golwg unwaith ar dy wedd,  
A'm cwyd i'r lân o'r pydew mawr;  
O, fy Nuw! nac oeda'n hwy—  
Rho'r olwg imi'n awr.

2 Gwel y truan, gwel y tlawd,  
Yn gorwedd wrth dy draed;  
O, Samariad! bydd yn frawd—  
Adfero im' iachâd:  
Dyro olew yn fy mariw,  
A chwyd fi ar d'anifail can;  
Ac nis gall fyth fyth fy nwyn  
Ond d' allu di dy hun.

3 Collais y baradwys wiw,  
A'm nerth at oll sydd dda;  
Llawn wyf heddyw, gwyr fy Nuw,  
O bob uffernol bla:  
At y nef, appelio'r wyf,  
Can's yno mae cartrefe llon;  
Ac ar fynydd Calfari,  
Mae dechreu 'm taith i hon. W. W.

438 M. 7, 6, 7, 6; 7, 7, 7, 6. (M. 48.)

*Chwennych gwlad well.*

1 **M**OFYN am orphwysfa wiw,  
Heb rym tymmestloedd mwy;  
Un nid oes i'm henaid briw  
Ond yn dy farwol glwy':  
Tro fy ngolwg at y fan,  
Derfydd ofnau trist a braw;  
Yna f'enaid, llawen fydd  
Y bore ddydd a ddaw.

2 Dyrws daith, a mi sydd wan,  
A bryniau maith o'm blaen;  
Mi frawychais lawer gwaith,  
Rhag grym y fflamau tân:  
Mae'r Iorddonen heddyw'n fawr,  
Os gwir ddychymmyg f'enaid gwan,  
Tyred, Arglwydd, iddi i lawr,  
Ac yna, dof i'r lân.

439 M. 7, 6, 7, 6; 7, 7, 7, 6. (M. 48.)

*Mawl am angeu Crist.*

**I**ESU'R dirmygedig un,  
Ddyoddefodd angeu loes,  
Gan ryw ddienyddwr llym,  
Yn wirion ar y groes;  
Y griddfanau ro'dd E' maes,  
Ddaeth a'r trueiniaid oll yn rhydd;  
Bellach holl ganiadau'r nef,  
Fyth am Galfaria fydd. W. W.

440 M. 7, 6, 7, 6; 7, 7, 7, 6. (M. 48.)

*Cân y Pererin.*

1 **B**ERERINION, na thristewch,  
Ond cyrchwch at y nôd;  
Gweled Iesu'n fuan cewch  
Ar gwmwl goleu'n d'od:  
Ennyd fechan, a chewch chwi  
Rwydd fynediad ato ef,  
Gadael gwaeau heb ddim rhi',  
A newid dae'r am nef.

2 C'od, fy enaid, cais yn awr  
Dy ran o fewn i'r ne'  
C'od oddiwrth deganau'r llawr,  
I'th enedigol le;  
Holl elfenau'r ddaear hon,  
Doddant ymaith cyn b'o hir;  
C'od, fy enaid, brysiâu'n llon,  
I'r hoff drigfanau pur.

W. G. (J.)

441 M. 7, 7, 6; 5, 5, 7. (M. 27.)

*Nerth i deithio yn mlaen.*

1 **T**RUGAREDD sy'n teyrnasu,  
Gan godi'r gwan i fyny,  
A'i nerthu 'n ol y dydd,  
I deithio 'n y blaen,  
Er dwr ac er tân  
Tua'r Ganaan nefol beunydd.

2 Ac yno y gorphwysa,  
Pan y gorphenoi yfa,  
O sw'n yr ofnau sydd:  
Heb glefyd na briw,  
Caiff ganmawl ei Dduw,  
A dedwydd fyw'n dragywydd.

R. J.

442 M. 7, 7, 6; 5, 5, 7. (M. 27.)

*Tîr y bywyd.*

1 **H**ENFFYCH i'r bore hyfryd,  
'Ddaw gelyn byth nac adfyd  
I dir y bywyd fry!  
Y seintiau ddaw 'nghyd,  
Bob wyneb i'r byd,  
Yn unfryd yno i ganu.

2 Fry yn Nghaersalem dawel,  
Yn mhell o sw'n y rhyfel,  
Caf uchel ganu clod;  
Fy nefoedd ddi-boen,  
Fydd gweled yr Oen—  
Fe dderfydd son am bechod.

3 Gwneir diwedd ar bob blinfyd,  
Fy nghystudd mawr a'm hadfyd,  
Yn nhir y bywyd fry;  
Trag'wyddol fwynhad,  
Yn nheyrnas fy Nhad,  
Heb unrhyw frâd i'm drygu.

4 Mi gysgaf hân yn dawel  
Dros ennyd yn y grafel  
Nes dattod trefn y rhôd,  
Ac yna mewn hedd,  
Y codaf o'm bedd,  
Ar ddysglaer wedd fy Mhriod.

5 I dderbyn nefol goron,  
A gwiago'r gwisgoedd gwynion,  
A gwledda'n Sion fry:  
Heb lygredd na chlwy',  
Na gelyn byth mwy,  
I dramwy yno i'm poeni.

6 Caf wel'd y Bod anfeidrol,  
Y Tri yn Un trag'wyddol,  
Rhyfeddol nefol Oen;  
Fe 'm tynodd yn lân,  
Bentewyn o'r tân,  
Fy enaid cân yn gysson.

M. 1

443 M. 7, 7, 6; 5, 5, 7. (M. 27.)

*Wylô a llawenhan.*

1 **T**RAN dysgwyl cael rhyw degwch  
Goleuni a thawelwch,  
Tywyllwch yma sydd;  
Er wylô brydnawn,  
Trwy ffydd yn yr Iawn,  
Ar fyrder cawn lawenydd.

2 Os yn y byd 'r'ym ynddo  
Ceir galar trist ac wylô,  
Cawn gofio, er yn wan,  
I'n Prynwr a'n Brawd  
Fyn'd drosom yn dlawd,  
A dyodde'r gwawd ei hunan.

R.

444 M. 7 AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Tecach na meibion dynion.*

1 'DOES gyffelyb iddo Ef,  
Ar y ddaear, yn y nef:  
Trech ei allu, trech ei ras,  
Na dyfnderoedd calon gas.

2 Tegwch hardd ei wyneb pryd,  
Can hawddgarach yw na'r byd;  
Gwrando'i lais, a gwel'd ei wedd,  
Bywyd yw tu yma i'r bedd.

3 Nid yw orchest imi'n awr  
Garu fy Eiriolwr mawr;  
Nid oes genyf ond Efe,  
Ar y ddaear, yn y ne'.

4 Caned cenedlaethau'r byd,  
Am ei enw mawr yn nghyd;  
Bloeddied moroedd gyda thir,  
Ddyfnder iachawdwriaeth bur.

5 Na foed neb is awyr lās  
Heb gael prawf o'i nefol ras;  
Doed y ddaear fawr yn gron,  
Yfed ddw'r y ffynnon hon. w. w.

445 M. 7 AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Amser hyfryd gerllaw.*

1 WELER dydd yn gwawrio draw,  
Amser hyfryd sy gerllaw;  
Daw'r Cenedloedd yn gyttân  
I ddyrchafu Mab y Dyn

2 Gwelir teyrnas Iesu mawr,  
Yn ben moliant ar y llawr,  
Gwelir tŷ ein Harglwydd cu  
Goruwch y mynyddoedd fry.

3 Gwelir pobloedd lawer iawn  
Yn dylifo ato'n llawn;  
Cyfraith Iesu gadwant hwy,  
Ac ni ddysgant ryfel mwy.

4 Fe geir gweled Babel fawr  
Gwedi syrthio oll i lawr,  
A'r teyrnasoedd mawr eu bri  
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni. w. w.

446 M. 7 AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*"A'r lluoedd yn y nef a'i canlynasant ef ar feirch gwynion, wedi eu gwisgo a lliain main, gwyn a glân."*

1 PWY yw'r dyrfa ddysglaer hon  
Sydd yn sefyll ger ei bron?  
Dyma filwyr Duw a'r Oen,  
Wedi gadael byd o boen.

2 Dyma'r rhai fu'n cario'r groes  
Gyda'r Iesu yn mhob oes;  
Rhai fu yn y cystudd mawr,  
Wedi d'od i'r lân yn awr.

3 Dyma'r dyrfa harddaf gaed,  
Wedi'u golchi yn y gwaed;  
Pobloedd o bob llwyth ac iaith,  
Wedi d'od i ben eu taith.

4 Ni raid iddynt ymladd mwy,  
Heirdd orchfygwyr ydynt hwy;  
Rhyfel yn y nef ni bydd  
Wedi iddynt gael y dydd.

5 'R'hwn sydd ar yr orsedd fry,  
A fugeilia'r nefol lu,  
Dwg hwynt at ffynnonau byw,  
Sydd yn tarddu'n nheyrnas Dduw. H.

447 M. 7 AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Galwad i foliannu.*

1 HALELUIA, molwch Dduw  
Yn y nefoedd lle mae'n byw;  
Trigfan ei sancteiddrwydd glân,  
Lle deffroir y fythol gân.

2 Uned y ffurfafen gref,  
Yn y gân a ddechreu'r nef;  
A'i dadseinio'n uwch na'r ser,  
Uned saint y byd yn ber. P.

448 M. 7AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Trugaredd yn para byth.*

- 1 **C**ENWCH oll a llafar lef,  
Gân o fawl i Frenin nef:  
Canys da yw Duw dilyth—  
Pery ei drugaredd byth.
- 2 Uned Israel fawr a mân,  
Yn y felus weddus gân;  
Da i bawb yw Duw dilyth—  
Pery ei drugaredd byth.
- 3 Teulu Aaron gano'n awr,  
Gan roi mawl i'r Arglwydd mawr:  
Da i bawb yw Duw dilyth—  
Pery ei drugaredd byth.
- 4 D'wedded pawb sy'n ofni Duw,  
O bob llwyth, ac iaith, a lliw,  
Mai da i bawb yw Duw dilyth—  
Pery ei drugaredd byth. H. P.

449 M. 7AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Gorchfygu'r byd.*

- 1 **D**YFOD wnaeth yr Iesu mawr  
I waredu llwch y llawr:  
Gwrthddrych mawr ein gobaith yw,  
Marw wnaeth i ni gael byw.
- 2 Fe'n cymmododd ni â'r Tad  
Fe a'n golchodd yn ei waed;  
Gorfoleddu ynddo wnawn,  
Cawsom waredigaeth lawn.
- 3 Doed ar frys y ddedwydd awr  
Gallwn dd'wedyd ar y llawr,  
"Cawsom goncwest gan ein Duw  
Ar ein pechod o bob rhyw."
- 4 Er i'r byd ein cyfri'n ffol,  
Ni gawn ddelw'r nef yn ol;  
Cawn heb fai yn llawen fyw:  
Pur o galon welant Dduw. H.

450 M. 7AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Mawl i ras Duw.*

- 1 **M**AWL i Dduw trwy'r ddaear las—  
Moliant rho'wn am wyrthiau 'i ras;  
Mae yn gadarn i iachau,  
Mae yn caru trugarhau.
- 2 Canwn oll a llafar dôn,  
Haleluia bêr i'r Iôn;  
Rhoddod pawb sy'n berchen ehwyth,  
Foliant fwyfwy iddo byth. P.

451 M. 7AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Esgyniad Crist.*

- 1 **W**ELE angu llym ei gledd,  
Wele agoriadau 'r bedd,  
Wele nef a daear lawr,  
Dan awdurdod Iesu mawr.
- 2 Fry esgynodd Mab y Dyn,  
Drwy ei werthfawr waed ei hun;  
Dwyn tystiolaeth wnaeth y nef  
I fawr werth ei aberth ef.
- 3 Daeth angelion llon gerllaw,  
Seinient trwy'r uchelder draw,  
Agor, nef, dy byrth yn awr,  
Daw i mewn y Brenin mawr.
- 4 Eistedd ein Cyfryngwr mawr,  
Ar orseddfa'r nef yn awr;  
Cynnrrhychioli mae'r Mab rhad,  
Bawb o'r holl grediniol had.
- 5 Gwaith gorphenol Iesu yw  
Prynedigaeth dynol ryw:  
Pob ymadrodd yn un iaith,  
Canent mwy ei foliant maith. H. W.

452 M. 7AU. 4 LLIN. (M. 51.)

"Ac adeilad ei mur hi oedd o faen jaspis;  
a'r ddinas oedd aur pur, yn debyg i wydr  
gloew."

1 **D**RAW yn yr eangder mawr,  
Fry ym mhell o'r ddaear hon,  
Dinas Sion, wiwlon wawr,  
Sy'n dyrchafu 'i thŷrau llôn.

2 Mae 'i chynteddau 'n heirdd i gyd,  
O goethedig aur dilyth,  
Wedi eu haddurno â drud  
Berlau gwych na lygrant byth.

3 Yno 'n cyd-foliannu 'r Oen  
Trig y gwynfydedig rai;  
Lle ni theimlant gur na phoen,  
Ond dedwyddwch pur, didrai.

4 Doe, fel ninnau, 'n wael eu gwedd,  
'R oeddynt yma ar y llawr,  
Plant y Groes yn cario 'r cledd,  
'N ofni grym y gelyn mawr.

5 O ysbrydoedd perffraith, pur!  
'Hed'soch chwi i'r lle na ddaw  
Unrhyw ofid byth, na chur,  
Trist ammheuon, ofn, na braw.

6 Gwlad o gyrhaedd tranc a'r bedd,  
Ing a phechod, a phob loes;  
Cawsoch balmwydd yn lle 'r cledd,  
Coron aur yn lle y groes. H.

453 M. 7AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Erfyniad am yr Ysbryd.*

1 **Y**SBRYD Glân, Golomen nef,  
Gwrandu'n rasol ar ein llef;  
Aethom yn wywedig iawn,  
*Diegyn yn dy ddwyfol ddawn.*

2 Oer ein serch, a gwan ein ffydd,  
Ein Hosanna'n ddystaw sydd:  
Tyted, tyred, Ysbryd Glân,  
Chwyth o'n mewn y nefol dân.

3 Er na haeddwn ni dy gael,  
Eto Ti wyt Ysbryd hael,  
Tyred, tyred yn dy ras,  
Maedda'n hangrhediaeth cas.

4 Ysbryd Glân, Golomen nef,  
Co'd ni ar dy aden gref;  
Nes yr elom uwch y byd  
Mewn sancteiddiol nefol fryd.

5 Boed gogoniant fyth i'r Tad,  
Boed gogoniant i'r Mab rhad,  
Moliant boed i'r Ysbryd Glân  
Byth tra b'o na chwyth na chân. H.

454 M. 7AU. 4 LLIN. (M. 51.)

*Cyflawnder Crist.*

1 **E**I gyflawnder dwyfol Ef,  
Yw fy noddfa gadarn gref;  
'Chollai 'ngafael arno ddim,  
Pan f'o mhechod yn ei rym.

2 Dan ei gysgod byddaf byw;  
Uwch bob trysor gwaed fy Nuw:  
Nis gall nerthoedd uffern faith  
Ddim fy nrygu ar fy nhaith.

3 Fe achubodd Ef fy mlaen,  
Ar y ffordd i uffern dân;  
Yn ei allu de's yn ol,  
'Nawr wyf dawel yn ei gól.

4 O dy glwyfau rhed i maes  
Afon ddwyfol loew lân,  
Sydd yn achub, sy'n glanhau  
Myrddiwn o'r aflanaf rai.

155 M. 7AU. 6 LLIN. (M. 49.)

*Buddugoliaeth efengyl.*

1 **D**OES gyffelyb iddo Ef  
Ar y ddaear yn y nef;  
Trech ei allu, trech ei rās,  
Na dyfnderau calon gās;  
A'i fyddlondeb sydd yn fwy  
Nac angeuol ddamniol glwy!

2 Caned cenedlaethau'r byd  
Am ei enw mawr, yn nghyd;  
Aed i gyrau pella'r ne',  
India'r dwyrain, India'r dê;  
Bloeddied moroedd gyda'r tir,  
Ddyfnder iachawdwriaeth bur.

3 Na foed undyn is y rhod  
Heb ddadseinio maes ei glod;  
Na foed neb is awyr lās,  
Heb gael prawf o'th nefol rās;  
Doed y ddaear fawr yn gron,  
Yfent ddw'r y ffynnon hon. w. w.

156 M. 7AU. 6 LLIN. (M. 49.)

*Cyflawnder yr Iachawdwriaeth.*

1 **H**YFRYD lais efengyl hedd  
Sydd yn galw pawb i'r wledd:  
Mae gwahoddiad llawn at Grist;  
Oes i'r tlawd, newynog trist:  
Pob cyflawnder ynddo cewch;  
De'wch a chroesaw, dlodion de'wch.

2 Cyfod, haul cyflawnder, llon;  
Dyrcha dros y ddaear hon;  
Aed dy belydr i bob gwlad,  
Yn dy esgyll dwg iachad,  
Dos ar gynnydd, nefol ddydd;  
Doed y caethion oll yn rhydd.

3 Talodd Crist anfeidrol iawn  
Ar y croesbren un prydawn;  
Llifodd ar Galfaria fryn  
Ddwr a gwaed i'n golchi'n wyn;  
Iachawdwriaeth sydd heb drai;  
De'wch i'r ffynnon aflan rai.

4 Iesu gaiff y clod i gyd;  
Ymaith dug bechodau'r byd:  
Rhoes ei hunan yn ein lle,  
Bellach beth na rydd efe:  
Halelua! llawenhewch;  
De'wch, moliennwch, byth na thewch.

P. J.

457 M. 7AU. 6 LLIN. (M. 49.)

*Gwaed y taenelliad.*

1 **D**ACW'R ffynnon fawr a gaed,  
Ffrydiau pur o ddwfr a gwaed,  
Darddodd allan ar y bryn,  
Ylch yr enaid dua'n wyn:  
Dyma nerth i fyn'd yn mlaen,  
Dyma sylfaen bur fy nghân.

2 Gair o'i enau sanctaidd Ef  
'N'awr a'm dwg i ganol nef;  
Yn ei eiriau mae'r fath rin,  
Dodant nef a dae'r yn un;  
Gwranddo ei lais, a gwel'd ei wedd,  
Yw fy mywyd tu yma i'r bedd.

3 Iesu gorphwys yn dy glwy',  
Wna fy enaid bellach mwy;  
Dyma'm noddfa werthfawr lawn,  
Fyth o fore hyd brydnawn:  
Dyma 'nghysur oll i gyd,  
Dyma'm nerth i'r nefol fydd.

w. w. K

458 M. 7AU. 6 LLIN. (M. 49.)

*Craig yr oesoedd.*

- 1 **G**RAIG yr oesoedd! ynot ti,  
Holltwyd erof, cuddier fi:  
Bywiol ffrwd o ddwfr a gwaed,  
O dy ystlys friw a gaed—  
Oll o 'mhla i'm gwir iachâu,  
Difa'i rym, a'm llwyr lanha.
- 2 Nid fy llafur, Sîa ry nghur,  
All foddloni'r Gyfraith bur?  
Pe b'ai'm sel yn dân dilyth,  
Pe b'ai'm dagrau'n llofo byth,  
Ni wnant oll am bechod law—  
Ti dy hun yw'm Ceidwad llawn.

- 3 Haeddiant, genyf fi, nid oes—  
Dlawd yn glynu wrth dy groes;  
Genyt ti mae gwisg i'r noeth,  
Gras i wneyd y ffol yn ddoeth,  
Pfynton rad i'r astan ryw—  
Golch fi'n hon fel byddwyf byw.

- 4 Tra fwy'n tynu egwan ffin,  
Yn awr angeu, olaf hân—  
Yn y byd ysbrydol draw,  
Yn y fanol farn a ddaw,—  
Graig yr oesoedd, ynot ti,  
Holltwyd erof, cuddier fi.

Cyf. M. D.

459 M. 7AU. 6 LLIN. (M. 49.)

*Ymddigrifo yn y groes.*

- 1 **A**RGLWYDD! ffoed cymylau mwy,  
Grym euogrwydd damniol glwy';  
Rho im' brofi 'th ddwyfol hedd,  
Afon bur tu yma i'r bedd,  
Fel y gallwyf, ddydd a nos,  
*Ymddigrifo yn dy groes.*

- 2 Dyma y ffeiddia' gaed  
'Nawr yn gorwedd yn ei waed:  
Nid oes neb all fy iachâu,  
Concro 'mhechod, maddeu 'mai,  
Ond a roddodd gadarn lef  
Rhwing y ddaear fawr a'r nef.

- 3 Danfon imi'r olew gwir,  
Ysbryd y llawenydd pur,  
Dangos dy fod im' yn Dduw,  
Gwella'r esgyrn wnest yn friw;  
Prawf o'th hedd rho im' ar frys—  
Ffrwythau'th waed, a ffrwythau'th  
chwya. W. W.

460 M. 7AU. 6 LLIN. (M. 49.)

*Rhodio gyda Duw.*

- 1 **B**ETH sydd imi yn y byd?  
Gorthrynderau mawr o hyd,  
Gelyn ar ol gelyn sydd  
Yn fy nghlwyfo nos a dydd:  
Meddyg archolledig rai,  
Dere'n fuan i'm hiachâu.

- 2 O na allwn tra fawn byw  
Rodio bellach gyda'm Duw,  
Treulio f'oriau iddo'n llwyr  
O foreuddydd hyd yr hwyr;  
Canu am Iesu Grist a'i waed  
Nes meddiannu'r nefol wlad. M. R.

461 M. 7AU. 6 LLIN. (M. 49.)

*Gweddî am burdeb.*

- D**YMA'R tlawd a'r llesga erioed,  
Fethodd ddilyn ôl dy droed;  
Llwybrau pur yw'th lwybrau di,  
Oll yn sanctaidd, oll yn gu,  
Rhaid fy ngolchi'n hyfryd wyn,  
Cyn y teithiwy'r llwybrau hyn. W. W.

462 M. 7AU. 8 LLIN. (M. 39.)

*Neb fel Efe.*

- 1 **T**I dy hunan, Iesu mawr,  
Yw fy noddfa ar y llawr;  
Ni ddaw fyth, ni fu erioed,  
Dy gyffelyb is y rhod:  
Dere'n glau, 'does is y ne',  
Arall un a leinw'th le,  
Mae cyflawnder ynot Ti,  
Leinw'm holl angenion i.
- 2 Ti wnai'r hyn fo yn dy fryd,  
'Does a'th rwystra yn y byd;  
Cadarn, cadarn yw dy law,  
Gweithio yma, gweithio draw;  
Daear fawr a nef yn un  
It' sy'n cwmpo yn gyntun;  
Cilia uffern yn ei braw  
Pan y byddi Di gerllaw.
- 3 Rhosyn Saron teca'i ddawn,  
Seren fore eglur iawn  
Sydd yn arwain hyfryd wawr  
Trwy'r anialwch dyrys mawr—  
Yn goleuo'r llwybr llaith  
Tua'r wlad o fêl a llaeth;  
Tegwch nef y nef wyt Ti,  
Craig ein north a'n gobaith ni.    w. w.

463 M. 7AU. 8 LLIN. (M. 39.)

*Diolchgarwch am y Cynhawaf.*

- 1 **C**HWI ddiolchgar bobl, de'wch  
Mewn sain moliant llawenhewch,  
Caed y cnwd mewn addas hin,  
Cyn ystormydd gauaf blin:  
Duw ofalodd yn ddbaid  
I gyflenwi eich holl raid.  
Dewch, O dewch, i'w deml lân  
Cyd-ddyrchefwch Iddo gân.

2 Maes i godi ffrwyth i Dduw,  
Clod, a mawl, a diolch gwiw,  
Ydyw 'r ddaear,—ynnddi mae  
Yd ac efrau wedi 'u hau:  
Pan addfedo 'r hâd ar awr  
Ddwys yr Adgyfodiad Mawr,  
Arglwydd Bywyd, gâd i ni  
Fod yn sanctaidd gnwd i Ti.

3 Gwyddom oll y daw y Dydd  
Y cymmerir plant y fnydd  
Adref, ac y bwirir draw  
Bob aflendid, trais, a braw:  
Y prysura 'r Angel-lu  
I losgi 'r efrau 'n uffern ddu;  
Ond y ffrwythlon yd, yr Ior  
Gaagl' mewn i'w nefol 'stor.

4 Clyw, O Dduw trugaredd, clyw  
Fawl dy weision, gweddus yw;  
Casgla Di dy saint y'nghyd,  
Rhag y diafol, cnawd, a byd;  
Boed in' bawb, yn Nheml nef,  
Dy foliannu âg un llef;  
Boed i fyrdd o engyl glân,  
Ganu 'n awr y Ddiolch-gân.    H.

464 M. 7AU. 8 LLIN. (M. 39.)

*Crist fel pren afalau.*

**C**ENWCH ei ogoniant Ef  
Coron tegwch nef y nef,  
Nid oes angel, nid oes dyn,  
Yn gyffelyb iddo 'r un:  
Megys pren afalau hardd  
Yn rhagori ar brenau'r ardd,  
Ar ei ffrwythau melus iawn  
Gwledd drag'wyddol hyfryd gawn.



465 M. 7AU. 8 LLIN. (M. 39.)

*Taledigaeth lawn.*

1 **D**ACW gariad nefoedd wen  
Yn dysgleirio ar y pren;  
Dacw daledigaeth lawn,  
I ofynion trymion iawn:  
Iesu gollodd ddwyfol waed,  
Minnau gafodd wir iachâd:  
Wele'r llwybrau heddyw'n glir,  
Tua Chanaan hyfryd dir.

2 Wele'r Ganaan hyfryd wiw,  
Dyma'r ardal câf fi fyw;  
Gwlad heb ofid, gwlad heb wae,  
Gwleddoedd hyfryd i barhau;  
Rheded rhif yr oriau maes  
Câf fyn'd trwy'r Iorddonen lân:  
Dwyfol gariad, dwyfol hedd,  
Gâf fwynhau tu draw i'r bedd.

3 Na ddoed gwael wrthdrysychau'r byd  
Fyth i lechu yn fy mryd—  
Digon, f'enaid, digon yw  
Myfyrdodau dwyfol friw:  
Darfu ymffrost mawr y byd,  
Iesu biau 'r clod i gyd:  
Wrth ei draed dymunwn fyw—  
Holl hapuswydd f'enaid yw. w. w.

466 M. 7AU. 8 LLIN. (M. 39.)

*Edrych i Galfaria.*

1 **D**EFFRO, f'enaid, edrych draw,  
Gwel Galfaria bell gerllaw,  
Dacw'r hoel a'r bicell fain,  
Dacw'r goron bigog ddrain,  
'Nawr yn gorwedd ar ei ben—  
Cryned daear, dued nen;  
Cana, dithau f'enaid, mwy  
*Am rinweddau maith ei glwy'.*

2 Wele, f'Arglwydd sy' mewn poen,  
Ffrynd troseddwy'r, addfwyn Oen:  
Poen hyd angeu, poen at waed—  
Balm o Gilead rydd iachâd:  
Ti, Physygywr, perffaieth Dduw,  
Geidw f'enaid bach yn fyw;  
Minnau ganaf iti glod,  
Na bydd diwedd arno'n bod. w. w.

467 M. 7 AU. 8 LLIN. (M. 39.)

*Seren Bethlehem.*

1 **S**ER y nos yn lluaws mawr  
Yn dyfritho 'r wybren sydd;  
Un er hyny a rydd wawr  
I bechadur ofnus prudd:  
Er y rhoddir clod i Dduw.  
Gan bob seren, gan bob gem,  
Un sy'n dangos Ceidwad byw,  
Hon yw Seren Bethlehem.

2 Bum ar eigion terfysg llym,  
Noson ddu heb ganfod glân;  
Gwynt a thônau, a'u holl rym,  
Ruthrent ar fy llestr gwan:  
Pan i'r dwfn ar suddo 'lawr,  
Pan oedd angeu 'n hyll ei drem,  
Dyna 'r pryd cyfododd gwawr  
Seren ddysglaer Bethlehem.

3 Hi 'm harweiniodd yn ddigoll,  
Gan wasgaru ofnau 'r bedd;  
Dug fi o'r ystormydd oll,  
I dawelaf borthladd hedd:  
Canaf wedi dyfod trwy  
Ddyfnder profedigæth lem  
Canaf yn oes oesoedd mwy,  
"SEREN, SEREN, BETHLEHEM."  
Cyf. M. D

468 M. 7, 7, 8, 7, D. (M. 18.)

*Gorpheniad iachawdwriaeth.*

- 1 **H**OSANNA, Halelulia,  
I'r Oen fu ar Galfaria;  
Gorphenodd iachawdwriaeth dyn—  
Efe ei hun yw'r noddfa;  
Trag'wyddol ddiolch iddo,  
Am faddeu a thosturio;  
Anfeidrol fraint i lwch y llawr,  
Fod croesaw'n awr dd'od ato.
- 2 Mae'n achub hyd yr eitha'  
Y pechaduriaid mwya';  
Fe drefnwyd ffordd i gadw dyn,  
Gan Dri yn Un Jehofa;  
Anturiwn ninnau arno—  
Mae'r Iesu'n achub eto,  
A chroesaw i bechaduriaid mawr,  
Bob mynyd awr ddod ato.
- 3 Mae'r ddyled wedi'i thalu,  
Ac uffern wedi'i maeddu;  
Gobeithiol garcharorion sy'  
Yn dod yn llu i fyny:  
Mae'r pyrth yn llawn agored,  
Doed Israel o'r caethiwed;  
Pob llesg a gwan, fyth ger ei fron,  
Oânt wel'd yn llon ei nodded. D. C.

469 M. 7, 7, 8, 7, D. (M. 18.)

*Y waredigaeth o'r Aipht.*

- 1 **P**A gynhwrf a pha riddfan,  
Sydd trwy holl feusydd Sōan?  
Pa dorf yw hon sy'n myn'd i maes,  
Heb ynddi neb yn egwan?  
Duw Abram sydd yn gwaered  
Ei blant o'u blinfyd caled:  
A'u dwyn y mae, gan ddryllio'r Aipht,  
O'u haiarn bair gaethiwed.

- 2 Pwy rwyga iddi'r dyfroedd—  
Balmanta'r gorddyfnderoedd—  
A'i harwain trwy'r anialwch maith,  
Gan borthi ei haml filoedd?  
Ei chymhorth llawn ddigonol,  
Yw'r Ydwyf mawr trag'wyddol:  
I'r Ganaan wiw, ei harwain wna,  
Trwy wyrthiau tra ryfeddol.
- 3 Paham y ciliwch, ddyfroedd—  
Y neidiwch chwi, fynyddoedd—  
Yr wylwch chwithau, greigydd hyll—  
Yr anial dir yn llynoedd?  
Onid gweddus ini barchu  
Ein Crëwr—mewn mawrhydi,  
Yn rhodio o flaen ei braidd yn hardd.  
Trwy'r anial dir i fyny?
- 4 I bwy, y brynïau oesol,  
Y plygwch chwi yn drefnol?  
A thi, Iorddonen gyflawn, gref,  
Y rhedi yn dy wrthol?  
I'r Hwn sy'n pwysu'r brynïau,  
Fel mân-lwch, mewn clorianau;  
Ac yn ei law mae'r moroedd mawr,  
A'u 'nysoedd megys brychau. D. C.

470 M. 7, 7, 8, 7, D. (M. 18.)

*Cyflenwad iachawdwriaeth.*

- O!** LLANWED iachawdwriaeth,  
Fel môr didrai yn helaeth;  
A doed ynsoedd pella'r byd  
I gyd 'gael meddyginiaeth:  
Mae'r Brenin ar ei orsedd,  
Yn cynnyg, o'i drugaredd,  
I bechaduriaid tlodion, gwael,  
Dd'od ato i gael ymgeledd.

471 M. 7, 7, 8, 7, D. (M. 18.)

*Y tir dymunol.*

1 **Y** TIR dymunol peraid,—  
Yr ardal hyfryd euraidd  
Ag oedd yn mhell yn sefyll draw,  
A ddaeth gerllaw o'r diwedd;  
Er lludded ac er blino,  
Na fydded im' ddiffygio,  
Yr y'm yn nes-nes, awn ar frye,  
I mewn i'r llys yn gryno.

2 Cawn orphwys yn ddiangol,  
O'n tentasiynau'n hollol,  
Mewn maith dangnesfedd pur, didrai,  
Sydd yn parhau'n drag'wyddol;  
A hyfryd ymddifyru,  
Yn ein Hanwylyd, Iesu,  
A threulio Sabbath melus, gwiw,—  
Trag'wyddol i'w foliannu. w. w.

472 M. 7, 7, 8, 7, D. (M. 18.)

*Hyder.*

1 **F**Y nghalon a ddiffygia,  
Fy nhafod a anghofia,  
Lefaru wrth gyfeillion cu,  
Am angeu drud Calfaria;—  
Ond peidied neb a chwynfan,  
Fy enaid gaiff ehedfan  
Fry at gymdeithas lawer gwell,  
Yn nghanol tyrsa wiwlan.

2 Er Satan a fy ofnau,  
'R Iorddonen fawr a'i thônau,  
Ni allant ddim er maint eu grym,  
Fyn'd rhwng fy Nuw a minnau;  
Er gwaethaf Satan greulon,  
Diangaf o'i afaelion,  
Er tônau mawrion fwy na mwy,  
*Mi nosfa'n iach trwy'r afon.* D. C.

473 M. 7, 7, 8, 7, D. (M. 18.)

*Gorphwysfa eto yn ôl.*

1 **M**AE'R dydd yn d'od i fyny,  
Cawn gwrdd yn un cwmpeini.  
O fewn i'r wlad sy heb elyn caeth,  
Na phechod chwaith i'n drygu;  
Trwy ras y'n gwneir yn gymhwys  
I gael trag'wyddol orphwys,  
Tan gysgod pren y bywyd pur,  
O fewn y bur baradwys.

2 Fe dderfydd ein cystuddiau,  
Pryd hyn a'n tentasiynau,  
Fydd neb roi beichiau ar ein gwar,  
Na'n denu oddi ar y llwybrau;  
Pob niwed wedi symmud  
O'r ffordd gan ein Hanwylyd,  
Heb wyllo na galaru mwy,  
Na phoen, na chlwy', na gofid.

3 Ond canu'r gân drag'wyddol,  
Am alw ac am ethol,  
Am gariad ag fu ar y groes,  
Yn marw tros ei bobl;  
Am fynydd bach Calfaria,  
Gliriodd y dyled mwya',  
Nis gall'sai ei dalu neb yn fyw,  
Ei hun ond Duw gorucha'. w. w.

474 M. 7, 7, 8, 7, D. (M. 18.)

*Y gân drag'wyddol.*

**O** GWYN ei byd y dyrfa,  
Sy'n canu Haleluia,  
Cawn ninnau ddianc cyn bo hir,  
I mewn i'r wir orphwysfa;  
I ganu i drag'wyddoldeb,  
Mewn hwyl a nefol undeb,  
Heb gwmwl rhyngom byth mewn bedd,  
A siriol wedd ei wyneb. e.

475 M. 8, 3, 3, 6. (M. 42.)

*Gweddï am help.*

- 1 **I**ESU! Mrenin mawr a Mhriod  
Bydd wrth raid,  
Imi 'n blaid  
I orchfygu pechod.
- 2 Pâr im' aros mwy'n dy freichiau—  
Boed fy nyth  
Dedwydd byth  
Yn dy ddilyth glwyfau.
- 3 Tra fwy'n trigo mewn anialwch,  
Gwel'd yn wir,  
D'wyneb pur,  
Yw fy ngwir ddyddanwch.
- 4 Iesu, helpa f'enaidd ddringo  
'N'awr i'r lan,  
Tua'r man  
Y caf byth breswylio.      w. w.

476 M. 8, 3, 3, 6. (M. 42.)

*Ymgylwymo i ofal Iesu.*

- 1 **G**WEL dy anwyl wyn yn 'madael,  
Bydd wrth raid,  
Ini 'n blaid—  
Iesu! paid a'n gadael.
- 2 Rhag gelynion gwna ni'n arfog,  
Oll yn un  
Yn gytun,  
Sanctaidd lu banerog.
- 3 Na'd in' nabod dim na'i garu,  
Tra fo'm byw,  
Ond y gwiw  
Groeshoeliedig Iesu.
- 4 Na'd i'r blaidd fyth mo'n gwasgaru,  
Bydd Di byth  
Yn ddilyth  
Ben a Bugail ini.

477 M. 8, 3, 3, 6. (M. 42.)

*"Trugareddau 'r Arglwydd yw na ddarfu am danom."*

- 1 **D**EFFRO f'enaidd, deffro'n ufudd,  
C'od yn awr  
Gyda'r wawr,  
Seinia ganiad newydd.
- 2 Dyrcha foliant hyd yr wybren,  
Cysgod da,  
Rhag pob pla,  
Gefaist dan ei aden.
- 3 Heddyw rhof fy mhwy ar ddwyfron  
Iesu gwiw,  
Noddwr yw,  
Rhag pob rhyw elynion.
- 4 Pwysa arno dros dy ddyddiau,  
Nes daw dydd,  
Myn'd yn rhydd,  
I dy fythol gartre'.
- 5 Uwch peryglon, Iesu cadw  
F'enaidd llon,  
Ger dy fron  
Dirion, nes fy marw.
- 6 Pan, b'wy'n sengu llwybrau angen,  
Rhag pob braw,  
Rho dy law,  
Yna ni ddaw ofnau.
- 7 Hiraeth sy' ar fy nghalon dyner,  
Wel'd y dydd,  
Fyn'd yn rhydd,  
Maes o'm poen a'm blinder.
- 8 Gwna fi farw, farw'n ddiaw,  
Marw i'r byd,  
'Nawr yn nghyd,  
A'i holl wael bleserau.

478 M. 8, 4, 8, 4; 8, 8, 8, 4. (M. 40.)

*Darostyngiad Crist.*

1 O! DDIRGELWCH mawr duwiol-  
Duw 'n natur dyn! [deb,

Tad a Brenin trag'wyddoldeb  
Yn natur dyn.

O holl ryfeddodau 'r nefoedd,  
Dyma 'r fwyaf ei dyfnderoedd,  
Testyn mawl diderfyn oesoedd,  
Duw 'n natur dyn.

2 Priod Fab yr Hanfod ddwyfol,

O'i gariad pur,

Ymostyngodd yn wirfoddol

O'i gariad pur:

Er gwaredu plant marwolaeth  
O drueni colledigaeth,  
Gwisga'i Berson â dynolaeth  
O'i gariad pur.

3 Cig a gwaed gymmerodd arno,

O'i gariad mawr,

Fel y gallai gydymdeimlo

A phlant y llawr;

Baich ein hanwireddau ddygodd  
Cosp ein heddwch a ddyoddefodd,  
Ac a'i werthfawr waed fe'n prynodd,  
O gariad mawr!

4 Ar y ddaear bu'n ymdeithio,

Ar agwedd gwas,

Heb un lle i orphwys ganddo,

Ar agwedd gwas:

Daeth er mwyn ein cyfoethogi  
O uchelder gwlad goleuni,  
Yma i ddyfnder gwarth a thlodi,  
O ryfedd ras!

W. R.

479 M. 8, 4, 8, 4; 8, 8, 8, 4. (M. 40.)

*Y gwaith Gorphenol.*

1 C! ANWN am y gwaith gorphenol,  
Ar Galfari,

Yno rhoddwyd Iawn trag'wyddol,

Ar Galfari,

Pob addewid a gyflawnwyd,

Geiriau'r nefoedd oll a seliwyd,

Pan y llefodd Ef, "Gorphenwyd"

Ar Galfari.

2 Deddf y nef a anrhydeddwyd

Ar Galfari,

A chyflawnder a foddlonwyd

Ar Galfari;

Pyrth y nefoedd wen agorodd,

Y Tad oddiar ei orsedd wenodd,

Nef a daear a gymmododd

Ar Galfari.

3 Awdurdodau uffern greulon,

Ar bren y groes,

Rwymodd mewn cadwynau'n gaethion.

Ar bren y groes:

Arddangosodd hwy ar gyhoedd

Dan eu gwarth yn ngŵydd y nefoedd—

Arnynt oll ymorfoleddodd,

Ar bren y groes.

4 Pren y groes oedd pren y felldith,

Hen bren y groes:

Fe droes hwnw'n bren y fendith,

Hen bren y groes:

Er pan drengodd Iesu arno,

Hedd a bywyd lifa o hono,

Cenir clod trag'wyddol iddo,

Hen bren y groes.

W. R.

480 M. 8, 4, 8, 4; 8, 8, 8, 4. (M. 40.)

*Mawl y nef.*

1 **E**NGYL nef o gylch yr orsedd,  
A'th folant Di,  
Rho'nt y parch, y clod a'r mawredd,  
Byth, Byth i Ti,  
T'wysogaethau ac awdurdodau  
Fil o filoedd, myrdd myrddiynau,  
Seiniant fawl trwy uchelderau,  
Byth, Byth i Ti.

2 Patriarchiaid a phrophwydi,  
A'th folant Di,  
Ar delynuau gwlad goleuni,  
Y'th folant Di,  
Efengylwyr, apostolion,  
Ac ardderchog lu'r merthyron,  
O un genau, ac un galon,  
Y'th folant Di.

3 Mawl a'th erys Di yn Sion  
O oes i oes;  
Yn nghyn'lleidfa'r gwaredigion  
O oes i oes:  
Ti yr hwn wrandewi weddi  
'R tlawd a'r truan yn ei gyni,  
Clod am hyn a delir iti,  
O oes i oes.

W. B.

481 M. 8, 4, 8, 4; 8, 8, 8, 4. (M. 40.)

*Oll yn hawddgar.*

1 **M**AEL'Anwylyd oll yn hawddgar,  
Pwy fel Efe!  
Nid oes yn y nef na'r ddacar,  
Neb fel Efe!  
Gwyn a gwridog yw ei ruddiau,  
Melus odiaeth yw ei enau,  
Balm a bywyd yw ei eiriau,  
Pwy fel Efe!

2 Megys pren afalau hyfryd—  
'Mysg prenau 'r coed,  
Y rhagora fy Anwylyd—  
Ar bawb erioed;  
Cysgod rhag y gwres sydd tano,  
Ffrwythau per a dyfant arno,  
Ni chaed yn gyffelyb iddo—  
Neb, neb erioed.

3 Yn ei angu Ef mae bywyd—  
Byth i barhau,  
Ac o'i ing y tardda'n gwynfyd,  
Byth i barhau;  
Trodd ei chwys a'i ddagrau heilltion,  
Ac och'neidiau trist ei galon,  
Yn destynau cân i Sion,  
Byth i barhau. W. B.

482 M. 8, 4, 8, 4; 8, 8, 8, 4. (M. 40.)

*Esgyniad Crist.*

1 **F**RY esgynodd i'w ogoniant,  
Ar ddeheu'r Tad;  
Byth i dderbyn parch a moliant,  
Ar ddeheu'r Tad;  
Mae'r holl awdurdodau yno,  
Wedi eu darostwng iddo,  
Pleser nef yw edrych arno  
Ar ddeheu'r Tad.

2 Yn ein natur ni mae yno,  
Ar ddeheu'r Tad;  
Gwisg ei gariad ydyw hono,  
Ar ddeheu'r Tad:  
Cyfyd ninnau mewn gorfoledd,  
O drigfanau'r bedd a'r llygredd,  
Ato 'i Hun i fyw'n ddiddiwedd,  
Ar ddeheu'r Tad.

W. B.

483 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Dilyn yr Iesu.*

1 **C**RIST ydyw'r Bugail mawr di-ball,  
Arweinia'r dall i dŷ;  
Dyddanu'r gwan eù meddwl mae,  
A'u llawenhau yn llu:  
A äi di, enaid, ar ei ol?  
Mae yn rhinweddol nerthol Naf;  
Fe'th dderbyn fel yr ydwyt, cred:  
I'w ganlyn, dywed, Af.

2 Pan elych drwy'r Iorddonen ddu,  
Cai lechu yn ei law:  
Fe'th dddwg di, enaid llesg, i'r lân,  
I'w nefol drigfan draw;  
Cai ganu'n llafar gyda'r llu  
Sy'n llawenychu yn eu Naf:  
A äi di i'w ganlyn doed a ddôl?  
O! d'wed yn uchel, Af.

R. J.

484 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Galwad i bechadur.*

1 **M**AE galwad heddyw yn parhau  
I mi a'r beiau mawr,  
A chroesaw eto i godi'm llef  
Fry tua'r nef yn awr,  
Trwy'r Archoffeiriad gwych diffael,  
Sydd wedi'i gael yn un di-goll;  
Difai i Dduw yw yn ddiaiu,  
Difai i ninnau oll.

2 Trowch ataf fi, medd Duw o hyd,  
Holl gyrau'r byd sy'n gaeth,  
Fel y'ch achuber rhag fy lliid,  
A phrofi gofid gwaeth;  
Pe byddai eich pechodau chwi  
Fel porphor wedi cochii, cewch  
Eich gwneyd mor lân a'r eira gwyn  
Yn sydyn cydnesewch.

R. J.

485 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Tosturi Duw.*

1 **C**LYW, f'enaid tlawd, mae genyt Da  
Sy'n gwel'd dy fwriad gwan;  
A Brawd yn eiriol yn y nef,  
Cyn codi'th lef i'r lân;  
Cred nad diystyr gan dy Dad  
Yw gwrando gwaedd dymuniad  
Pe byddai d'enaid yn rhy fud [gwi  
I'w dd'wedyd ger bron Duw.

2 Pan byddwyf mewn rhyw ddirgel fan  
Yn griddfan dan y groes,  
Bron methu cerdded llawer cwm  
Gan faich rhy drwm yn f'oes,  
Daw weithiau feddwl i mi fod  
Mab Duw i'm canfod yn mhob cell,  
Ni chaf ddihoeni felly o hyd,  
Y gwawria bywyd gwell.

R.

486 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Dedwyddwch y nef.*

'**D**OES neb, trwy'r nefoedd hawd  
Ei bresennoldeb rhydd; [gar, he  
Pob angel, seraph, a phob sant,  
A'i gwelant yn ddi-gudd:  
Mae pob un yno yn ei wydd,  
Yn canu 'n llafar gyda llwydd,  
Ac yn mawrhau eu siriol swydd  
O foli'r Arglwydd mawr.

R. J.

487 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Duw a drugarhao wrthym ac a'n bendithio.*

**D**UW trugarha, bendithia ni  
O'th fawr ddaioni rhad,  
A dyrcha arnom lewyrch llon,  
Dy wyneb, dirion Dad,  
Fel yr adwaener ffordd a gwaith  
Dy iachawdwriaeth fawr ei dawn,  
A ninnau'th bobl oll yn nghyd,  
Dy foli'n unfryd wnawn.

W. B.

488 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Mawredd Duw.*

1 MAE'N llon'd y nefoedd llon'd y byd,  
Llon'd uffern hefyd yw;  
Llon'd trag'wyddoldeb maith ei hun,  
Diderfyn ydyw Duw:  
Mae'n llon'd y gwagle yn ddi-goll,  
Mae oll yn oll, a'i allu'n un;  
Anfeidrol, annherfynol Fod,  
A'i hanfed ynddo 'i hun.

2 Un hunanfodol ydoedd Ef.  
Cyn llunio nef na llawr;  
Yn nhrag'wyddoldeb maith yn ol,  
Yn Dduw anfeidrol fawr;  
Heb ddechreu dyddiau iddo'n bod,  
Na diwedd einioes chwaith i dd'od,  
Trag'wyddol a rhyfeddol Fod,  
Yn Drindod uniawn drefn.

3 Anfuredig yw ei ras,  
Un addas yw i ni;  
Ni a welsom, ac a glywsom son,  
Am droion Un yn Dri;  
Ac fel y clywsom, felly mae,  
I ninnau'n rhyfedd yn parhau,  
Yn ddigyfnewid i'w fwynhau  
Er cymmaint beiau 'r byd. E. J.

489 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Iesu ar ddechulaw'r Tad.*

A WN at Orseddfainc gras trwy ffydd,  
Mae'r ffordd yn rhydd a rhad,  
Ac Iesu'n Archoffeiriad fry,  
O'n tu ger bron y Tad;  
Mae'i dosturiaethau yn ddidrai,  
Mae'i eiriau fel y diliau mel,  
Ac erys byth yn drysor llawn  
Ei ddawn i'r oesau ddel.

2 Moliennir Ef o oes i oes  
Hyd olaf oes y byd;  
Yn beraidd glod i'w Enw glân,  
Y rhoir y gân i gyd;  
Ac wedi diffodd haul a ser,  
A darfod rhifo amser mwy,  
Ni dderfydd byth tra nef yn bod,  
Fawr glod ei farwol glwy'. W. R.

490 M. 8, 6, 8, 6; 8, 8, 8, 6. (M. 57.)

*Gelyniaeth calon dyn.*

1 O! LLADD yr hen elyniaeth fyw,  
O'm mew'n, fy Nuw, yn awr;  
O! dyro ras i dori ei rym,  
Fel cleddyf llym i'r llawr;  
A phlana gariad fel fflam gref,  
Yn anian loew yn ei le—  
Yn f'enaidd llwm, hyn yw fy llef,  
Y b'o ei chartref byth.

2 Lladd yr elyniaeth wnaeth i ni  
Gasâu daioni Duw;  
Ni chaiff anwylaf blant y ne'  
O'i fodd yn un lle fyw;  
Ei ergyd beunydd, yn mhob oes,  
Sy'n erbyn Iesu Grist a'i groes,  
A llawer codwm, llawer loes,  
A roes i'r duwiol rai.

3 O! difa'm hen elyniaeth cas,  
Sy'n erbyn gras fy Nuw;  
Y mae ef beunydd ynwy' 'n bod,  
Mi wn, yn bechod byw:  
Rho brofi arfau'r nef yn awr,  
Heb golli eu min a'u gallu mawr,  
Yn tori pen Golia'i lawr,  
Sy'n nychdod mawr i mi. E. J.



491 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Golwg ar y wlad well.*

1 **D**ACW'R hyfryd fan caf drigo,  
Gwn caf drigo cyn bo hir;  
Draw i'r bryniau oer tymmestlog,  
Yn y sanctaidd nefol dir:  
Gwela'i 'nawr, hyfryd wawr  
Glir o drag'wyddoldeb mawr.

2 O ddwyreindir gras mae'n t'wnu,  
Lle mae teml fawr fy Nhad;  
Lle mae'r arch, a lle mae'r manna,  
Lle mae'r drugareddfa rad:  
Un prydawn, chwergawn,  
Yna wed'yn adre' r'awn.

3 Ni gawn yno wel'd a garwn  
Mewn gogoniant llawer mwy,  
Nag y gwelwyd ar y croesbren,  
Yn ei waed tan farwol glwy':  
Lluoedd mawr, sydd yn awr,  
Yn ei garu uwch y llawr.

4 Ni gawn wel'd a'i carodd yma,  
Yn y man yr ochr draw;  
Oll yn gwledda ar ei gariad,  
T'lynau auraidd yn eu llaw;  
Oll yn un, a chytun,  
Molant Dduwdod yn y dyn. w. w.

492 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Gallu pob peth trwy Grist.*

1 **N**ID all dim o'r storon danbaid,  
Nid all dim o'r gwyntoedd cry',  
Guro i lawr yr enaid egwan  
Welo'i drysor ynot Ti:  
Teimlo'th hedd, gwel'd dy wedd,  
*Faedda angeu du a'r bedd.*

2 Af ar hyd fy ffordd yn ddiiddig,  
Af ar hyd fy ffordd yn hy',  
Af trwy'r anial mewn gorfoledd,  
Ond cael golwg arnat Ti:  
D'eiriau cu, melus, sy  
Imi'n gysur o bob tu. w.

493 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M.)

*Diogelwch yn Nwv.*

1 **D**OED y diluw i deyrnasu  
Unwaith eto fel o'r blaen;  
Aed y cyfan yn gymmysgfa—  
Daear, awyr, dŵr a thân:  
Dedwydd fi, yn y lli,  
Tra bo'm Duw'n teyrnasu fry.

2 Colled pob blodeuyn hyfryd  
Ei holl degwch is y rhod;  
Doed salwneb ar bob wyneb  
O'r cre'duriaid sydd yn bod:  
Tegwch byd, sydd yn nghyd,  
Oll yn wyneb Prynwr drud.

3 Pe diffoddai'r heulwen ddyglaer  
Yn yr awyr deneu las;  
A phe treuliai'r ser y fflamau  
Ynddynt sydd o dân i maes:  
Mi gaf fyw, gyda'm Duw,  
Mewn gogoniant byth heb friw.

4 Mi gaf fod o flaen yr orsedd,  
Mi gaf ganu'r anthem bur;  
Pan ddarfyddo son am ddaear,  
Son am foroedd, son am dir:  
Dwyfol loes, angeu'r groes,  
Fydd y canu ddydd a nos. w. v

494 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Llef yr Arglwydd.*

1 **A** RGLWYDD, anfon dy leferydd  
Heddyw yn ei rwyg a'i rym;  
Dangos fod dy lais yn gryfach  
Nas gall dyn wrthsefyll dim:  
Cerdd yn mlæen, nefol dân,  
Cymmer yma feddiant glân.

2 Grym dy lef a nerth dy eiriau,  
Sydd yn codi'r marw o'r bedd;  
Mae agoriad nef ac uffern  
Yna i'w deimlo ar dy wedd:  
Gair dy ras, pur ei flas  
'Nawr a ddetgly nghanol gaa.

495 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Y Messia.*

1 **W**ELLE, cawsom y Messia,  
Cyfaill gwerthfawroca' erioed,  
Darfu Moses a'r prophwydi  
Ddweyd am dano cyn ei dd'od:  
Iesu yw, gwir fab Duw,  
Ffrynd a Phrynwr dynolryw.

2 Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria  
Aeth i'r lladdfa yn ein lle;  
Swm ein dyled mawr fe'i talodd,  
Rho'dd foddlonrwydd llawn i'r Ne':  
Trwy ei waed ini caed,  
Bythol heddwch a rhyddhad.

3 Dyma Gyfaill haeddai' garu,  
A'i glodfori'n fwy nag un;  
Prynu'n bywyd, talu'n dyled,  
A'n glanhau a'i waed ei hun:  
Frodryr de'wch, llawenhewch  
Diolehwch iddo byth na thewch. D. J.

496 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Iachawdwriaeth gyflawn yn Nghrist.*

1 **M**AE grasusau pen Calfaria  
Mae rhinweddau marwol glwy',  
Uwch eu prisio, uwch eu deall,  
Gan angplion honynt hwy:  
Bywyd byd, sy' yma i gyd,  
Wedi gasglu'n gryno 'nghyd.

2 Y mae pyrth trag'wyddol fywyd,  
Heddyw'n agor led y pen;  
Ac mae'r ffordd yn llawn agored,  
Maes o'r byd i'r nefoedd wen:  
Cariad rhâd, rhoddodd waed,  
Calon ddwyful er iachad.

3 Minnau bellach orfoleddaf,  
Mae fy mywyd gwerthfawr iawn;  
Wedi ei roddi 'nghudd i gadw  
Mewn Cyfryngwr perffaith llawn;  
Abi yw, mae E'n Dduw,  
Ceidw f'enaid bach yn fyw. w. w.

497 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Dysgwyliad y Cristion.*

1 **M**I debygwn gwelai'r bore,  
Haul yn codi oddi draw,  
Iachawdwriaeth rad yn nesu,  
Hedd a phardwn yn ei llaw:  
Y mae'r wawr, hyfryd awr,  
Bron a thori maes yn awr.

2 Dere bellach, dere yn ebrwydd,  
Ac anadla 'r gwyntoedd cry'  
Sydd yn nerthu'r pererinion,  
I wynebu gelynyion hy':  
Yn gwneyd grym, Satan lym,  
Mewn mynydyn fyn'd yn ddiu:

498 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Dymuno ffyniant y groes.*

1 **T**YRED, Iesu i'r ardaloedd  
Lle teyrnasa tywyll nos;  
N'ad fod rhan o'r byd heb wybod  
Am dy chwerw angeu loes:  
Pa'm bydd poen, addfwyn Oen,  
Am dano'n eitha'r byd heb son.

2 Mae'r efengyl wen yn curo,  
Ac yn codi baner gras;  
Mewn rhyw filoedd o ardaloedd,  
Ar y mynydd, yn y maes:  
Y mae llef, bur y nef,  
Yn cyhoeddi ei haeddiant Ef.

3 Aed i'r dwyrain a'r gorllewin,  
Aed i eitha'r India draw:  
Fod yr hoelion dur cadarnaf  
Yn ei draed ac yn ei law:  
Doed yn nghyd, eitha'r byd,  
I gael gwel'd dy wyneb pryd. w. w.

499 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Dymuniad am bresennoldeb yr Arglwydd.*

1 **D**YRO i ni wel'd o'r newydd  
Mai Ti, Arglwydd, yw ein rhan:  
Aed dy bresennoldeb hyfryd  
Gyda'th weision i bob man:  
Tyr'd i lawr, Arglwydd mawr,  
Rho dy fendith yma 'nawr.

2 Ymddygleiria yn y canol,  
Gwel dy bobl yma 'nghyd;  
Yn hiraethu, anwyl Iesu,  
Am gael gwel'd dy wyneb-pryd:  
Chwyth yn gry', oddifry,  
I wasgaru'r cwmwl du.

3 Deued yr awelon hyfryd,  
Effaith ysbryd gras i lawr;  
Llifed atom afon bywyd,  
Dardd o dan yr orsedd fawr:  
Dyro'n rhad, wir fywhad,  
I rai meirw yn eu gwaed.

500 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M)

*Dysgwyl wrth Dawu.*

1 **O** GÂD imi 'n fuan Arglwydd,  
Glywed geiriau dystaw'r n  
Rhag im' redeg heb i'm wybod,  
Ar ryw law, i maes o'm lle;  
Yn dy law, heb ddim braw,  
Cerddai'n union yma a thraw.

2 Af yn mlaen a doed a ddelo,  
Tra fo hyfryd eiriau'r nef  
Yn cyhoeddi iachawdwriaeth  
Lawn, o'i sanctaidd enau Ef:  
Nid yw grym, gelyn llym,  
I'w anfeidrol ras Ef ddim.

3 Mewn gwasgfeuon mwyaf caled  
Eto brofodd dyn erioed,  
Mae yn nerth, mae yn ddyddanw  
Mae yn gyfan is y rhod:  
Melus win, dwyfol rin  
Yw i'r tralodedig ddyn.

4 Minnau ganaf am ei Enw,  
Ac a draethaf maes ar led,  
Mai Efe sydd unig deilwng  
O fy nghariad a fy nghred:  
Mwy na'r ne' yw Efe,  
Neb nis gall gyflawni ei le.

501 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Enaid sychedig.*

1 **R**HO imi yfed, 'rwy'n sychedig,  
Ddŵr y ffynnon loew lawn,  
Darddodd allan o dy ystlys  
Ar Galfaria un prydawn:  
Gwæd fy Nuw, unig yw,  
Ylch fy meiau du eu lliw.

2 Tyred, Arglwydd, 'rwyf yn d'rysu,  
Ac mae arnaf syched mawr;  
Ffynnon wyf yn chwilio allan,  
Dangos imi'r fan yn awr:  
Ti yw'r gwir, fanna pur,  
Ti yw'r ffynnon loew glir. w. w.

502 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Gurthadrach ffydd.*

1 **N**'AD fi adeiladu 'n ysgafn  
Ar un sylfaen is y ne';  
Na chymmeryd craig i orphwys  
Tu yma i angeu yn dy le:  
Iesu'm Duw, tra fwy' byw,  
Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw.

2 Dyma'r maen sydd yn y gongl,  
Dyma'r gareg werthfawr bur,  
Gloddiwyd allan yn y brynau,  
Brynau trag'wyddoldeb dir:  
Nid oes le, is y ne',  
I adeiladu ond Efe.

3 Minnau'r gwaela' o bechaduriaid,  
Yn y diwedd ro'f fy nhroed,  
Ar y Graig sydd yn y moroedd,—  
Craig gadarnaf fu erioed:  
Ceidw hon, rhag pob tôn,  
(O'nau ffwrdd o tan fy mron. w. w.)

503 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Anfeidrol rinwedd a haeddiant Aberth Crist.*

1 **M**AE cyflawnder maith o haeddiant  
Annherfynol yn dy waed;  
Sawl a'i teimlodd sy'n rhyfeddu,  
Ac yn caru'r ddyfais rad:  
Cariad drud, tros y byd,  
Daeth yn genllif coch i gyd.

2 Dwyfol waed a dwyfol boenau,  
Haeddiant ydoedd hwn mor ddrud,  
Ac oedd defny'n bach o hono  
Yn abl ddigon brynu byd,  
A phe b'ai maint ei fai  
Ganmil trymach nag y mae.

3 Bod Creawdwr nef yn dyoddef,  
R'odd anfeidrol werth a rhin  
Yn mhob gwyn, yn mhob ochenaid,  
O ddyoddefaint Mab y Dyn:  
Nid yw lliid euogrwydd byd,  
Ddim i bwysu'o'i haeddiant drud.

4 Yma tardd cyflawnder allan,  
Fel rhyw ddiluw mawr didrai;  
Ac er golchi miloedd ynddo,  
Nid yw'r dyfroedd ronyn llai:  
Gwæd fy Nuw, haeddiant yw,  
Trech na'r beiau dua eu lliw.

5 Pe ba'i dengmil lawn o ddyinion,  
A'u heuogrwydd oll yn un;  
Dengmil eilwaith faith o fydoedd,  
Ffiaidd euog yn gytun;  
Yma cawn un prydawn.  
Aberth perffaiath dâl yr lawn. w. w.

504 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M. 8.)

*Taith yr anialwch.*

- 1 **A** ROS, Iesu, yn y rhyfel  
F'enaid yn lluddedig sydd;  
Ti biau d'rysu fy ngelynion,  
Ti biau'r enw, Ti biau'r dydd:  
Yn dy ddawn, 'n'unig cawn  
Fuddugoliaeth werthfawr iawn.
- 2 Minnau gerddaf trwy'r byddinoedd,  
Ond it' gerdded o fy mlaen;  
Mae dy gamrau'n tori'r tônau,  
Mae dy gamrau'n diffodd tân;  
'N ol dy droed, gwna'i mi dd'od,  
I'r hyfrydwch mwya' erioed.
- 3 Mae dy air yn abl fy arwain,  
Trwy'r anialwch mawr yn mlaen:  
Mae e'n golofn oleu, eglur,  
Weithiau o niwl ac weithiau o dan:  
Mae'n ddi-ble, ynddo 'fe,  
Fwy na'r ddaear, fwy na'r nef.
- 4 Da i mi fod yr addewid  
Wedi ei rhoddi gan fy Nuw:  
A bod gair o enau'r Brenin,  
Uwch gelynion o bob rhyw:  
Ei addewid Ef, gadarn gref,  
Arwain eiddil gwam i'r nef.
- 5 Tyred, Arglwydd, a'r amseroedd  
Mae fy enaid am fwynhau,  
Pur dangnefedd heb dymmestloedd,  
Cariad hyfryd a didrai:  
Gwledd o heddi, tu yma i'r bedd,  
*Nad oes ond dy blant a'i medd.* w. w.

505 M. 8, 7, 8, 7; 3, 3, 7. (M.

*Dyoddefaint Crist.*

- 1 **D**ACWR ffynnon wedi'i hagar,  
A ddysgwylwyd lawer oes;  
'Nawr yn llifo fel y grisial  
Pur o'i ystlys ar y groes:  
Dwr a gwaed, ry' iachâd,  
I'r pechadur mwya' gaed.
- 2 Dacw'r hoelion geirwon llymion,  
Wedi'u curo 'nawr i dre;  
Dacw'r bicell yn trywanu  
I mewn o dan ei ystlys E':  
Dacw boen, addfwyn Oen,  
Yn rhoi'r nefoedd dewi son.
- 3 'Nawr, mi glywa'r gair "Gorphenwy  
Gorphen iachawdwriaeth wir;  
Ac mi wela'r gwaed yn hidlo,  
Tros ei ruddiau sanctaidd pur:  
Wele'r nef, gadarn gref,  
Yn tywyllu wrth ei lef.
- 4 Dyma'r creigydd serth yn rhwygo,  
Dyma'r meirw'n codi'n fyw;  
Pa greadur allai oddef,  
Griddfan chwerw f' Arglwydd Ddu  
Ochain mae, fe ga'dd wae,  
Fel cawn innau lawenhâu.
- 5 Minnau bellach a obeithiaf,  
Gobaith ag all estyn f'oes;  
Gobaith wedi ei sylfaenu,  
Ar och'neidiau pur y groes;  
Dyma wlad, caf iachâd,  
A chaf gyflawn wir ryddhad. w.

06 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Wrth ymadael.*

**D**AN dy fendith wrth ymadael  
Y dymunem, Arglwydd, fod;  
Llona'n calon & dy gariad,  
A'n geneuan & dy glod:  
Dy dangnesfedd,  
Dyro ini yn barhaus.

Am efengyl gras a'i breintiau,  
Rhoddwn ddiolch fyth i Ti;  
Caffer ffrwythau'r iachawdwriaeth  
Yn lluosog arnom ni:  
I'r gwirionedd,  
Gwna ni'n ffyddlon tra bo'm byw.

Yna, pan y delo'r alwad,  
I ni ado'r byd ar ol;  
Dwg ein henaid o'r helbulon  
I gael gorphwys yn dy gól:  
Haleluia,  
Caiff trueiniaid lawenhau.

W.G. (J.)

507 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Ymbil am gymdeithas Crist.*

**B**OED fy nghalon iti'n deml,  
Boed fy ysbryd iti'n nyth;  
Ac o fewn y drigfan yma,  
Aros Iesu, aros byth:  
Gwledd wastadol  
Fydd dy bresennoldeb im'.

O! darfydded imi garu  
Unrhyw bleser is y ne',  
A darfydded im' fyfyrion  
Ar un gwrthddrych yn dy le:  
Aed fy ysbryd  
Oll yn llwyr yn eiddot ti.

w. w.

508 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Deisyfiad am ledaeiniad yr Efengyl.*

1 **A**RGLWYDD grasol, dyro gymhorth  
I gyhoeddi'n eglur iawn,  
Ddyfnder calon dyn truenus,  
Ac anfeidrol ddwyfol ddawn:  
Fel bo'r truan  
Yn cael trysor nef yn rhad.

2 Duw, teyrnasa ar y ddaear,  
O'r gorllewin pell i'r de;  
Cymmer feddiant o'r ardaloedd  
Pellaf, t'wllaf, is y ne':  
Haul Cyflawnder,  
Llanw'r ddaear fawr a'th ras.

3 Taened gweinidogion bywyd  
Iachawdwriaeth Iesu ar led;  
Cluded moroedd addewidion  
Drosodd draw i'r rhai di-gred:  
Aed Efengyl  
Ar adenydd dwyfol wynt.

4 Doed preswylwyr yr anialwch,  
Doed trigolion bro a bryn;  
Doed y rhai sydd ar y cefnfor,  
I garu'r iachawdwriaeth hyn:  
Nes b'o adsaen  
Moliant yn amgylchu'r byd w. w.

509 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Arweiniad yr Ysbryd.*

**M**AE dy Ysbryd di yn fywyd,  
Mae dy Ysbryd di yn dân;  
Fe sy'n dwyn yr holl fforddion  
Cywir, sanctaidd, pur, yn ulaen;  
Cyfarwyddwr  
Pererinion, arwain fi.

L

510 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Newn odfa brydnawnol.*

1 DUWR bendithion yw dy enw,  
Yn cyfranu'n helaeth iawn,  
Nol cyfranu yn y bore,  
Rhoddi eilwaith y prydawn:  
Dyro fendith,  
Eto yn rhagor yma i lawr.

2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,  
A fu'n dysgwyl wrth dy ddôr;  
Ac er rhoddi'n helaeth iddynt  
Para'n gyflawn mae dy stôr:  
Rho i ninnau,  
Fendith newydd anwyl Dad.

J.

511 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Iachawdwriaeth ddigonol.*

1 DYMA iachawdwriaeth hyfryd,  
Wedi' threfnu gan fy Nuw:  
Ffordd i gadw dyn colledig,  
Balm i wella dynol ryw:  
Dyma ddigon,  
I gadw euog fel myf.

2 Wele foroedd o fendithion,  
O, am brofi'u nefol flas!  
Ni bydd diwedd byth ar lawnder,  
Iachawdwriaeth dwyfol ras:  
Dyma ddigon,  
Gorfoledda f'enaid, mwy.

J.

512 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Y Ceidwad mawr.*

DYMA Geidwad i'r colledig,  
Meddyg i'r gwywedig rai;  
Dyma Un sy'n caru maddau  
I bechaduriaid mawr eu bai;  
Diolch iddo,  
Brth am gofio llwch y llawr.

M. E.

513 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Emyn Genhadol.*

1 DROS y bryniau tywyll, aiwliog  
Yn dawel f'enaid edrych dr  
Addewidion sydd i eogor  
Ar ryw ddyddiau braf gerllaw;  
Nefol Jubil,  
Gad im' wel'd y bore wawr.

2 Doed yr Indiaid, doed Barbariaid,  
Doed Negroaid du yn llu;  
I ryfeddu'r ddwyfol goncwest  
Unwaith gaed ar Galfari:  
Sw'n y frwydr,  
Dreiddio i gonglau pella'r byd.

3 Ar ardaloedd maith o d'wllwch,  
T'wynu wnelo'r heulwen lân;  
Ac ymlidied i'r gorllewin  
Y nos, o'r dwyrain draw, o'i bla  
Iachawdwriaeth  
Ti yn unig gario'r dydd.

4 Gwawria, gwawria, hyfryd fore,  
Ar ddiderfyn fagddu fawr;  
Nes bo bloedd yr euraidd udgorn  
Yn dadseinio nen a llawr,  
Holl derfynau  
Tir Emmanuel i gyd.

W

514 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Crist oll yn hawddgar.*

MAE deng myrddiwn o rinwedd:  
Dwyfol yn ei Enw pur;  
Yn ei wedd mae tegwch ragor  
Nag a welodd môr na thir;  
Rhosyn Saron!  
Oll yn hawddgar yw Efe.

W

515 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Ceisio Duw.*

1 **C**HWILIO am danat, addfwyn Argl-  
Mae fy enaid yma a thraw; [wydd,  
Teimlo 'mod i'n berffaith ddedwydd,  
Pan y byddi Di gerllaw:  
Gwedd dy wyneb,  
Yw fy mywyd yn y byd.

2 Heddwch perffaith yw'th gymdeithas  
Mae llawenydd ar dy dde';  
Ond i Ti fod yn bresennol,  
Pob peth sydd yn llawr i le:  
Ni ddaw tristwch,  
Byth i'th bresennoldeb Di. w. w.

516 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Dymuniad am adnewyddiad.*

1 **D**EUED awel bér adfywiol  
Bryniau iach Caersalem fry,  
Nawr i chwythu ar dy bobl  
Sy'n ymgynnull yn dy dŷ,  
Fel bo'i nardus  
Yn gwaagaru nefol sawr.

2 Dygwyl mae dy bobl heddyw  
Ymweliadau mawr dy ras,  
I sancteiddio eu calonau,  
A rhoi iddynt nefol fias  
Y grawn sypiau,  
Dyf yn nefol Ardd eu Tad.

3 Mawl yn Sion sy'n dy aros.  
Tyred atom Arglwydd mawr;  
Dy gymdeithas gaffo'i phrofi  
Gan dy deulu ar y llawr;  
Gorfoleddu  
Heddyw byddont ynot Ti. T. T.

517 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Mawl i'r Drindod.*

**B**OED i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd,  
Un Duw hyfryd diwahân,  
Mewn gorfoledd bob gwir foliant,  
A gogoniant fyth ar gân;  
Haleluia,  
Unwn glod i'w Enw glân. T. W.

518 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Digrifwch yn draggywydd.*

1 **D**ECHREU canu, dechreu canmol,  
Yn mben mil o oesoedd maith,  
Iesu, bydd y përerinion,  
Hyfryd draw ar ben y daith:  
Ni cheir diwedd,  
Byth ar sw'n y delyn aur.

2 Nid oes yno ddiwedd canu,  
Nid oes yno ddiwedd clod;  
Nid oes yno ddiwedd cofio  
Pob cystuddiau fu erioedd:  
Byth ni dderfydd,  
Canmawl Duw yn nhŷ fy Nhad.

3 Yno caf fi dd'weyd yr hanes,  
P'odd y dringodd eiddil gwan,  
Trwy afonydd a thros greigydd,  
Dyrys anial serth i'r lân;  
Iesu ei hunan,  
Gaiff y clod trwy eitha'r nef. w. w.

519 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Digonedd yn Nghrist.*

**I**ESU, Iesu wyt yn ddigon  
Wyt yn llawer mwy na'r byd;  
Mwy trysorau sy'n dy Enw  
Na thrysorau'r India gyd:  
Oll yn gyfan  
Ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw. W. W.



520 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Hollalluowgrwydd ac awdurddod Dwe.*

1 **M**AE dy Enw mor ardderchog,  
Fel yn ngrym y storom gref,  
Llaesa'r gwyntoedd, llaesa'r tônau,  
Dim ond imi ei enwi Ef:  
Noddfa gadarn,  
Yw yn eitha' grym y dwr.

2 Mae dy wedd yn drech na byddin  
O elynion mawr eu grym,  
Nid oes yn y nef na'r ddaear  
Saif o flaen dy wyneb ddim:  
Gair o'th enau  
A wna'r dywyll nos yn ddydd.

3 Nid oes elyn is y nefoedd  
Ddichon roddi imi glwyl;  
Yn dy gwmini, nid oes gallu  
Gan un gelyn cadarn mwy:  
Ar dy deyrnas,  
Nid oes diwedd, nid oes tranc. w. w.

521 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Coron y flwyddyn.*

1 **C**ORON hardd roist ar y flwyddyn,  
Coron o ddaioni llawn,  
Mor amrywiol yw'r bendithion  
Ynddi yn cyfarfod gawn;  
Delw'r nefoedd  
Yn ymddangos arni sydd.

2 Ti ddyferaist fraser maethlawn,  
Ar ein daear, dirion Dad;  
Cuwdd ein meusydd alwai arnom,  
I'th glodfori drwy y wlad;  
O na roddem  
*Fel y dylem, glod i'th ras.*

3 Ymwregysu wnaeth ein bryniau  
A hyfrydwch pur yn nghyd,  
Bloeddiai'r holl ddyffrynoedd prydf  
O dan orchudd tew o f'd,  
Gan roi'r moliant  
I dy Enw mawr dy hun. 1

522 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M

*Glanhâd a Sancteiddiad.*

1 **H**EDDYW'R ffynnon a agorwyd  
Dysglaer fel y grisial clir;  
Y mae'n llanw ac yn llifo  
Tros wastadedd Salem dir;  
Bro a bryniau,  
A gaiff brofi rhin y dwr.

2 Y mae rhinwedd gras y nefoedd,  
O drag'wyddol faith barhad;  
Nid oes darfod byth ar effaith  
Perffaith haeddiant dwyfol waed:  
Ac er golchi,  
Dysglaer fydd yr sŵn byth.

3 Minnau ddof i'r ffynnon loew,  
Darddodd allan ar y bryn,  
Ac mi olcha'm henaid euog  
Ganwaith yn y dyfroedd hyn;  
Myrdd o feiau,  
Dafsa'i lawr yn ngrym y dwr. w.

523 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M.

*Mawl i'r Drindod.*

**B**YTH i'r Tad y bo gogoniant,  
Clod a moliant, parch a bri,  
Ac i'r Mab a'r Sanctaidd Ysbryd,  
Heb wahân yn Un a Thri;  
Byth heb ddiwedd,  
Fel o'r dechreu, seinia'u clod. 1

524 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Gogoniant a chyflawnder Crist.*

1 **I**ESU, nid oes terfyn arnat,  
Mae chyflawnder maith dy ras,  
Yn fwy helaeth, yn fwy dwfn,  
Ganwaith nag yw 'mhechod cās;  
Fyth yn anwyl,  
Meibion dynion mwy a'th gâr.

2 Mae angelion yn cael bywyd  
Yn dy ddwyfol, nefol hedd;  
Ac yn sugno'u holl bleserau  
Oddi wrth dy hyfryd wedd:  
Byd o heddwch,  
Yw cael aros yn dy wŷydd. w. w.

525 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Diolchgarwch am y cynhauaf.*

1 **T**ymwelaist, do a'n daear  
A chyflawnder bendith rad,  
Cyfoethogaist ein holl feusydd  
A'th haelioni Nefol Dad;  
Darpar wnaethost  
Gelloedd llawnion ini oll.

2 Dyfrhau a wnest ei chefnau  
Gyda maethlon tyner wlaw,  
'Rhwn ei rhychau ddisychedai  
Fel disgynai o dy law;  
Bendith eto,  
Arglwydd dyro ar ei chnwd. T. B.

526 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Hawddgarwch a gogoniant Crist.*

1 **Y**MAE gwedd dy wyneb grasol  
Yn rhagori llawer iawn,  
Ar bob peth a welodd llygad  
Ar hyd wyneb daear lawn:  
Rhosyn Saron,  
Ti yw tegwch nef y nef.

2 Gwyn a gwridog yw f' Anwlyd,  
Gwyn a gwridog yw ei wedd;  
Brenin y breninoedd ydyw,  
Ym a thu draw i'r bedd:  
Mae dy degwch,  
Wedi'm hennill ar dy ôl.

3 Nid yw harddwch maith y ddaear,  
Harddwch o wahanol ryw,  
Tegwch dysglær y ffurfiafen,  
Ddim, wrth ochr Iesu 'm Duw:  
Fe ddiiflana,  
Tegwch natur ger ei fron.

4 Ac os yw ei degwch yma  
Yn rhoi myrdd i'w garu'n awr,  
Beth a wna ei degwch hyfryd  
Fry yn nhrag'wyddoldeb mawr?  
Nef y nefoedd,  
Ei ryfeddu byth a wna. w. w.

527 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Ceidwad wedi ei eni.*

1 **P**ERAIDD ganodd sêr y bore,  
Pan y ganwyd Brenin nef;  
Doethion, a bugeiliaid hwythau  
Ddaethant i'w addoli Ef:  
Gwerthfawr drysor!  
Yn y preseb, Iesu gaed.

2 Dyma y newyddion hyfryd  
Draethwyd gan angelion Duw—  
Fod y Ceidwad wedi ei eni,  
I golledig ddynol ryw:  
Ffyddlawn gyfaill!  
Bechaduriaid, molwn Ef.

3 Tad trag'wyddol yw ei enw,  
T'wysog y tangnefedd yw;  
Crëwr mawr y bydoedd ydyw,  
A Chynnaliwr dynol ryw:  
Hollalluog!  
Daeth i farw yn ein lle.

M. B.

528 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Ail ddyfodiad Crist.*

1 **W**ELE'N dyfod ar y cwmwl,  
Mawr yw'r enw sy' Iddo'n awr;  
Ar ei fraich ac ar ei forddwyd  
Ysgrifenwyd ef i lawr;  
Haleluia,  
Groesaw, groesaw, addfwyn Oen.

2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,  
O gwmpeni hardd eu gwedd,  
Welaf draw yn codi fyny  
I'w gyfarfod Ef o'r bedd:  
Darfu galar,  
Dyma iachawdwriaeth lawn.

3 Dacw'r Brenin mawr ei hunan,  
Yn adnabod pob yr un;  
Dacw bawb yn tynu fyny,  
Yn union ato Ef ei hun:  
Cariad perffaith,  
Bellach cai deyrnasu byth.

4 Nid oes yno gofio beiau,  
Dim ond llawn faddeuant rhad,  
Poenau'r groes, a grym y cariad,  
A rhinweddau maith y gwaed;  
Darfu ofni,  
Daeth llawenydd yn ei le. w. w.

529 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Caru Crist.*

1 **A**NWELEDIG, 'rwy'n dy garu,  
Ac ni feddaf yn y byd  
Wrthddrych gallaf bwysu arno,  
Wrthddrych dâl ro'i iddo mryd:  
'Does fy lleinw,  
O bob pleser ond dy hun.

2 'Ohlywodd clust, ni welodd llygad  
Ac ni ddaeth i galon dyn,  
Ericod feddwl na dychymmyg  
Y fath ydwyt Ti dy hun:  
Rhagor decach,  
Wyt na welodd nef na llawr.

3 'Rwy'n dy garu er nas gwelais,  
Mae dy gariad fel y tân;  
Nis gall nwydau cryfaf natur,  
Sefyll mymryn bach o'th flaen:  
Fflam angerddol,  
Ddifa'm sorod rywbryd yw.

530 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (B)

*Pob peth er daioni.*

1 **D**UW anfeidrol yw dy enw,  
Llanw'r nefoedd, llanw'r llav  
Ac mae'th lwybrau anweledig  
Yn nyfnderoedd moroedd mawr:  
Mae'th feddyliau  
'N is nag uffern, uwch na'r nef.

2 Minnau'n ddyfal sy'n ymofyn  
Ar yr aswy, ar y dde,  
Ceisio canfod dwfn gynghor,  
A dybenion Brenin ne';  
Hyn a gefais,  
Mai daioni yw oll i mi.

3 Dyben nefoedd sydd yn gywir,  
Bynag beth yw dyben dyn;  
Mi anturiaf fy holl fywyd  
Ar ei siriau Ef ei hun:  
Doed pob cystudd,  
Ddygwydd dim ond da i mi. w

531 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

RHAN O SALM XLVII.

**P**AN aeth Duw i fro'r uchelder,  
Bloedd o groesaw roddai'r nef;  
Udgyrn arian Gwynfa lawen  
Seinient pan ddyrchafodd Ef:  
Haleluia!

Se'iwiwn ninnau'n unfryd oll.  
Cenwch fawl i'n Brenin, cenwch,  
Cenwch lafar glod i Dduw;  
Cenwch foliant yn ddeallgar,  
Brenin yr holl ddaear yw:  
Haleluia!

Duw sy Frenin daear gron.  
Mae teyrnasoedd byd a'i bobloedd  
Dan deyrn-wialen ein Duw ni;  
Ar ei orsedd wen mae'n eistedd,  
Gorsedd ei sancteiddiol fri:  
Haleluia!

Duw yw Llywydd nef a llawr.  
Wele'n awr freninoedd daear  
Yn ymgynnull dano 'nghyd,  
Oll yn wir Israeliaid iddo;  
Eiddo Duw yw estylch byd;  
Haleluia!

Dirfawr y dyrchafwyd Ef. Pa.

532 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

SALM CXVII.

**M**OLWCH Arglwydd nef y nefoedd,  
Holl genedloedd daear las;  
Holl dylwythau'r byd a'i bobloedd,  
Cenwch glod ei ryfedd ras:  
Haleluia!

Molwch, molwch Enw'r Ion.  
Mawr yw serch ei gariad atom,  
Mawr ei ryfedd ras di-lyth;  
Ei gyfammod a'i wirionedd  
Sydd heb ball yn para byth;  
Haleluia!

Molwch, molwch Enw'r Ion. Pa.

533 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

SALM XLVI.

1 **N**ERTH a nodded mewn cyfyngder,  
Cymhorth hawdd ei gael yw Ior:  
Pe symmudai cylch y ddaear,  
Ped ai 'r creigiau i ddyfnder mâr,  
Nid arswydwn:  
Duw sy nodded in' a north.

2 Er terfysgu dwfr yr eigion,  
Er ei rudad croch a'i lef,  
Er i graig a mynydd grynu  
Gan ei ruthr a'i ymchwydd ef,—  
Wele a fon,  
Loew'n lloni dinas Duw.

3 Sanctaidd ddinas y Goruchaf,  
Glân breswylfod iddo i fyw;  
Duw sy'n wastad yn ei chanol,  
Fore glas fe'i helpa Duw;  
Byth nid ysgog,  
Byth ni syfla caerau hon. Pa.

534 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein  
Harglwydd ni.*

1 **I**ESU! estyn dy deyrn-wialen  
Dros derfynau eitha'r byd;  
Dyrcha'th faner at y bobloedd,  
Atat tyn y rhai'n i gyd:  
Gan bob llygad  
Gwelir iachawdwriaeth Duw.

2 Holl deyrnasoedd byd yn gyfan,  
A'nt yn eiddo'n Harglwydd ni;  
Ei lywodraeth fydd yn eang,  
A'i anrhydedd uwch pob lri.  
Bydd yn amlwg  
Ei ogoniant Ef a'i ras. Pa.

535 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Heddwch tuag at Dduw.*

1 **D**OED dy heddwch pryd y delo,  
Mi ddysgwyliaf ddydd a nos;  
Annherfynol ydyw haeddiant,  
Haeddiant pur dy angeu loes:  
Dere'n fuan,  
Mae dy hedd yn fwy na'r byd.

2 Bywyd perffaith yw'th gymdeithas,  
Diliau mel yw'th heddwch drud;  
Gwerthfawrocach yw dy gariad  
Na holl berlau'r India i gyd:  
Gwlad o gyfoeth,  
Yw yn unig dy fwynhau.

3 Wrth dy orsedd 'rwyf yn gorwedd,  
Dysgwyl am y ddedwydd awr,  
Pan gaf glywed llais gorfoledd.  
Pan gaf wel'd fy meiau 'lawr;  
Ti gai enw'r  
Fuddugoliaeth it' dy Hun. w. w.

536 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Heddwch cydwybod.*

1 **R**HO gydwybod wedi chànu 'n  
Beraidd yn y dwyfol waed;  
Cnawd a natur wedi'u maeddu,  
Clwyfau wedi cael iachâd:  
Minnau'n aros,  
Yn fy ninas fore a hwyr.

2 Rho fy nwydan fel cantorion,  
Oll yn chwarsu bysedd cun,  
Ar y delyn sydd yn seinio  
Enw Iesu mawr ei hun:  
Neb ond Iesu,  
*Yn ddifyrwrch ddydd a nos.*

3 Gwna ddystawrwydd ar ganiadau  
Crâs afrywog hen y byd;  
Diffodd dân cynhyrfus natur,  
Sydd yn difa gras o hyd;  
Fel y gallwyf,  
Glywed pur ganiadau'r nef. w. w.

537 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Gweddî am burdeb.*

1 **O**, SANCTEIDDIA f'enaïd Arg-  
wydd,  
Yn mhob nwyd, ac yn mhob dawn:  
Rho egwyddor bur y nefoedd  
Yn fy ysbryd llesg yn llawn:  
Na'd fi grwydro,  
Draw ac yma o fy lle.

2 Llwybr cul gwna'n llwybr esmwyth,  
Tylau serth yn wastad iawn;  
Cyfyngderau chwith a chroesau,  
O ddyddanwch pur yn llawn:  
Edrych trwyddynt,  
I fynyddau tŷ fy Nhad.

3 Plana'r egwyddorion hyny  
Yn fy enaid bob yr un;  
Ag sydd megys peraroglau  
Yn dy natur Di dy hun:  
Blodeu hyfryd,  
Fo'n dysgleirio dae'r a nef. w. w.

538 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Buddugoliaeth y groes.*

**G**WAED y groes sy'n codi fyny 'r  
Eiddil yn goncwerwr mawr,  
Gwaed y groes sydd yn darostwng  
Cawri cedyrn fyrdd i lawr:  
Gâd i'm deimlo,  
Awel o Galfaria fryn. w. w.

539 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Gorseddifaino y gras.*

1 **A**RGLWYDD, rhedaf at dy orsedd,  
Dyna'r fan fy enaid ca'dd  
Iechyd, pan yr oedd gelynion,  
Duon atgas bron fy lladd:  
Nid oes noddfa,  
Is y nefoedd ond dy hun.

2 Wrth dy orsedd di mae bywyd,  
Yno caf fi hedd a grym;  
Ac ni fethodd is y nefoedd,  
Ag a geisiodd genyt ddim:  
Minnau arian,  
Ddeuaf at orseddfa hedd.

3 Er dy fod di heddyw'n eistedd  
Yn ngogoniant nef y nef,  
Mewn goleuni mor ddysgleiried  
Na ellir nesu ato ef;  
'R'wyf yn edrych,  
Ar d'anwylaf yn y byd.

4 Ti wnai wyrthiau os bydd achos,  
Cyn yr elo'r gwan i lawr;  
Mae dy enw er y cynfyd  
Wedi swnio i maes yn fawr;  
Hollalluog,  
Ydyw enw mawr fy Nuw. w. w.

540 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Ymbil am ymwared.*

1 **D**ACW uffern yn ei harfau,  
Dyma bechod yn ei rym;  
Dyma'm hofnau innau'n bygwth,  
Na allaf eu gorchfygu ddim:  
Gallu'r nefoedd,  
Tyr'd i waered, dyma'r awr.

2 Dyeg y galon drist i chwerrthin,  
Dyeg y mudan seinio cân;  
Dyeg yr ofnus gwan i gludo  
Uffern fawr i lawr o'i ffaen:  
Tro wylofain  
Yn ganiadau Calfari.

3 O! na roi'r winwydden hyfryd  
Beth o'i ffrwythau i lawenhau  
Enaid flinodd gan och'neidio,  
Enaid flinodd gan dristau:  
Deued bellach,  
Deued blodeu, deued haf. w. w.

541 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Erfyniadau.*

1 **A**RGLWYDD, arwain trwy'r anial-  
Fi bererin gwael ei wedd; [wch,  
Nad oes ynof nerth na bywyd,  
Fel yn gorwedd yn y bedd:  
Hollalluog,  
Ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.

2 Os agori im' dy fynwes,  
I gael gwel'd y cariad llawd,  
Lifodd allan fel y moroedd  
Ar Galfaria un prydawn:  
Ti gai'r cwbl,  
Roddai't imi yn fy rhan.

3 Agor y ffynnonau melus,  
Sydd yn tarddu o'r graig i maes;  
Hyd yr anial maith canlyned  
Afon iachawdwrriaeth gras:  
Rho i mi hyny,  
Dim i mi ond dy fwythau. w. w.

542 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Dylanwadau yr Ysbryd.*

1 **N**ERTHOEDD y trag'wyddol Ysbryd,  
Yn haeddiannau'r dwyfol Iawn,  
Wna i'r fynwes ddiffaeth galed  
I ffrwythloni'n hyfryd iawn:  
O rasusau,

Pêr blanhigion nefol wlad.

2 Creigiau tanlyd Salem waedlyd,  
Rhai fu'n bloeddio âg un llef,  
Am Dywysog mawr y bywyd,  
"Ymaith, O, croeshoelïer Ef!"  
Gwnaeth i'r rhai'ny,  
Wylo edifeirwch pur.

3 Os disgyni, addfwyn Ysbryd,  
I fynwseau fel rhai hyn,  
A'u haddurno â phur ddelw  
Y Gwr fu farw ar y bryn;  
Mawl a seinia

Trwy'r holl nefoedd fawr am hyn.

D. O.

543 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Dysgwylïad.*

1 **D**YSGWYL 'rwyf ar hyd yr hinos,  
Dysgwyl am y bore ddydd;  
Dysgwyl clywed pyrth yn agor,  
A chadwynau'n myn'd yn rhydd:  
Dysgwyl goleu

Pur, yn nh'wllwch dudew'r nos.

2 Dal fy llygaid, dal heb wyro,  
Ar dy fwyn addewid wir;  
Dal fy nhraed heb gynnwg ysgog,  
Allan o dy gyfraith bur:  
Boed d'orch'mynion,

Imi'n gysur ac yn hedd.

3 Daw, fe ddaw y wawr-wen oleu,  
Nes bo'r cwmwl du yn ffoi;  
Tarth a niwl yn cyd-ddiflanu,  
Ag oedd wedi cydgrynhoi:  
Dyma'r oriau,

Wyl yn dysgwyl fod gerllaw.

4 Prin 'rwy'n awr yn ofni'r beddrod,  
Tiroedd tawel fy iachâd;  
Lle ca'm corph i gyssgu noswaith  
Faith ryfeddol ei pharhad:  
Tan adenydd,  
Mwyn llareiddïaf Brenin nef. W

544 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Olew yn y Llestr.*

1 **A**RGLWYDD, paid a gadael i'm  
Ymfoddloni heb y gwir;  
Lamp heb olew a ddiiffodda  
Yn y treial mawr cyn hir;  
Rho im' olew,  
Yn fy llestr gyda'm lamp.

2 Ond cael hyny, byddaf barod  
Yna i ddyfod atat Ti;  
I gael gwledd, a llawenyachu  
Gyda theulu'r nefoedd fry:  
O, am ddyfod!  
Yna i mewn cyn cau y drws. W. H.

545 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Wrth furdd yr Arglwydd.*

**C**OFIO am farwolseth Iesu,  
O, mor hyfryd ydyw'r gwaith!  
Dechreu yma ar y ddaear,  
Para'i drag'wyddoldeb maith:  
Haleluia,  
Dyma iachawdwriaeth lawn. DR. P.

546 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Geiriau'r nef.*

**O**, DYSTEWCH, derfyaglyd donau  
Tra fwy'n gwranddo llais y nei;  
Swm mwy hoff a sain mwy hyfryd,  
Glywir yn ei eiriau Ef:  
Fenaïd, gwranddo,  
Lais tanguafedd pur a hedd. W. W.

547 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Dyoddefaist ac anghu Crist.*

**M**I feddyliais cawswn f' Arglwydd  
Yn nghymdeithas mawrion byd;  
Yn mhlith lleiddiaid, yn mhlith lladron,  
Gwelais gynta'i wyneb-pryd:  
Ar y croesbren,  
Nid yn llŷs un brenin gwych.

! Dacw lofrudd ar ei aswy,  
Dacw leidr ar ei dde;  
Draw fe'i hoeliwyd yn y canol,  
Frenin daear, Frenin ne':  
Mi appeliaf,  
At yr orsedd ar y groes.

! Ni raid esgyn fry i'r nefoedd,  
Y mae'r nefoedd ar y pren;  
Plygai'r nefoedd at y ddaear,  
Pan ogwyddodd Ef ei ben:  
Minnau'r euog,  
Af am bardwn at y groes. w. w.

548 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Erfyniad am fendithion.*

**D**ISGYN, Iesu, o'th gynteddu,  
Lle mae moroedd mawr o hedd,  
Gwel bechadur sydd yn griddfan  
Ar ymylau oer y bedd:  
Rho imi brofi,  
Pethau nad adnabu'r byd.

! Rho oleuni, rho ddoethineb,  
Rho dangnefedd fo'n parhau;  
Rho lawenydd heb ddim diwedd,  
Rho faddeuant am bob bai:  
Triged d' Ysbryd,  
Yn ei deml tan fy mron.

3 Wrth dy orsedd 'rwyf yn gorphwys,  
Llefain arnat fore a nawn,  
Am gael clywed llawn ddystawrwydd  
O'm neuogrwydd tanllyd iawn:  
A thangnefedd,  
Pur o mewn yn cadw'i le.

4 Ynot mae afonydd mawrion  
O ffyddlondeb ac o hedd;  
Er fy mwyn dyoddefaist anghu,  
A gorweddaist yn y bedd:  
Fel y gallwn,  
Fyn'd i mewn i'r ddinas bur. w. w.

549 M. 8, 7, 8, 7; 4, 4, 7. (M. 7.)

*Bwrdd yr Arglwydd.*

1 **O!** NA b'ai cystuddiau f' Arglwydd  
Yn fy nghalon i'n cael lle!  
Pob rhyw loes a phob rhyw archoll,  
Pob rhyw ffangell gafodd E':  
Fel bo'i mhechod,  
Ildio'r dydd a myn'd i maes.

2 Arnat, Iesu, boed fy meddwl,  
Am dy gariad boed fy nghân;  
Dyged swm dy ddyoddefiadau  
Fy serchiadau oll yn lân:  
Mae dy gariad,  
Uwch y clywodd neb erioed.

3 **O!** na chawn ddifyru nyddiau  
Llwythog, dan dy werthfawr groes,  
A phob meddwl wedi'i g'lymu  
Wrth dy Berson ddydd a nos:  
Tan dy gysgod,  
Mewn tangnefedd pur a hedd.

4 Ffordd nid oes o waredigaeth  
Ond agorwyd ar y pren;  
Llwybr pechaduriaid euog  
Mewn i byrth y nefoedd wen:  
Dyma'r brif-ffordd,  
Gwna i mi'i rhodio tra swy' byw.



550 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

RHAN O SALM LXXXVI.

- 1 **N**ID oes neb yn mhlith y duwiau  
Sy'n gyffelyb i'n Duw ni;  
Nid oes weithred, Ior galluog,  
Debyg i'th weithredoedd Di.
- 2 Daw y bobloedd oll a wnaethost,  
Holl genedloedd daear gron,  
Gogoneddant fawredd d'Enw,  
Ac addolant ger dy fron.
- 3 Ti wyt fawr, a'th waith sy ryfedd,  
Ti yn unig, Ior, wyt Dduw!  
Dysg im' ffordd dy lân wirionedd,  
Ynddi rhodiaf tra bwyf byw.
- 4 Una'm bron i ofni 'th Enw;  
Molaf Di, fy Nuw di-lyth;  
A'm holl galon y'th glodforaf,  
Gogoneddaf d'Enw byth. Ps.

551 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

"Cyfod ffynnon, cenwch iddi."—NUM. XXI. 17.

- 1 "**C**YFOD, ffynnon, Cenwch iddi"  
Ffynnon bur y dyfroedd byw,  
Wreiddiodd cyn dechreuad oesau  
Yn anfeidrol gariad Duw.
- 2 "Cyfod, ffynnon, Cenwch iddi"  
Ffynnon iachawdwriaeth lawn,  
Darddodd allan pan agorwyd  
Craig yr oesoedd! un prydawn.
- 3 "Cyfod, ffynnon, Cenwch iddi"  
Saint o gylch gorseddfainc Ion,  
Golchwyd chwi'n glaerwynion ynddi,  
Cenwch iddi heb dewi a son.
- 4 "Cyfod, ffynnon, Cenwch iddi"  
Deulu Sion ar y llawr,  
Cenwch am rinweddau'r dyfroedd,  
Ylch eich beiau fân a mawr.

- 5 "Cyfod, ffynnon, Cenwch iddi"  
Bechaduriaid daear gron;  
Deuwch ac ymolchweh ynddi  
Cenwch byth i'r ffynnon hon. W. R.

552 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Digonedd yn Nghrist.*

- 1 **I**ESU yn unig yw fy mywyd,  
Mwy nag oll yw Ef ei hwr.,  
Nid oes angel iddo'n debyg,  
Nid oes seraph, nid oes dyr.
- 2 Pleser, cariad, a llawenydd,  
Rodiant ar ei ddeheu law,  
Yno i'w wyddfod, poen na gofio,  
Nac euogrywydd, byth ni ddaw.
- 3 Yn dy haeddiant 'r'wyf yn gyflawn,  
Yn d'oleuni gwelai'n glir;  
Yn dy wisgoedd dwyfol dyglaer  
Byddai'n ogoneddus bur.
- 4 Yn dy iachawdwriaeth gyflawn,  
Er mor eiddil wyf yn awr,  
Ceir fy ngweled ryw ddiwrnod,  
Yn dysgleirio fel y wawr. W. W.

553 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Dedwyddwch y nef.*

- 1 **D**AETH yr awr i'm ddianc adre,  
Draw o gyrhaedd pob rhyw gur;  
Gwelaf dorf o'm hen gyfeillion  
Draw ar lân y Ganaan bur.
- 2 Dacw'r delyn, dacw'r palmwydd,  
Dacw 'ninas yn y ne';  
Ffarwel bellach bob rhyw ofid,  
Henffych wynfyd yn ei le.
- 3 Yno caf fi weled Iesu,  
Fyth i'm lloni heb un llen;  
A chaf yno ei glodfori,  
Byth heb dewi mwy. Amen. W. A.

554 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

"Rhagorol olud ei ras Ef."

1 **T**YRED, Awdwr gras a rhinwedd,  
Eynnyn ynof nefol dân;  
Ffrydiau diball o drugaredd  
Sydd yn gofyn uchel gân.

2 Dyg im' seinio 'r mwyn anthemau,  
Dery tannau 'r nefol fyd;  
Gosod fi ar fryn y bryniau,  
Bryn dy gariad pur a drud.

3 Canaf byth am ras yr Iesu,  
Gras hyd yma a'm daliodd i;  
Dyagwyl 'r'wyf o'th gariad tyner,  
Dd'od cyn hir f'm cartref fry.

4 Iesu a'm ceisiodd pan yn estron,  
Dwg fy enaid caeth at Dduw;  
Ac i'm dwyn o law'm gelynicion,  
Talodd waed o ddwyfol ryw.

5 O mor fawr i'th ras yw'm dyled,  
Beunydd, beunydd trwy fy oes!  
Boed i'th ras, fel cadwyn euraidd,  
Byth fy rhwymo wrth dy groes.

6 Cofio 'r gwaed a lifodd yno,  
Cofio 'th glwyfau, Iesu glân,  
Cofio gras dy lawn anfeidrol,  
Eynnyn ynof fythol gân. J—H.

555 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Gair Ddu.*

1 **G**WELL nag aur, a gwell nag arian,  
Yw dy Air, O Dduw, i mi;  
Ymhyfrydu byddo'm henaidd  
Beunydd yn dy gyfraith Di.

2 Rho'th oleuni fel y gwelwyf  
Bethau rhyfedd d'air o hyd:  
Plyg f'ewyllys i'w ddylanwad,  
Ato sugna'n serch a'm bryd. w. w.

556 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Deisyfiad y credadyn.*

1 **O!** NA byddai cariad Iesu  
Megys fflam angerddol gref,  
Yn fy nghalon i'w chynhesu,  
Fel y carwn innau Ef.

2 O! na chawn i brofi nerthol  
Weithrediaidau'r Ysbryd Glân,  
Fel y gallwn yn wastadol,  
Yn lle cwyno, seinio cân!

3 Oer a marwaidd yw fy nghalon  
Gwan a diffirwyth yw pob gras:  
O! na chwythai'r hen awelon  
Sydd yn gwywo llygredd câs.

4 Tyred, Iesu bendigedig,  
Bugail mawr y defaid oll,  
Dychwel f'ensaid gwrthgiledig—  
O! na âd im' fyn'd ar goll! J—H.

557 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Cymmod.*

1 **H**OELIODD ddeddf yr ordeiniadau,  
Oedd i'n herbyn, wrth ei groes,  
Ac yspeiliodd awdurdodau  
Ufiern yno, dan ei loes.

2 Rhwygai llen y deml pan rwygwyd  
Ei ddynoliaeth ar y pren,  
I arwyddo fod tramwyfa  
Rydd o'r byd i'r nefoedd wen.

3 Ni raid allor, ni raid aberth,  
Lefiad nac offeiriad mwy,  
Cafodd deddf drag'wyddol ddigon  
Yn haeddiannau mawr ei glwy. w. w.

558 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Tosturi grasol a maddeugaroch Duw.*

- 1 **F**FYNNON wyt o bob tosturi,  
Nid oes gwybod faint dy ras;  
Dy haelioni sydd yn cynnal  
Pobpeth dan yr awyr ias.
- 2 Dal fy ysbryd gwan i fyny,  
Edrych ar y bryniau mawr,  
Sydd yn pwyso ar fy nghalon,  
Ac sy'n ceisio'm dodi lawr.
- 3 Mae ei glustiau yn agored  
I bob rhyw ddrylliedig lef;  
Ac mae'r drom ochenaid glwyfus  
Yn cyrhaeddyd ato Ef.
- 4 Pan b'o t'wyllwch ac anobaith  
Yn amgylchu'm llwybrau cudd,  
Fe ddaw 'mlaen, fe dry y cyfnos  
Can goleuach hanner dydd.
- 5 Maith drugaredd a gwirionedd,  
A'r tiriondeb mwya' i maea,  
Sy' fel heulwen haf yn ddysglaer,  
Trwy holl ranau pur ei ras.
- 6 Boed by nhafod fyth tra fyddwyf  
Gerdded ar yr anthem hyn,  
Cariad pur yn dyoddef marw  
Tros bechadur ar y bryn. w. w.

559 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Llawr fuddugoliaeth yn y diwedd.*

- 1 **D**RAW mi wela'r nos yn darfod,  
Draw mi welaf oleu'r dydd,  
Yn dyagleirio dros y bryniau,  
Melus yn y man a fydd.
- 2 Ffy gelymion pan ddel goleu,  
Ni all pechod, er ei rym,  
A'i holl wreiddiau yn fy natur,  
*Sefyll Haul Cyfiawnder ddim.*

- 3 Daw i ben, aed byd yn yfflon,  
Bob rhyw air a dd'wedo 'Nhad;  
Sethrir Satan, sethrir angen,  
Sethrir uffern dan fy nhraed.
- 4 Buddugoliaeth ddaw o'r diwedd  
A phan ddel, melusaf fydd;  
Mil o flwyddau gyda'm Harglwydd  
Nid yw ragor ddim na dydd.
- 5 Yn y rhyfel mi arosaf,  
Yn y rhyfel mae fy lle;  
Boed fy ngenau tua'r ddaear,  
Boed fy llygaid tua'r ne'.
- 6 Doed y goncwest bryd y delo,  
Mi ddysgwyliaf wrth fy Nuw,  
Nes o'r diwedd weled pechod  
Wedi derbyn marwol friw. w. w.

560 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Maddeuant—Buddugoliaeth—Bywyd.*

- 1 **N**IS gall maint nac amledd beiau,  
Attal Duw i drugarhau  
Wrth y pechaduriaid penaf;  
Iesu, daethost i'w rhyddhau.
- 2 Dysg im' aros tan dy gysgod,  
Cuddia fi 'n llochesau'r Graig,  
Gwna fi beunydd yn fuddugol  
Ar y byd, y cnawd, a'r ddraig.
- 3 Bywyd, iechyd, a chynnalïaeth,  
Wyt i'm henaid ar y llawr;  
Haul fy ngwynfyd nas machluda  
Byth i drag'wyddoldeb mawr.
- 4 Y breswylfa dawel, lonydd,  
Fry sydd imi eto 'n ôl;  
O na welwn y boreuddydd,  
Imi hedeg i dy gôl. M. B.

561 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Paham y byddwch feirw.*

1 P A'M, bechadur, byddi farw?  
Pa'm y colli'th enaid drud?  
'Rhwn a'th wnaeth sy'n gofyn heddyw,  
P'am yr ymgyndyni c'yd?

2 Pa'm yr ail-groeshoeli'r Iesu?  
Pa'm gwrthodi droi a byw?  
Darfu iddo drosot waedu;  
Dychwel, dychwel at dy Dduw.

3 Prysur ddarfod mae dy ddyddiau,  
Dyfod y mae angeu du;  
Er i ti yn ysgafu chwareu,  
Dyrwyn mae dy oriau di.

4 Yn mha le y bydd dy drigfan  
Wedi'r elo'r byd ar dân?  
O, fy enaid, meddwl weithian  
Am y daith sydd o dy flaen.

5 Cyn i Dduw dy roddi' fyny,  
Cyn it' orwedd yn y bedd,  
Cyn i angeu dy ddychrynu,  
Myn adnabod Duw a'i hedd. c. w.

562 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Efe a wylodd.*

1 E F a wylodd! pwy a wylodd?  
Wylodd Iesu mawr ei hun:  
Wylodd myrdd o'i flaen; ond heddyw,  
Wyla Duw yn natur dyn.

2 Ef a wylodd! pa'm yr wylodd?  
Nid o'i achos ef ei hun;  
Ond fe wylodd o dosturi,  
Uwch ben cyflwr euog ddyn.

3 Ef a wylodd! pan oedd tyrfa  
Fawr, yn cyd-ddyrchafu'i llef,  
Hyd y nefoedd, i'w foliannu,  
Gwenai pawb, ond wylai Ef.

4 Ef a wylodd! pan y gwelai  
Salem fawr ar fyn'd yn sarn,  
A dialedd ar ei dryllio;  
"A churfeydd y chwerwaf farn."

5 Ef a wylodd! rhyfedd gariad  
At elynion drwg eu rhyw,  
Yn ei ddagrau, cawn esboniad  
Ar deimladau calon Duw.

6 Ef a wylodd! do, bechadur,—  
Gwel ei ddagrau, clyw ei gri,  
Wylodd drosot o dosturi,  
Bellach, a'i ni wylai di? w. n.

563 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Siomedigaethau'r byd.*

1 D YSGWYL pethau gwych i ddyfod,  
Croes i hyny maent yn d'od;  
Meddwl 'fory daw gorfoledd,  
F'ory 'r tristwch mwya' erioed.

2 Meddwl byw, ac eto marw,  
Yw'r lleferydd dan fy mron:  
Bob yn ronyn, mi rof ffarwel—  
Ffarwel glân i'r ddaear hon.

3 O! ynfyrdrwydd, O! ffolineb  
I mi erioed i roi fy mryd  
Ar un tegau, ar un gwrthddrych,  
Welais eto yn y byd.

4 Mae y byd yn myned heibio,  
A'i deganau o bob rhyw;  
Dan y nef ni thâl ei garu  
Wrthddrych arall ond fy Nuw. w. n.

564 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Iesu yn yr ardd.*

- 1 **Y**N yr ardd dan bwys ein beiau  
Gwasgwyd ein Gwardwr mawr,  
Nes oedd chwys a gwaed yn ddfafnau  
Yn dyhidlo ar y llawr.
- 2 Yfodd gwpan chwerw melldith,  
Melldith trosedd euog ddyn,  
Cospedigaeth drom ein heddwch  
A gymmerodd arno'i hun.
- 3 Pwys ein hanwireddau barodd  
Iesu riddfan a thristau,  
Fel caem ni trwy'i ocheneidiau  
Destyn cân, a llawenhau. W. R.

565 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Galar ar ol cyfeillion.*

- 1 **M**AE 'nghyfeillion adre'n myned,  
O fy mlaen, o un i un,  
Gan fy ngadael yn amddifad,  
Fel pererin wrtho'i hun.
- 2 Wedi bod yn hir gyd-deithio  
Yn yr anial dyrys, maith,  
Gormod iddynt oedd fy ngado  
Bron ar derfyn eitha'r daith.
- 3 Wedi dianc uwch gelynon,  
Croesau, a gofidiau fyrdd,  
Maent hwy'n awr yn gwisgo'r goron,  
Ac yn cario'r palmwydd gwyrdd.
- 4 Byddaf yn dych'mygu, weithiau,  
Fry eu gwel'd yn Salem lân,  
Ac y clywaf, ar rai prydiau;  
Adsain odlau pêr eu cân.
- 5 Ond mae'r amser bron a dyfod  
Y caf uno gyda hwy,  
Yn un peraidd gôr diddarfod,  
Uwch law ofn ymadael mwy. R. R.

566 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Crossi yr Iorrdonen.*

- 1 **E**NAID cu, mae dyfroedd oerion  
Yr Iorrdonen ddofn ger llaw;  
Eto, gwel, mae'r ddinas sanctaidd  
Ar y lân yr ochr draw.
- 2 Yno mae dy hen gyfeillion,  
Wedi dianc uwch pob clwy',  
Yn dy aros, er cael cyfran  
O'u dedwyddyd hyfryd hwy.
- 3 Paid ag ofni, bêr yw'r fordaith,  
Ac mae'r Archoffeirriad cu  
Yn dy aros yn y dyfroedd,  
Er dy ddwyn i'r ddinas fry.
- 4 Clyw seraphaidd seiniau'n hedfan  
Draw o frodir Sion fryn;  
Gwel ei heuraidd byrth yn agor  
Drwy y niwl sy'n toi y glyn.
- 5 Ffarwel fyd, a ffarwel deithio  
Yn yr anial dyrys mwy;  
Ffarwel gnawd, a ffarwel lygredd,  
Ffarwel boen, a phob rhyw glwy'.
- 6 Mae'r tywyllwch yn gwasgaru,  
A'r goleuni yn cryfhau;  
'Nawr 'rwy'n gwel'd y pur drigfanau  
Hed, fy enaid, i'w mwynhau. E.

567 M. 8-7. 4 LLIN. (M. 64.)

*Gorphwysdra.*

- 1 **F**'ENAIID tyn trwy llyn wylofain  
Derfydd hyn o ddyrys daith;  
Nid oes yma ond y tristwch,  
Fry mae'r gwir lawenydd maith.
- 2 Y tu draw i fyd a phechod  
Newyn, nychdod, poen, a briw,  
Mae gorphwysfa hardd drag'wyddol  
Eto'n ôl i bobl Dduw. M.

568 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Holl ddiŷonedd Hanfod a gras Duw.*

1 **L**LA WEN ydwyf fod dy Hanfod  
Fawr yn ddedwydd ynddi'i hun,  
Ac na raid i Ti ymddiried  
Mewn creadur, na raid un :  
O! teyrnasa fel y myni,  
Doed dy amcan mawr i ben ;  
Seinied pawb mewn nef a daear,  
Haleluia fyth. Amen.

2 Mór sydd ynot o fendithion,  
Heb waelodion iddo'n bod ;  
Y mae'n llenwi 'mlaen bob mynyd,  
Nid oes diwedd ar dy glod ;  
D' Enw beunydd sy'n helaethu,  
Beunydd yn ymdaenu'n fawr ;  
Bydd telynu yn canu iddo  
Fel rhifedi gwellt y llawr. w. w

569 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

"Duw yn bendithio y ddaear."—DŴR.  
xxxiii, 13—16.

1 **F**E fendithiodd, do, ein daear  
A hyfrydwch nef ei hun,  
Rhoddi'r gwllith ar dyfnder isod  
I'w ffrwythloni er mwyn dyn ;  
Fe'i bendithiodd a hyfrydwch  
Cynnyrch haul o entrych nef,  
Addied ffrwyth y teg leuadau  
Ini a ddarparodd Ef.

2 Fe'n bendithiodd a hyfrydwch  
Daear a'i chyflawnder mawr,  
Boed ewyllys da Preswylydd  
Mawr y berth i dd'od i lawr ;  
Fel y caffom ein sancteiddio,  
I fwynhau ei ddoniau rhad,  
A chaniadau mawl a seiniwn  
Iddo drwy gynteddu'n gwlad. r. r.

570 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Hawddgarwch a gogoniant Crist.*

1 **A**NWELEDIG ! 'rwy'n dy garu,  
Rhyfedd ydyw nerth dy ras ;  
Tynaist f'enaid â'th hawddgarwch,  
O'i bleserau pena'i maes :  
Ti wnest fwy mewn un mynydyn  
Nag a wnaethai'r byd o'r brou,  
Ennill it' eisteddfod dawel  
Yn y galon gareg hon.

2 Bydd dy degwch fyth yn newydd,  
Fyth o newydd ennyn dân,  
Dros holl oesoedd trag'wyddoldeb,  
Fyth heb fiino yn y blaen ;  
Fflam angerddol heb un teriyn,  
Drwy holl raddau'r nef yn un ;  
Hi barhâ i losgi'n oleu  
Tra parhao Duw ei hun.

3 Iesu, Ti yw ffynnon bywyd,  
Bywyd dedwydd i barhau ;  
Pob cysuron is y nefoedd,  
Ynot Ti dy hun y mae ;  
Nis gall croes, na gwae, na chystudd,  
Wneuthur niwed iddynt hwy,  
Gafodd nerth i wneyd eu noddfe,  
Yn dy ddwyfol farwol glwy. w. w.

571 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Wrth ymadael.*

**A**RGLWYDD, gollwng dan dy fen-  
Bawb i 'madael yn dy hedd, [dith,  
Drwy ymborthi ar y manna,  
Eifengylaidd, dwyfol wledd ;  
Llanw'n meddwl â'th gysuron,  
C'od ein llais i foli'r Ion !  
Yna yn nghwmni'r hardd angelion,  
Canwn it' a pheraidd don.

572

M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Gwaled yr Iesu.*

1 **B**YNAG beth a welodd llygad,  
Neu a deimlwyd is y rhod,  
Bynag beth a glywodd clustiau,  
Neu beth bynag sydd yn bod;  
Holl wrthddrychau'r ddaear isod,  
Mewn un fynydd ddarfu 'nghyd,  
Er pan ce's yr olwg gyntaf  
Ar Iachawdwr mawr y byd.

2 Mae fy hwyliau heddyw'n chwareu  
'N llawen yn yr awel bur;  
Ac 'rwy'n clywed swn caniadau  
Peraidd paradwysaidd dir:  
Ffarwel haul, a lloer, a thrysor,  
Ffarwel ddaear, ffarwel ddyn;  
Nid oes dim o tan yr wybren  
Ag sy'n fawr, ond Duw ei hun.

3 Cauwch lygaid, nac agorwch,  
Ar un gwrthddrych is y nef;  
Craffa, f'enaidd, olwg syml  
Ar 'i ogoniant dwyfol Ef;  
Mae ei Hanfod, mae ei Enw,  
Mae ei Berson sanctaidd pur,  
Gymmaint uwch gwrthddrychau natur  
Ag yw'r nefoedd uwch y tir. w. w.

573

M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Rhyfeddodau'r Iachawdwriaeth.*

1 **M**AE rhyw fyrdd o ryfeddodau,  
Yn yr Iachawdwriaeth râl,  
Hon yw'r afon fawr a lifodd,  
O dan riniog tŷ fy Nhad;  
Yn ei ffrydiau dwg fi adref  
Gyda'r dyrfa hardd ei gwedd,  
Minnau ganaf am ei rhinwedd,  
Byth yr ochr draw i'r bedd.

2 Bydd angelion yn rhyfeddu,  
Draw i oesoedd rif y dail,  
Gweled myrdd o bechaduriaid  
Yn dyagleirio fel yr haul,  
Wedi d'od o wlad y cystudd,  
Wedi gadael byd o boen,  
Ac yn gwisgo'r gynau gwynion,  
Wedi'u canu yn ngwael yr Oen.

3 Nid oes neb o'r hardd gyfeillion,  
Yno yn teimlo cur na phoen,  
Trodd eu galar yn ganiadau  
Am gystuddiau'r addfwyn Oen;  
Rhyfedd byth os gwelir finnau,  
Gyda'r dyrfa lon ei gwedd,  
Yn cael edrych a rhyfeddu,  
Yr anfeidrol gynghor hedd.

G E G

574

M. 8-7. 8 LLIN. (M. 1

*Galwad i ddiolch.*

**C**YD-DDIOLCHWN oll i'r Arglwy  
Am ei ddoniau'r flwyddyn hon,  
Gyda chalon lawn o gariad  
Cydymgrymwn ger ei fron;  
Trefnodd ini gelloedd llawnion  
Er ein hannheilynglodd mawr,  
Yn nhiriondeb ei drugaredd  
Fe'n cynnaliodd hyd yn awr. T.

575

M. 8-7. 8 LLIN. (M. 1

*Wrth ymadael.*

**B**OED i ras ein Ceidwad Iesu,  
Ac anfeidrol gariad Duw;  
A dyddanus wên yr Ysbryd,  
Orphwys arnom tra bo'm byw:  
Felly cedwir undeb perffaith  
Rhyngom oll a Duw yn nghyd,  
Meddu cawn mewn hoff gymmundeib  
I'wonder mwy na fedd y byd.

576 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Y Pen-rhyfelwr yn d'od adref.*

**C**ADBEN mawr ein hiachawdwriaeth,  
Welaf yn y frwydr hon;  
Holl elynion ei ddyweddi 'n  
Gorfod plygu ger ei fron:  
Plant afradlawn sy'n d'od adref,  
A fu 'mbell o dir eu gwlad;  
Rhai fu'n fudion sy'n clodfori  
Duw am iachawdwriaeth rad. M. R.

577 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

"Nerth a hyfrydwch sydd yn dy gyssegr."

1 **Y**N dy babell di mae nerthoedd,  
Nerth hyfrydwch, nerth mwynhad,  
Mwynder nefoedd sydd yn llenwi  
Hoffus drigfan tŷ ein Tad:  
Yno erys gwedd dy wyneb,  
Yn oleuni perffaith llawn,  
Wrtho rhodia'r holl breswylwyr,  
I gyflawnder dwyfol ddawn.

2 Gwel'd y golofn dân neu'r cwmwl  
Ar y babell, nerth a rydd  
Yn aelodau'r truan lleogaf,  
Yn y llwythau nos neu ddydd;  
Ant o nerth i nerth i'w dilyn,  
Trwy elynion llawn o frad,  
Nes y bydd i'r cwmwl orphwys  
Yn yr addawedig wlad.

3 Yno'n Sion mae dedwyddion  
Yn gynnyddol fythol stôr,  
Yn ymgasglu am eu gilydd  
Fel diddiwedd donau'r môr;  
Tônau'n codi o ddyfnderoedd  
Anfeidroldeb dwyfol rad,  
Heb un traeth na glân i'w tori  
Nac yn derfyn i'w parhad.

H. H.

578 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Gwawrdydd Efengyl.*

1 **B**ETH yw'r ddysglaer wawr sy'n tori?  
Gwawr efengyl ydyw hon,  
Beth yw'r cynhwrf sy'n cynnyddu?  
Ffoi mae'r fagddu ger ei bron;  
Deuwch gonglau t'wlla'r ddaear  
I groesawi'r hyfryd wawr,  
Na foed pagan dan y nefoedd  
Heb gael gwel'd y goleu mawr.

2 Beth yw'r swm parhaus sy'n treiddio?  
Adsain yr hyfrydlais yw;  
Beth yw swm y genadwri?  
Gwaredigaeth dynol ryw!  
Haleluia! bellach canwn,  
Torwyd grym pob cadwen den,  
Brysiwn, brysiwn tuag adref  
Y mae'r pyrth o led y pen. W. A.

579 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Dymuniad am yr Ysbryd.*

1 **A**RGLWYDD, dyro yr Eneiniad  
I ni yn yr odfa hon,  
Nerthol ddyllanwadau 'th Ysbryd  
Gaffo'u teimlo ger dy fron;  
Aed yn llefain am drugaredd  
Wrth dy orsedd yma'n awr,  
Nef a daear fyddo'n canu  
Gyda hwyl yr Anthem sawr.

2 Enw dy Eneiniog anwyl  
Heddyw aed yn uchel iawn;  
Agor filoedd o galonau  
Iddo i roi derbynias llawn;  
Fel y llanwer temlau Sion  
A llawenydd pur a chân  
Ac bo'u moliant yn dyrchafu  
Hyd y nei 'th Enw glân. T. B.



580 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Tosturi Crist.*

1 **I** GU Geidwad gwael bechadur,  
Gyda gwylder seiniwn gân;  
Ac ennyner yn ein mynwes,  
Fywiol ffam o nefol dân:  
Canwn am ei ddarostyngiad,  
Am ei gur a'i gariad Ef;  
Gan adseinio tónau mwynion  
Telynorion llys y nef.

2 Wrth wel'd adyn diymgeledd,  
'Flawd yn gorwedd yn ei waed;  
Dan ei faich yn archolledig,  
O'i ben ysig hyd ei draed;  
Heb un cyfaill i dosturio,  
Heb un balm i'r galon friw,—  
Codai Iesu lef drugarog,—  
Am i'r euog gwael gael byw. s. R.

581 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Ail-ddyfodiad Crist.*

1 **I** ESU, eto mewn gogoniant,  
Heb y groes a'r goron ddrain,  
Ddiagyn gyda myrdd myrddiynau,  
Llawen floedd, ac uchel sain:  
Cwyd ei orsedd, egyr lyfrau,  
Sigla seiliau dyfna'r bedd;  
Lleda'r wyntyll, hwyliar glorian,  
Yagwyd fry ei farnol gledd.

2 Pan y ffy y nefoedd heibio,  
Pan y byddo'r byd yn dân;  
A'r holl anwir fyd mewn cyffro,  
A llu'r saint yn seinio cân;  
Pan y toddo'r euog ymaith  
Dan lewygon bythol fraw,—  
*Boed i ni gael tawel orphwys*  
*Ar ei dirion ddeheu law.*

s. R.

582 M. 8-7. 8 LLIN. (M.

*Tywalltiad yr Ysbryd.*

1 **T**YRED Ysbryd yr aadewid,  
O'r uchelder pur i lawr,  
Yn dy ddoniau cadwedigol,  
Er ail eni tyrfa fawr:  
Rhwyga'r nef yn awr, a diagyn  
Ar bob oedran, heb wahân;  
Llanw'r byd a'r eglwys hefyd  
Ag effeithiau'r dwyfol dân.

2 Gweithia'n rymus ar eneidiau,  
Galw filoedd i dy dŷ;  
Gwawried, bellach, ar y ddaear,  
Hyfryd ddyddiau Jubili:  
Chwythed y deheuwynt nefol,  
Nes adfywio pawb i gyd,  
Fel bo rhinwedd a sancteiddrwydd  
Yn teyrnasu dros y byd.

583 M. 8-7. 8 LLIN. (M.

*Y porthladd dymunol.*

1 **D**AW y dydd i'r had breninol,  
Gael mordwyo tua'u gwlad,  
O gaethiwed y priddfeini,  
I deyrnasu gyda'u Tad:  
Eu ffydd yno a dry'n olwg,  
Gobaith eiddil yn fwynhad;  
Annherfynol fydd yr anthem,  
Moli'r Oen a'i werthfawr waed.

2 Lesg bererin, gan ystormydd,  
Cyfod d'olwg, gwel y wawr,  
'R Oen yn gweini'r swydd gyfryngol  
Mewn laes wisgoedd hyd y llawr  
Gwregys auraidd o fyddlondeb,  
Wrth ei odre clychau'n llawn;  
Llwy'r faddeuant i droseddwr,  
Er mwyn Ei anfeidrol Iawn. A

584 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Rhin a melusder geiriau Crist.*

- 1 **O** LLEFARA, addfwyn Iesu,  
Mae dy eiriau fel y gwin;  
Oll yn dwyn i mewn dangnefedd,  
Ag sydd o anfeidrol rin:  
Mae holl leisiau'r greadigaeth,  
Holl ddeniadau cnawd a byd,  
Wrth dy lais hyfrydaf tawel,  
Yn dystewi a myn'd yn fud.
- 2 Nis gall holl hyfrydwch natur,  
A'i melusder pena' i maes,  
Fyth gymharu â lleferydd  
Hyfryd, pur, maddeuol ras;  
Gâd im' glywed sw'n dy eiriau,  
Awdurdodol eiriau'r nef,  
Oddi mewn yn creu hyfrydwch,  
Nad oes mo'i gyffelyb ef.
- 3 Mae Dy lais yn rho'i dystawrwydd  
Ar holl ddwndwr gwag y byd,  
Yn gwastoti pob rhyw derfysg  
Fago nwydau croes yn nghyd;  
Y mae'r gwynt yn troi i'r deheu,  
Ac mae'r hin yn dawel iawn,  
Pan fo'm Duw'n cyhoeddi heddwch,  
Er mor arwed fu'r prydawn. w. w.

585 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Felly carodd Duw y byd.*

- 1 **F**ELLY carodd Duw" wrthddrychau  
Anhawddgara erioed a fu;  
"Felly carodd" fel y rhoddodd,  
Anwyl Fab ei fynwes gu;  
Nid arbedodd, ond traddododd  
Ef, tros ein pechodau i gyd:  
Taro'r Cyfaill, arbed gelyn,  
"Felly carodd Duw y byd!"

2 "Felly carodd," gan dosturio,  
'N rhâd wrth hunan-ddamniol ddyn,  
"Felly carodd," yn anfeidrol  
Deilwng byth o hono'i Hun:  
Er arbediad gwrthryfelwyr,  
Gwnaeth ei Fab yn aberth drud;  
Maddeu iddynt a'u cofeidio,  
"Felly carodd Duw y byd!"

3 "Felly carodd," ond ni ddichon  
I angelion nef y nef,  
Draethu i oesoedd trag'wyddoldeb,  
Led a hyd ei gariad Ef:  
Dyfnach yw na dyfnder daear;  
Uwch na'r nefoedd fawr i gyd,  
Rhaid yw tewi gyda dywedyd,  
"Felly carodd Duw y byd."

4 "Felly carodd," hyfryd newydd!  
Aed ar aden awel gref,  
Nes i'w adsain gyrhaedd clustiau  
Pob pechadur dan y nef:  
"Felly carodd," felly carodd,  
Seinied pob creadur byw,  
Fel b'o i'r dylanwad nerthol  
Danio'r byd â chariad Duw. w. w.

586 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Crist yn bob peth.*

**T**dy hunan wyf yn 'mofyn,  
Ynot ti mae heddwch llawn;  
Ynot ti caf fod yn ddedydd,  
Ynot ti yn hyfryd iawn;  
Nid oes ofn i'r sawl a'th garo,  
I dy garo nid oes gwae;  
Fe gaiff pob rhyw dristwch atgas  
Iddynt droi yn llawenbau. w. w.

587 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Dechreu odfa.*

1 **D**ISGYN Iôr, a rhwyga'r nefoedd,  
Tywallt ysbryd gras i lawr;  
Disgyn fel y toddo'r bryniau,  
Diosg fraich dy allu mawr:  
Difa'r lleni, ymddysgleiria  
Ar dy drugareddfa lân;  
Rho dy lais a'th wenau tirion,  
Achub bentewynion tân.

2 Ti achubaist y rhai gwaethaf,  
Annheilyngaf a fu'n bod;  
Achub eto—achub yma—  
Achub finnau er dy glod:  
Ti gei'r mawl pan danio'r ddaear,  
A phan syrthio ser y nen,  
Ti gei'r enw yn drag'wyddol,  
Ti gei'r goron ar dy ben. w. g.

588 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Trigfan Duw yn Sion.*

**G**OSOD babell yn ngwlad Gosen,  
Tyred, Arglwydd, yno dy hun;  
Gostwng o'r uchelder goleu,  
Gwna dy drigfa gyda dyn;  
Trig yn Sion, aros yno,  
Lle mae'r llwythau'n d'od yn nghyd,  
Byth na 'mâd oddiwrth dy bobl,  
Nes yn ulw'r elo'r byd. w. w.

589 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Moroedd o gariad.*

1 **D**YMA gariad fel y moroedd,  
Tosturiaethau fel y lli;  
Tywysog bywyd pur yn marw,  
Marw i brynu'n bywyd ni:  
Pwy all beidio cofio am dano,  
Pwy all beidio canu'i glod?  
Dyma gariad nad â'n anghof  
Tra bo'r nefoedd wen yn bod.

2 **A**r Galfaria yr ymrwygodd  
Holl ffynnonau'r dyfnder mawr,  
Torodd holl argaeau'r nefoedd  
Oedd yn gyfain hyd yn awr;  
Gras a chariad megys diluw  
Yn ymgywallt yma 'nghyd;  
A chyfiawnder pur a heddwch,  
Yn cusanu euog fyd. w.

590 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Ffordd newydd a bywiol.*

1 **D**YMA babell y cyfarfod  
Dyma gymmod yn y gwaed;  
Dyma noddfa i lofruddion,  
Dyma i gleifion Feddyg rhad:  
Dyma fan yn ymyl Duwdod  
I bechadur wneyd ei nyth,  
A chyfiawnder pur y nefoedd  
Yno'n gwenu arno byth.

2 Ffordd a drefnwyd cyn bod amser,  
Gael diangfa o ddrygau'r ddraig;  
Mewn addewid gynt yn Eden  
Fe gyhoeddwyd Had y Wraig;  
Ffordd i gyfiawnhau'r annuwiol,  
Ffordd i godi'r marw'n fyw,  
Ffordd gyfreithlon i droseddwr  
I hedd a ffiafr gyda Duw. A

591 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Marw.*

**B**YTH i'r Tad y bo gogoniant,  
Clod a moliant, parch a bri,  
Ac i'r Mab a'r Ysbryd Sanctaidd  
Heb wahân yn Un a Thri:  
Poed i'r Drindod y clodfoddedd,  
Fel yr oedd, ac fel mae'n awr,  
O'r pryd hwn heb ball na diweddedd,  
Oesoedd drag'wyddoldeb mawr.

592 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

"Gogoniant a harddwch sydd o'i flaen."

1 **D**UW, Creawdwr mawr y nefoedd,  
Ynot saif y cread maith;  
Rhyw aneirif anfeidroldeb  
Yw'r prydfertion sy'n dy waith;  
Y mae harddwch anchwiliadwy  
Lle mae lleiaf ol dy fya,  
Beth gan hyny yw prydfertwch  
A gogoniant mawr dy lys?

2 Y gogoniant adlewyrcha  
Drwy holl gantau natur fawr,  
Ar y gwrthddrych pell distadlaf  
Gwelir mynych nefol wawr;  
O, llewyrcha yn fy nghalon,  
Nes gwresogi'r fynwes oer,  
Fel o flaen yr haul goleus  
Wyneb oerlyd llwyd y lloer.

3 O, am fyw yn agos atat,  
Fel bo arnom oll ar daen,  
Arwydd amlwg o'r prydfertwch,  
Ar gogoniant sydd o'th flaen;  
Fel y byddo teulu Sion,  
Yn nefolion ar y llawr,  
Ac y gwneleu eu preswylfan,  
Yn llawenydd tegwch mawr. H. H.

593 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Hawddgarwch a thegwch Crist.*

1 **M**ARCHOG yn dy degwch dwyfol,  
A dadguddia'th hawddgar wedd;  
Mae'th hawddgarwch yn dychrynu  
Angen, uffern fawr, a'r bedd:  
A chalonau meibion dynion  
A lesmeiriant ger dy fron,  
Wedi'u trechu gan belydrau  
Cariad dy wynebpryd llon.

2 Tecach yw na meibion dynion,  
Fe dywalltwyd grâs a rhin  
Ar ei wefus, melus odiseith  
Yw ei enau, fel y gwin:  
Ar ei ruddiau mae lledneisrwydd,  
Purdeb ac addfwyndra 'nghyd,  
Yn rhyw hyfryd gydgymmysgu,—  
Iesu, tegwch wyt i gyd! W. R.

594 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Genedigaeth Crist.*

1 **G**ORFOLEDDA ddaear heddyw,  
Llawenhaed dy galon brudd,  
Torodd o'r uchelder arnat  
Wawr dy waredigol ddydd;  
Ateb ro'ed i'r hen ofyniad—  
Ai gwirionedd yw y gwna  
Duw breswyllo gyda dynion?  
Heddyw gwnaed y gair yn dda!

2 Llawenhewch, fynyddoedd uchel,  
Llemwch hyd yr awyr werdd—  
Gorfoleddwch, fryniau oesol,  
Wyntoedd nefoedd, seiniwch gerdd,  
Curwch ddwyllaw, goed y meusydd—  
Cyd-ddeffrowch yr adar mân,  
Unwch oll yn gôr i seinio  
Y blygeiniol newydd gân.

3 Chwi, aneirif ser goleuni,  
Llygaid gloewon awyr fawr,  
Sefwch, synwch, cydgyfeiriwch  
Eich golygon yma i lawr;  
Gwelwch Ef yr Hwn â'i fysedd  
Gynt a'ch creodd bob yr un,  
Ar y ddaear wedi'i eni'n  
Geidwad i'r colledig ddyn.

595 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Trag'wyddol orphwysfa'r saint.*

**D**EDWYDD fydd trag'wyddol orph-  
O bob llafur yn y man, [wys  
'Nghanol môr o ryfeddodau,  
Heb un gwaelod byth na glân;  
Caffael mwy fynediad helaeth  
I drigfanau Tri yn Un;  
Dwfr i nofio heb fyn'd trwyddo,  
Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn. A. G.

596 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Galwad yr Efengyl.*

**B**ETH yw'r udgorn glywai'n seinio?  
Brenin Silo sydd yn gwa'dd:  
Pwy sy'n cael eu galw ganddo?  
Pechaduriaid o bob gradd:  
A dref, adref, blant afradlawn,  
Gadewch gibau gweigion ffol;  
Clywaf lais y Brenin heddyw'r  
Para i alw ar eich hol.

597 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Rhyddid i'r caethion.*

1 **M**I debygaf clywaf heddyw  
Sŵn caniadau, draw o bell;  
Torf yn moli am waredigaeth,  
Ac am ryddid llawer gwell;  
Gynau gwynion yw eu gwisgoedd,  
Palmwydd hyfryd yn eu llaw,  
Ac hwy ânt gyda gogoniant  
Mewn i'r bywyd maes o law.

2 Minnau bellach orfoleddaf  
Fod y Jubil fawr yn d'od,  
A chyflawnir pob sillaffyn,  
A lefarodd Iesu erioedd;  
Dé a gogledd yn fyrddiynau  
Ddaw o eithaf tywyll fyd,  
Gyda dawn ac udgryn arian,  
*Mewn i Salem bur yn nghyd. W. W.*

598 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Hapusrwydd yr Nghrist.*

1 **I**ESU hawddgar, 'rwy'n dy ddewis;  
Nerth i ddilyn ôl dy droed;  
Yna caiff fy enaid hedeg  
I'r hapusrwydd uwch y rhôd;  
Tra fo'm pridd yn ymgymmysgu  
A'r hwn gwnaethpwyd ef ryw bryd,  
Llewyrch wyneb Duw ddysgleirio  
Ranau f'enaidd oll i gyd.

2 Wedi'm golchi oddiworth sorod  
Pechod ffaidd drwg ei ryw,  
Fel drych goleu, i dderbyn delw  
Holl sancteiddrwydd pur fy Nuw;  
Ni raid teithio'r ddaear mwyach  
Yn mhlith pryfaid gwael y llawr,  
Ond dysgleirio 'mhlith myrddiynau  
Gylch yr orsedd fel y wawr. W. W.

599 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Haeddiant Crist yn annhraethadwy.*

1 **D**EUED nef, a deued daear,  
I ryfeddu angeu loes;  
Hyd a lled, ac uchder, dyfnder,  
Haeddiant Crist ar bren y groes:  
Ni all cerub, ni all seraph,  
Na holl ddoniau nef a llawr,  
Draethu'r filfed ran o'i rinwedd  
Byth, yn nhrag'wyddoldeb mawr.

2 Dyma'm tawel amddiffynfa,  
Dyma fy ngorphwysfa glyd;  
Nid wy'n chwennych noddfa arall,  
Pan bo'r tân yn llosgi'r byd:  
Yn ardaloedd anfarwoldeb,  
Hyn a fydd fy nifyr waith;  
Ymddyrechafu'n haeddiant Iesu,  
Tra bo trag'wyddoldeb maith.

J. R. (J.)

600 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

RHAN O SALM CXLV.

- 1 **T**L, fy Mrenin, a ddyrchafaf,  
Duw, bendigaf d'Enw byth;  
Beunydd y bendithiaf d'Enw  
Yn fy nibaid fawl di-lyth:  
Mawr yw Duw a chanmoladwy,  
Anchwiliadwy yw ei rym;  
Oes wrth oes ei waith a folant  
Traethant ei gadernid llym.
- 2 Da i bawb a haelfryd ydwy,  
Gras yw coron hardd dy waith;  
Gogoneddir dy ddoethineb  
Gan dy holl weithredoedd maith:  
Ond dy saint yn uwch a'th folant  
Am d'ogoniant, Frenin nef;  
Nerth galluog dy freniniaeth  
Canant â soniarus lef.
- 3 Hyn a hair i feibion dynion  
Wybod ei gadernid Ef,  
Ardderchowgrwydd a gogoniant  
Ei deyrnasiad yn y nef:  
Teyrnas fythol yw dy deyrnas,  
Byth y pery dros y byd;  
Duw sy'n cynnal pawb a syrthiant,  
Cyfyd hwynt i fyny i gyd.
- 4 Llygaid pawb sy'n dysgwyl wrthyt,  
Genyt cânt eu bwyd mewn pryd;  
Ti agori'th law haelfrydig,  
Gan eu porthi hwynt i gyd:  
A'th ewyllys da digonir  
Pob peth byw ar dir a môr;  
Yn dy ffyrdd i gyd wyt gytiawn,  
Yn dy waith wyt uniawn, Ior.

Ps.

601 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

"Gwregysa dy gleddyf, O gadarn."

- 1 **M**ARCHOG, Iesu, yn llwyddiannus,  
Gwisg dy gleddyf ar dy glun;  
Ni all daear dy wrthsefyll  
Chwaith nag uffern fawr ei hun:  
Mae dy Enw mor ardderchog,  
Pob rhyw elyn gilia draw:  
Mae rhyw arswyd trwy'r greadigaeth,  
Pan y byddi Di gerllaw.
- 2 Tyn fy enaid o'i gaethiwed,  
Gwawried bellach fore ddydd;  
Rhwyga'n chwilfriw ddorau Babel,  
Tyn y barau hey'r'n yn rhydd:  
Gwthied caethion yn finteioedd  
Allan, megys tônau llif;  
Torf, a thorf, dan orfoleddu,  
Heb na diwedd fyth na rhif. w. w.
- 602 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)
- Cyfammod ni syft.*
- 1 **D**YFAIS fawr trag'wyddol gariad  
Ydyw'r iachawdwriaeth lawn;  
Sail cyfammod hedd sydd gadarn,  
Ac nis derfydd byth mo'i ddawn:  
Dyma'r fan y gorphwys f'enaid,  
Dyma'r fan y byddaf byw,  
Mewn tangnefedd pur, heddychol,  
Yn mhob stormydd gyda'm Duw.
- 2 Syfled iechyd, syfled bywyd,  
Cnawd a chalon yn gytân,  
Byth ni syfla ammod heddwch,  
Hen gytundeb Tri yn Un:  
Dianwadal yw'r addewid.  
Cadarn byth yw cynghor Duw;  
Cysur cryf sy' i'r neb a gredo'n  
Haeddiant Iesu i gael byw. r. c.

603 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Galwadau yr Efrogyl.*

1 **D**EUED pechaduriaid trauin  
Yn finteioedd mawr yn nghyd,  
Doed ynysocedd pella'r moroedd,  
I gael gwel'd dy wynebpryd;  
Cloffion, deillion, gwywedigion,  
O bob enwau, o bob gradd,  
I Galfaria un prydnewngwaith,  
I wel'd yr Oen sydd wedi'i ladd.

2 Dacw'r nefoedd fawr ei hunan  
'Nawr yn dyoddef anghu loes;  
Dacw obaith yr holl ddaear,  
Heddyw'n hongian ar y groes;  
Dacw noddfa pechaduriaid,  
Dacw'r meddyg, dacw'r fan,  
Caf fi wella'r holl archollion  
Dyfnion sy' ar f'enaid gwan.

3 Doed y cystuddiedig truan,  
Sy' mewn ofnau bob rhyw awr,  
Ac edryched ar y croesbren,  
Pwy sy'n trengu arno i lawr;  
Pa'm dychryna'r euog aflan?  
Heibio aeth cymylau'r nen;  
Dyma le i gladdu pechod  
Yn y beddrod tan y pren. w. w.

604 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Ffarweliad.*

1 **F** FARWEL i chwi gynt a gerais,  
Nid yw'ch cwmni, nid yw'ch gwedd,  
Nid yw'r cariad sy'n eich calon  
Ragor na d'od at y bedd:  
Pan ddél anghu chwi fflowch ymaith,  
Da i mi fod genyf Dduw;  
Ffrynd fo gydaf wedi marw,  
Hwnw garaf tra f'wy'i byw.

2 Mae nghyfeillion wedi myned  
Draw yn lluoedd o fy mlaen,  
Rhai fu'n myn'd trwy ddyffryn Bacca  
Gyda mi i Salem lân:  
Yn y dyffryn tywyll garw,  
Ffydd i'r lân â'u daliodd hwy:  
Mae'r addewid law'n i minnau,  
Pa'm yr ofna'm henaid mwy? w. w.

605 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Golwg ar haeddiant Crist.*

1 **D**YRO olwg ar Dy haeddiant,  
Golwg ar dy deyrnas rád;  
Brynwyd imi ac a seliwyd,  
Seliwyd imi â dy waed:  
Rho imi gyrchu tuag ati,  
Peidio byth a llwfrhau;  
Ar fy nhaith ni sheisiaf genyt,  
Ond yn unig dy fwynhau.

2 D'wed pa bryd câf yfed dyfroedd,  
Dyfroedd gloew sy'n iachau;  
Pob rhyw bleser wedi darfod,  
Ond yn unig dy fwynhau;  
Pwyso'm henaid ar dy fynwes,  
Edrych ar dy wyneb llon,  
Caru nes anghofio'r oriau  
Sy' imi ar y ddaear hon. w. w.

606 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Ceisio Duw drachefn.*

**U**NWAITH eto mi ddyrchafaf.  
Un ochenaid tua'r nef;  
Gyda thaerni yr ymbiliaf,  
Am ei bresennoldeb ef:  
Pwy a w'yr na wrendy clustiau  
'R Hwn a greodd ddae'r a nen?  
Ac na ddaw fy nymuniadau  
Trist, hiraethlon, oll i ben? J.

307 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Cyfaill pechaduriaid.*

1 **I**ESU, cyfaill pechaduriaid,  
Dyros im' i' th fynwes ffoi,  
Tra fo'r dyfroedd chwyrn yn llifo,  
A'r tymmestloedd yn crynhoi:  
Cuddia fi, O Geidwad, cuddia,  
Nes éi heibio'r 'stormydd blin:  
Tywys f'enaid tlawd i'r porthladd,  
Er mwyn d'Enw mawr dy hun.

2 Noddfa arall nid oes genyf,  
Pwysa'm henaid arnat ti;  
Paid am gadael im' fy hunan,  
Cymhorth a chysura fi:  
Cyfawn ydwyt ti a sanctaidd,  
Minnau 'dwyf ond llwyr amhur,  
Drwg, a llawn o bechod ydwyf,  
Tithau'n llawn o ras a gwir.

3 Gras digonol a geir ynot,  
Gras i faddeu fy holl fai;  
Boed i'r frydiau pur, iachusol,  
Oddiw'rth bechod fy nglanhâu;  
Proff maith rinweddau'th gariad,  
Gaffwy' 'nawr tu yma i'r bedd;  
Gwedi hyn, O! dwg fi'n dawel,  
I Gaersalem, llawn o hedd.

608 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Digonolrwydd cyflawnder Crist.*

1 **O!** gyflawnder pur trag'wyddol!  
O! gyflawnder maith di-drai!  
Rhaid i'm henaid noeth newynllyd  
Gael yn fuan dy fwynhau;  
Rho dy wisg ddysglaerwen olen,  
Cuddia 'm noethni hyd y llawr,  
Fel nad ofnwyf mwy ymddangos,  
Byth o flaen dy orsedd fawr.

2 Boed cyflawnder maith y nefoedd.  
Yno i sefyll o fy mlaen;  
Yn nyfnderoedd mwyaf ofnau,  
Yn nyfnderoedd dwfr a thân;  
O! gyflawnder, aros yno  
Ar fy mron ar hyn o bryd,  
Pan b'o angeu yn gwahanu  
'Nghorhph a'm henaid yn ei lid. w. w.

609 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Heddwch a maddeuant.*

**O**NA chlyw'n yr udgorn arian,  
Yn cyhoeddi'n eglur iawn,  
Bellach i fy enaid llwythog,  
Heddwch a maddeuant llawn:  
O, na ddeuai nerth i waered,  
Fel llifeiriant mawr ei rym,  
Fel na allai'm nwydau penaf,  
Mwyach ei wrthsefyll ddim. w. w.

610 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Llefain am Waredigaeth.*

**M**AE rhyw foreodd o drugaredd,  
Arglwydd ynot ti dy hun,  
Annherfynol a thrag'wyddol,  
Yw dy gariad at y dyn!  
Mewn cyfyngder buost ffyddlon,  
Yno rho'ist dy nerth i maes,  
Yn y dyfnder mawr 'rwyf finnau,  
'Nawr yn llefain am dy ras. w. w.

611 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Goleuni a rhyddid.*

**O!** Iachawdwr pechaduriaid  
Sydd a'r gallu yn dy law,  
Rho oleuni, hwyliu 'm henaid,  
Dros y cefnfor garw draw;  
Gad i'r wawr fod o fy wyneb,  
Rho fy enaid lleag yn rhydd;  
Nes i'r heulwen ddysglaer godi,  
Tywys fi wrth y seren ddydd. w. w.



612

M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Ymafyn am orphwysfa.*

1 **B**U'M yn chwilio'r greadigaeth,  
Am orphwysfa i'm henaid gwan,  
Ond ni che's ond siomedigaeth,  
Yn mhob gwrthddrych, yn mhob  
Cefais fil o addewidion [man;  
Gan y cnawd, a chan y byd;  
Wrth eu profi, ce's mai gweigion,  
A thwyllodrus o'ent i gyd.

2 Suddai'm henaid mewn anobaith,  
Gwaeddais mewn wylofus gri,  
"Ciliodd pob ymwared ymaith,  
Darfu am danaf o'm rhan i;"  
Cyfraith Sinai yn gwgu arnaf,  
Minnau'n crynu ger ei bron,  
Tra fw'i'n berchen anadl, cofiaf  
Am y wasgfa galed hon.

3 Dyfrllyd olwg tua'r nefoedd,  
Droais, ar yr orsedd wen,  
Gwelwn mewn cyfryngol wisgoedd,  
'R Oen fu farw ar y pren:  
"Dacw fe," eb' f'enaid gwirion,  
Medraf ddarllen yn ei wedd,  
Fod maddeuant yn ei galon,  
I bechadur brwnt, a hedd.

613

M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Yr ail ran.*

1 **Y**NA nesais at ei orsedd,  
Ac ymdreiglais wrth ei draed,  
A dadleuiais am drugaredd,  
Yn haeddiannau mawr ei waed;  
Meddwn, "Mi dywallta'm calon,  
Mi agora'm hysbryd briw,  
A dadguddiaf fy archollion,  
Pa'm yr ofnaf? Iesu yw!"

2 Ac wrth imi agor iddo

Fynwes euog, ffaidd iawn;  
Fe agorai i'm coffleidio,  
Fynwes oedd o ras yn llawn;  
Tynodd ef fy meichiau trymion,  
A gwaredodd fi yn rhad,  
Ac â'i wên faddeuol dirion,  
Rhodd i'm henaid esmwythâd.

3 Bellach, caiff yr oll a feddwyf,  
Gorph a chalon, teilwng yw;  
Ar y ddaear tra anadlwyf,  
Er ei glod, dymunwn fyw;  
Pan y delw'i blith y dyrfa,  
Sydd o flaen yr orsedd fainc,  
Fy nigrifwch byth fydd canu—  
Canu'r brynedigol gainc. w.

614

M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10)

*Trag'wyddoldeb.*

1 **T**RAG'WYDDOLDEB, mawr y  
Ti mae'n sicr fydd fy lle! [d'ent  
Teithiwr un diwrnod ydwyf,  
Fry bo'm cartref yn y ne'  
Mae'm diwrnod bron a gorphen,  
Mae fy haul bron myn'd i lawr;  
Mae pob awel yn fy chwythu,  
Tua thrag'wyddoldeb mawr.

2 Gwna fi'n foddlon iawn i 'madael,  
Trefna'r awr a threfna'r fan,  
Ond yn ymchwydd yr Iorddonen,  
Dal fy ysbryd llesg i'r lân;  
N'âd fi soddi dan y tônau,  
Pan fo angeu'n fawr ei rym,  
Dwg fi trwodd yn dy freichiau,  
N'âd i'm henaid ofni dim. w. v

615 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)  
 "Gorphwysfaeodd llonydd."—Es. xxxii. 18.

1 **A** RGLWYDD gad im' dawel orph-  
 wys

Dan gysgodau'r palmwydd clyd,  
 Lle'r eistedda'r pererinion  
 Ar eu ffordd i'r nefol fyd;  
 Lle'r adroddant dy fyddlondob  
 Iddynt yn yr anial cras,  
 Nes anghofio'u cyfyngderau  
 Wrth foliannu nerth dy ras.

2 O! mor hoff yw cwmni'r brodyr  
 Sydd a'u gwyneb tu a'r wlad,  
 Heb un tafod yn gwenieithio—  
 Heb un fron yn meithrin brad;  
 Gwlith y nefoedd ar eu profiad,  
 Adsain hyder yn eu hiaith,  
 Teimlant hiraeth am eu cartref—  
 Carant son am ben eu taith.

3 Arglwydd dal ni nes myn'd adref,  
 Nid yw'r llwybr eto'n faith;  
 Gwened heulwen ar ein henaidd,  
 Wrth nesäu at ben y daith;  
 Doed y nefol awel dyner  
 I'n cyfarfod yn y glyn,  
 Nes in' deimlo'n traed yn sengi  
 Ar uchelder Sion fryn. W. A.

616 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)  
*Wyneb Duw.*

1 **O!** PA bryd câf wel'd dy wyneb,  
 Oil yn heddwch, oll yn ras,  
 Heb un pechod yn fy nghlwyfo,  
 Nac yn dirgel gario'r maes;  
 Heb fod rhyngof len a'r bywyd,  
 Nac un ysbryd marw syth,  
 Heb un waedd yn fy nghydwytbod,  
 Ond tangnefedd pur dilyth.

2 Bryd câf wel'd y tir dymunol,  
 Hyfryd baradwysaidd wlad,  
 Lle mae brodyr i mi filiwn,  
 Lle mae 'Mhriod lle mae Nhad;  
 Lle câf orphwys o fy llafur,  
 Lle câf wella'm dwfn friw,  
 A chael gwledd trag'wyddol gysson,  
 Fry yn nghwmni'm Tad a'm Duw.

W. W.

617 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)  
*Gair Crist.*

1 **D'**WED y gair, fy addfwyn Iesu,  
 Yna f'enaidd lawenhâ;  
 Gair o addewid ca'i fy mhuro  
 O bob pechod, o bob pla;  
 Gwrendy f'enaidd mewn dystawrwydd,  
 Ar dy adlais ddystaw fain,  
 Ac fe lama o orfoledd  
 Pan y clywo'th nefol sain.

2 Dywed im' a wyt yn maddeu  
 Cwympto ganwaith i'r un bai;  
 D'wed a ddeui byth i galon  
 Sydd yn methu edifarhau;  
 Beth yw pwysau'r beiau mwyaf  
 Wyt yn faddeu? O ba ri'?  
 Pa un drymaf ai fy mhechod  
 Ynte haeddiant Calfari? W. W.

618 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)  
*Hiraeth am Sion.*

**B**LINAIS ar afonydd Babel,  
 Nid oes yno ond wylo i gyd:  
 Llais telynnau hyfryd Sion,  
 Sydd yn cysson ddenu 'mryd;  
 Tyr'd â ni, yn dorf gariadus,  
 O gaethiwed Babel fawr:  
 Ac nes b'om ar fynydd Sion,  
 Nâd in' orphwysa mynydd awr. W. W.

619 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

SALM CXXX.—*Llef pechadur.*

1 **A**RGLWYDD, gwaeddais o ddyfn-  
Eitha'r ddaear tua'r nef; [derau  
Gostwng glust dosturiol, ystyr  
Wrth fy nhrom ddrylliedig lef;  
Os ar anwireddau creffi,  
Pwy a ddeil yr olwg hon!  
F'enaid euog a lewyga  
Yn drag'wyddol ger dy fron.

2 Ond mae gyda Thi faddeuant—  
Rho ei brofi dyna fi  
O'r dyfnderau yn dyrchafa  
'N union i dy fynwes gu:  
Tywallt yma'r balm rhinweddol  
I iachau fy enaid claf;  
Yna'th garu a'th hoff ofni,  
A'th foliannu byth a wnaf.

3 Dysgwyl, f'enaid, wrth yr Arglwydd,  
Craffa'th lygaid arno Ef;  
Cymmer afael gadarn sicr  
Yn ei hen addewid gref:  
Mae fy enaid wrtho'n dysgwyl  
Fel y gwylwyr am y wawr,  
Ie yn fwy—drwy'r hirnôs dywell,  
Sylla tua'r nefoedd fawr.

4 Israel, dysgwyl dithau wrtho,  
Mae'i drugaredd fel y môr;  
Dysgwyl wrtho yn dragwydd,  
Pwysa ar dy gadarn Ior:  
Ef a'th wared o gadwynau,  
D'anwireddau fawr a mân,  
*Ceni dithau'n hyfryd iddo*  
*Am ei gariad, newydd gân.*

W. R.

620 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 11)

*Gryn cariad.*

**M**AE fy nghalon am ehedeg  
Unwaith eto i fyny fry,  
I gael profi'r hen gymdeithas  
Gynt fu rhyngof a thydi:  
Mi a grwydrais anial garw,  
Heb un gradd o oleu'r dydd;  
Un wreichionen o dy gariad  
Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

W.

621 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 12)

*Dyfnderoedd iachawdwrïaeth.*

1 **M**ELUS gofir y cyfammod,  
Draw a wnaed gan Dri yn Un  
Bythol syllir ar y Person  
Gym'rodd arno natur dyn:  
Wrth gyflawni yr ammodau,  
Trist hyd angen'i enaid oedd—  
Dyma gân y saith ugein-mil,  
Draw i'r llen a lawen floedd.

2 F'enaid trist wrth gofi'o'r frwydr  
'N llamu o lawenydd sydd;  
Gwel'd y ddeddf yn anrhydeddus,  
A'r pechadur brwnt yn rhydd;  
Rhoi'i farwolæth Awdwr bywyd,  
Claddu'r Adgysfodiad mawr,  
Uno mewn trag'wyddol heddwch,  
Nef y nef, a daear lawr.

3 F'enaid, gwel y fan gorweddodd  
Pen breninoedd, Awdwr hedd:  
Y greadigaeth ynddo'n symmud,  
Yntau'n farw yn y bedd:  
Rhan a bywyd colledigion,  
Syndod holl angelion nef—  
Duw mewn cnawd—ei gydaddoll  
Maent, gan waeddi Iddo Ef. A.

622 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Hyder am iachad.*

1 **E**R bod arnaf o archollion  
Fwy rhifedi ser y nen,  
Ac er bod cleddyfau llymion  
Fel y gwenyn uwch fy mhen;  
Pren sy'n tyfu yn Mharadwys,  
Balm yn rhedeg hono i maes,  
A iachâ, er maint eu gwenwyn,  
Ddyfnion farwol glwyfau cas.

2 Caiff y gwenwyn cas fy mhuro,  
Caiff fy mhechod gwaetha'i ryw,  
Seinio megys udgorn arian  
Haeddiant dwyfol farwol friw:  
Mi bregetha o flaen y werin  
Fod yr aflan dua' gaed,  
Fel y gwlan, neu'r llian meinwyn,  
Wedi'i gânau yn y gwaed. w. w.

623 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Rhyddid i fyned at orseddfaine gras.*

1 **T**ORI wnes fy addunedau  
Gant o weithiau maith eu rhi';  
Ac mae'n rhaid rhyw ras anfeidrol  
Gadw euog fel myfi;  
Wrth yr orsedd 'rwyf yn cwmpo,  
Ac nid oes o dan y nef,  
Fan y caf fi feddyginiaeth,  
Ond o flaen ei orsedd Ef.

2 Atat, Arglwydd, dyrcha f'ennid,  
Rho f'och'neidiau ger dy fron;  
Unrhyw ateb i'm griddfanau  
Dyfnion fedd y ddaear hon;  
Mae fy nghalon yn ehedeg,  
Mae fy nymuniadau'n llu,  
Yn dihengu uwch troiadau  
Haul a sér y nefoedd fry. w. w.

624 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Dianc am einios.*

**Y** MAE'R oriau yn fy ngalw,  
'N ddyfal beunydd i bar'toi,  
Tân sy'n d'od ar ddinas diatryw,  
Tua Soar i mi ffoi;  
Arglwydd 'nafael ynwy'n fuan  
Onide ni ddeuaf byth;  
Tra bo'r tân yn llosgi Sodom,  
Yn y bryniau gwnaf fy nyth. w. w.

625 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Profiad maddeuant dan deimlad o bechod.*

1 **S**AITH o weithiau, ol a gwrthol,  
Torais dy orch'mynion glân,  
Saith adduned fawr a wnaethum  
I ymgadw rhag y tân:  
Yn y dyfnder cefais gyntaf  
Wel'd dy wridog wyneb gwyn,  
Oni buasai fflam euogrwydd  
'Ddaethwn byth i Sion fryn.

2 Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,  
Fe wnaeth t'wllwch dudew'r nos,  
I'm roi naid trwy ddyledswyddau,  
Cael neu gollu, at y groes;  
Ar fin uffern, ces i'r nefoedd;  
Yn safn angeu cefais fyw;  
Yn nharanau mynydd Sinai  
Gynta' de's i gwrrd â Duw.

3 Mellt a th'ranau, mwg a chenllysg,  
Oedd euogrwydd imi'r pryd  
Profais fod maddeuant pechod  
Fil o weithiau'n well na'r byd;  
Gwnaf, mi gofia'r oriau hyny,  
Oriau fy mhriodas y'n,  
Pan daeth Crëwr nef a daear,  
A'r pechadur gwaela'n un. w. w.

626 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Cofiaf dy gyfiawnder Di.*

1 PAN f'o Sinai'n gwisgo'i gwmwl,  
Ac yn rhuo'i daran gref,  
Ebal danllyd yntau'n bygwth  
Tywallt ei felldithion ef,  
Minnau'r truan euog ffoaf  
Arglwydd, at dy orsedd Di  
Am fy mywyd, a'th gyfiawnder  
Di yn unig gofiaf fi.

2 Gwn nad yw fy nghyfiawnderau  
Ddim ond bratiau budron iawn—  
Bod fy nghyfiawniadau goreu,  
O ammhuredd brwnt yn llawn;  
Noeth a thlawd heb un teilyngdod,  
Hyd y nef dyrchafaf gri,  
Haeddiant Aberth mawr y cymmod  
Hwn'n unig gofiaf fi.

3 Pan esgynwyf i'th gynteddau,  
I addoli gyda'r saint,  
A chael hyfryd gyfranogi  
A mwynhau y nefol fraint,  
Ni chaiff unrhyw destyn arall  
Fod yn destyn cân i mi,  
Ond y testyn melus hwnw  
'N unig, dy gyfiawnder Di.

4 Pan f'o angeu'n prysur ddattod  
Holl linytau'm pabell hon,  
Ac yn yfed dafnau olaf  
Flynonn bywyd dan fy mron;  
Yn y wasgfa galed hono,  
Gwasgfa awr marwolaeth ddu,  
Pan anghofiaf bob peth arall,  
Cofiaf dy gyfiawnder Di.

5 Wedi myn'd i blith y dyrfa  
'N fyw ac iach i'r ochr draw;  
*Ac im' gael y delyn auraidd*  
*Nefol hyfryd yn fy llaw,*

Byth ni chaiff fy mysedd chwarea  
Ar un tant o honi hi,  
Ond yr alaw beraidd hono  
'N unig, dy gyfiawnder Di.

6 Pan wrth sain yr udgorn olaf,  
Y dihunaf yn y bedd,  
Wedi hirfaith nos o gyagu,  
Dof i fyny ar newydd wedd,  
Af yn mantell wen cyfiawnder  
At orseddfa 'r farn heb gryn  
D'wedaf, "Dyma'r fantell brynwyd  
Imi ar Galiaia fryn." w

627 M. 8-7. 8 LLIN. (M.

*Duo a digon.*

O, AM nerth i dreulio'm dyddiau  
Yn nghynteddoedd tŷ fy Nh  
Byw yn nghanol y goleuni,  
Tywyllwch obry dan fy nhraed;  
Byw heb fachlud haul un amser,  
Byw heb gwmwl, byw heb boen;  
Byw ar gariad anorchfygol,  
Pur y croeshoeliedig Oen. w

628 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 1

*Gwaredigaeth o gyfyngder.*

O S gwaredi fi o'm cyfyngder,  
Ac os sefi ar fy rhan;  
Os gostegi rym y storom,  
Os cynneli fi i'r lân—  
Ti gai 'nhafod, Ti gai 'nhalon,  
Ti gai feddwyf yn y byd,  
Ti gai'r clod, a thi gai'r moliant,  
Ti gai'r enw it i gyd. w

629 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Gwaed Crist yn unig obaith i'r euog.*

1 **T**I yw 'mywyd, Ti yw'm gobaith,  
Ti yw'm cysur, Iesu, i gyd;  
Ac i Ti 'rwyf yn dadguddio  
Fy nirgelion pena' nghyd:  
Arnat Ti 'rwy'n rhoi fy ngofal,  
Trefna'm llwybrau oll yn lân,  
Rho i mi gerdded wrth dy ochr  
Mewn llifeiriant mawr a than.

2 Edrych 'rwyf fi tros y bryniau,  
Dysgwyl am addewid nen;  
Ac och'neidio am i'r fynyd  
Bur ddedwyddaf, ddod i ben:  
Rwy'n gobeithio'n erbyn gobaith,  
Caria fy nghriffdanau'r dydd,  
Ac ar fyrder tyr cadwynau,  
Câ'i fy nhraed a'm dwylaw'n rhydd.

3 Mi edrychaf ar i fyfny,  
Deued t'willwch, deued nos,  
Os daw heddwch im' o unlle,  
Daw o haeddiant gwaed y groes;  
Dyma'r fan y gwnaf fy nhrigfan,  
Yma y gobeithiaf mwy;  
Nid oes iechyd byth i'm henaid  
Ond mewn dwyfol farwol glwy.

w. w.

630 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Y cawodydd graslaun.*

1 **P**'AM y caiff bwystfilod rheibus  
Dori'r egin mân i lawr,  
P'am caiff blodeu peraidd ieuainc  
Fethu gan y sychder mawr?  
Tyred a'r cawodydd hyfryd  
Sy'n cynnyddu'r egin grawn,  
Cawod hyfryd yn y bore,  
Ac un arall y prydawn.

2 Edrych, Iesu, ar dy ddyweddi,  
Mae'i chaiseion yn gytân;  
N'ad y gelyn i ddifwyno,  
Gwinllan blenaist Ti dy hun;  
Dyfrhâ hi ar bob mynydyn,  
A'r cawodydd hyfryd sy',  
Fel y gwllith tirionaf dystaw,  
Yn dyhidlo oddifry.

3 Iesu, tro afonydd bywyd  
Tros y sychdir creiglyd cras,  
Fel bo'r egin yno dyfu  
Megys blodeu yn y maes;  
Rho i hwnw o'r ffynnon yfed  
Ag yn mron llewygu sydd,  
Gan y gwres heb ronyn cysgod,  
O dan oriau poetha'r dydd. w. w.

631 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Erfyniad am arweiniad.*

1 **C**YFARWYDDA f'enaid Arglwydd,  
Pan bwy'n teithio ymlaen ar hyd,  
Llwybrau culion dyrys anhawdd,  
Sydd i'w cerdded yn y byd:  
Cnawd ac ysbryd sy'n rhyfela,  
Weithiau cariad, weithiau câs,  
Tôn ar dôn sydd yn gorchuddio,  
Egwyddorion nefol ras.

2 Cul yw'r llwybr i mi gerdded,  
Is fy llaw mae dyfnder mawr,  
Ac rwy'n ofni yn fy nghalon,  
Rhag i'm traed i lithro i lawr;  
Yn dy law y gallaf sefyll,  
Yn dy law y dof i'r lân,  
Yn dy law byth ni ddiffygiaf  
Er nad ydwyf fi ond gwaw. w. w.

632 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Holltau'r graig.*

1 **P**AN oedd Sinai yn melltenu,  
A'i tharanau'n rhwygo'r nen;  
Cwmwl tanlyd ei mellidithion,  
Ar ymrwygo uwch fy mhen:  
Nef a daear yn fy ngwrthod,  
A'm cydwylbod fel y ddraig,  
Cefais loches rhag y dymmestl  
Yn nhawelwch holltau'r graig.

2 Dyma'r fan y gwnaf fy noddfa,  
Yma llecha f'enaid gwan,  
Pan fo'r gwynt a'r tônau'n curo,  
Holltau'r graig yw'r unig fan;  
Rhued byd ac uffern greulawn,  
Yn eu llid i'm herbyn mwy,  
Minnau'n holltau'r graig a ganaf,  
Ac nid ofnaf mo'nynt hwy.

3 Yn nydd mawr y farn ofnadwy,  
Pan y ffy mynyddau 'r byd,  
Ac y syrthia ser y nefoedd  
Megys ffigys ir i gyd,  
A'r elfenau'n cydyndoddi,  
Gwres yn berwi tônau'r aig,  
Dewrion fyrdd yn bloeddio'n chwervw,  
Canaf fi yn holltau'r graig. W. R.

633 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Bwrdd yr Arglwydd.*

1 **F**E ro'ed arno bwys euogrwydd,  
Pwys nas gallai'i ddal mo ddyn;  
Cosp pechodau myrdd o ddynion,  
Heb un pechod ynddo'i hun:  
Do, fe'i gwisgwyd â chystuddiau,  
Ffrwyth fy meiau fawr a mân,  
Fel cawn innau, wael bechadur,  
*Aflau, euog, fod yn lân.*

2 Iesu ei hunan yw fy mywyd,  
Iesu yn ei farwol loes;  
Y trysorau mwya' feddaf  
Yw ei angeu ar y groes:  
Gwagder annherfynol ydyw,  
Meddu daear, da, a dyn;  
Colled ennill pob peth arall,  
Os na 'nillir Di dy hun.

3 Os am bechod y'th w'radwyddwyd,  
Ac y gwanwyd gwaewffon,  
Nes gwneyd archoll nad anghofir  
Tra fo'r nefoedd, dan dy fron;  
Gâd i mi gael ffrwyth dy glwysau,  
Gâd i mi gael rhin dy waed,  
Maddeu 'mhechod, gwel'd Dy wne  
Di, fy Mhrynwr a fy Nhad. W.

634 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Dydddefaint, angeu, a buddugoliaeth Cri*

1 **F**'ENAIID gwel i ben Calfaria,  
Draw'r rhyfeddod fwya' erioed  
Crëwr nefoedd fawr yn marw,  
'R ddraig yn trengu dan ei droed,  
Clywaf lais yn awr, tebygwn,  
Agor, borth y ddinas fry—  
F'enaid, cân, fe ddarfuf oni,  
Prynwyd nefoedd wen i mi.

2 Priod y dragwyddol Hanfod  
Welai'n hongian ar y pren,  
Dyn a Duwdod ynddo'n trigo,  
Yn barod grymu lawr ei ben;  
Gwelaf eto fwy rhyfeddod,  
Yn ei wyneb angeu loes!  
Hedd yn rhedeg tros Galfaria,  
Fel yr afon tan y groes. W.

635 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Cyfaill yn angu.*

1 **Y**N y dyfroedd mawr a'r tōnau,  
Nid oes neb a ddeil fy mhen,  
Ond fy anwyl Briod Iesu,  
A fu farw ar y pren:  
Cyfaill yw yn afon angu,  
Ddeil fy mhen uwchlaw y ddn;  
Golwg arno wna i mi ganu  
Yn yr aſon ddoſn hon.

2 O, anfeidrol rym y cariad!  
Anorchfygol ydyw'r gras!  
Digyfnwid yw'r addewid,  
Pery byth o hyn i maes;  
Hyn yw'm hangor ar y cefnfor,  
Na chyfnwid meddwl Duw,  
Fe addawodd na chawn farw,  
Yn nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.

D. W.

636 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Maddeuant.*

1 **P**'ODD y galla'i ddweyd sydd ynof,  
Pwy a ddeall faint fy nghri?  
'Rwyf o'r cwbl yn amddifad,  
Os amddifad honot Ti;  
Aed fy ngweddi trwy'r cymylau,  
A'm hoch'neidiau maith diri';  
Nes im' gael maddeuant newydd,  
A chael gwel'd Dy wyneb cu.

2 Ac er mwyn y gwaed a gollwyd,  
Cymmysg ddŵr o'i ystlys E',  
Tyn bob cwmwl dudew tywyll  
Ag sydd rhyngwy' 'nawr a'r ne';  
Maddeu imi feiau mawrion,  
Beiau lawer mwy na rhi';  
Dim ond edrych ar Galfaria,  
Nid wrth edrych arnaf fi.

W. W.

637 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Cystuddiau er daioni.*

1 **F**EL y rhêd llifogydd mawrion,  
Fel anadla'r awel gref,  
Bydded felly fy och'neidiau  
I ddyrchafu tua'r nef:  
Gwn nas gellit attal rhagof,  
Gwn nas gellit ro'i nacâd,  
O'un fendith is y nefoedd  
Ag sydd imi er lleſhâd.

2 Mae rhyw stormydd wedi eu trefnu,  
Ca'dd goreuon byd y rhai'n;  
Cafodd seintiau a merthyron,  
Cafodd Iesu goron ddrain:  
Mae cydwybod mewn ymderfysg,  
Mae yr ysbryd fo mewn poen,  
Wedi chwilio gylch o gwmpas,  
Yn llettya'n nghlwyfau'r Oen. W. W.

638 M. 8-7. 8 LLIN. (M. 10.)

*Y pererin yn yr anialwch.*

1 **T**YRED, Arglwydd, i'r anialwch  
Yma buost ti o'r blaen,  
Arwain fi bererin eiddil,  
A dy golofn niwl a thân:  
Dal fy ysbryd sy'n llewygu  
Gan ryw ofnau o bob mân;  
Yn dy allu 'rwyf yn gadarn,  
Hebot ti nid wyf ond gwan.

2 O! drugaredd pen Calfaria,  
Sydd yn llawer mwy na'r byd,  
Yma'n unig mae fy ngobaith  
Sefyll mewn anfeidrol lid;  
'Rwy'n ymwadu â'r oll a feddaf,  
Ac yn addef feddaf ddim;  
Iesu ei hunan yw fy haeddiant,  
Iesu ei hunan yw fy ngrŷm.

W. W.



639 M. 8, 7, 8, 7; 7, 7. (M. 54.)

SALM III.

- 1 **A** RGLWYDD, aml yw'm tralodwyr  
 A'm gelynion greulon ryw,  
 D'wedant hwy nad oes i'm henaïd,  
 Iachawdwriaeth yn ei Dduw;  
 Fdrych Arglwydd mawr o'th ras,  
 Yn dosturiol ar dy was.
- 2 Ond Tydi wyt darian imi,  
 A dyrchafydd mawr fy mhen;  
 Ti yw'm hymffrost a'm gogoniant  
 Ar y ddaear, yn y nen;  
 Dan dy aden, gwnaf fy nyth,  
 A diogel fyddaf byth.
- 3 Gelwais arnat Arglwydd, Tithau  
 A wrandewaist ar dy was,  
 Ac o fynydd dy sancteiddrwydd  
 Rhoddaist imi help dy ras;  
 Minnau bellach, O! fy Nuw,  
 A'th foliannaf tra fwy'i byw.
- 4 Mi orweddais dan dy aden,  
 Ac a hunais yn dy hedd,  
 A deffroais wedi hyny,  
 Yn y bore'n llon fy ngwedd;  
 Llechaf dan dy gysgod Di,  
 Yno mae fy ngobaith i.
- 5 Mi nid ofnaf fyrdd o bobl,  
 A ymgodent yn eu llid,  
 I ymosod yn fy erbyn,  
 Diystryaf hwynt i gyd;  
 Yn dy allu byddaf mwyr,  
 Yn goncwerwr arnynt hwy.
- 6 Iachawdwriaeth sydd yn eiddot  
 Ti yn unig, Arglwydd mawr,  
 Fel y gwlieth disgyna'th fendith  
 Ar dy bobl o'r nef i lawr;  
 Cenir iti fawl di-lyth  
 Ar delynuau Sion byth.

640 M. 8, 7, 8, 7; 7, 7. (M. 55.)

Cyfaill a bery.

- 1 **Y** MAE Un uwchlaw pawb eraill,  
 Drwy'r gre'edigaeth faith i gyf,  
 Sydd yn haeddu'i alw'n gyfaill,  
 Ac a bery'r un o hyd;  
 Brawd a anwyd ini yw  
 Erbyn c'ledi o bob rhyw.
- 2 Nis gall meithder ffordd nac amser,  
 Oeri dim o'i gariad Ef:  
 Mae ei fynwes byth yn dyner,  
 A'i gymdeithas byth yn gref:  
 Nis gall dyfroedd angeu llym,  
 Ddiffodd ei angerddol rym.
- 3 Yn mha le y ceir, er chwilio,  
 Neb yn caru fel Efe?  
 P'le mae cyfaill er ein hachub,  
 A ro'i fywyd yn ein lle;  
 Nid oes debyg iddo Ef  
 Drwy y ddaear faith a'r nef.
- 4 Pan fo pawb yn cefnu arnom  
 Yn y dyffryn tywyll, du,  
 Pan fo pob daearol undeb  
 Yn ymddattod o bob tu,  
 Saif E'n ffyddlon y pryd hyn,  
 Ac a'n dwg yn iach trwy'r glyn.
- 5 A phan ymddangoso eilwaith,  
 Yn ngogoniant pur ei Dad,  
 Gyda'i holl angelion sanctaidd,  
 Mewn anrhydedd a mawrhad:  
 Fe geir gwel'd mai'r un yw Ef,  
 Er myn'd heibio'r byd a'r nef. E.

W. R.

641 M. 8, 7, 8, 7; 8, 8, 7. (M. 68.)

“Yr Arglwydd ei Hun a ddiagyn o'r nef  
gyda bloedd.”

1 **B**ETH yw 'r olygfa welaf draw?  
Y meirw yn cyfodi;  
Yr Arglwydd mawr ei Hun gerllaw  
Yn galw pawb i'w barnu.  
O'u beddau 'r adgyfodant hwy  
I wynfyd neu waradwydd mwy,—  
Fy enaid, bydd yn barod.

2 Y meirw yn Nghrist yn flaenaf sy'  
Yn llu ger bron eu Barnydd,  
A dygir hwy i'r nefoedd fry,  
“I aros gyd â'r Arglwydd.”  
Can's ni bydd dychryn, gwarth, na braw,  
Wrth udgorn-floedd yr Angel draw,  
I'r rhai a fyddant barod.

3 O Arglwydd Dduw, tuedda ni  
I wyllo cyn it' ddyfod:  
Yn awr cymmoder ni â Thi  
Cyn myned i'th gyfarfod.  
Gwna ni 'n fwy ffyddlon ar ein taith,  
Fel pan y deui yr ail waith,  
Y byddom oll yn barod. H.

642 M. 8, 7, 8, 7; 8, 8, 7. (M. 68.)

*Noddfa ac etifeddiaeth y saint.*

1 **T**YDI dy hunan, Arglwydd mawr,  
Yn unig yw fy Noddfa—  
Tra byddwyf yma ar y llawr,  
Byth ynot mi 'mddirieda';  
Ni ddichon croes na chystudd mwy,  
I wneuthur niwed iddynt hwy,  
A lechant dan dy gysgod.

2 Rho im' gael aros ddyddiau f'oes  
Dan gysgod dy adenydd,  
A gwneyd fy ngartre' wrth dy groes,  
I'mffrostio ynddi beunydd,  
Nes dyfod yna ger dy fron,  
I blith y dyrfa nefol lon,  
S'y'n bur o flaen yr orsedd.

3 Mae yno dyrfa fawr o saint  
Yu iach uwchlaw pob alaeth,  
Yn uchel iawn eu bri a'u braint  
Yn canu am iachawdwiariaeth;  
Cymhwysa finnau trwy dy ras,  
I gael yr etifeddiaeth fras—  
Maent hwy yn eu meddiannu. W. R.

643 M. 8, 7, 8, 7; 8, 8, 7. (M. 68.)

*Preseanoldeb yr Arglwydd.*

1 **D**Y bresenoldeb grasol Di  
Yw'n bywyd ni, O Arglwydd;  
Amlyga'th hun o fewn dy dŷ,  
A braich dy alluawgrwydd;  
Gwna iti heddyw enw mawr,  
Yn ngwyddfod nef a daear lawr,  
Fel byddo'n fawr dy glodydd.

2 O tyred atom Nefol Dad,  
A gad in brofi'th nerthoedd,  
A'r pur ddyddanwch hwnw fo  
Yn rhag-arwyddo'r nefoedd;  
Yn dy foddlonrwydd Di mae hedd,  
A bywyd sy'n dy nefol wedd,  
Ni all y bedd mo'i ddiiffodd. T. R.

644 M. 8, 7, 8, 7; 8, 8, 7. (M. 68.)

*Erfyniad am yr Ysbryd.*

**O** ANFON ini Arglwydd mawr  
O'r nef i lawr dy Ysbryd,  
Fel gallwn heddyw lawenhau  
Yn ngwenau Dy wynebpryd;  
A seinio iti foliant glân—  
Yn ngwres y bendigedig dân—  
O newydd gân y bywyd. T. R.

645 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 16.)

*Colled Eden, ac ennill Calfaria.*

1 **Y**N Eden, cofiaf hyny byth,  
Bendithion gollais rif y gwllith,  
Syrthodd fy nghoron wiw;  
Ond buddugoliaeth Calfari,  
Ennilodd fwy yn ol i mi,  
Mi ganaf tra f'wyf byw.

2 Ar Galfari yn ngwres y dydd,  
Y caed y gwystl mawr yn rhydd,  
Trwy golli gwaed yn lli;  
Ac yno talu anfeidrol Iawn  
I holl ofynion nef yn llawn,  
Heb ofyn dim i mi.

W. W.

646 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 16.)

*Wrth ymadael.*

1 **N**EWYDDION da sy'n cael eu dwyn,  
Mae cyfoeth yr Efengyl fwyn,  
A'i llawnder fel y lli:  
Ond er mor hyfryd cwrdd yn awr  
A brodyr anwyl ar y llawr,  
Ymadael raid i ni.

2 Os rhaid gwahanu'n awr am dro,  
Mae'n felus iawn cael dwyn i go'  
Gyfarfod pur y nef;  
Lle cawn gydwledda'n ddiwahân,  
Yn nghwmni'r Oen a'r engyl glân,  
A chanu "Iddo Ef."

3 Mae yno bawb ar newydd wedd,  
Yn llon o hyd, a llawn o hedd,  
A'u cân am farwol glwy':  
Yn dorf ddirif, a'u llestri'n llawn,  
O bur ddedyddwch nefol iawn,  
Heb raid ymadael mwy.

4 Cymhwysa ninnau, Arglwydd mawr,  
I uno â'r dyrfa uwch y llawr,  
Heb ofni poen a gwae;  
A threulio ein trag'wyldol oes  
Yn nghwmni'r gwr fu ar y groes,  
A'i weled fel y mae. x.

647 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 1)

*Ymestyniad y credadym.*

1 **O** IESU byw! Iachawdwr byd,  
Dwg fi yn glau i'th fynwes glyc  
Gael prawf o'th gariad eu,  
Sydd well na'r gwin i'm henaid gwa  
Am hyn 'r'wy'n daer am gael dod da  
Dy dirion aden di.

2 Dy gariad dwys yn f'enaid dod,  
Ac ynddo fyth gad i mi fod,  
Yn nofio tua'r ne',  
Nes gado'n deg yr anial dir,  
A glanio o fewn i Salem bur,  
O'm gofid, ac o'm gwae.

3 Rhyfeddol rin, arfaethol ras,  
I'm Iesu mwyn fy nwyn i maes  
O'r dwfn bydew pridd;  
Dros f'enaid bach dyoddefodd boen,  
Gan roddi iawn i'm hanwyl Ion;  
Ce's innau fyn'd yn rhydd.

4 O wynfydedig ddedydd awr,  
Ddysgleirwen wir, O hyfryd wawr!  
Caf esgyn uwch y nen:  
Gorphwysfa lân, trag'wyddol wledd,  
Gaf fi fwynhau mewn dinas hedd:  
Boed hyn ar frys. Amen. w

648 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 16.)

"Molwch yr Arglwydd."

1 O DDUW y duwiau! Tydi sy'n,  
Etifedd serch a doniau dyn,  
Pwy'n deilwng ond Tydi?  
Mae'th fawl yn fwy na geiriau'r llawr,  
Ond nid yn fwy, Greawdwr mawr,  
Na'n dymuniadau ni.

2 Deffroed, deffroed pob perchen dawn  
I chwyddo'r Halleluia lawn  
I Ti, O Arglwydd Dduw;  
O! annherfynol Dri yn Un,  
Preswylia yn dy fawl dy Hun,  
Dy le dewisol yw.

3 Doed meibion Adda'n dyrfa lawn,  
I draethu'th annhraethadwy ddawn  
A gaed drwy farwol glwy';  
Nid creu, a chynnal, bod, a byw,  
Ond rhoddion gwell trugaredd Duw,  
Yw pwnc eu hanthem hwy.

4 Na ddysged tafod beidio son  
Am destyn y drag'wyddol don,  
Y marw, i'r marw fyw;  
Dechreuwn waith, ac iaith yr wyl  
Lle na ddaw dim i dd'ysu'r hwyl  
I ogoneddu Duw. w. A.

649 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 16.)

*Y ffordd newydd a bywiol.*

CYSSEGRWYD ffordd sy'n rhydd a  
rhad,  
Un newydd, fywiol, at y Tad,  
Drwy werthfawr waed yr Oen;  
Mae'n ffordd i ninnau deithio'n llon,  
Nes d'od yn herfaith ger ei fron,  
Heb bechod, braw, na phoen. T. J.

650 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 16.)

*Yr eglwys a'i phwys ar Grist.*

1 O! PWY yw hon sy'n dod yn hy,  
Yn lew i'r lan, fel rhwng dau lu,  
O'r dywyll Aiphtaidd wlad,  
Gan roddi pwys ei henaid pur  
Ar Iesu gwiw, 'r Messia gwir,  
Ei Ffrynd a'i Phrynwr rhâd?

2 Fel colofnau mwg ei henaid mae,  
Mewn nefol hwyl, yn llawenhau,  
'Nawr yn meddiannu'n wir  
Ras o bob rhyw, cysuron rhâd,  
Fel peraroglau pell a gaed,  
O hyfryd thus a myrr.

3 O'r dyfnder du i'r lân y daeth,  
Tua'r wlad sy'n llifo o fêl a laeth,  
I'r etifeddiaeth fras:  
Yn llawn o hedd, mae'n awr mewn hwyl,  
A'i nefol gainc yn cadw gwyl,  
Am ddod o'r Aipht i maes.

4 Duw sy iddi'n blaid, hi ga'dd o'i blaen  
Y cwmwl niwl a'r golofn dân,  
Eneiniad yr holl saint;  
Hi w'yr y ffordd i'r Ganaan draw,  
Ni chyfeiliorna ar un llaw,  
Nes cael meddiannu'r fraint.

5 Fel boreu wawr se welir hon,  
Teg fel y lloer mae'i hwyneb llon,  
Mewn cariad, gras, a hedd;  
Fel haul, heb un brycheuynâu,  
'N ofnadwy fel banerog lu—  
On'd hyfryd yw ei gwedd? w. w.

651 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 16.)

*Y llef ddystaw fain.*

1 O'R nef fe ddaeth llef ddystaw fain,  
Hyfrydaf a phereiddiaf sain,  
Trwy barthau'r ddaear gron;  
Ac er dystawed yw y llef,  
Caiff pawb ei chlywed is y nef;  
Mae Duw ei hun yn hon.

2 Llef radlawn yw, a melus iawn;  
Cyhoeddiad o faddeuant llawn  
I'r euog gwael ei wedd;  
Gwahoddiad i'r angenus rai  
At bob cyflawnder heb ddim trai;  
Hon yw efengyl hedd.

3 Mae'n meddalhau'r afrywiog fron;  
Ewyllys dyn ennilla hon,  
Heb orthrech, cur, na thrais;  
Hon yw'r newyddion goreu erioed;  
I Dduw a'r Oen gogoniant boed  
Byth am yr hyfryd lais.

4 Aed sain efengyl cyn bo hir,  
I'r dwyrain a'r gorllewin dir,  
Y gogledd oer a'r de;  
O! profed pawb effeithiau hon,  
Y byd fo'n plygu ger ei bron,  
A llwydded yn mhob lle. P. J.

652 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M. 16.)

*Dyoddefaint Crist.*

1 TRYWANWYD, do, fy Mhrynwr  
rhad,  
Nes daeth o'i galon ddwfr a gwaed,  
Yn firwd fel afon bur;  
Oedd ar y llawr i'w wel'd yn llyn,  
Yn frwd ar ben Galfaria fryn;  
O! f'enaid cofia'i gur.

2 Mi glywa'i lef, pan chwerwa'r loes  
A'i irad gri Ef ar y groes,  
Am faddeu imi'n wir;  
Ei weddi ai droswyf uwch y nen,  
A mi'n ei hoelio ar y pren;  
O! f'enaid cofia'i gur.

3 Dros f'enaid i bu'r addfwyn Oen,  
Fel hyn yn dyoddef dirfawr boen,  
I'm gwneyd yn rhydd yn wir:  
'Roedd yn ei fryd orphenu'r gwaith  
O eithaf trag'wyddoldeb maith;  
O! f'enaid cofia'i gur. w

653 M. 8, 8, 6; 8, 8, 6. (M.

*Dyoddefaint Crist.*

1 A I Iesu mawr, ffrynd dynol ryw,  
Wyn weled fry a'i gnawd yn fi  
A'i waed yn lliwio'r lle;  
Fel gwr di-bris yn rhwym ar bren,  
A'i waed yn dorchau ar ei ben?  
Ie, f'enaid, dyma Efe!

2 Ai'm hanwyl Briod wela'i draw,  
A hoelion llymion trwy bob llaw,  
A'u pwyo'n drwm i dre',  
A bwr o ddur trwy'i dirion draed,  
Ac yntau'n marw yn ei waed?  
Ie, f'enaid, dyma Efe!

3 Ai Fe fu'n maddeu idd ei gâs,  
A'i waed yn llif o'i glwyfau i maes,  
Nes agor drws y ne';  
Rhoi ben tua'r llawr trwy boenau lly  
Yn wirion, deg, heb yngan dim?  
Ie, f'enaid, dyma Efe! w

654 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29.)

*Cariad angen y groes.*

1 **W**EL, dyma'r cariad sydd yn awr  
Yn curo pob cariadau i lawr—  
Yn llyncu enwau gwael y llawr,  
Oll yn ei enw ei hun:  
Rhyw fflam angerddol, gadarn, gref,  
O dân ennynodd yn y nef—  
Trag'wyddol gariad ydyw ef,  
Wnaeth Duw a minnau'n un.

2 Rhaid imi gael rhyw faint o'r grawn  
Sy'n werthfawr ac yn felus iawn,  
Yn tarddu o'r winwydden lawn  
A wasgwyd ar y groes:  
'Does dim a ddeil fy ysbryd gwan  
I ddringo creigiau hyll i'r lân,  
Ond teimlo imi brofi rhan  
O'r ddwyfol farwol loes. w. w.

655 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29.)

*Prynedigaeth.*

1 **O!** IESU mawr pwy ond Tydi  
A allasai farw drosom ni,  
A'n dwyn o warth i fythol fri?  
Pwy all anghofio hyn?  
Doed myrdd ar fyrdd o bob rhyw ddawn,  
I gydfawrhau d'anfeidrol iawn—  
Y gwaith a welodd un prydawn  
Ar fyth gofiadwy fryn.

2 Nid yw y greadigaeth faith,  
Na'th hollarwyddion gwy'rthiol chwaith,  
Yn gydbwys a'th achubol waith—  
Y marw i ni gael byw;  
Rhyfeddod heb heneiddio mwy  
Fydd hanes mawr dy farwol glwy',  
Ni threiddia trag'wyddoldeb drwy  
Ddyfnderau cariad Duw. w. a.

656 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29.)

*Y mwynhad nefol.*

1 **O** ARGLWYDD Ior! anfeidrol yw  
Dy gariad mawr at ddynol ryw—  
Ti drefnaist ffordd i gadw'n fyw  
Y gwaels' o'honynt oll:  
Trwy waed yn rhad, mae'r ffordd yn  
I ganol nef, fy enaid prudd; [rhydd  
O! gwyn ei fyd pob perchen ffydd,  
Caiff gario'r dydd heb goll.

2 Wel, dyma fy Iachawdwr mawr—  
Am dano caned nef a llawr;  
Pa dafod ddichon dewi'n awr,  
Ga'dd brawf o'i werthfawr hedd?  
Digonedd pob digonedd yw,  
Glendid a thegwch dynol ryw,  
Bywyd a nerth fy enaid byw—  
Fy Nuw tu draw i'r bedd.

3 Mae'r dyddiau hir i lawenhau,  
O awr i awr yn agoshau;  
Fe dderfydd hyn o fywyd brau—  
Dianga' i'm dedwydd nyth;  
Lle ni ddaw pechod, byd, na chnawd,  
I aflonyddu f'enaid tlawd,  
Yn ngwedd f'anwylaf henaf Frawd,  
Caf ymddigrifo byth. M. B.

657 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29.)

*Y gwynfyd nefol.*

**P**AN collo gwellt y maes eu dawn,  
A'r wybr faith ei bore a nawn,  
A distryw dd'od yn gyfan iawn  
Ar nef a daear lawr—  
Caf weled sanctaidd newydd dir,  
O degwch ac o bleser pur,  
Yn tarddu maes o'r Duwdod gwir,  
Gyda gogoniant mawr.

658 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29.)

*Duw a digon.*

- 1 **N**ID oes ond f'Arglwydd mawr ei ddawn  
 A leinw f'enaid bach yn llawn,  
 Nis gallwn ddala mwy pe cawn,  
 Mae Ef yn ddigon mawr;  
 A digon, digon, digon yw,  
 Dy breseanoldeb hyfryd gwiw,  
 Yn angen ceidw hyn fi'n fyw,  
 A boddlon wyf yn awr.
- 2 Anfeidrol berffaith, sanctaidd Fod,  
 Gwna i mi wel'd na chaed erioed,  
 Ac na cheir pleser dan y rhod,  
 Yn rhagor na'th fwynhau;  
 Wel, dyma'r oriau gofiaf mwy,  
 A'r pleser gefais ynddynt hwy  
 Ddymunaf bellach byth tra bwy',  
 Yn unig i barhau. w. w.

659 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29.)

*Gwrthddrych teilwng i'w garu.*

- 1 **N**ID yw y ddaear fawr i gyd,  
 Yn deilwng o fy serch a 'mryd.  
 Nac unrhyw wrthddrych yn y byd—  
 'Rwy'n caru Gwrthddrych mwy;  
 Nid llai y sawl wy'n garu yw  
 Na pherffaith ddy'n a pherffaith Dduw  
 Dyoddefodd unwaith farwol friw—  
 O! werthfawrocaf glwy'!
- 2 O! addfwyn Iesu! gad im' fod  
 O fawn dy gorlan, dan dy nod,  
 A phob rhyw nwydau dan fy nhroed,  
 Yn gyflawn o dy hedd:  
 Yn nghanol terfysg a phob gwae,  
 Oros a chystuddiau'n amlhau,  
 Heb fedru dim ond llawenhau,  
 Nes gorwedd yn y bedd. w. w.

660 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29)

*Duw yn noddfa.*

- 1 **F**Y noddfa gadarn, fythol, yw  
 Y gair a ddaeth o enau Duw—  
 Y ceidw ef fi byth yn fyw,  
 Anfeidrol yw ei ras:  
 Mi welaf olion traed ei saint,  
 Dan y cystuddiau mwya'u maint,  
 Yn cadw'u cysur, cadw'u braint,  
 Yn wyneb angenu glaa.
- 2 Os rhaid cyfarfod ar fy nhaith  
 A rhyw gystuddiau mawrion, maith,  
 A thralod eto erioed ni ddaeth  
 Yn gawod ar fy mhen;  
 Caf yfed o'r afonydd clir  
 Sy'n tarddu fry yn Salem dir,  
 O dan yr orsedd ddwyfol, bur—  
 Cysuron nefoedd wen. w. w.

661 M. 8, 8, 8, 6, D. (M. 29)

*Y Cristion hiraethog.*

- 1 **P**AN ymddattodo'r tŷ o bridd,  
 Am henaid i ddiengu'n rhydd,  
 O'r holl gadwynau cryfion sydd  
 Yn dal yn awr yn dŷn—  
 Caf deimlo pleser uwch y rhod,  
 Na ddaeth i galon dyn erioed,  
 I feddwl nac i greu fod  
 Y fath fwynhad a hyn.
- 2 Myfyrio am fyn'd sydd felus iawn,  
 Mae f'enaid eisioes fore a nawn  
 Am gynnefino'i nefol ddawn  
 A chware'i aden bur;  
 Fel pe bai am anturio'n hy',  
 Trwy ganol y cymylau fry,  
 A neidio i mewn i blith y llu,  
 Lle mae'r Messia gwir. w. w.

662 M. 8, 8, 8, 8; 6, 6, 6, 8. (M. 56.)

*Llwyddiant yr Efyngyl.*

- 1 **P**OB llwyth ac iaith fydd yn gyftún,  
Yr Iuddew fel y Cenedl-ddyn;  
Fe glywir llais yn mhlith y llu,  
Am waith Oen Duw ar Ethiop du;  
Clywch lais yr udgorn clir,  
Yn galw i Salem dir;  
Cawn, cawn feddiannu'r wlad  
Ordeiniwyd ini gan ein Tad.
- 2 Fe ddarfu'r nos a'r gauaf du,  
Mae'n dechreu gwawrio oddifry;  
Cysgodau'r hwyr a aeth yn mhell,  
Nesáu mae'r dydd—daw cynnydd mawr,  
Clywch lais yr adar mân,  
Mor beraidd yw eu cân!  
Ffown, ffown ar aden fydd,  
I fynwes Duw yn ngoleu'r dydd. w. w.

663 M. 8, 8, 8, 8; 6, 6, 6, 8. (M. 56.)

*Gwawr gollyngdod.*

- 1 **M**AE'r hyfryd wawr yn awr yn wir,  
Yn tori ar bob llaw yn glir,  
Mae gras y nef yn gyru'r nos  
I ffoi o flaen goleuni'r groes;  
Mae'r Jubili gerllaw,  
Heb oedi'n fuan daw;  
Llawn, llawn ollyngdod fydd,  
A molï mawr pan ddelo'r dydd.
- 2 Tu draw i'r bedd heb un len gudd,  
Cawn foli'r Oen ag enaid rhydd,  
Mewn gynau gwynion fel yr Haul,  
R'un ddelw lân ag Adda'r Ail;  
Oll â thelynau Duw  
Yn molï'r Iesu gwiw,  
Byth, byth heb dewi son,  
A'r testyn cu fydd Cân yr Oen. E.

664 M. 8, 8, 8, 8; 6, 6, 6, 8. (M. 56.)

*Angeu ac esgyniad Crist.*

- 1 **O**'I ras ein Hiesu anwyl ni  
Fu'n griddfan draw ar Galfari,  
Bu ef dan friw a chwerw loes,  
Mewn agwedd gwas ar ben y groes;  
Y bywyd yn y bedd  
Heb degwch yn ei wedd!  
Cof, cof fydd byth am hyn  
Yn hyfryd fro Caersalem fryn.
- 2 Y trydydd dydd cyfodai Crist,  
Er tristwch dwys i uffern drist;  
Ar ol ei waith fe aeth i'r ne',  
I barotoi i'w eiddo le:  
A geilw maes o law  
Ei deulu ato draw;  
Cof, cof fydd byth am hyn  
Gan dyrfa hardd ar Sion fryn. E.

665 M. 8, 8, 8, 8; 6, 6, 6, 8. (M. 56.)

*Jerusalem newydd.*

- 1 **Y**SALEM newydd sydd yn awr  
Yn lledu'i lle, hi leinw'r llawr;  
Gogoniant gwlad yw'r ddinas glyd,  
Mae'n hynod lân a hardd o hyd;  
Ei Brenin da yw Duw,  
Mae beunydd ynddi'n byw;  
Môr, môr o ras i ni  
Sy'n llifo ei heolydd hi.
- 2 Ennillwyd breiniau'r ddinas hon,  
A gwaed o ôl y waew-ffon;  
Trwy goron ddrain y rhanwyd rhin  
Anseidrol dda i aflan ddy'n;  
Ei Brenin da yw Duw,  
Mae beunydd ynddi'n byw;  
Môr, môr o ras i ni  
Sy'n llifo ei heolydd hi.



666 M. 8AV. 4 LLIN. (M. 21.)

*Rhagoroldeb Iess.*

1 **N**ID yw hardd wrthdrysychau daear  
Oll ond dim wrth Iesu hawddgar;  
Nid yw'r nefoedd i'w chydbrisio,  
Pe ba'i nefoedd i'w chael hebdo.

2 Iesu'i hunan yw fy nefoedd,  
Tros fy oes ac yn oes oesoedd;  
Nef fy nefoedd fydd ei garu,  
Ei fwynhau a'i bur foliannu.

3 O, na allwn garu'r Iesu,  
Yn fwy fyddlawn, a'i was'naethu!  
D'weyd yn dda mewn gair am dano,  
Rhoi fy hun yn gwbl iddo. T. J.

667 M. 8AV. 4 LLIN. (M. 21.)

*Noddfa i lofruddion.*

1 **C**ANED pechaduriaid mawrion,  
Fe gaed noddfa i lofruddion;  
Noddfa glyd rhag llid dialydd,  
Noddfa rad yn ngwlad y cystudd.

2 Caned nef a daearolion,  
Sain Hosanna Frenin Sion;  
Llawn tosturi yw yn wastad,  
Nid oes diwedd ar ei gariad.

3 Canwn mwy am waredigaeth  
Heb ei hail, i blant marwolaeth;  
Talodd Iesu ein dyledion,  
A gorchfygodd ein gelynlion. G.

668 M. 8AV. 4 LLIN. (M. 21.)

*Tywysog bywyd.*

1 **O!** NA chawn i olwg hyfryd  
Ar ei wedd, Dywysog bywyd;  
Tegwch byd a'i holl bleserau,  
Yn ei wydd a lwy'r ddiflanai.

2 Melus odiaeth yw ei heddwch,  
Anghymharol ei brydferthwch;  
Ynddo'n rhyfedd cydlewyrcha  
Dwyfol fawredd a mwynheid-dra.

3 Uchelderau mawr ei Dduwdod,  
A dyfnderoedd ei ufudd-dod,  
Sy'n creu synu fyth ar synu  
Yn nhrigolion gwlad goleuni. D. C.

669 M. 8AV. 4 LLIN. (M. 21.)

*Melusion.*

1 **M**ELUS ydyw y myfyrdod  
Am ddynoliaeth Crist a'i Dduw  
Melus meddwl am ei gariad, [dod  
Melus cael o hono brofiad.

2 Melus iawn yw cân o foliant,  
Pan bwy'n profi gwir faddeuant;  
Melus cael trwy waed y cymmod,  
Hedc i lanw fy nghydwylbod.

3 Pan y'm curir gan y tônau,  
Gwawd y byd a gorthrymderau,  
Melus cael o'r babell briddlyd,  
Olwg glir ar dir y bywyd.

4 Melus cofio'r boreu rhyfedd,  
Y gadawaf weddill llygredd;  
Melus brofaf er fy ngwynfyd  
Heddwch Duw yn well na'r bywyd. J. T.

670 M. 8AV. 4 LLIN. (M. 21.)

*Gwinllan Iesu Grist.*

1 **T**YRED, Iesu mawr, dy hunan,  
Chwyth yn rymus ar dy winllan,  
Fel y byddo i'r egin dyfu,  
Ffrwytho'n beraidd, ac addfedu.

2 Tor dros ben ein hannheilyngdod,  
Dyro orphwys dan dy gysgod  
Gwledda gaffom oll yn gyfan,  
Ar dy gariad, Iesu gwiwlan.

671 M. 8AU. 4 LLIN. (M. 21.)

*Yr ardal hyfryd.*

1' **N**'A WR wy'n gwel'd yr ardal hyfryd,  
Hen gartrefle fy Anwylyd;  
Gwlad lle mae pob rhyw gysuron  
Yn llifeirio fel yr afon.

2 Ffarwel, bellach, hen bleserau,  
Dwyllodd f'y sbryd fil o weithiau;  
Cefais bleser canmil purach,  
'Ddaw o'i ganlyn ofid mwyach.

3 Nef a daear byth ni phrisia'r,  
Perl a ge's—mae'n well na'r India;  
Iesu a'i drysor dyna'i sylwedd,  
Nef y nefoedd yn y diwedd.

4 Fe ddaw dydd y caf fi ganu  
Concwest bai oedd yn fy maeddu:  
Haleluia nefol, hyfryd,  
Diwedd pechu, diwedd adfyd.

5 Blwyddau hirion o ryfela,  
'N oruchafiaeth a derfyna;  
Fe dry galar am bob beiau  
Yn Hosanna ond eu maddeu. W. W.

672 M. 8AU. 4 LLIN. (M. 21.)

*Cân Bernard i Grist.*

1 **I**ESU! fy anwylaf Wrthdrrych!  
Gobaith f'enaid sy'n dy chwennych:  
Ti mae'n dagrau yn ymofyn,  
Cri ein meddwl yn dy erfyn.

2 Ti wyt felus faeth y galon,  
Ffynnon fywiol, goleu gwiwlon;  
Wyt tu hwnt i rym ein cariad,  
Wyt tu hwnt i bob dymuniad.

3 Pan ymweli â'n calonau,  
Mae dy wir yn rhoi in' olau:  
Nid yw'r byd i gyd ond sothach,  
Fflam dy gariad sydd yn gryfach.

4 Anwyl Iesu! dod in' brofiad  
Helaeth, helaeth, o dy gariad;  
Dyro in' dy bresennoldeb—  
Hardd a hyfryd wedd dy wyneb. T. J.

673 M. 8AU. 4 LLIN. (M. 21.)

*Dedwyddwch y nef.*

1 **F**' enaid, cred, anghofia'th ofid,  
Edrych i'r ardaloedd hyfryd;  
Hed o'r byd sy 'mron a'th orfod,  
Y mae gwleddoedd i ti'n barod.

2 Dacw'r gwledydd hyfryd, helaeth,  
Roddwyd i mi'n etifediaeth;  
Lle mae cariad pur yn llifo  
Dros ardaloedd gras heb flino.

3 Dacw'r wlad caf fi deyrnasu  
Gyda'm hanwyl Brynwr Iesu,  
Gwledda o'i gariad, gwel'd ei wyneb,  
Draw i derfyn trag'wyddoldeb.

4 O! na fedrwn yno ddringad  
Hanner cynted a'm dymuniad;  
Mi awn gyda'r awel hyfryd  
Maes o'r byd i dir y bywyd.

5 'Rwyf yn clywed myrdd o seintiau  
'Nawr yn canu eu telynau,  
Ac yn taro un Hosanna,  
Dechreu anthem pen Calfaria.

6 Dengmil o delynau'n canlyn,  
Cân heb ddechreu, cân heb derfyn,  
Y cerubiaid gyda'r seintiau  
Yr un sylwedd eu caniadau.

7 Minnau gaf fod yn eu cwmni,  
Cyn pen gronyn yno'n canu,  
Edrych gyda hwy yn wyneb  
Dysglaer Brenin trag'wyddoldeb. W. W.

674 M. SAU. 8 LLIN. (M. 12.)

*Crist yn dyfod o Edom.*

1 **P**WY welaf o Edom yn d'od,  
Mil harddach na thoriad y wawr,  
Yn sathru dan wadn Ei droed,  
Elynion yn lluoedd i'r llawr:  
Ei wiag wedi ei lliwio gan waed,  
Ei saethau a'i gleddyf yn llym,  
Ei harddwch yn llanw'r holl wlad,  
Yn ymdaith yn amllder ei rym.

2 Fe gododd i fyny ei law,  
Ymladdodd, ennillodd y dydd;  
Ei holl waredigion a ddaw,  
A'i gaethion a roddir yn rhydd;  
Ennillodd fath goncwest trwy waed,  
Mae ganddo lywodraeth mor fawr,  
Hyd eithaf trigfanau ei Dad,  
Mae'n cyrhaedd o'r nefoedd i'r llawr.

J. W.

675 M. SAU. 8 LLIN. (M. 12.)

SALM XLVI.

1 **D**UW Israel sy'n noddfa a nerth,  
Yn hawdd mewn cyfyngder i'w gael,  
Mewn adfyd pwy draetha ei werth?  
Mor barod y gweryd y gwael!  
Am hyny pe siglai y byd  
Pe treiglid mynyddau i'r môr,  
Er tyrfu y dyfroedd yn nghyd,  
Nid ofnwn yn nghysgod ein Ior.

2 Mae afon a'i ffrydiau yn fyw,  
I loni y ddinas i gyd—  
Y lle a ddewisodd ein Duw,  
Uwchlaw holl ddinasoedd y byd;  
Os daw y gelynion ar dro,  
Ar Sion i ruthro'n gytûn,  
Byth, byth ni symmuir tra bo',  
Yn drigfan i'r Brenin ei Hun.

3 Yu ofer, genedloedd y byd,  
Y sefchwch yn erbyn ei law,  
Ei anadl a'ch gwasgar i gyd,  
Y ddaear a dodda mewn braw;  
Grym Arglwydd y lluoedd ei Hun  
Sy'n ddigon trag'wyddol wrth rai  
Pa beth wna ystrywiau pob dyn  
Tra byddo Duw Sion o'i phlaidd.

4 O! gwelwch genedloedd i gyd,  
Weithredoedd rhyfeddol yr Ior,  
Gorchuddir holl wyneb y byd  
A heddwch fel tônau y môr,  
Rhyfeloedd a beidiant dros byth  
Ni chyfyd creulondeb ei llaf;  
Anthemau mil amlach na'r gwllith,  
A genir i Frenin y nef. W

676 M. SAU. 8 LLIN. (M.

*Cariad a gras Crist.*

1 **P**A feddwl, pa 'madrodd, pa ddaw  
Pa dafod all osod i maes,  
Mor felus, mor helaeth, mor llawn,  
Mor gryfed ei gariad a'i ras!  
Afonydd sy'n rhedeg mor gryf,  
Nas dichon i bechod na bai  
Wrthsefyll yn erbyn eu llif,  
A'u llanw ardderchog di-drai.

2 Fel ffamau angerddol o dân,  
Yw cariad f'Anwylyd o hyd;  
Fe losgodd bob rhwystrau o'i flaen,  
Fe yfodd o'r afon i gyd:  
Ymaflodd mewn dyn ar y llawr,  
Fe'i dygodd â'r Duwdod yn un;  
Y pellder oedd rhyngddynt oedd fa  
Fe'i llanwodd a'i haeddiant ei Hu

J

677 M. 8AU. 8 LLIN. (M. 12.)

*Caniadau y nefoedd.*

1' **D**OES mesur amseroedd byth fry,  
Dim oriau cyffelyb i'r byd:  
Myn'd heibio ryw oesoedd y sy'  
Wrth ganu i'r Drindod yn nghyd:  
'R holl nefoedd wrth weled ei ras,  
Sy'n synu, yn canu'n fwy hy'  
Ganiadau newyddion eu blas;  
Wel, dyma'r digrifwch sy' fry.

2 Angelion, Seraphiaid, a Saint,  
Wrth ganu'n soniarus yn nghyd;  
Eu hadsain sydd gyfuwch ei faint,  
Nes dadsain holl nefoedd i gyd;  
Neb yno yn glauar ei gân,  
Na neb yn addoli mewn rhith,  
Eu c'lonau yn llosgi fel tân,  
A gwynfyd na fa'wn yn eu plith.

3 'R anrhydedd, y gallu a'r clod,  
Y moliant, a'r parch yn gytûn,  
O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod,  
Yn gyfan i'm Harglwydd ei hun;  
Aed son am dy angeu i maes,  
O'r gogledd hyd eithaf y de',  
Helaethed terfynau dy ras,  
Mor belled a chyrrhaedd y ne'. w. w.

678 M. 8AU. 8 LLIN. (M. 12.)

*Mawl i'r Drindod.*

1 **M**AE yno Dri Pherson yn bod,  
Ac eto mewn sylwedd ond Un;  
Gogyfuwch mewn gallu a chlod—  
I wared plant Adda'n gytûn;  
Yn hyn ryw ddyfnderoedd y sy',  
Rhy fawrion i'w chwilio hwy 'mlaen,  
Yn drech na hwynt-hwythau sy' fry,  
I'w gwybod hwy allan yn lân.

2 Caniadau newyddion sy' fry,  
Tebygwn o glywed eu llef  
Fy enaid blinedig i sy',  
Am ddysgu cerddoriaeth y nef:  
'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,  
A'r parch, a'r gogoniant, a'r bri,  
Yr awrhon fel ag y bu erioed,  
I'n Harglwydd yn Un ac yn Dri.

3 Aed ein Haleluia i'r lân,  
Trwy'r awyr anfeidrol ei maint,  
Cymmysged caniadau rhai gwan  
A thyrfa luosog o saint;  
Ni gawsom gan cymmaint â'r byd,  
Can cymmaint drachefn â hyn,  
Can cymmaint â'r nefoedd i gyd,  
Brydnawngwaith ar Galfari fry'n.  
w. w.

679 M. 8AU. 8 LLIN. (M. 12.)

*Y caethion yn dyfod yn rhydd.*

1 **O!** CYFOD, ferch Sion, a gwél,  
Dy freintiau godidog yn awr:  
'R addewid sy'n agor ei sél,  
Myn'd rhagddi'n oleuach mae'r wawr;  
Tor allan, a llefa, mae'n bryd,  
Can's wele dy Frenin yn d'od;  
Yn ngerbyd ei gariad trwy'r byd,  
I'w Enw tragwyddol bo'r clod.

2 Troir ato luosogrwydd y môr,  
Daw Carmel a Saron yn un;  
Breninoedd y ddaear a'u stôr,  
Anrhegant yr Iesu'n gytûn:  
Daw'r bwystfil a'r prophwyd i lawr,  
A'u gorsedd a fwir i'r llyn:  
Daw diwedd ar Babilon fawr,  
Bydd miloedd yn moli am hyn.

W. R. A.

680

M. SAU. 8 LLIN. (M. 12.)

*Iswn.*

1 **CYFLAWN**WYD y gyfraith i gyd,  
Fe ddofwyd ei llid heb fy lladd;  
Cyflawnder, wrth hir ofyn iswn,  
Ei daliad yn gyflawn a ga'dd;  
Cyflawnder a'r gyfraith sy'n awr  
Yn edrych i lawr yn ddi-lid,  
A'r priodoliaethau mewn hedd  
Yn pleidïo trugaredd i gyd.

2 Caed ffynnon o ddwfr a gwaed,  
I olchi rhai duon eu lliw,  
Ac hefyd hi redodd yn rhad  
I'r ardal lle'r oeddwn yn byw:  
Er cymmaint o rwystrau ga'dd hon,  
Grym arfaeth a'i gyrodd yn mlaen,  
I olchi tŷ Dafydd o'r bron,  
Jerusalem hefyd ddaw'n lân.

3 Wrth gofio'i riddfanau'n yr ardd,  
A'i chwys fel defnydd o waed,  
Aredig ar gefn mor hardd  
A'i daro â chleddyf ei Dad;  
Ei arwain i Galfari fryn  
A'i hoelio ar groesbren o'i fodd,  
Pa dafod all dewi am hyn?  
Pa galon mor galed na's todd?

E. J. a T. L.

681

M. SAU. 8 LLIN. (M. 12.)

*Prynuwr byw.*

1 **MI** wn fod fy Mhrynwr yn fyw,  
A'm prynodd a thaliad mor ddrud,  
Fe saif ar y ddaear, gwir yw,  
Yn niwedd holl oesoedd y byd:  
Er ised, a gwaeled fy ngwedd,  
Teyrnasu mae' Mhrynwr a 'Mrawd;  
Ac er fy malurio'n y bedd,  
Caf weled Ef eto'n fy nghawd.

2 Wel, arno bo'm golwg bob dydd,  
A'i daliad anfeidrol ei werth;  
Gwir Awdwr, Perffeithydd ein ffy  
Fe'n cynnal ar lwybrau blin, ser  
Fy enaid ymestyn yn mlaen,  
Na orphwys nes cyrhaedd y tir,  
Y Ganaan drag'wyddol ei chân,  
Y Sabbath hyfrydol yn wir.

3 Dwy aden, fel c'lomen, pe cawn,  
Mi grwydrwn, chedwn yn mhell  
I gopa bryn Nebo mi awn,  
I weled ardaloedd sydd well:  
A'm golwg tu arall i'r dw'r,  
Mi dreuliwn fy nyddiau i ben,  
I garu a channol y Gwr  
Yr hoeliwyd ei ddwyllaw ar bren

682

M. SAU. 8 LLIN. (M.

*Maw- ddirgelwch dwuoldob.*

1 **D**ADGUDDI WYD dirgelion i m  
Dirgelion cuddiedig i'r byd,  
Meddyliau trugaredd a gras,  
I'r penaf bechadur i gyd;  
A ro'ed mewn addewid sydd gref,  
Na welir fyth fythoedd ei hail,  
O ddyfnder y ddaear i'r nef,  
Mor gwir, mor sicr ei sail.

2 Fe'm boddwyd mewn syndod yn lân  
Wrth chwilio eu natur i maes,  
'Does angel, na seraph a gân,  
Yn deilwng am ddyfnder ei ras;  
Pwy bwysa'i ddyoddefaint ar bren?  
Pwy bwysa lawn haeddiant ei loe  
Tra feddaf ymadrodd, is nen,  
Mi ganaf am goncwest ei groes. w.

683 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

SALM XXIII.

1 YR Arglwydd Goruchaf yw Mugail,  
Ni phrofas nag eisieu na gwall,  
Caf orwedd ar lân dyfroedd tawel,  
Mewn gwelltog borfaoedd di-wall;  
Fe ddychwel fy enaid crwydredig,  
Fe'm ceidw, fe'm cynnal a'i law,  
Fe'm harwain 'rhyd llwybrau cyfiawn-  
Ni bydd arnaf bryder na braw. [der,

2 Pe rhodiwn 'rhyd glyn cysgod angu,  
Nid ofawn ddim niwed na nam,  
Fy Mugail gofalus a'm gwyliai,  
I'm tywys a'm harwain bob cam;  
Ei wialen a'i ffon a'm cysurant,  
Ni theimlwn un arswyd i'm bron,  
Pob bwystfil 'aglyfaethus a gilias  
Pan welant y wialen a'r ffon.

3 Arlwya im' ford o ddanteithion  
Yn ngwydd fy ngelynyon dig iawn,  
Ag olew, fy mhen a eneinias,  
Fy phiol o hyd fydd yn llawn;  
Ei ras a'i ddaioni 'm canlynant  
Bob amser caf lawnder di-lyth,  
A minnau 'n ddiogel breswyliaf  
Yn nghafell ei babell Ef byth. w. b.

684 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

Haul Cysfaunder.

1 CYFODED Haul dysglaer cyfiawnder,  
Ar dywyll ardaloedd y byd;  
A boed i'r anialwch ar fyrder,  
Flodeuo fel rhosyn i gyd;  
A chlywer llais dynion yn lluoedd  
(Fel cyfarch yr adar y dydd),  
Yn canmol goleuni'r cenedloedd,  
A gododd i'w gosod yn rhydd.

2 O Sabbath! odiaethol dy oriau,  
Dydd gweiniad gorfoledd a gras:  
Dos, ymwel a'r bröydd a'r brynau,  
Na phroff'sant erioed o dy flas;  
Dos, ymwel, cyhoedda wiw godiad  
Ein Ceidwad o waslod Ei fedd;  
Dwg dorf o estroniaid i brofiad  
O'i gariad hyfrydlawn a'i hedd. D. C.

685 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

Llwyddiant yr Efengyl.

1 MAE T'wysog tangnefedd am ledu  
Terfynau llywodraeth ei ras;  
Mae'n gwisgo ei gledddyf dau finio,  
Mae'n galw ei filwyr i'r maes:  
Galluoedd y tywyllwch sy'n crynu,  
Mae miloedd yn plygu i'r ffydd;  
Mae diafol yn colli ei ddeiliaid,  
Caffaeliaid sy'n dyfod yn rhydd.

2 Mae arfau'r Efengyl yn llwyddo,  
Mae'r cestyll yn syrthio i'r llawr:  
Tywyllwch y nos sydd yn cilio,  
Myn'd rhagddi yn gyflym mae'r wawr:  
Ar bur weinidogaeth y cymmod,  
Trwy ddwyfol awdurdod mae llwydd,  
Mae'r bobloedd yn taffu'r eulunod  
I'r waedd a'r ystlymod yn rhydd.

DR. L.

686 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

Dirgelwch y groes.

O! DEUED trigolion y ddaear  
I edrych i Galfari fryn,  
I weled dirgelwch annhraethol,  
Rhyfeddol i'w chofio'n ol hyn;  
Mab Duw, Awdwr bywyd ar groeshren  
Yn trengu mewn gwendid a chri;  
Y Meddyg yn gwaedu tan boenau,  
Y balm a rydd ischyd i ni.

687 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

*Dyddanwch pen y daith.*

1 **M**AE ffrydiau gorfoledd yn tarddu,  
O ddysglauer orseddfainc y Ne';

Ac yno esgynodd yr Iesu,

Ac yno yr eiriol Efe:

Y gwaed a foddlonodd gyfiawnder,

Daenellwyd ar orsedd ein Duw,

Sydd yno yn beraidd yn erfyn,

I ni y troseddwy'r gael byw.

2 Cawn esgyn o'r dyrys anialwch,

I'r beraidd baradwys i fyw;

Ein henaid lluddedig gaiff orphwys

Yn dawel, ar fynwes ein Duw:

Diangfa drag'wyddol geir yno

Ar bechod, cystuddiau, a phoen;

A gwledda i oesoedd diderfyn,

Ar gariad annhraethol yr Oen.

3 O fryniau Caersalem ceir gweled

Holl daith yr anialwch i gyd;

Pryd hyny daw troion yr yria

Yn felus i lanw ein bryd:

Cawn edrych ar stormydd ac ofnau,

Ac angeu dychrynlyd a'r bedd,

A ninnau'n ddiangol o'u cyrhaedd

Yn nofio mewn cariad a hedd. D. C.

688 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

*Bywyd trwy Angeu Crist.*

1 **R**HYFEDDOD i Alpha ac Omega,

Creawdwr y ddaear a'r ne',

Gymmeryd ein natur a'n tloidi,

A marw ar bren yn ein lle;

Dyrchafer ei Enw'n drag'wyddol

Gan bob rhyw genedlaeth ac oes;

Cyd-ganed y ddaear a'r nefoedd,

Am angeu anfeidrol y groes.

2 Ni gawsom y gwerthfawr Fessia,

Ymgeledd y clwyfus a'r gwan:

Rho'dd yn ewyllysgar ei hunan,

I'r tlawd a'r colledig yn rhan:

Trugarog Samaritan anwyl

Sy'n rhwymo archollion y gwael;

Pob peth angenrheidiol, fy enaid,

Sydd ynddo byth imi i'w gael.

3 Efe sydd yn cau ac yn agor,

Efe sydd yn lladd a bywhau;

Yr enaid mae Ef yn ei glwyfo,

Mae'n sicr o dd'od i'w iachau;

I ddattod gweithredoedd y diafol,

Daeth Brenin y nefoedd i lawr;

Cwmp, f'enaid, yn mreichiau trugaredd,

Mae'n foddllawn dy dderbyn yn awr.

4 Fe'm dygodd o Sinai i Sion,

I ddedwydd breswylfod i fyw:

Etifedd y felldith wrth natur

A gafodd y fendith gan Dduw;

Yn rhad y derbyniais y cwbl,

A gefais, o'r nefoedd i'r llawr:

Ac felly caf eto fy nghynnal,

Nes myned i'r bywyd ryw awr. M

689 M. 9-8. 8 LLIN. (M.

*Ymgawdoliad Crist.*

**M**AB Duw a gymmerodd y dynd

Yn gysgod i'w Hanfod ei hu

Er achub a chadw pechadur,

Fe wnaed y ddwy natur yn un:

Agorodd borth dinas y bywyd,

A thrwyddo mae i'w gwynfyd i'w gael

O! ryfedd diriondeb trugaredd,

Mae'n gwnaethur ymgeledd i'r gw

390 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

*Gogoniant y Gair.*

**O!** AGOR fy llygaid i weled  
 Gogoniant dy arfaeth a'th air;  
 Mae'n well imi gyfraith dy enau,  
 Na miloedd o arian ac aur;  
 Y ddaear â'n dân, a'i thrysorau,  
 Ond geiriau fy Nuw fydd yr un;  
 Y bywyd trag'wyddol yw 'nabod  
 Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.

Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod  
 Y w'r ffordd a gymmerodd Efe,  
 I achub pechadur colledig,  
 Trwy farw ei hun yn ei le!  
 Fe safodd fy Mrenin ei hunan,  
 Gorchfygodd awdurdod y ddraig;  
 Ein Blaenor galluog ni ydyw—  
 O, caned preswylwyr y graig.

Daeth blwyddyn y caethion i ganu,  
 Doed meibion y gaethglud yn nghyd,  
 Ni seiniwn trwy'r nefoedd a'r ddaear  
 Gogoniant i Brynwr y byd;  
 Mae Brenin y nef yn y fyddin,  
 Gwae Satan a'i filwyr yn awr,  
 Trugaredd a hedd sy'n teyrnasu—  
 Gogoniant trwy'r nefoedd a'r llawr.

Y Llew o lwyth Judah orchfygodd,  
 Pa elyn all sefyll o'i flaen!  
 Mae Sion yn teithio tuag adref,  
 Mewn cerbyd dychrynlyd o dân;  
 Bydd miloedd o saint ac angelion,  
 Yn dorf ogoneddus yn nghyd,  
 Yn canu ryw anthem drag'wyddol  
 O foliant i Brynwr y byd.

M. R.

691 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

*Deued dy Deyrnas.*

**1** HELAETHA derfynau dy deyrnas,  
 A galw dy bobl yn nghyd,  
 Dadguddia dy haeddiant anfeidrol,  
 I'th eiddo, Iachawdwr y byd;  
 Cwypmp anghrist, a rhwyga ei deyrnas,  
 O brysied a deued yr awr,  
 Disgynd Jerusalem newydd  
 I weled trigolion y llawr.

**2** Eheda efengyl, dros wyneb  
 Y ddaear a'r moroedd i gyd,  
 A galw dy etholedigion,  
 O gyrau eithafoedd y byd;  
 O brysia'r cyfarfod heb lygredd,  
 Na rhyfel, na chystudd, na phoen,  
 Dydd Jubil yr etholedigion,  
 A chydetifeddion a'r Oen.

**3** Dim yno ni fydd ond dyrchafu  
 Y Prynwr, yn Dduw ac yn ddyn;  
 Y nefoedd i gyd yn ymrymu,  
 Rhyfeddu a charu'n gytûn,  
 Yr Hwn sydd yn eistedd ar orsedd  
 Gogoniant yn nghanol y nef;  
 Gwyn fyd, medd fy enaid lluddedig,  
 Gai hedeg i'r mân y mae Ef. M. R.

692 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

*Mawl i'r Drindod.*

**I**R Drindod Fendigaid ein moliant  
 A rown, a gogoniant ar gân;  
 I'r Tad ac i'r Mab Tragwyddol,  
 I'r Ysbryd Sancteiddiol a Glân:  
 Fel gynt cyn rhoi sylfaen y bydoedd  
 O'r dechreu yr oedd, ac mae'n awr,  
 Y bydd eu per fawl yn oes oesoedd  
 Yn seinio trwy nefoedd a llawr.



693 M. 9-8. 8 LLIN. (M. 11.)

*Hiraeth am Salem.*

1 O! SALEM, fy anwyl gartrefle,  
Mae'th enw'r perseiddiaf erioed:  
Bryd derfydd fy llafur a'm lludded  
O'th fewn mewn llawenydd a chlod?  
Pa bryd caiff fy llygaid i weled  
Dy byrth sydd o berlau mor ddrud,  
A'th eurwch heolydd glân, dysglaer,  
A'th furiau sy'n sefyll o hyd?

2 Caersalem, ti ddinas fy Arglwydd,  
Pa bryd i'th gynteddau ca' i ddod,  
Lle na fydd cyn'lleidfa yn ysgar,  
Na diwedd i'r Sabbath yn bod;  
Dedwyddwch digymmysag sydd yno,  
Ni phrofwyd yn Eden mo'i ryw,  
A llewyrch mwy tanbaid na'r haulwen,  
Sef llewyrch o orsedd fy Nuw.

3 O! drigfan deg, dawl, a dedwydd,  
'Rwy'n cyrchu yn ddyfal i'th gôl;  
Yn fuan fe'm gwelir i drosodd,  
A'r gwyntoedd ystormus ar ol;  
Paham y mae cystudd neu adfyd,  
Neu anghau, yn peri 'r fath fraw?  
Mae'r tir addawedig mewn golwg,  
Mae'r Ganaan drag'wyddol ger llaw.

4 Mae yno gantorion ardderchog,  
A'u Ceidwad yw sylwedd eu sain:  
A'm brodyr sydd yma gânt esgyn  
Yn fuan i ganol y rhai'n:  
O! Salem, fy nghartref anwylaf,  
I'th fewn mae fy enaid am ddod,  
Ac yno fy llafur a dderfydd  
*Mewn cân orfoleddus a chlod. D. C.—s.*

694 M. 9-8. 8 LLIN. (M.

*Dyfroedd Iachawdwriaeth.*

O! ARWAIN fy enaid i'r dyfro  
Y dyfroedd sy'n afon mor bu  
Y dyfroedd a dorant fy syched,  
Er trymed fy nolur a'm cêr;  
Y dyfroedd trag'wyddol eu tarddiad  
Y dyfroedd heb waelod na thrai;  
Y dyfroedd a olchant fy enaid,  
Er dued ac amled fy mai.

695 M. 9-8. 8 LLIN. (M.

*Dduw yn hwyrffrydig i ddi.*

1 O! ARGLOWYDD Dduw mawr  
Nghreawdwr,  
Cynnaliwr a Barnwr y byd,  
Tydi sy'n adnabod pob calon,  
A gwel'd y dirgelion i gyd;  
Fy nghanwedd i oll wyt yn wybod,  
Am hyny mae'n syndod a sai',  
Na bawn yn y llynclyn diwaelod,  
Mewn trallod am bechod a bai.

2 Gwnaeth fwy o drugaredd na gware  
Fy nghorph rhag ei fyned i fedd,  
Gallasai fy ngadael i 'm'gledu,  
Nid oeddwn yn haeddu mo'i hedd  
Mi glywaf ei lais ef yn galw  
Hyd heddyw, bechadur, tyr'd di;  
Atebaf i alwad fath hwnw,  
Pechadur wrth f'enw wyf fi.

3 O cymmer di feddiant o'm calon,  
A dysg i mi foddlon iawn fyw,  
Rhoi'r gofal a'r gofid sy'm blino,  
A'r cyfian yn nwyllaw fy Nuw:  
Gwnaed ef a fo da yn ei olwg,  
O'i flaen yr wy'n amlwg a noeth,  
Da gŵyr beth i wneyd i blant dynion  
Mae'n gyfiawn, yn dirion, a doeth.

T. 1

396

M. 10AV.

(M. 19.)

*Fy enaid, bendithia yr Arglwydd.*

1 **F**Y enaid oll,  
Bendithia'r Arglwydd nef,  
Na âd dros gof  
Ei ddoniau aml Ef;  
Can's maddeu mae  
D' anwiredd oll o'i ras,  
A llwyr iachau  
Dy holl glefydau cas.

2 Gwaredu mae  
Dy oes o ddistryw'r bedd,  
Rhoi coron ar  
Dy ben o ras a hedd:  
Diwallu d'enau  
Di â phethau da,  
A'th ie'nctyd fel  
Yr eryr Ef a wna.

3 Trugarog iawn  
A graslawn yw Duw nef,  
Hwyrfrydig i  
Ddigofaint ydyw Ef;  
Ni wnaeth yn ol  
Ein pechod â nyini,  
Er bod ein  
Hanwireddau yn ddiri'.

4 Fel Tad i'w blant,  
Tosturiol wrth eu llef,  
Tosturia 'r Ion  
Wrth bawb a'i hofnant Ef,  
Can's edwyn Ef  
Yn llwyr ein defnydd ni,  
A chofio mae  
Nad y'm ond llwch di-fri.

P. J.

697

M. 10AV.

(M. 19.)

*Cadernid y cyfammod.*

1 **C**YFAMMOD hedd,  
Cyfammod cadarn Duw—  
Ni syfl o'i le—  
Nid ie a nage yw;  
Cyfammod gwir,  
Ni chyfnewidir chwaith;  
Er maint eu pla  
Daw tyrfa i ben eu taith.

2 Cyfammod rhad,  
O drefniad Un yn Dri—  
Hen air y llw,  
A droes yn elw i ni;  
Mae'n ddigon cry'  
I'n codi fynyn fyw,  
Ei rym o hyd  
Yw holl gadernid Duw. E. J.

698

M. 10AV.

(M. 19.)

*Ymfrost yn haeddiant Crist.*

1 **D**ARFYDDED son  
Am haeddiant dyn a'i rym,  
Fe dawdd yn llwyr  
O flaen cyfiawnder llym;  
Yn nghlwyfau'r Oen  
Ymfrostia f'enaid tlawd,  
Daeth trefn y nef  
Ag Iesu imi'n Frawd.

2 Ar dir na môr  
Ei debyg gwn nid oes,  
Seraphiaid pur  
Ni thraethant byth ei oes;  
Dringo a wnaf,  
Trwy nerth ei ras o'u gwae,  
Nes caffwy'n glir  
Ei weled fel y mae.

699

M. 10au.

(M. 19.)

*Tŷ yr Arglwydd.*

1 **Y**N nhŷ fy Nuw,  
Lle rhydd ei ras a'i hedd,  
Dymunwn fyw  
Nes myn'd o'r byd i'r bedd;  
A dianc draw  
Uwchlaw pob poen a gwae,  
I weled gwedd  
F'Anwlyd fel y mae.

2 O fewn dy dŷ,  
O Arglwydd cu, y cawn  
Gysuron cry',  
Ac adnewyddol ddawn;  
Can's yno mae  
Yr arch a'r manna rhad,  
Yr aberth hedd,  
A thrugareddfa'r Tad.

3 Bod gyda'r saint  
Sydd fraint o uchel fri,  
Y fwya'i maint  
Gaed ar ein daear ni;  
Rhed afon Duw  
A'i ffrydiau byw'n ddiball,  
I'w llawenhau  
Yn wyneb gwae a gwall.

4 Aberthau byw  
Yn fawl i'n Duw ar dân,  
Rhoed dynol ryw  
Yn ei gynteddau glân;  
Doed pobloedd byd  
Yn unfryd ato Ef,  
*I'w foli 'nghyd,*  
*Mewn hyfryd lafar lef.*

700

M. 10au.

(M. 1

*Y drefn dragwyddol o ras.*

1 **C**YN llunio'r byd,  
Cyn lledu'r nefoedd wen,  
Cyn cadarnhau'r  
Cymylau mawr uwch ben,  
Fe drefnwyd ffordd  
Yn nghynghor Tri yn Un,  
I achub gwael,  
Golledig, euog ddyn.

2 Trysorwyd gras,  
Ryw annherfynol stôr  
Yn Iesu Grist,  
Cyn rhoddi deddf i'r môr;  
A rhedeg wnaeth  
Bendithion arfaeth ddudr,  
Fel afon gref,  
Lifeiriol dros y byd.

3 I ddynol ryw,  
Iachawdwr gwiw a gaed;  
Dros lwch y llawr,  
Fe ro'es ei werthfawr waed;  
Pob peth a ddaeth  
Trwy'r iachawdwriaeth rad;  
Gwisg hardd i'r noeth,  
A chyfoeth a iachâd.

4 Mae'r udgorn mawr  
Yn seinio'n awr i mi  
Olyngdod llawn  
Trwy'r Iawn ar Galfari;  
Mawl yn mhob iaith  
Trwy'r ddaear faith a fydd,  
Am angu 'r groes,  
A't gwae'd a'u rho'es yn rhydd. P.

W. B.

701 M. 10<sup>av.</sup> (M. 19.)

*Digon yn yr Iesu.*

1 **O** IESU gwiw!  
Gwyn fyd a brofo'th ddawn,  
A'th gariad pur,  
Yn felus nerthol iawn;  
Digonedd wyt  
I hwn tra ynddo chwyth;  
Nid oes i'w gael,  
Na'i geisio'n rhagor byth.

2 Hardd Iesu! wyt  
Hyfrydwch nefol lu;  
Mor bér i'r glust  
Yw sain dy enw cu;  
I'r genau mae  
Fel mél yn felus bur,  
Fel nefol win  
I'r galon dan ei chur. T. J.

702 M. 10<sup>av.</sup> (M. 19.)

*"Aros gyda ni."*

1 **O** ARGLWYDD aros,  
Aros gyda ni,  
Pa.beth a wnawn  
Heb dy gymdeithas Di?  
Pwy leinw'th le?  
Nid cyfoeth, dawn, na dysg,  
Am hyny Arglwydd,  
Aros yn ein mysg.

2 Nid addurniadau  
Gwych o ddynol waith,  
Na dyddiol gylchoedd  
O ddefodau chwaith,  
Ond llewyrch hoff  
Dy bresenoldeb byw,  
Wnai'r deml gynt  
Yn dŷ i Ti O Dduw.

3 Pa beth wna ffurf,  
Ar ol i'r ysbryd ffoi?  
Nid ffurf sy'n gyru  
Uffern i gyffroi;  
Un gair o'th enau  
Dry'r gelynion draw;  
A'th hyfryd wedd  
A'n ceidw rhag pob braw.

4 Pa beth a wnawn  
O Dduw os tro'i dy gefn?  
Fe dderfydd cariad  
Ac fe gilia trefn,  
Oer fydd ein gweddi,  
Ffurfiol fydd ein cân,  
Heb ddylanwadau  
Pur dy Ysbryd Glân.

5 Mae'n beiau'n fawr,  
Ond nid rhy fawr i Ti.  
Eu maddeu'n rhwydd,  
Yn ngolwg Calfari;  
A gaiff y rhai  
A brynwyd drwy dy ras,  
Droi'n destyn cân  
En holl elynion cás?

6 O Arglwydd aros,  
Aros yn ein plith,  
Ac yna bydd  
Dy fynydd dan y gwllith,  
Daw'n holl rasmusau  
I hyfrydaf hwyl,  
A bydd dy saint  
Fel tyrfa'n cadw gwyl.

703

M. 10AV.

(M. 19.)

SALM XCVI.

- 1 **I**R Arglwydd cenwch  
 Gân ar lafar lef,  
 Cenwch, Bendigwch  
 Byth ei Enw Ef;  
 O ddydd i ddydd  
 Ei iachawdwriaeth fawr—  
 Cyhoeddwch hi  
 Drwy holl derfynau'r llawr.
- 2 Dadgenwch ei  
 Ogoniant Ef yn mhlith  
 Y bobl oll, a'i  
 Ryfeddodau byth;  
 Can's canmoladwy lawr,  
 Anfeidrol fawr—  
 Ofnadwy yw,  
 Goruwch holl dduwiau'r llawr.
- 3 Yr Arglwydd wnaeth  
 Y nefoedd ddysglaer fry;  
 O'i flaen Ef harddwch  
 A gogoniant sy';  
 Nerth a hyfrydwch  
 Sy'n ei gyssegr glân;  
 Nerth a gogoniant  
 Rho'wch i'w Enw ar gân.
- 4 Ag offrwm deuwch  
 I'w gynteddau'n rhwydd;  
 Yn brydferth mewn  
 Sancteiddrwydd de'wch i'w wydd;  
 Addolwch, ofnwch,  
 Ger ei fron yn nghyd,  
 Ei gyfiawn farn  
 A sicrhâ y byd.

5 Y nefoedd ddysglaer  
 Uchod llawenhaed,  
 Y ddaear gorfoledded,  
 Ef mawrhaed;  
 Rhued y môr  
 A'i holl gyflawnder maith,  
 A'r maes molianned  
 Ei ryfeddol waith.

6 Holl brenau'r coed  
 Cyd-ganent o'i flaen Ef—  
 Iehofa, canys  
 Dyfod mae o'r nef,  
 I farnu 'r byd—  
 Efe trwy gyfiawn raith  
 A farna'r bobloedd  
 A'i wirionedd maith. DIENW

704

M. 10AV.

(M.

*Annogaeth i foli Ddw.*

- 1 **P**OB natur doed,  
 A'u nerthoedd oll yn awr,  
 I ddadgan clod  
 Duw, eu Creawdwr mawr:  
 Yr awyr glir,  
 A'r cyfan dan y rhod,  
 Y môr a'r tir,  
 Rho'ent ei ryglyddawl glod.
- 2 Dechreued sain  
 Seraphiaid yn y nef  
 Ddadseinio'n llu  
 Ger bron ei orsedd Ef:  
 Cyweirient eu  
 Telynu oll yn un,  
 I ganu clod  
 I'r Duwdod yn y dyn.

705

M. 10au.

(M. 19.)

*Undeb yr Eglwys.*

- 1 **M**AE eglwys Dduw,  
Trwy'r ddaer a'r nef yn un—  
Y meirw a'r byw,  
A'u cydsain yn gyftn;  
"Teilwng yw'r Oen,"  
Medd seintiau yn y nef—  
"Teilwng yw'r Oen,"  
Yw'n llafar ninnau a'n llef.

- 2 Darfydded son  
Am bob ymryson mwy—  
Partiol farn,  
A rhagfarn, lawr a hwy;  
Doed ysbryd hedd,  
Tangnefedd yn eu lle,  
A chariad pur  
O'r cariad sy'n y ne'. A. G.

706

M. 10au.

(M. 19.)

*Arch y Cyfammod*

- 1 **A**GORWYD teml  
Yr Arglwydd yn y nef,  
A gwelwyd arch  
Ei lân gyfammod Ef;  
Holl ryfeddodau  
Person Crist a'i waith,  
A welir yno i  
Drag'wyddoldeb maith.

- 2 Cyfiawnder Duw  
Sydd yno'n ddysglær iawn,  
A'r gyfraith bur,  
Bob iot o hom'n llawn;  
Ond i bechadur,  
Melus yw y sain  
Fod trugareddfa  
Hefyd rhwng y rhai'n.

- 3 Y tanlyd gledd,  
Fu'n effro iawn cyn hyn—  
Taranau a mellt  
Ofnadwy Sinai fryn,  
Sy'n awr yn dawel  
Yn yr Arch ddi-lyth—  
Y gair Gorphenwyd  
A'u tawelodd byth.

- 4 Mae'r Archoffeiriad  
Yn taenellu'r gwaed,  
Mewn gwisgoedd sanctaidd  
Llaesion hyd ei draed,  
O fewn y llen—  
Sancteiddiaf lys y nef,  
Ac enwau'r llwythau  
Ar ei ddwyfron Ef.

- 5 Priodoliaethau'r  
Nefoedd yn gyftn,  
Sydd yno'n gwenu  
Ar golledig ddyn;  
Mae hedd yn awr  
O'r nef i'r llawr yn llf',  
A noddfa gref  
O fewn y nef i ni.

- 6 Crist ydyw'r Arch  
A'r drugareddfa rad—  
Yn enw Hwn  
Anturiwn at y Tad;  
Fe wrendy gwyn  
Pechadur heb ei ladd,  
Fe gymmer blaid  
Yr enaid isel radd.

707

M. 10au.

(M. 19.)

*Bwrdd yr Arglwydd.*

1 **N**ESAWN, nesawn  
Mewn myfyrdodau pur,  
At fwrdd ein Harglwydd,  
I gydgofio 'i gur;  
A rho'ed y Brenin  
Mawr ar hyn o bryd  
Ei wyneb hoff,  
Tra byddom yma 'nghyd.

2 **O!** am gael ffydd  
I gydfwynhau y wledd,  
'Does nef o'i bath  
I'w chael tu yma i'r bedd;  
Y cariad mawr,  
A unodd Duw a dyn,  
Sy yma'n awr,  
Yn gwneyd y saint yn un.

3 **Diolchwn** am  
Y portreadau hyn,  
I droi'n myfyrdod  
I Galfaria fryn;  
Coffawn y dryllio  
Mawr dan wg y ne'—  
Coffawn y gwaed,  
Dywalltwyd yn ein lle.

4 **Pwy** all anghofio'r  
Cwpan rhyfedd iawn,  
O soriant Duw  
Ac uffern dŷn yn llawn?  
"Y cwpan hwn"  
A yfodd Crist o'i fodd,  
A *nef i ni*  
Drwy hyn a barotódd.

5 Ymwystlwn oll

I'n Brenin, o un fryd,  
I ddwyn y groes  
Gan herio gwawd y byd;  
Na chaed ein Harglwydd  
Un yn gwisgo rhith  
Na hunan dwyllwr  
Yma yn ein plith.

6 **O** nerth i nerth,  
Yr awn mewn newydd hwyl,  
Nes d'od yn nghyd  
At fwrdd y nefol wyl:  
O! ddedwydd saint  
Ymlonwch yn gytân,  
Os da yw hyn,  
Beth fydd y nef ei hun? w.

708

M. 10au.

(M. 14)

*Cwynfan Sion.*

**M**AE Sion wan  
Yn griddfan dan y groes,  
Yn dysgwyl gwawr,  
Ar lawr dan lawer loes;  
Bywha dy waith,  
Ni phery 'nhaith yn hir,  
Rwy'n ofni'r bedd  
Cyn gwel'd dy wedd yn wir.

709

M. 10au.

(M. 14)

*Gwlad well.*

**M**AE brodyr im'  
A thadau aeth yn mlaen,  
Fu yn y byd  
Yn nyfnder dwfr a thân;  
Maent heddyw'n iach  
Heb ofni pla na phoen,  
Yn Salem fry,  
Yn mol'i'r addfwyn Oen. w.

710 M. 10, 10, 10, 10, 11, 11. (M. 67.)

*Ail ddyfodiad Crist.*

**G**WEL Crist yn dyfod  
 Ar y cwmwl draw,  
 A phob awdurdod  
 Yn ei nerthol law;  
 Cerubiaid fyrdd,  
 Yn eu cerbydau tân,  
 Yn gyru 'n glau  
 O gylch eu Harglwydd glân:  
 Y ddaear gryn,  
 Y beddau ymagorant,  
 Cân udgorn Duw,  
 Y meirw a gyfodant.

711 M. 10, 10, 10, 10, 11, 11. (M. 67.)

*Golwg ar y gogoniant nefol.*

1 **T**RWY gywir fydd,  
 O esgyn, f'enaid cu!  
 Gwel dy breswylfod  
 Uwch y wybren fry;  
 Ni ddeall dyn,  
 Ac ni all tafod chwaith,  
 Fyth adrodd maint  
 Ei phur ogoniant maith;  
 Teyrnasu mae  
 Yr Iesu yn fuddugol,  
 Angeu a'r bedd  
 Orchfygwyd yn drag'wyddol.

2 Un gofid trwm,  
 Na chystudd trist, na chur,  
 Ni ddaw i byrth  
 Y lân breswylfa bur;  
 Na chlwy na braw  
 I'r saint, i'w blino mwy,

Yr anwyl Oen  
 A sych eu dagrau hwy:  
 Eu galar maith,  
 A'u chwerwon ddwys riddfanau,  
 Yno a dry  
 Yn hyfryd bér ganiadau.

3 Mae afon bur  
 Yn d'od o'r orsedd wiw,  
 A dyfroedd bywiol  
 Hon rhinweddol yw;  
 Yno mae hyfryd  
 Bren y bywyd cu,  
 A'i firwythau ef  
 Sydd wledd drag'wyddol fry:  
 Teyrnasu mae  
 Yr Iesu yn fuddugol,  
 Angeu a'r bedd  
 Orchfygwyd yn drag'wyddol.

R. W.

712 M. 10, 10, 10, 10, 11, 11. (M. 67.)

*Ni ddryllia gorsen ysig.*

**F**E saif yr arfaeth  
 Ddwylol yn ddi-lyth,  
 Ni ddryllia'r isel  
 Gorsen ysig fyth:  
 A'r llin yn mygu  
 Byth ni ddiffydd chwaith,  
 A hyn a fydd  
 Yn fawr ryfeddod faith,  
 Hyd oni ddygo  
 Farn i fuddugoliaeth,  
 A Sion wych  
 A'r diroedd iachawd-wriaeth.



713

M. 11AUG.

(M. 20.)

SALM CXLVIII.

1 **C**LODFORWCH yr Arglwydd—

Dyrchefwch eich llef,  
Chwychwi sy'n preswyllo  
Uchelder y nef;  
Angelion, cerubiaid  
Seraphiaid a saint,  
Cydblethwch ei foliant  
Ystyriwch hi'n fraint.

2 Chwychwi haul a lleusad  
Sy'n teithio uwch ben,  
Chwi ser y goleuni  
Sy'n britho y nen—  
Chwi ddyfroedd sy'n nofio'r  
Ffurfafen rho'wch glod  
I enw Iehofa  
'Rhwn roes i chwi fod.

3 Clodforwch yr Arglwydd  
O'r ddaear yn nghyd,  
Y dreigiau'r dyfnderau  
Drwy gyrau'r holl fyd,  
Tân, cenllysg, ac eira,  
Rho'wch iddo Ef barch,  
A'r gwyntoedd ystormus,  
Cyflawnwch ei arch.

4 Mynyddoedd a bryniau  
Y meusydd a'r coed,  
Cydgenwch ogoniant  
Yr Hwn oedd ericed;  
Bwystfilod, 'nifeiliaid  
Ymlusgiaid y llawr,  
Rho'wch glod ac anrhydedd  
I enw'r Duw mawr.

714

M. 11AUG.

(M.

REAN II.

1 **B**RENINOEDD y ddaear  
A'r bobloedd yn nghyd,  
T'wysogion, penaethiaid,  
Holl farnwyr y byd,  
Henafgwyr a llancian,  
Gwryrfon pob gwlad,  
Ac iaith, dan y nefoedd  
Rho'wch iddo fawrhâd.

2 Moliennwch yr Arglwydd  
Efe yw ein Tad,  
Ei enw sy'n dailwng  
O barch a mawrhâd;  
Y mae ardderchowgrwydd  
Ei Hanfod fawr Ef,  
Uwch law yr holl ddaear,  
Uwch law yr holl nef.

3 Efe sy'n dyrchafu  
Ei bobl mewn braint;  
Efe yw gogoniant  
A mawl ei holl saint:  
Ei Israel ddewisol  
Chwychwi sydd yn byw  
Yn llewyrch ei wyneb,  
Moliennwch eich Duw.

715

M. 11AUG.

(M. :

Enw Iesu.

**M**AE enw fanwlyd  
Mor uchel, mor fawr,  
Nes seinio yn beraidd  
Drwy'r nefoedd a'r llawr;  
Ni dderfydd ei gariad,  
Ni dderfydd ei glod;  
Bydd myrdd yn ei ganmol  
Tra'r nefoedd yn bod.

16

M. 11AÜ.

(M. 20.)

SALM XCVII.

1 **Y** BYD gorfoledded  
Teyrnasu mae'r Ior,  
A chydawenyched  
Ynysoedd y môr;  
Cymylau a th'willwch  
A guddiant ei wedd,  
Cyfiawnder a barn  
Ydyw trigfan ei Sedd.

2 Fe lysg ei elynion  
O amgylch bob un,  
Ei fellt a lewyrchant,  
A'r ddaear a gryn;  
Mynyddoedd y ddaear  
A doddant fel cwyr,  
Yn ngwyddfod Iehofa  
Diflanant yn llwyr.

3 Y nef a fynega'i  
Gyfiawnder yn hy',  
A gwel'd ei ogoniant  
Wna'r ddaear a'i llu;  
Goruchel wyt Arglwydd,  
Goruwch daear lawr,  
Goruwch yr holl dduwiau  
Dyrchafwyd Ti'n fawr.

4 Anwyliaid yr Arglwydd,  
Drygioni casowch,  
Fe geidw'ch eneidiau—  
Ei saint llawenhewch;  
Fe hauwyd i'r cyfiawn  
Oleuni 'mhob mân,  
A rhoddwyd llawenydd,  
I'r uniawn yn rhan.

5 Chwi saint gorfoleddwch,  
Dyrchefwch eich Duw,  
Mae'n haeddu addoliad  
Pob enaid sy'n byw;  
Wrth goffi'a'i sancteiddrwydd  
Adseinied eich llef  
Mewn sain cân a moliant  
O'r ddaear i'r nef. **DIENW.**

717

M. 11AÜ.

(M. 20.)

*Heddwch drwy'r gwaed*

1 **O** GARIAD! O gariad,  
Anfeidrol ei faint,  
Bod llwch mor annheilwng  
Yn cael y fath fraint:  
Cael heddwch cydwybod  
A'i chànu drwy'r gwaed,  
A chorph y farwolaeth,  
Sef llygredd, dan draed.

2 Cydganed y ddaear  
A'r nefoedd yn nghyd,  
Ogoniant trag'wyddol  
I Brynwr y byd:  
Molianned pob enaid  
Fy Arglwydd ar gân,  
Am achub anhydyn  
Bentewyn o'r tân. **M. B.**

718

M. 11AÜ.

(M. 20.)

*Gras anfesuroi.*

**T**YR'D llanw'n calonau  
A gras i'n cryfhau,  
Gwna 'n henaid eangu,  
Gael meddu a mwynhau,  
A dysgu, lled, uchder,  
A dyfnder, o hyd,  
Dy ras anfesuroi,  
A'th gariad i gyd. **DR. W.**

719

M. 11au.

(M. 20.)

*Dirgelion y groes.*

1 **O!** HENFFYCH ddirgelion  
 Anfeidrol eu rhyw,  
 A ddaeth i'r goleuni  
 Drwy glwyfau fy Nuw;  
 Ni fydd trag'wyddoldeb  
 Ddim gormod ei hun,  
 I chwilio dyfnderoedd  
 Fy Arglwydd yn ddyn.

2 Y nerth a'r gogoniant  
 A'r gallu, a'r clod,  
 Fo i'r Hwn sydd yr awrhon,  
 A'r Hwn sydd erioed;  
 I'r Alpha, Omega,  
 I'r Drindod yn Un,  
 I'r Oen a fu farw  
 Dros bechod y dyn.

w. w.

720

M. 11au.

(M. 20.)

*Cariad Crist.*

1 **T**YR'D Arglwydd anwylaf,  
 Preswylia dy hun,  
 Trwy ffydd a gwir gariad,  
 Yn nghalon pob un:  
 Fel gwypom, y profom,  
 Y teimlom, trwy ras,  
 Lawenydd na ddichon  
 Un tafod roi maes.

2 Yn awr i'r Duw hwnw  
 A ddichon mwy wneyd,  
 Nag allom ni feddwl,  
 Ddymuno, na dweyd,  
 Y byddo trag'wyddol  
 Ogoniant is nef,  
*Gan bawb o'i lân eglwys*  
 Trwy Grist ei Fab ef.

DR. W.

721

M. 11au.

(M. 1)

*Dwyfol effeithiau yr Ffengyl.*

1 **F**E welir rhyw ddyddiau,  
 Fy Arglwydd a'i gwyr,  
 Pan tarddo goleuni  
 Yn nghysgod yr hwyr;  
 Pan ddelo'r gorllewin,  
 Y gogledd a'r dê,  
 I brofi cawodydd  
 Hyfydaf y ne'.

2 Fe gwymp yr addewid  
 Ar ddinas a gwlad,  
 Addewid raslonaf,  
 Addewid y Tad;  
 Tywelltir yr Ysbryd  
 Fel moroedd di-drai,  
 Ar lwythau hen Jacob  
 Yn fwy ac yn llai.

3 Y meibion a'r merched  
 Blith draphlith yn nghyd,  
 Brophwydant, ganmolant  
 Iachawdwr y byd;  
 Henafgwyr freuddwydiant  
 Freuddwydion o hedd,  
 Prin gallant eu credu  
 Er profi'r fath wledd.

4 O ddyddiau dedwyddaf  
 Wel brysiwch yn mlaen,  
 Mae'r arfaeth yn galw,  
 Mae pechod ar dân:  
 Mae pob peth yn addfed,  
 Mae gweddi mewn grym,  
 O, tyred ddeheuwynt,  
 Yn attal 'd'oes dim.

w

722

M. 11au. (M. 20.)

*Ymhyfrydu yn Nghrist.*

1 O TYR'D fy Anwlyd,  
Fy Arglwydd yn ddyn,  
Preswylia mewn teml  
A godaist dy hun:  
Dy lais sydd mor beraidd,  
Mor hyfryd dy wedd,  
Dy olwg orchfyga  
Farwolaeth a'r bedd.

2 Boed imi'n hyfrydwch  
O fore hyd nos,  
I ganu am gariad  
Rhyfeddol dy groes;  
Gogoniant dy Berson;  
Rhinweddau pob gras,  
Drwy boenau ofnadwy  
Yn ennill y maes.

3 Boed cof am y mynydd,  
Boed cof am yr awr,  
Daeth ffrydiau o ystlys  
Fy Arglwydd i lawr;  
Gwaed wedi' gymmysgu  
A dwfr yn nghyd,  
Mwy gwerthfawr bob dafn  
O hono na'r byd. w. w.

23

M. 11au. (M. 20.)

*Afon cariad.*

1 YR afon a lifodd  
Rhwng nefoedd a llawr,  
Yw gwraidd fy ngorfoledd  
A 'nghysur yn awr;  
Ar fynydd Calfaria  
Y tarddodd yr hedd,  
A 'Mhriod sy'n cadw  
Agoriad y bedd.

2 Fy enaid, gwel gariad  
Yn fyw ar y pren,  
Ac uffern yn methu  
Darostwng ei ben;  
Er marw fy Iesu,  
Er hoelio fy Nuw,  
Parhaodd ei gariad  
Trwy angeu yn fyw.

3 O! gyfoeth diderfyn,  
O gariad a gras!  
A redodd fel afon  
Lifeiriol i maes!  
Gras daena i'r dehaus  
A'r dwyrain o'r bron,  
Fe nosia myrddiynau  
I'r bywyd yn hon. w. w.

724

M. 11au. (M. 20.)

*Rhyfeddodau'r groes.*

1 RHYFEDDOD, rhyfeddod,  
I Brynwr y byd,  
Roi'i enaid yn aberth,  
Yn daliad mor ddrud,  
I godi pechadur  
O ddyfnder ei wae,  
A'i ddwyn i ogoniant,  
Byth, byth i barhau.

2 Ei ras a'i cymhellodd  
Yn wyneb y groes;  
Ei fraich a'i hachubodd  
Yn nyfnder ei loes:  
Ca'dd lawn fuddugoliaeth  
Ar Galfari fryn:  
Mewn gwendid gorehfygodd,  
Ni ganwn am hyn. w. w.

725

M. 11AU A 12AU. (M. 22.)

*Y nef yn agored.*

- 1 **A**GORWYD y nef,  
 Daeth arch y cyfammod  
 I'r golwg yn awr,  
 Trwy aberth y cymmod ;  
 At Dduw ar ei orsedd,  
 Mae croesaw a rhyddid,  
 I'r euog tylawd  
 Nessu am ei fywyd ;  
 Ca'dd uffern ei maeddu,  
 Y ddaear cydganed  
 Bêr anthem o foliant,  
 Mae'r nef yn agored.

- 2 Agorwyd y nef,  
 Yr orsedd daenellwyd  
 A gwaed y Meichniydd,  
 Y cymmod a seliwyd ;  
 Taranau a lleisiau  
 Digofaint dawelwyd,  
 A'r meltt yn yr lawn  
 I gyd a ddiffoddwyd ;  
 Cyfiawnder sy'n edrych  
 O'r nefoedd dan wenu,  
 Gwirionedd a heddwch  
 Yn cydymgusanu.

- 3 Agorwyd y nef,  
 Mae afon rinweddol,  
 Yn rhedeg yn llif  
 O'r orsedd drag'wyddol ;  
 Maddeuant i'r truan,  
 Cyfiawnder i'r euog,

Adferiad i'r claf,  
 A gwledd i'r newynog ;  
 I'r marw rhydd fywyd,  
 Y tlawd gyfoethoga,  
 A gylch yr aifanaf  
 Yn wynach na'r eira.

726

M. 11AU A 12AU. (M.

*Gorchwyl y cymmod.*

- 1 **A**R hynod ddiwrnod,  
 Llu'r nefoedd mewn syndo  
 Fu'n edrych i waered  
 Ar orchwyl y cymmod ;  
 Pob dirgel berffeithrwydd  
 Yn natur Iehofa,  
 Ddysgleiriodd yn danbaidd  
 Ar gopa Calfaria ;  
 Gogoniant i'r Iesu,  
 Ennilodd ein rhyddid,  
 Yn well ni a'i molwn,  
 Ar faesydd y bywyd.

- 2 Tywyllodd yr haul,  
 Llewyrchodd y nefoedd,  
 Fe rwygwyd pob llen  
 Ar ddyfnion ddirgeloedd,  
 Ein Cadben trwy angeu  
 A'i ddwyfol ufudd-dod,  
 Faluriodd yn chwilfrw  
 Byrth uffern i'r gwaelod ;  
 Gogoniant i'r Iesu,  
 Ennilodd ein rhyddid,  
 Yn well ni a'i molwn  
 Ar faesydd y bywyd.

D. C

# S A L M - O D L A U .

## EGLURHAD.

Fs welir ein bod wedi gosod dwy Salm-Odl sengl, ac un Ddwbl ar gyfer bob dwy dudalen o'r Salmiau.

1. Caner y Salm-Odl sengl drwyddi i bob adnod, fel mae wedi ei threfnu yn y Salm — yr adran gyntaf o'r Dôn hyd y ban dwbl (*double bar*), i'r rhan gyntaf o'r adnod hyd y ban dwbl ||; a'r gweddill o'r Dôn i'r gweddill o'r adnod.

2. Gwelir fod y Salm-Odl ddwbl yr un hyd, ac yn cynnwys yr un nifer o nodau, a dwy Salm-Odl sengl, ac felly bydd yn angenrheidiol canu dwy adnod i'r Dôn ddwbl.

3. Caner y sillebau yn yr adnod cyn belled a'r ban cyntaf | ar y nodau yn y ban cyntaf (*reciting bar*) yn y Dôn. Bydd *amser* y ban cyntaf yn y ddwy adran o'r Salm-Odl sengl, neu yn y pedair adran o'r Salm-Odl ddwbl, yn amrywio yn ol nifer y sillebau a drefnwyd i'w canu ynddo. Gellir'dal ar y ban cyntaf yn mho' adran, yn hwy nag ar y banau ereill, os bydd nifer lluosog o eiriau yn gofyn am hyny: ond gofaler am roddi i'r ban hwn ei lawn amser, hyd yn nod pe byddai ond un gair neu sill i'w ganu ynddo.

4. Peidier a rhedeg yn *rhy* fryslog dros y geiriau pan y bydd llawer o honynt i'w canu i'r un ban, ond gofaler am eu canu yn glir a dealladwy, gyda'r un cyfymdra cymmedrol ag y *darllenir* hwynt yn gyffredin.

5. Caner y sillebau yn y banau ereill i'r adnodau, i'r nodau yn y banau cyfatebol yn y Dôn.

6. Arwydda llinell — ar ol sill neu air yn yr un ban, neu y ban dilynol yn yr adnod, fod yr un sill neu'r un gair o flaen y llinell i'w gyssylltu a'r nodau cyfatebol yn y Don i'r cyfryw llinell yn yr adnod.


7. Gwelir fod acen-nôd / wedi ei roddi wrth y cyfryw eiriau ag y byddai yn ddymunol eu pwys-leisio yn esmwyth wrth eu canu, megys ag wrth eu darllen.


8. Gofaler am beidio canu y geiriau yn yr un amser, hyd y gair diweddaf, nes diweddu yn *ddisymwth* gyda'r Amen: ond arafwr yn raddol ar y geiriau "yn oes oesoedd," nes diweddu yn esmwyth a chryf gyda'r "Amen."


# SALM-ODLAU. (CHANTS.)


TE DEUM LAUDAMUS (TI, DDUW, A FOLWN).

1

(1) 

(2) **GEORGE HIRST, trwy ganiatdd.** 

(3) 

(4) *Y Llesiau yn unsain.*   
*Organ.*

2


(1) 

(2) **TONAU GREGORIG.** 

(3) 

(4) 

3 **R. LANGDON, Mus. Bac.**



SALM-ODLAU.

4

Dr. BORCH.



TE DEUM LAUDAMUS (TI, DDUW, A FOLWN).

(1) **T**I, Dduw, a|folwn; || ti a|gydna- |  
byddwn yn | Arglwydd.

Yr holl ddaear' a'th fawl — | di: ||  
Y | Tad tra- | gywydd — | ol.

Arnat ti y llefa'r | holl Ang- | elion: || y  
nefoedd, | a'r holl | Nerthoedd o'u | mewn.

Arnat ti y llefa | Cerubin a | Sera-  
phin: || a | —llef- | erydd ddi- | baid.

(2) Sanct, | Sanct, — | Sanct; || Ar- |  
—glwydd | Dduw Sab- | baeth.

Nefoedd a Daear | sydd yn | llawn: ||  
o'th | —O- | gon — | iant.

(1) Gogoneddus gôr' yr | Apos- | tolion: ||  
a'th | fawl — | — — | di.

Moliannus nifer | y Pro- | phwydi: ||  
a'th | fawl — | — — | di.

Ardderchog lu | y Mer- | thyni: || a'th |  
fawl — | — — | di.

Yr Eglwys lân | trwy'r holl | fyd: ||  
a'th | add — | — ef | di;

Y Tad, o an- | feidrol | Fawredd; || dy  
